

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

11/11/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Cwestiwn Brys: Gwasanaethau Iechyd Meddwl](#)
[Urgent Question: Mental Health Services](#)

[Cwestiwn Brys: 'Llwybr Du' yr M4](#)
[Urgent Question: The M4 'Black Route'](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Diweddariad ar Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeidd ar gyfer 2014-2020](#)
[Statement: Update on 2014-2020 European Structural Fund Programmes](#)

[Datganiad: Adroddiad y Farwnes Kay Andrews ynghylch Diwylliant a Thlodi—Ymateb gan Lywodraeth Cymru](#)
[Statement: Baroness Andrews's Report 'Culture and Poverty'—Response by the Welsh Government](#)

[Datganiad: Y Cyflenwad Tai](#)
[Statement: Housing Supply](#)

[Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynghylch yr Adolygiad o Asiantau Cefnffyrdd](#)
[Statement: Update on the Review of Trunk Road Agents](#)

[Cymorth i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru](#)
[Support for the Armed Forces Community in Wales](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Questions to the First Minister

Diogelwch ar y Ffyrdd

Road Safety

13:30 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddiogelwch ar y ffyrdd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1945(FM)

1. Will the First Minister make a statement on road safety in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)1945(FM)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The road safety framework for Wales sets out our approach to road safety until 2020. It details how we will continue to deliver our programme of maintenance and improvements across the trunk road network.

Mae'r fframwaith diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer Cymru yn nodi ein dull o ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd hyd at 2020. Mae'n nodi sut y byddwn yn parhau i ddarparu ein rhaglen o gynnal a chadw a gwelliannau ar draws y rhwydwaith cefnffyrdd.

- 13:30 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats
 First Minister, we have seen a large number of fatalities and injuries on the roads of my constituency, many of which have occurred on trunk roads, which are the responsibility of your Government, especially the A40. Would you consider looking at the speed limits in the villages that are cut through by the A40 and the installation of average-speed cameras from the village of Glangrwyney to Halfway?
 Brif Weinidog, rydym ni wedi gweld nifer fawr o farwolaethau ac anafiadau ar ffyrdd fy etholaeth i, ac mae llawer ohonynt wedi digwydd ar gefnffyrdd, y mae eich Llywodraeth chi'n gyfrifol amdanynt, yn enwedig yr A40. A wnewch chi ystyried edrych ar y terfynau cyflymder yn y pentrefi y mae'r A40 yn mynd drwyddynt a gosod camerau cyflymder cyfartalog o bentref Glangrwyney i Halfway?
- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 Yes, these are issues that are being considered. I am aware of the strong feelings in some of the communities on the A40 and the A470, and we will give further consideration to how road safety can be improved in those communities in the future.
 Gwnaf, mae'r rhain yn faterion sy'n cael eu hystyried. Rwy'n ymwybodol o'r teimladau cryf yn rhai o'r cymunedau ar yr A40 a'r A470, a byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i sut y gellir gwella diogelwch ar y ffyrdd yn y cymunedau hynny yn y dyfodol.
- 13:31 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 First Minister, the community of Llanspyddid is one of Powys's villages that has been campaigning for that reduced speed limit. I know that Powys councillor, Matthew Dorrance, has been campaigning alongside residents and has written to the Minister for Economy, Science and Transport on this very matter. The Government's review of speed limits on the trunk road network is due to be completed by the end of December. First Minister, can I have your assurances that the views of the people of Llanspyddid will be heard within that consultation?
 Brif Weinidog, mae cymuned Llansbyddyd yn un o bentrefi Powys sydd wedi bod yn ymgyrchu i gael y terfyn cyflymder is hwnnw. Gwn fod y cynghorydd ym Mhowys, Matthew Dorrance, wedi bod yn ymgyrchu ochr yn ochr â thrigolion ac wedi ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar yr union fater hwn. Mae adolygiad y Llywodraeth o derfynau cyflymder ar y rhwydwaith cefnffyrdd i fod i gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr. Brif Weinidog, a allaf i gael sicrwydd gennych y bydd barn pobl Llansbyddyd yn cael ei chlywed yn yr ymgynghoriad hwnnw?
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 Yes. I can say that senior officials have met with communities and gathered their comments. They will, of course, be taken into account as part of the speed limit reviews. Those reviews will be complete by the end of the year. We will then be seeking views from community councils before the end of the review, with a view to publishing a report of the findings early next year.
 Cewch. Gallaf ddweud bod uwch swyddogion wedi cyfarfod â chymunedau a chasglu eu sylwadau. Byddant, wrth gwrs, yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn rhan o'r adolygiadau o derfynau cyflymder. Bydd yr adolygiadau hynny wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Yna, byddwn yn gofyn am safbwyntiau gan gynghorau cymuned cyn diwedd yr adolygiad, gyda'r nod o gyhoeddi adroddiad ar y canfyddiadau ddechrau'r flwyddyn nesaf.
- 13:32 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 First Minister, as you are aware, the mid Wales and north Wales trunk road agencies merged in 2012. This afternoon, the Minister is due to make a statement on further changes to the management of the road network. As the roads in mid Wales are widely regarded as the most dangerous roads in Wales, can you provide assurances to me and my constituents that any new management and delivery arrangements will prioritise the needs of mid Wales with regard to road safety?
 Brif Weinidog, fel y gwyddoch, cafodd asiantaethau cefnffyrdd y canolbarth a'r gogledd eu huno yn 2012. Y prynhawn yma, disgwylir i'r Gweinidog wneud datganiad ar y newidiadau pellach i'r gwaith o reoli'r rhwydwaith ffyrdd. Gan yr ystyrir yn eang mai'r ffyrdd yn y canolbarth yw'r ffyrdd mwyaf peryglus yng Nghymru, a allwch chi roi sicrwydd i mi a'm hetholwyr y bydd unrhyw drefniadau rheoli a darparu newydd yn blaenoriaethu anghenion y canolbarth o ran diogelwch ar y ffyrdd?

- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister [Fideo](#) [Video](#)
- I see no evidence to suggest that somehow the roads in mid Wales are the most dangerous in the way that he has described. I am aware of the European road assessment programme and of what has been said in that, but there are no data to back up the claims made in that programme. I am also aware that Scotland has withdrawn from EuroRAP, so to say that the roads are the most dangerous in Britain is clearly wrong because Scotland is not part of the process in any event. That said, of course, the Member will be aware of improvements that have been made in his constituency: the Four Crosses bypass and the Glandyfi bends, which—. Now that I have said that, I forget whether the Glandyfi bends are actually in Montgomeryshire or Ceredigion.
- Nid wyf yn gweld unrhyw dystiolaeth i awgrymu rywsut mai'r ffyrdd yn y canolbarth yw'r rhai mwyaf peryglus yn y modd y mae wedi ei ddisgrifio. Rwy'n ymwybodol o'r rhaglen asesu ffyrdd Ewropeaidd a'r hyn a ddywedwyd yn honno, ond nid oes unrhyw ddata i gefnogi'r honiadau a wnaed yn y rhaglen honno. Rwy'n ymwybodol hefyd bod yr Alban wedi tynnu'n ôl o'r EuroRAP, felly mae dweud mai'r ffyrdd hyn yw'r rhai mwyaf peryglus ym Mhrydain yn amlwg yn anghywir gan nad yw'r Alban yn rhan o'r broses beth bynnag. Wedi dweud hynny, wrth gwrs, bydd yr Aelod yn ymwybodol o welliannau a wnaed yn ei etholaeth: ffordd osgoi Four Crosses a throadau Glandyfi, sydd—. Nawr fy mod i wedi dweud hynny, rwy'n anghofio a yw troadau Glandyfi yn Sir Drefaldwyn neu yng Ngheredigion mewn gwirionedd.
- 13:33 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Ceredigion. [Fideo](#) [Video](#)
- Ceredigion.
- 13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister [Fideo](#) [Video](#)
- They are in Ceredigion. There we are: Dovey Junction station; I should know better than that. But it is nevertheless on the way to Montgomeryshire. [Laughter.] Those bends were particularly difficult for drivers and it is an example of developing better connectivity between the north and the south.
- Yng Ngheredigion maen nhw. Dyna ni: gorsaf Cyffordd Dyfi; dylwn i wybod yn well na hynny. Ond mae ar y ffordd i Sir Drefaldwyn serch hynny. [Chwerthin.] Roedd y troadau hynny yn arbennig o anodd i yrwyr ac mae'n enghraifft o ddatblygu gwell cysylltedd rhwng y gogledd a'r de.
- 13:33 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Beth bynnag rydych newydd ei ddweud, Brif Weinidog, mae'r A44 rhwng Llangurig ac Aberystwyth wedi'i ddynodi fel y darn hewl mwyaf peryglus yng Nghymru. Mae'r hewl yna ar gau yn aml iawn—yr wythnos diwethaf, dros nos, oherwydd bod lori wedi gadael yr hewl. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi galw am fwy o nwyddau i gael eu cludo ar y rheilffordd er mwyn cael llai o lorïau ar yr A44, yn enwedig o Llangurig ymlaen. A fyddai hynny yn alwad y byddech yn ei gefnogi, o gofio bod Network Rail ei hun yn disgwyl gweld cynnydd o draean yn nifer y nwyddau sy'n cael eu cludo ar y rheilffordd?
- Whatever you may have said, First Minister, the A44 between Llangurig and Aberystwyth is designated as the most dangerous stretch of road in Wales. That stretch is often closed—last week, it was closed overnight because a lorry had left the road. Ceredigion County Council has called for more goods to be transported on the railway so that there are fewer lorries on the A44, particularly from Llangurig onwards. Would that be a demand that you would support, given that Network Rail itself expects to see an increase of a third in the number of goods that are carried on our railways?
- 13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister [Fideo](#) [Video](#)
- Byddwn, mae'n rhaid dweud. Mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan swyddogion, a hefyd gan gyrff sy'n ystyried sut i gael nwyddau ar y rheilffordd unwaith eto. Mae hwn yn rhywbeth sydd wedi cael ei ystyried yn y gogledd yn enwedig. Roedd amser, yn weddol ddiweddar, pan oedd coed yn cael eu cludo o Aberystwyth; nid wyf yn gwybod os yw hynny wedi parhau, ond yn amlwg mae'n bosibl i'r rheilffordd ei hun gymryd mwy o nwyddau trwm. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni ystyried yn gyntaf yr effaith o ran newidiadau a gwelliannau i'r gwasanaeth i deithwyr, cyn ystyried pa fath o effaith y byddai hynny'n ei gael ar gludo nwyddau.
- Yes, I would, I must say. This is something that is being considered at present by officials, and also those organisations that are considering how to get freight back onto the railways once again. This is something that has been considered in north Wales in particular. There was a time, quite recently, when timber was transported from Aberystwyth; I do not know whether that has continued, but obviously it is possible for the railway itself to take more heavy goods. Of course, we must consider the impact as regards changes and improvements in passenger services before we consider the impact that that would have on the transportation of freight.

Y Gwasanaeth Mabwysiadu

The Adoption Service

- 13:35 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
2. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella'r gwasanaeth mabwysiadu yng Nghymru yn ystod y 12 mis nesaf? OAQ(4)1943(FM)
2. What action will the Welsh Government take to improve the adoption service in Wales in the next 12 months? OAQ(4)1943(FM)
- 13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- The National Adoption Service for Wales was launched on 5 November. That will be delivered by local government, with a performance management framework focused on outcomes for children. We will use powers of direction to ensure that robust arrangements are in place.
- Lansiwyd Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru ar 5 Tachwedd. Bydd hwnnw'n cael ei ddarparu gan lywodraeth leol, gyda fframwaith rheoli perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i blant. Byddwn yn defnyddio pwerau cyfarwyddo i sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith.
- 13:35 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much for that. The UK Government at Westminster has made £19 million available for a support fund for adoptive parents in England from next year. Concerns have been expressed that potential adopters in Wales may be affected by this support, to the detriment of adoption services in Wales. What action will the Welsh Government take, alongside the new National Adoption Service for Wales, to improve and boost adoption services in Wales?
- Diolch yn fawr am hynna. Mae Llywodraeth y DU yn San Steffan wedi rhoi £19 miliwn ar gael ar gyfer cronfa cymorth i rieni sy'n mabwysiadu yn Lloegr o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Mynegwyd pryderon y gallai darpar fabwysiadwyr yng Nghymru gael eu heffeithio gan y cymorth hwn, ar draul gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru. Pa gamau wnaiff Llywodraeth Cymru eu cymryd, ochr yn ochr â Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol newydd Cymru, i wella a hybu gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru?
- 13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- This is an important issue, of course. One point that I made at the launch last week was the need to continue to put in place support for adopters through all stages of adoption, not just in the initial stages, and up to 10 or 12 years beyond. This is certainly something that we are keen to work on with those third sector organisations that are in the field, to make sure that that level of support is available, so that adoptions do not break down, for example, 10 years sometimes after the adoption has taken place.
- Mae hwn yn fater pwysig, wrth gwrs. Un pwynt a godais yn y lansiad yr wythnos diwethaf oedd yr angen i barhau i gynnis cymorth i fabwysiadwyr drwy bob cam mabwysiadu, nid y camau cychwynol yn unig, a hyd at 10 neu 12 mlynedd y tu hwnt i hynny. Mae hyn yn sicr yn rhywbeth yr ydym yn awyddus i weithio arno gyda'r sefydliadau trydydd sector hynny sydd yn y maes, er mwyn gwneud yn siŵr bod y lefel honno o gefnogaeth ar gael, fel nad yw mabwysiadau'n chwalu, er enghraifft, 10 mlynedd weithiau ar ôl i'r mabwysiadu ddigwydd.
- 13:36 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It has been reported today that the number of children being put up for adoption in England has dropped drastically since a High Court judgment about 12 months ago. I wondered whether there was any similar drop in the number of children being put forward for adoption in Wales.
- Adroddwyd heddiw bod nifer y plant sy'n cael eu cyflwyno i gael eu mabwysiadu yn Lloegr wedi gostwng yn sylweddol ers dyfarniad Uchel Lys tua 12 mis yn ôl. Roeddwn i'n meddwl tybed a oedd unrhyw ostyngiad tebyg yn nifer y plant sy'n cael eu cyflwyno i gael eu mabwysiadu yng Nghymru.

13:37

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We do know that, in terms of numbers, there are still a number of children—139, to be precise—on the Wales adoption register, waiting to be matched with a family, but only 22 available to be matched with children as adopters. So, we know that it is far from the case that there are enough people coming forward to adopt. Some of the changes in the law have made it more difficult for people, in terms of some of the loss of anonymity, and some of the other issues that have arisen, and that has affected people's willingness to come forward to adopt. Nevertheless, we do know that the national adoption service will make it far easier to identify children for placement, rather than the previous system, which was local authorities working voluntarily with other local authorities. It is much better to have a system that is truly national, in order to make sure that children can be placed as quickly as possible.

Rydym yn gwybod, o ran niferoedd, bod nifer o blant—139, i fod yn fanwl gywir—yn dal i fod ar gofrestr mabwysiadu Cymru, yn aros i gael eu paru gyda theulu, ond dim ond 22 sydd ar gael i gael eu paru gyda phlant fel mabwysiadwyr. Felly, rydym yn gwybod ei bod yn bell o fod yn wir fod digon o bobl yn cynnig eu hunain i fabwysiadu. Mae rhai o'r newidiadau i'r gyfraith wedi ei gwneud yn fwy anodd i bobl, o ran rhywfaint o golli anhysbysrwydd, a rhai o'r materion eraill sydd wedi codi, ac mae hynny wedi effeithio ar barodrwydd pobl i gynnig eu hunain i fabwysiadu. Serch hynny, rydym yn gwybod y bydd y gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol yn ei gwneud yn llawer haws i nodi plant ar gyfer eu lleoli, yn hytrach na'r system flaenorol, sef awdurdodau lleol yn gweithio'n wirfoddol gydag awdurdodau lleol eraill. Mae'n llawer gwell cael system sy'n wirioneddol genedlaethol, er mwyn gwneud yn siŵr y gall plant gael eu lleoli cyn gynted â phosibl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I wish the new adoption service every success. But, for some children, of course, adoption is not the most suitable option and long-term foster care can instead provide the necessary stability and support. So, how does the Welsh Government intend to support long-term fostering across the country?

Brif Weinidog, rwy'n dymuno pob llwyddiant i'r gwasanaeth mabwysiadu newydd. Ond, i rai plant, wrth gwrs, nid mabwysiadu yw'r dewis mwyaf addas ac, yn hytrach, gall gofal maeth hirdymor gynnig y sefydlogrwydd a'r gefnogaeth angenrheidiol. Felly, sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi maethu hirdymor ar ar draws y wlad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We would prefer to see children placed for adoption. We are fortunate in the foster carers we have—they perform an incredible service for so many young children. However, we know that there has been a tendency for children to move from foster care to foster care—not always, and there are examples of children where that has not happened—and that disruption then affects their very lives, and their education. There are statistics that suggest that looked-after children, for example, are more likely to end up in prison than in university, and this is something that we have very much focused on and targeted support towards.

Byddai'n well gennym weld plant yn cael eu cyflwyno i gael eu mabwysiadu. Rydym ni'n ffodus o ran y gofalywyr maeth sydd gennym—maen nhw'n cynnig gwasanaeth anhygoel i gymaint o blant ifanc. Fodd bynnag, gwyddom y bu tueddiad i blant symud o ofal maeth i ofal maeth—nid bob amser, a cheir enghreifftiau o blant pan nad yw hynny wedi digwydd—ac mae'r tarfu hwnnw'n effeithio ar eu bywydau wedyn, ac ar eu haddysg. Ceir ystadegau sy'n awgrymu bod plant sy'n derbyn gofal, er enghraifft, yn fwy tebygol o fynd i'r carchar na'r brifysgol, ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym ni wir wedi canolbwyntio arno ac wedi targedu cefnogaeth tuag ato.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

However, one of the difficulties is that adopters who put themselves forward quite often want very young children, or even babies, and the reality is that most children are not in that category, and that is what makes it difficult in order to get them adopted. Nevertheless, the adoption service itself will provide a seamless way of ensuring that children have the best chance of adoption, and the best chance then of stability in their lives. Of course, with some, it will be foster care, but I think that the aim has to be to provide that level of stability as quickly as possible, and for as long a time as possible.

Fodd bynnag, un o'r anawsterau yw bod mabwysiadwyr sy'n cynnig eu hunain eisiau plant ifanc iawn yn aml, neu fabanod hyd yn oed, a'r gwirionedd yw nad yw'r rhan fwyaf o blant yn y categori hwnnw, a dyna beth sy'n ei gwneud yn anodd iddynt gael eu mabwysiadu. Serch hynny, bydd y gwasanaeth mabwysiadu ei hun yn cynnig ffordd ddi-dor o sicrhau bod gan blant y siawns orau o gael eu mabwysiadu, a'r siawns orau wedyn o sefydlogrwydd yn eu bywydau. Wrth gwrs, gofal maeth fydd hynny i rai, ond credaf mai'r nod, o reidrwydd, yw darparu'r lefel yna o sefydlogrwydd cyn gynted â phosibl, ac am gymaint o amser â phosibl.

13:39 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, roedd barn eithaf pendant ymysg y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y dylai'r gwasanaeth fod wedi cael ei yrru y tu allan i lywodraeth leol. Rydych wedi sôn am y perfformiad y prynhawn yma, ac wedi dweud bod fframwaith. Ond, a gaf ofyn i chi hefyd a ydych chi'n fodlon efo'r strwythur o ran adrodd yn ôl i gynghorau lleol os oes cwestiynau ynglŷn â'r perfformiad yn dal i fod, o gofio'r holl anfodlonrwydd oedd efo'r gyfundrefn cyn i'r gwasanaeth cenedlaethol newydd hwn gael ei sefydlu?

First Minister, there was quite a definite view among members of the Children, Young People and Education Committee that the service should have been sent outside local authorities. You have mentioned performance this afternoon, and said that there is a framework. However, may I also ask whether you are happy with the structure in terms of reporting back to local councils, if questions remain on the performance, bearing in mind all the dissatisfaction that existed with the system before this new national service was established?

13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae bwrdd llywodraethu wedi cael ei sefydlu. Rôl y bwrdd yw sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu ac, wrth gwrs, yn cyrraedd y targedau sydd gan y gwasanaeth ei hun a thargedau sydd yn y fframwaith gweinidogol. Bydd Gweinidogion wedyn yn cael adroddiadau pob chwe mis ynglŷn â sut mae pethau'n mynd o ran y system ei hun. Felly, mae ffordd o adrodd yn ôl i Weinidogion ac mae bwrdd yn ei le er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cyrraedd y targedau sy'n cael ei roi iddo.

A governing board has been established. The role of the board is to ensure that the service operates correctly and, of course, meets the targets set for the service itself and the targets in the ministerial framework. Ministers will then receive reports on a six-monthly basis in terms of how things are going with the system itself. So, there is a means of reporting back to Ministers and there is a board in place in order to ensure that the service achieves the targets set for it.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I call first this afternoon the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Galwaf ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, yn gyntaf y prynhawn yma.

13:40 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

First Minister, last week a small community was shocked and horrified by the news of a brutal murder on the part of an ex-prisoner who, it is said, suffered from a serious mental health condition. I am sure that you would want to join me in offering condolences to the families who have been affected by this awful case. While the exact details of the case remain uncertain and we await the serious case review, we do know that the provision of mental health services is insufficient or inadequate in Wales today. Do you share my concerns that due to pressures in the system people with serious mental health conditions may well be diverted to the criminal justice system?

Brif Weinidog, cafodd cymuned fechan ei syfrdanu a'i harswydo yr wythnos diwethaf gan newyddion am lofruddiaeth greulon gan gyn-garcharor a oedd, yn ôl y sôn, yn dioddef o gyflwr iechyd meddwl difrifol. Rwy'n siŵr yr hoffech chi ymuno â mi i gydymdeimlo â'r teuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan yr achos ofnadwy hwn. Er bod union fanylion yr achos yn dal i fod yn ansicr ac rydym yn aros am yr adolygiad achos difrifol, rydym yn gwybod bod y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl yn annigonol neu'n anaddas yng Nghymru heddiw. A ydych chi'n rhannu fy mhryderon ei bod yn bosibl y gallai pobl â chyflyrau iechyd meddwl difrifol gael eu dargyfeirio i'r system cyfiawnder troseddol oherwydd pwysau yn y system?

13:41 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

First of all, I would join the leader of Plaid Cymru in expressing horror, really, at the events as they have been described. There needs to be, of course, a full review of the facts of what happened. What we do know, and this was confirmed, I understand, in Parliament earlier, is that this man was in the care of the prison authorities. He was released from prison and, therefore, was not under the care of a devolved authority. Now, if there are any issues that arise as a result of the review that we need to address then we will, of course, address them.

Yn gyntaf oll, byddwn yn ymuno ag arweinydd Plaid Cymru i fynegi arswyd, a dweud y gwir, at y digwyddiadau fel y'u disgrifiwyd. Mae angen, wrth gwrs, cael adolygiad llawn o ffeithiau yr hyn a ddigwyddodd. Yr hyn a wyddom, a chadarnhawyd hyn, rwy'n deall, yn Senedd y DU yn gynharach, yw bod y gŵr dan ofal yr awdurdodau carchar. Cafodd ei ryddhau o'r carchar ac, felly, nid oedd dan ofal awdurdod datganoledig. Nawr, os oes unrhyw faterion sy'n codi o ganlyniad i'r adolygiad y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw, yna byddwn, wrth gwrs, yn mynd i'r afael â nhw.

- 13:42 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, there are many factors impacting upon support for offenders with mental health conditions. Of course, the privatisation and overstretching of the probation service, overcrowding in prisons, as well as the general austerity agenda, make the lack of capacity within the mental health system even worse, potentially. Given that so many agencies can be involved in a case like this, what assurances can you give us that agencies, whether devolved or non-devolved, are working together effectively?
- Brif Weinidog, ceir llawer o ffactorau sy'n effeithio ar gefnogaeth i droseddwy'r â chyflyrau iechyd meddwl. Wrth gwrs, mae preifateiddio a gorymestyn y gwasanaeth prawf, gorlenwi mewn carchardai, yn ogystal â'r agenda cyni cyffredinol, yn gwneud y diffyg capasiti yn y system iechyd meddwl yn waeth fyth, o bosibl. O gofio y gall cynifer o asiantaethau fod yn rhan o achos fel hwn, pa sicrwydd allwch chi ei roi i ni fod asiantaethau, boed nhw wedi eu datganoli neu heb eu datganoli, yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol?
- 13:42 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- We would always seek to work, of course, with non-devolved agencies. I cannot comment in terms of their performance, if I can put it that way—it is for others to explain that. Nevertheless, we would, as we do work with the prisons, make sure that there is as seamless a system as possible when it comes to dealing with offenders. The leader of Plaid Cymru is right. There are people in the criminal justice system who, in previous years, would not have been there. I have had experience of representing somebody who had once lived in Parc hospital, who came out through care in the community, was not properly supported, and ended up in Parc prison on the very same site. I am not sure whether that system has yet changed to the extent that we would want it to.
- Byddem bob amser yn ceisio gweithio, wrth gwrs, gydag asiantaethau heb eu datganoli. Ni allaf gynnig sylwadau ar eu perfformiad, os gallaf ei roi felly—mater i bobl eraill yw egluro hynny. Serch hynny, byddem, fel yr ydym yn gweithio gyda'r carchardai, yn gwneud yn siŵr bod system mor ddi-dor â phosibl ar gael pan ddaw i ymdrin â throeddwy'r. Mae arweinydd Plaid Cymru yn iawn. Ceir pobl yn y system cyfiawnder troseddol na fyddai wedi bod yno mewn blynyddoedd blaenorol. Rwyf wedi cael profiad o gynrychioli rhywun a oedd wedi byw yn ysbty'r Parc ar un adeg, a ddaeth allan trwy ofal yn y gymuned, na chafodd ei gefnogi'n iawn, ac a aeth i garchar y Parc ar union yr un safle yn y pen draw. Nid wyf yn siŵr a yw'r system honno wedi newid hyd yma i'r graddau y byddem yn dymuno iddi newid.
- 13:43 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, today is, of course, Remembrance Day, and I want to take this opportunity to highlight the specific needs of veterans in terms of mental wellbeing. Last week, Plaid Cymru published proposals for supporting veterans, which included the auditing of the number of veterans in prison as well as those in receipt of benefits and those who have become homeless. The Party of Wales also proposes compulsory mental health assessments for veterans prior to leaving the armed forces. Are you prepared to support this proposal and do you agree that this is something that, with investment, could be provided by the Welsh national health service?
- Brif Weinidog, mae'n Ddydd y Cofio heddiw, wrth gwrs, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i dynnu sylw at anghenion penodol cyn-filwyr o ran lles meddyliol. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd Plaid Cymru gynigion ar gyfer cefnogi cyn-filwyr, a oedd yn cynnwys archwilio nifer y cyn-filwyr sydd yn y carchar yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau a'r rhai sy'n ddigartref. Mae Plaid Cymru hefyd yn cynnig asesiadau iechyd meddwl gorfodol i gyn-filwyr cyn iddynt adael y lluoedd arfog. A ydych chi'n barod i gefnogi'r cynnig hwn ac a ydych chi'n cytuno bod hyn yn rhywbeth a allai, gyda buddsoddiad, gael ei ddarparu gan y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru?
- 13:44 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- First of all, we would all want to support our veterans. I think that much is clear. We already work very closely with the Royal British Legion in terms of ensuring that veterans are supported in Wales and, of course, we are in very regular contact with them. I am not convinced at the moment of the need for a compulsory mental health assessment for all those who leave the armed services. I am not sure that they would particularly want to be seen in that way, but, nevertheless, it is important, of course, that we continue to work on the community covenants that have been put in place and continue contact with the Royal British Legion and others to make sure that the service to veterans is what we would expect it to be.
- Yn gyntaf oll, byddem i gyd yn dymuno cefnogi ein cyn-filwyr. Rwy'n credu bod cymaint â hynny'n eglur. Rydym ni eisoes yn gweithio'n agos iawn gyda'r Llenng Brydeinig Frenhinol o ran sicrhau bod cyn-filwyr yn cael eu cefnogi yng Nghymru ac, wrth gwrs, rydym ni mewn cysylltiad rheolaidd iawn â nhw. Nid wyf wedi fy argyhoeddi ar hyn o bryd o'r angen am asesiad iechyd meddwl gorfodol i bawb sy'n gadael y lluoedd arfog. Nid wyf yn siŵr y byddent eisiau cael eu hystyried yn y ffordd honno yn arbennig, ond, serch hynny, mae'n bwysig, wrth gwrs, ein bod yn parhau i weithio ar y cyfamodau cymunedol sydd wedi cael eu rhoi ar waith ac yn parhau'r cysylltiad â'r Llenng Brydeinig Frenhinol ac eraill i wneud yn siŵr bod y gwasanaeth i gyn-filwyr yr hyn y byddem yn disgwyl iddo fod.

13:44	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.	Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.
13:44	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats</i>	
	First Minister, in July your Government stated its aim for Wales to be the best place to grow old. Yesterday, the Commissioner for Older People in Wales said that too many old people in care homes have an unacceptable quality of life. Does her report match your aspiration for Wales to, indeed, be the best place to grow old?	Brif Weinidog, mynegodd eich Llywodraeth ym mis Gorffennaf ei nod i Gymru fod y lle gorau i heneiddio. Ddoe, dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru bod gan ormod o hen bobl mewn cartrefi gofal ansawdd bywyd annerbyniol. A yw ei hadroddiad hi yn cyd-fynd â'ch dyhead i Gymru, mewn gwirionedd, fod y lle gorau i heneiddio?
13:45	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>	
	It certainly helps because we then know what is happening. This is the older people's commissioner doing her job and we very much welcome the report itself. It does show strong examples of excellent care in homes across Wales. It also shows examples of where that level of care is not to the standard that people would expect.	Mae'n sicr yn helpu gan ein bod wedyn yn gwybod beth sy'n digwydd. Y comisiynydd pobl hŷn yn gwneud ei swydd yw hyn ac rydym yn croesawu'r adroddiad ei hun yn fawr. Mae'n dangos enghreifftiau cryf o ofal rhagorol mewn cartrefi ledled Cymru. Mae hefyd yn dangos enghreifftiau lle nad yw'r lefel honno o ofal o'r safon y byddai pobl yn ei disgwyl.
	May I say that work is already under way in relation to a number of the recommendations within the document? A care home task and finish group was established in July to ensure effective oversight and co-ordination of action to ensure the quality and sustainability of care for the sector in the longer term. That, clearly, is important. We have, of course, the White Paper as well, which last year set out our proposals to strengthen the regulation and inspection of social services, and many of the areas of improvement set out by the older people's commissioner are, indeed, contained within those reforms that we will be introducing through the draft Bill that will be put to the National Assembly in the next few months. On top of that, of course, we will continue to consider any extra issues that the commissioner has raised in order to deal with them.	A gaf i ddweud bod gwaith eisoes ar y gweill o ran nifer o'r argymhellion yn y ddogfen? Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer cartrefi gofal ym mis Gorffennaf er mwyn sicrhau goruchwyliaeth a chydgyssylltiad effeithiol o gamau gweithredu i sicrhau ansawdd a chynnaladwyedd gofal ar gyfer y sector yn y tymor hwy. Mae hynny, yn amlwg, yn bwysig. Mae'r Papur Gwyn gennym hefyd, wrth gwrs, a gyflwynodd ein cynigion y llynedd i gryfhau prosesau rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau cymdeithasol, ac mae llawer o'r meysydd i'w gwella a nodir gan y comisiynydd pobl hŷn wedi eu cynnwys, mewn gwirionedd, o fewn y diwygiadau hynny y byddwn yn eu cyflwyno drwy'r Bil drafft a fydd yn cael ei roi gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Ar ben hynny, wrth gwrs, byddwn yn parhau i ystyried unrhyw faterion ychwanegol y mae'r comisiynydd wedi eu codi er mwyn ymdrin â nhw.
13:46	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Over six years have passed since you enacted legislation to establish the post of the commissioner and the Government did enshrine the UN principles for older people in law, but the results so far have been a report that concludes, and I quote, that:	Mae mwy na chwe blynedd wedi mynd heibio ers i chi gyflwyno deddfwriaeth i sefydlu swydd y comisiynydd ac fe wnaeth y Llywodraeth ymgorffori egwyddorion y Cenedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn yn y gyfraith, ond y canlyniadau hyd yn hyn fu adroddiad sy'n dod i'r casgliad, a dyfynnaf, bod:
	'Too many older people living in care homes quickly become institutionalised. Their personal identity and individuality rapidly diminishes and they have a lack of choice and control over their lives.'	'Gormod o bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael eu sefydiadu yn gyflym. Mae eu hunaniaeth a'u hunigoliaeth yn gwanio'n gyflym ac mae ganddynt ddiffyg dewis a rheolaeth ar eu bywydau.'
	While I appreciate that a task and finish group has been set up, when do you envisage an older people's commissioner for Wales being able to report on a care home service that actually empowers older people and gives them the quality of life that we would all expect for ourselves and our relatives?	Er fy mod yn gwerthfawrogi bod grŵp gorchwyl a gorffen wedi ei sefydlu, pryd ydych chi'n rhagweld y bydd comisiynydd pobl hŷn Cymru yn gallu adrodd ar wasanaeth cartref gofal sydd wir yn grymuso pobl hŷn ac yn rhoi'r ansawdd bywyd iddynt y byddem oll yn ei ddisgwyl i ni ein hunain a'n perthnasau?

- 13:47 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I think we are on the way to that. I think what the report demonstrates is that things have improved over the years. I know that 100 homes were visited across Wales. The emphasis was, of course, on raising quality and expectations and not about serious failures in safeguarding. We are now moving beyond trying to get a system with minimum standards to a system where we expect those standards to be exceeded. It is through reports such as this that we can actually understand where the failings are in the system, if those standards are not being met, draw on the excellent care that is available in some care homes, and then, of course, ensure that there is greater consistency in the system.
- Rwy'n credu ein bod ni ar y ffordd at hynny. Rwy'n credu mai'r hyn y mae'r adroddiad yn ei ddangos yw bod pethau wedi gwella dros y blynyddoedd. Rwy'n gwylbod yr ymwelwyd â 100 o gartrefi ledled Cymru. Roedd y pwyslais, wrth gwrs, ar godi ansawdd a disgwyladau ac nid ar fethiannau difrifol o ran diogelu. Rydym ni'n symud y tu hwnt i geisio cael system â safonau gofynnol erbyn hyn i system lle'r ydym yn disgwyl rhagori ar y safonau hynny. Trwy adroddiadau fel hyn y gallwn wir ddeall ble mae'r methiannau yn y system, os nad yw'r safonau hynny'n cael eu bodloni, dilyn esiampl y gofal rhagorol sydd ar gael mewn rhai cartrefi gofal, ac yna, wrth gwrs, sicrhau bod mwy o gysondeb yn y system.
- 13:47 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, the report says that care homes are seen as places of irreversible decline. Do you agree with me that that should not be the case? First Minister, one in five people in Wales are aged over 65 and that figure is set to rise as a percentage of the population. When do you envisage a situation where people will see entry into a care home as a positive choice, rather than what is often perceived as a negative choice and one that many older people are simply fearful of?
- Brif Weinidog, mae'r adroddiad yn dweud bod cartrefi gofal yn cael eu hystyried fel manau lle ceir dirywiad na ellir ei wrthdroi. A ydych chi'n cytuno â mi na ddylai hynny fod yn wir? Brif Weinidog, mae un o bob pump o bobl yng Nghymru yn hŷn na 65 oed a disgwylir i'r ffigur hwnnw godi fel canran o'r boblogaeth. Pryd ydych chi'n rhagweld sefyllfa lle bydd pobl yn ystyried mynediad i gartref gofal fel dewis cadarnhaol, yn hytrach na'r hyn y tybir yn aml sy'n ddewis negyddol ac yn un y mae llawer o bobl hŷn yn ei ofni, yn syml?
- 13:48 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I entirely agree that that is a perception among older people and, indeed, some members of their families. Then you see families, of course, that are reluctant to see a relative go into a care home and that, of course, places a great burden sometimes on those families.
- Rwy'n cytuno'n llwyr mai dyna'r dybiaeth ymhlith pobl hyn ac, yn wir, rhai aelodau o'u teuluoedd. Yna, rydych chi'n gweld teuluoedd, wrth gwrs, sydd yn amharod i weld perthynas yn mynd i gartref gofal ac mae hynny, wrth gwrs, yn rhoi baich mawr ar y teuluoedd hynny weithiau.
- In terms of how we remove that stigma, one way of doing it, of course, is to see the continued roll out of extra-care facilities. At one time, it was assumed that people either stayed at home or went into a home, as people put it. The extra-care facilities are fantastic in terms of being able to give people the independence that they want, but yet have the support that they also require. I know that Members will have visited some of the facilities. They are absolutely wonderful.
- O ran sut yr ydym ni'n cael gwared ar y stigma hwnnw, un ffordd o'i wneud, wrth gwrs, yw parhau i gyflwyno cyfleusterau gofal ychwanegol. Ar un adeg, cymerwyd yn ganiataol bod pobl naill ai'n aros yn eu cartrefi neu'n mynd i gartref, fel y dywed pobl. Mae'r cyfleusterau gofal ychwanegol yn wych o ran gallu rhoi'r annibyniaeth y maen nhw ei heisiau i bobl, yn ogystal â'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Gwn y bydd Aelodau wedi ymweld â rhai o'r cyfleusterau. Maen nhw'n gwbl wych.
- As we see the estate, as it were, change over the next five, 10 and 15 years, I think we will then see a breakdown of the stigma that suggests that going into a care home is simply a path to an irreversible and inevitable decline.
- Wrth i ni weld y stad, fel petai, yn newid dros y pump, 10 a 15 mlynedd nesaf, rwy'n meddwl y byddwn yn gweld lleihad wedyn o ran y stigma sy'n awgrymu mai dim ond llwybr i ddirywiad anochel na ellir ei wrthdroi yw mynd i gartref gofal.
- 13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I now call the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.
- Galwaf nawr ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.
- 13:49 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition
Thank you, Presiding Officer.
- Diolch i chi, Lywydd.

First Minister, could I join you and the leader of Plaid Cymru in the sentiments that you expressed about the horrific events in Argoed last week? The older you get, you do think you have heard it all, but, all of a sudden, you see things like this come out. The explanations and the reports that have come out from that community are truly horrific. Our thoughts and prayers are with everyone who is connected with that tragedy.

Could I ask you, First Minister—and I appreciate that it is not your Government that has commissioned this report by the Ministry of Justice, which is going to be under the scope of a serious further offences review—will there be any role for the Welsh Government, particularly in light of the evidence that has come forward that shows that, particularly in the field of mental health, there has been an issue around the provision of mental health services in the community?

13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

We will always seek to work with the UK Government when it comes to the treatment and rehabilitation of offenders. We will also, of course, seek to influence what is a non-devolved area. It is important, of course, that, where offenders leave prison, there is sufficient signposting and guidance for them to leave the non-devolved part of their care and move on to the devolved part of their care. For them, it does not matter, of course. However, it is important that the system is as seamless as it can be.

13:50 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, First Minister. I must admit that I was trying to perhaps draw on some of your legal experience, if you would forgive me, as to whether—under the formal way in which this review would be undertaken—there is a mechanism for the medical aspects of this particular case to be considered. The evidence that has come forward seems to indicate that, within the prison environment, the offender's schizophrenia, which was diagnosed at the age of 16, was managed, and that the necessary treatment was in place. Regrettably, once the offender stepped outside that prison environment and into the community, obviously, that is where the treatment seems to have fallen down. I understand that, in both cases, within the prison and outside the prison, it is commissioned from the Welsh health service. I visited Parc prison some two weeks ago, and I have to commend the excellent work that goes on at Parc prison and the support that it does offer in these particular instances.

Brif Weinidog, a gaf i ymuno â chi ac arweinydd Plaid Cymru i gyfleu'r cydymdeimlad i chi ei fynegi am y digwyddiadau erchyll yn Argoed yr wythnos diwethaf? Yr hynaf yr ydych, rydych chi'n meddwl eich bod wedi clywed y cyfan, ond, yn sydyn, rydych chi'n gweld pethau fel hyn yn digwydd. Mae'r esboniadau a'r adroddiadau sydd wedi deillio o'r gymuned honno yn wirioneddol erchyll. Mae ein meddyliau a'n gweddiâu gyda phawb sy'n gysylltiedig â'r drasiedi honno.

A gaf i ofyn i chi, Brif Weinidog—ac rwy'n gwerthfawrogi mai nad eich Llywodraeth chi sydd wedi comisiynu'r adroddiad hwn gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n mynd i fod dan gwmpas adolygiad troseddau pellach difrifol—a fydd unrhyw swyddogaeth i Lywodraeth Cymru, yn enwedig yng ngoleuni'r dystiolaeth a gyflwynwyd sy'n dangos, yn enwedig ym maes iechyd meddwl, y bu problem o ran darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned?

Byddwn bob amser yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth y DU pan ddaw'n fater o driniaeth ac adsefydlu troseddwyd. Byddwn hefyd, wrth gwrs, yn ceisio dylanwadu ar faes nad yw wedi ei ddatganoli. Mae'n bwysig, wrth gwrs, pan fydd troseddwyd yn gadael y carchar, bod digon o gyfeirio ac arweiniad iddyn nhw adael y rhan o'u gofal sydd heb ei datganoli a symud ymlaen at ran ddatganoledig eu gofal. Nid yw o bwys iddyn nhw, wrth gwrs. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y system mor ddi-dor ag y gall fod.

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod i'n ceisio manteisio efallai ar rywfaint o'ch profiad cyfreithiol, os gwnewch chi faddau i mi, o ran—dan y ffordd ffurfiol y byddai'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal—bod dull ar gyfer ystyried yr agweddau meddygol ar yr achos penodol hwn. Mae'n ymddangos bod y dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg yn dangos, o fewn amgylchedd y carchar, bod sgitsoffrenia'r troseddwr, y bu diagnosis ohono pan roedd yn 16 oed, yn cael ei reoli, a bod y driniaeth angenrheidiol wedi'i sefydlu. Yn anffodus, ar ôl i'r troseddwr gamu y tu allan i'r amgylchedd carchar hwnnw ac i'r gymuned, yn amlwg, dyna lle yr ymddengys fod y driniaeth wedi methu. Rwy'n deall, yn y ddau achos, yn y carchar a'r tu allan i'r carchar, ei bod yn cael ei chomisiynu gan y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Ymwelais â charchar y Parc tua phythefnos yn ôl, ac mae'n rhaid i mi ganmol y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yng ngharchar y Parc a'r cymorth y mae'n ei gynnal yn yr achosion penodol hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am no longer insured to give legal advice, so I am sure that the leader of the opposition will forgive me for that. However, he raises a serious point, and that is: how can we be sure that those people who behave in a certain way in a certain environment are helped not to behave in a different way when they leave that environment. It is in the nature of— I do not want to talk about the specific case; I think that there needs to be a full investigation of the case before we can make a judgment on it. However, with many illnesses, people can manage those illnesses in terms of their environment. With other illnesses, of course, it is important that people take medication. If they, for some reason, do not take that medication, they will relapse. It is in the nature of some psychiatric conditions that people do not think that they are ill, so they do not take their medication. We saw that with Care in the Community, particularly in the early 1990s, where that happened quite often. In terms of the tragic and appalling events that Members have made reference to, I think it is best to see what the results of the review actually present. If there are ways in which there can be improvements in what could perhaps be described as a handover, then clearly we will look at that. Of course, if there are ways of ensuring that people have a fuller assessment before they leave prison in order to reassure the public, that will need to be looked at as well. However, I am reluctant to be drawn on the detail of this case, because it does deserve full investigation for the good of the families involved.

Nid wyf wedi fy yswirio i roi cyngor cyfreithiol bellach, felly rwy'n siŵr y bydd arweinydd yr wrthblaid yn maddau imi am hynny. Fodd bynnag, mae'n codi pwynt difrifol, sef: sut y gallwn ni fod yn siŵr bod y bobl hynny sy'n ymddwyn mewn ffordd arbennig mewn amgylchedd penodol yn cael eu helpu i beidio ag ymddwyn mewn ffordd wahanol pan fyddant yn gadael yr amgylchedd hwnnw. Mae'n rhan o natur—. Nid wyf eisiau siarad am yr achos penodol; rwy'n credu bod angen cael ymchwiliad llawn i'r achos cyn y gallwn ffurfio barn yn ei gylch. Fodd bynnag, gyda llawer o afiechydon, gall pobl reoli'r afiechydon hynny o ran eu hamgylchedd. Gydag afiechydon eraill, wrth gwrs, mae'n bwysig bod pobl yn cymryd meddyginiaeth. Os nad ydynt, am ryw reswm, yn cymryd y feddyginiaeth honno, byddant yn cael ail bwl. Mae'n rhan o natur rhai cyflyrau seiciatrïg nad yw pobl yn meddwl eu bod yn sâl, felly nid ydynt yn cymryd eu meddyginiaeth. Gwelsom hynny gyda Gofal yn y Gymuned, yn enwedig yn y 1990au cynnar, pan oedd hynny'n digwydd yn weddol aml. O ran y digwyddiadau trasig a dychrynlyd y mae'r Aelodau wedi cyfeirio atynt, rwy'n credu mai gweld beth mae canlyniadau'r adolygiad yn ei gyflwyno mewn gwirionedd sydd orau. Os oes ffyrdd y gall fod gwelliannau i'r hyn y gellid o bosibl ei ddisgrifio fel trosglwyddo, yna byddwn yn edrych ar hynny yn amlwg. Wrth gwrs, os oes ffyrdd o sicrhau bod pobl yn cael asesiad llawnach cyn iddynt adael y carchar er mwyn tawelu meddyliau'r cyhoedd, bydd angen edrych ar hynny hefyd. Fodd bynnag, rwy'n amharod i wneud sylwadau ar fanylion yr achos hwn, gan ei fod yn haeddu ymchwiliad llawn er lles y teuluoedd dan sylw.

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I agree with you entirely. Obviously, there is some considerable investigative work to be done into this subject, but, obviously, there are a lot of questions out there that many people are looking for answers on. Quite a bit of background information has already been provided. Regrettably, later on today, there will be another report issued on an equally traumatic event of a man who was released from a hospital in Denbighshire and went on to commit a horrendous crime in Tenerife in 2011—another individual who was diagnosed with paranoid schizophrenia. There are wider questions, obviously, that need to be addressed around mental health services and provision here in Wales. Ultimately, however, on the specifics that I have asked you in my first two questions, will the Welsh Government be undertaking a serious case review into the provision of service that was available for the offender in this particular instance?

Rwy'n cytuno â chi'n llwyr. Yn amlwg, mae gwaith ymchwilio sylweddol i'w wneud o hyd i'r mater hwn, ond, yn amlwg, ceir llawer o gwestiynau allan yna y mae llawer o bobl yn chwilio am atebion iddynt. Darparwyd cryn dipyn o wybodaeth gefndir eisoes. Yn anffodus, yn nes ymlaen heddiw, bydd adroddiad arall yn cael ei gyhoeddi ar ddigwyddiad yr un mor drawmatig o ddyn a ryddhawyd o ysbty yn Sir Ddinbych ac a aeth yn ei flaen i gyflawni trosedd erchyll yn Tenerife yn 2011—unigolyn arall a gafodd ddiagnosis o sgitsoffrenia paranoid. Ceir cwestiynau ehangach, yn amlwg, y mae angen rhoi sylw iddynt o ran gwasanaethau iechyd meddwl a'r ddarpariaeth yma yng Nghymru. Yn y pen draw, fodd bynnag, o ran y manylion yr wyf wedi gofyn i chi amdanynt yn fy nau gwestiwn cyntaf, a fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad achos difrifol i'r ddarpariaeth o wasanaeth a oedd ar gael i'r troseddwr yn yr achos penodol hwn?

13:53

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I think that we have to wait to see what the full facts are before deciding what else can be done. That much is important. I am not going to pretend to be an expert on this, but the difficulty with some psychiatric conditions is that people can be very rational in particular circumstances. So, for example, it is well established in law that it is possible for somebody who may suffer from a serious mental illness to be able to give consent to an operation because they are able to give that consent properly in those circumstances. It is quite often the case that somebody has a particular condition that does not manifest itself in all circumstances, and they can appear quite rational at times, whereas at other times they are not. I think that what we need to do is to wait to see what the full facts are surrounding this particular case. We, of course, will seek to find out what more we can do, if there are lessons there for us. I know that Chris Grayling has already said that there are lessons there for him and for his department. We will of course work with them to make sure that incidents like this do not get repeated in the future.

Rwy'n credu bod yn rhaid i ni aros i weld beth yw'r ffeithiau llawn cyn penderfynu beth arall y gellir ei wneud. Mae cymaint â hynny'n bwysig. Nid wyf yn mynd i gymryd arnaf fy mod i'n arbenigwr ar hyn, ond yr anhawster gyda rhai cyflyrau seiciatrig yw y gall pobl fod yn rhesymol iawn dan rai amgylchiadau. Felly, er enghraifft, mae wedi ei hen sefydlu yn y gyfraith ei bod yn bosibl i rywun a allai fod yn dioddef o salwch meddwl difrifol allu rhoi caniatâd i lawdriniaeth gan eu bod yn gallu rhoi'r caniatâd hwnnw'n briodol dan yr amgylchiadau hynny. Mae'n aml yn wir fod rhywun yn dioddef o gyflwr penodol nad yw'n amlygu ei hun ym mhob sefyllfa, a gallant ymddangos yn eithaf rhesymol ar adegau, tra nad ydynt ar adegau eraill. Rwy'n credu mai'r hyn y mae angen i ni ei wneud yw aros i weld beth yw'r ffeithiau llawn o ran yr achos arbennig hwn. Byddwn, wrth gwrs, yn ceisio darganfod beth arall y gallwn ni ei wneud, os oes gwersi yno ar ein cyfer. Gwn fod Chris Grayling eisoes wedi dweud bod gwersi yno iddo fe a'i adran. Byddwn wrth gwrs yn gweithio gyda nhw i wneud yn siŵr nad yw digwyddiadau fel hyn yn cael eu hailadrodd yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:54

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move back to questions on the paper. Question 3 is from Lynne Neagle.

Symudwn yn ôl nawr at y cwestiynau ar y papur. Daw Cwestiwn 3 gan Lynne Neagle.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Effaith y Gyllideb Ddrafft ar Wasanaethau Llywodraeth Leol

Impact of the Draft Budget on Local Government Services

13:55

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch effaith y gyllideb ddrafft ar wasanaethau llywodraeth leol? OAQ(4)1949(FM)

3. What discussions has the First Minister had with the Minister for Public Services regarding the impact of the draft budget on local government services? OAQ(4)1949(FM)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:55

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

There have been discussions—obviously, both in Cabinet and indeed with the Minister. We know that there are challenges for local government, but, unfortunately, we cannot pass on what we ourselves do not have.

Bu trafodaethau—yn amlwg, yn y Cabinet a chyda'r Gweinidog yn wir. Rydym yn gwybod bod heriau i lywodraeth leol, ond, yn anffodus, ni allwn drosglwyddo'r hyn nad oes gennym ni ein hunain.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:55

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister. Of course, I do understand that the blame for reductions in local government funding lies with the coalition Government and the massive cuts that they have inflicted on the Welsh budget. However, I think that we have to recognise how tough the latest settlement will be for authorities like Torfaen, particularly on the back of a very challenging settlement last year, which has already impacted hugely on services that people really care about. While it is clear, First Minister, that change is on its way when it comes to local government in Wales, will you commit to working with local authorities that are expressing legitimate concerns, in order to ensure that local services and vulnerable people are protected as much as possible?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Wrth gwrs, rwy'n deall mai'r Llywodraeth glymblaid sydd ar fai am ostyngiadau i gyllid llywodraeth leol a'r toriadau enfawr y maen nhw wedi eu gorfodi ar gyllideb Cymru. Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni gydnabod pa mor anodd fydd y setliad diweddaraf i awdurdodau fel Torfaen, yn enwedig yn dilyn setliad heriol iawn y llynedd, sydd eisoes wedi cael effaith aruthrol ar wasanaethau y mae pobl wir yn poeni amdanynt. Er ei bod yn eglur, Brif Weinidog, bod newid ar ei ffordd pan ddaw i lywodraeth leol yng Nghymru, a wnewch chi ymrwymo i weithio gydag awdurdodau lleol sy'n mynegi pryderon dilys, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau lleol a phobl sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn cymaint â phosibl?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:56

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, of course, and we have protected local government for some four years from the brunt of the austerity measures that have been passed on to us from Whitehall, but we cannot do it forever, and there are challenges now, of course, for local government and difficult decisions that have to be made in the same way as we have to take difficult decisions here as a Welsh Government.

Nevertheless, we would expect local authorities to look to protect the most vulnerable first, to look to avoid compulsory redundancies where they can, and to work together where it is possible to provide the same level of service but at a lower cost. All these things will need to be looked at by local authorities, not just this year, but in years to come, because we know that there are still difficult years ahead of us in terms of providing the level of services that all would want to see.

Gwnaf, wrth gwrs, ac rydym ni wedi amddiffyn llywodraeth leol ers tua phedair blynedd rhag y gwaethaf o'r mesurau cyni a drosglwyddwyd i ni o Whitehall, ond ni allwn wneud hynny am byth, a cheir heriau nawr, wrth gwrs, i lywodraeth leol a phenderfyniadau anodd y mae'n rhaid eu gwneud yn yr un modd ag y mae'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd yma fel Llywodraeth Cymru. Serch hynny, byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol geisio amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed gyntaf, i geisio osgoi diswyddiadau gorfodol lle y gallant, ac i gydweithio lle mae'n bosibl i ddarparu'r un lefel o wasanaeth ond am lai o gost. Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried yr holl bethau hyn, nid dim ond eleni, ond yn y blynyddoedd i ddod, gan ein bod yn gwybod bod blynyddoedd anodd o'n blaenau o hyd o ran darparu lefel y gwasanaethau y byddai pob un ohonom eisiau ei gweld.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, following the up to 4.6% cuts in the draft local government settlement, the Minister for Public Services has actually indicated that he is quite happy now for local authorities to impose charges for some of the service provision. We have already seen some local authorities coming forward now with council tax increase announcements of 5% upwards. People will be paying more and receiving less under your Welsh Labour Government. Now, this comes at a time when there is over £1 billion in reserves across Welsh local authorities. What steps are you taking to ensure that council tax increases are not just seen as an automatic way of placing that burden on our hard-working residents and families, to make good for your cuts? What are your views on implementing a cap on council tax so that this burden is not passed directly to our residents?

Brif Weinidog, yn dilyn y toriadau o hyd at 4.6% i'r setliad llywodraeth leol drafft, mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dweud ei fod mewn gwirionedd yn ddigon hapus nawr i awdurdodau lleol godi taliadau am rai o'r gwasanaethau a ddarperir. Rydym ni eisoes wedi gweld rhai awdurdodau lleol yn cyhoeddi cynnydd o 5% a mwy i'r dreth gyngor erbyn hyn. Bydd pobl yn talu mwy ac yn derbyn llai dan eich Llywodraeth Lafur Cymru. Nawr, daw hyn ar adeg pan fo dros £1 biliwn mewn cronfeydd wrth gefn ar draws awdurdodau lleol Cymru. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i sicrhau nad yw cynnydd i'r dreth gyngor yn cael ei ystyried fel ffordd awtomatig o osod y baich ar ein trigolion a'n teuluoedd sy'n gweithio'n galed, i wneud iawn am eich toriadau? Beth yw eich barn ar sefydlu cap ar y dreth gyngor fel nad yw'r baich hwn yn cael ei drosglwyddo i'n trigolion yn uniongyrchol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I have to say to the Member that she does try to avoid the fact that the money that we get comes from her party and the Liberal Democrats. Council tax in Wales remains substantially lower than council tax in England—that much has to be emphasised. It is the case that Welsh local government is funded at a far higher level than is the case in England and has been for many, many years. She contradicts herself, if I may say so, by saying on the one hand that these are Welsh Labour cuts and then saying that local authorities have £1 billion in reserves. There is an element of contradiction in what she has said there. It is for each local authority to decide how it wishes to set its budgets. It is for them to decide what level of council tax they wish to set. But, of course, Ministers retain the power to cap council tax rises where that is deemed appropriate.

Wel, mae'n rhaid i mi ddweud wrth yr Aelod ei bod yn ceisio osgoi'r ffaith bod yr arian yr ydym ni'n ei gael yn dod gan ei phlaid hi a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'r dreth gyngor yng Nghymru yn dal i fod yn sylweddol is na'r dreth gyngor yn Lloegr—mae'n rhaid pwysleisio cymaint â hynny. Mae'n wir fod llywodraeth leol yng Nghymru yn cael ei hariannu ar lefel lawer uwch na'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, ac mae hyn wedi bod yn wir ers llawer iawn o flynyddoedd. Mae'n gwrth-ddweud ei hun, os caf ddweud hynny, trwy ddweud ar y naill law mai toriadau Llafur Cymru yw'r rhain ac yna dweud bod gan yr awdurdodau lleol £1 biliwn mewn cronfeydd wrth gefn. Ceir elfen o wrth-ddweud yn yr hyn y mae wedi ei ddweud yn y fan yna. Mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu sut mae'n dymuno gosod ei gyllidebau. Mater iddyn nhw yw penderfynu ar ba lefel maen nhw'n dymuno gosod y dreth gyngor. Ond, wrth gwrs, mae Gweinidogion yn cadw'r pŵer i gapio codiadau'r dreth gyngor pan ystyrir bod hynny'n briodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:58 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, mae uned hawliau lles—'welfare rights unit'—sir Ddinbych yn wynebu bygythiad, fel y mae nifer, wrth gwrs, ar draws Cymru oherwydd y toriadau yn y gyllideb. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o effaith cau'r gwasanaethau hyn ar yr union adeg y mae eu hangen nhw fwyaf, a hynny ar y bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas ni?
- First Minister, the welfare rights unit in Denbighshire is facing threats, as are many across Wales, because of the cuts to budgets. What assessment has the Welsh Government made of the impact of the closure of these services at the very time when they are most needed by the most vulnerable people in our communities?
- 13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Rwy'n gwybod bydd llawer o bobl, wrth gwrs, heb unrhyw fath o gyngor. Bydd mwy o bwysau, er enghraifft, ar gyrrff fel Cyngor ar Bopeth. Rydym yn gwybod, wrth gwrs, bod tua £500 miliwn yn mynd i gael ei dynnu mas o economi Cymru o achos y newidiadau yn y system fudd-daliadau.
- I know that many people will not receive any kind of advice at all, and there will be more pressure on bodies like Citizens Advice. We know, of course, that about £500 million will be taken out of the Welsh economy because of the cuts to the benefits system.
- Hyrwyddo Twristiaeth** **Promoting Tourism**
- 13:59 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 4. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1944(FM)*
- 4. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's actions to promote tourism in Wales? OAQ(4)1944(FM)*
- 13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Yes. We have our tourism strategy, 'Partnership for Growth: The Strategy for Tourism 2013-2020', which has an overall vision for growing tourism in Wales by 10% by 2020. A full report on the first year of progress is on the Welsh Government tourism website.
- Gwnaf. Mae gennym ein strategaeth dwristiaeth, 'Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth 2013-2020', sydd â gweledigaeth gyffredinol ar gyfer tyfu twristiaeth yng Nghymru o 10% erbyn 2020. Ceir adroddiad llawn ar y flwyddyn gyntaf o gynnydd ar wefan dwristiaeth Llywodraeth Cymru.
- 13:59 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that. It is encouraging that the Great Britain tourism survey shows tourism in Wales is continuing to rise, particularly during a period when, for the rest of Great Britain, visitor numbers have fallen. Some of our iconic and best-known attractions are doing particularly well, including near to me in Llandudno, which has been named by TripAdvisor as one of the 10 best destinations in the UK. However, we have a number of other popular visitor attractions throughout Wales, and several of them are in my own constituency of Delyn, where tourism is an integral part of the local economy. Can I ask, First Minister, what action is the Welsh Government taking to support these attractions and help them swell numbers?
- Diolch i chi am hynna. Mae'n galonogol bod arolwg twristiaeth Prydain Fawr yn dangos bod twristiaeth yng Nghymru yn parhau i gynyddu, yn enwedig yn ystod cyfnod pan fo nifer yr ymwelwyr wedi gostwng yng ngweddill Prydain Fawr. Mae rhai o'n hatyniadau eiconig a mwyaf adnabyddus yn gwneud yn arbennig o dda, gan gynnwys yn agos ataf i yn Llandudno, sydd wedi cael ei enwi gan TripAdvisor yn un o'r 10 cyrchfan gorau yn y DU. Fodd bynnag, mae gennym nifer o atyniadau poblogaidd eraill i ymwelwyr ledled Cymru, ac mae nifer ohonynt yn fy etholaeth i, sef Delyn, lle mae twristiaeth yn rhan annatod o'r economi leol. A gaf i ofyn, Brif Weinidog, pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r atyniadau hyn, a'u helpu i gynyddu niferoedd?
- 14:00 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Well, the strategy itself of course provides a level of support. We know that, in the August bank holiday, nearly 70% of attractions had experienced a higher or equal level of visits compared with the year before. We know, as the Member has rightly pointed out, that trips to Wales were up 3.2% in the first three months of this year and that the UK equivalent figure was a drop of 9.8%.
- Wel, mae'r strategaeth ei hun, wrth gwrs, yn cynnig lefel o gefnogaeth. Rydym yn gwybod, yn ystod gŵyl y banc mis Awst, bod bron i 70% o atyniadau wedi cael yr un lefel o ymweliadau neu fwy o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym yn gwybod, fel y mae'r Aelod wedi ei nodi'n gwbl gywir, y bu 3.2% yn fwy o deithiau i Gymru yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn hon, ac mai gostyngiad o 9.8% oedd y ffigur cyfatebol yn y DU.

We have digital marketing, which of course has an increasingly wide reach. We also undertake social media activity, with over 450,000 followers on Facebook and Twitter, and we also target marketing investment towards key markets, such as, for example, Ireland, Germany and the USA. The figures that we have seen so far give us great cause for optimism in the course of this year, and of course we could not have a more public endorsement than that of the President of the USA, Barack Obama, when he encouraged Americans to visit Wales as well.

Mae gennym farchnata digidol, sydd yn ymestyn ymhellach drwy'r amser wrth gwrs. Rydym hefyd yn cyflawni gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol, gyda dros 450,000 o ddilynwyr ar Facebook a Twitter, ac rydym hefyd yn targedu buddsoddiad marchnata tuag at farchnadoedd allweddol, fel, er enghraifft, Iwerddon, yr Almaen a'r Unol Daleithiau. Mae'r ffigurau yr ydym ni wedi eu gweld hyd yn hyn yn rhoi achos mawr i ni fod yn optimistaidd yn ystod y flwyddyn hon, ac wrth gwrs, ni allem gael cefnogaeth fwy cyhoeddus na honno gan Arlywydd yr Unol Daleithiau, Barack Obama, pan anogodd Americanwyr i ymweld â Chymru hefyd.

14:01 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

First Minister, you are right that we have had a glorious summer and that, overall, visitor numbers are up. That coincides with a new Welsh Government advertising strategy, of course, but are you able to say which tools you used to identify how much of that growth is directly due to the strategy and how much of that might be due to other factors, including growth in the economy or activities undertaken by tourism businesses themselves?

Brif Weinidog, rydych chi'n iawn ein bod ni wedi cael haf gogoneddus ac, ar y cyfan, bod nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu. Mae hynny'n cyd-fynd â strategaeth hysbysebu newydd Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, ond a allwch chi ddweud pa ddulliau y gwnaethoch chi eu defnyddio i nodi faint o'r twf hwnnw sydd o ganlyniad uniongyrchol i'r strategaeth a faint o hynny allai fod o ganlyniad i ffactorau eraill, gan gynnwys twf yn yr economi neu weithgareddau a wnaed gan fusnesau twristiaeth eu hunain?

14:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I think that the best evidence of that is the fact that trips to Wales were up 3.2% in the first three months of this year while there was a drop of 9.8% across the UK as a whole. That, to me, is at the very least an indication that the marketing strategy we have employed has been successful at a time of a sadly significant drop in numbers elsewhere in the UK.

Wel, rwy'n credu mai'r dystiolaeth orau o hynny yw'r ffaith y bu 3.2% yn fwy o deithiau i Gymru yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn hon tra bu gostyngiad o 9.8% ar draws y DU gyfan. Mae hynny, i mi, yn arwydd o leiaf bod y strategaeth farchnata yr ydym ni wedi ei defnyddio wedi bod yn llwyddiannus mewn cyfnod o ostyngiad sylweddol i niferoedd mewn mannau eraill yn y DU, yn anffodus.

14:02 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Mae busnesau Caernarfon wedi cael haf llwyddiannus, ac mae'r gwaith y mae Cadw wedi'i wneud ger muriau'r castell, mewn ardal sy'n cael ei adnabod fel 'the south of France', wedi cael croeso mawr. Fodd bynnag, mae angen byrddau dehongli yno. Mae safle hefyd y tu ôl i swyddfa'r harbwrfeistr ar y Cei Llechi sy'n dal angen ei ddatblygu. Mae hwnnw'n allweddol gan ei fod drws nesaf i'r castell. A wnewch chi sicrhau bod eich adrannau chi yn manteisio ar bob cyfle i edrych am bosibiliadau i wella'r amgylchedd yn nhref hynafol Caernarfon?

Businesses in Caernarfon have had a very successful summer, and the work that Cadw has done by the castle walls, in an area known as 'the south of France', has been warmly received. However, we do need interpretation boards there. There is also a site behind the harbourmaster's office on Cei Llechi that still needs to be developed. It is a key site as it is adjacent to the castle. Will you ensure that your departments take advantage of every possible opportunity to look at the potential for improving the environment in the ancient town of Caernarfon?

14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Gofynnaf i'r Gweinidog i ysgrifennu atoch chi o ran y manylion, ond wrth gwrs mae Caernarfon wedi gweld newidiadau mawr, ac nid dim ond o ran y ffaith bod y castell yno, ond hefyd o ran beth sydd wedi digwydd yn noc Fictoria, a'r datblygiadau sydd wedi bod fyna: y gwesty a'r busnesau sydd yno a'r ffordd y mae hen adeiladau wedi cael eu hailddatblygu mewn ffordd sy'n gydymdeimladwy. Felly, ynglŷn â'r eiddo yr ydych chi wedi siarad amdano, gofynnaf i'r Gweinidog ysgrifennu atoch chi gyda'i sylwadau.

I will ask the Minister to write to you on the details, but of course Caernarfon has seen major changes, and not only in terms of the fact that the castle is there, but also in terms of what has happened in Victoria dock, with the developments that there have been there: the hotel and the businesses there and the way in which the old buildings there have been redeveloped in a sympathetic manner. So, in terms of the land that you have talked about, I will ask the Minister to write to you with his comments.

Darpariaeth Chwaraeon

Sports Provision

- 14:03 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth chwaraeon ledled Cymru? OAQ(4)1938(FM) *5. Will the First Minister make a statement on sports provision across Wales? OAQ(4)1938(FM)*
- 14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes. Sport provision across Wales is provided by a variety of organisations, and we of course work with these organisations to increase participation in sport and to ensure that there are continuing opportunities for local sporting activity.
Gwnaf. Darperir chwaraeon ledled Cymru gan amrywiaeth o sefydliadau, ac rydym ni'n gweithio gyda'r sefydliadau hyn, wrth gwrs, i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon ac i sicrhau bod cyfleoedd parhaus ar gyfer gweithgarwch chwaraeon lleol.
- 14:03 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for that answer, First Minister. Quite often, you say as Ministers that you are unable to answer questions with regard to local authority sporting issues, but on this occasion you will be aware of the proposition by Neath Port Talbot council to close Cymmer swimming pool. I believe that this has national significance because not only is it in a situation of relative isolation, but there are high levels of diabetes in that area and it is a facility that accommodates many people who cannot reach other such sporting facilities. Do you not agree with me and your former colleague, Dr Brian Gibbons, that to make this decision would be detrimental to the community in Cymmer and the surrounding areas, and will you seek to discuss this not only with Neath Port Talbot council but Celtic Leisure?
Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Yn aml iawn, rydych chi'n dweud fel Gweinidogion nad ydych chi'n gallu ateb cwestiynau am faterion chwaraeon awdurdod lleol, ond byddwch yn ymwybodol y tro hwn o'r cynnig gan gyngor Castell-nedd Port Talbot i gau pwll nofio y Cymer. Rwy'n credu bod hyn o arwyddocâd cenedlaethol gan ei fod nid yn unig mewn lleoliad o arwahanrwydd cymharol, ond ceir lefelau uchel o ddiabetes yn yr ardal honno ac mae'n gyfleuster sy'n darparu ar gyfer llawer o bobl na allant gyrraedd cyfleusterau chwaraeon eraill o'r fath. Onid ydych chi'n cytuno â mi a'ch cyn-gydweithiwr, Dr Brian Gibbons, y byddai gwneud y penderfyniad hwn yn niweidiol i'r gymuned yn y Cymer a'r cyffiniau, ac a wnewch chi geisio trafod hyn, nid yn unig gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot ond gyda Celtic Leisure?
- 14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, these are matters of course for the local authority. They will need to consider all factors relating to the swimming pool. There are cost factors, of course, but there are other factors, and the Member has made mention of those. There are, we understand, discussions that will still need to take place between the local authority and the community. Sport Wales has also asked the council for the business case on the potential closure, as well as an assessment of the impact on the local community. So, there are still areas that will need to be examined, as they should be, before any final decision is taken.
Wel, materion i'r awdurdod lleol yw'r rhain wrth gwrs. Bydd angen iddynt ystyried yr holl ffactorau sy'n ymwneud â'r pwll nofio. Ceir ffactorau cost, wrth gwrs, ond ceir ffactorau eraill hefyd, ac mae'r Aelod wedi sôn am y rheini. Rydym yn deall bod trafodaethau y bydd angen eu cynnal o hyd rhwng yr awdurdod lleol a'r gymuned. Mae Chwaraeon Cymru hefyd wedi gofyn i'r cyngor am yr achos busnes ar y cau posibl, yn ogystal ag asesiad o'r effaith ar y gymuned leol. Felly, ceir meysydd y bydd angen eu harchwilio o hyd, fel y dylent, cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud.
- 14:05 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, as Bethan Jenkins highlighted, the Cymmer swimming pool is one of the pools under threat by local authorities because of the cuts coming from the Tory Government in Westminster. There is no question about that. However, it is an area of deprivation and it has some of the highest losses, because of the welfare reform that comes from that Government as well. In fact, it is in the top three of the wards and top 10 in Wales to have been affected by the welfare reform cuts coming from there. So, those issues need to be looked at. Will the Welsh Government look at ways in which it can help communities to establish social enterprises? It is not just Cymmer swimming pool that is under threat; there are other sporting activities for which groups are being asked to take on the facilities and responsibilities of those sporting facilities. Will you look at ways in which you can help those groups to develop and support them?
Brif Weinidog, fel y pwysleisiodd Bethan Jenkins, mae pwll nofio y Cymer yn un o'r pyllau sydd dan fygythiad gan awdurdodau lleol oherwydd y toriadau sy'n dod gan y Llywodraeth Doriaidd yn San Steffan. Nid oes amheuaeth am hynny. Fodd bynnag, mae'n ardal o amddifadedd ac mae ganddi rai o'r colledion mwyaf, oherwydd y diwygiadau lles a ddaw gan y Llywodraeth honno hefyd. Yn wir, mae ymhlith y tair ward uchaf a'r 10 uchaf yng Nghymru sydd wedi cael eu heffeithio gan y toriadau diwygio lles sy'n dod o'r fan honno. Felly, mae angen ystyried y materion hynny. A wnaiff Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o allu helpu cymunedau i sefydlu mentrau cymdeithasol? Nid pwll nofio y Cymer yn unig sydd dan fygythiad; ceir gweithgareddau chwaraeon eraill y gofynnir i grwpiau redeg y cyfleusterau a chymryd cyfrifoldeb am y cyfleusterau chwaraeon hynny. A wnewch chi ystyried ffyrdd y gallwch chi helpu'r grwpiau hynny i ddatblygu, a'u cefnogi?

- 14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes, very much so. There are opportunities for voluntary organisations to run facilities. I know that it happens in other parts of Wales. We would not expect people to look at running facilities without any kind of support—clearly not. It is a big undertaking and I would encourage the council, Sport Wales and others to look at alternatives to the closure of the swimming pool given the area that it is in, and to work with the local community to see whether there are any community solutions that can be found in order to keep the pool open in the future.
- 14:06 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
First Minister, the provision of playing fields and swimming pools is vital for the development of sports in Wales. Why, therefore, has the Welsh Government decided not to implement the Localism Act 2011 in Wales, which would give communities the right to bid to buy such assets of community value to safeguard the sporting places in future?
- 14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The Localism Act is an English Act. In 2011, the people of Wales decided that it was a matter for this Assembly what legislation should be passed in the areas for which the Assembly has responsibility. We always look to see what lessons we can learn from any other part of the UK, but it is not a question of not implementing the Localism Act; it was not a Welsh Act.
- 14:07 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
First Minister, one important aspect of sports provision is surely ensuring that the necessary support is in place for those people who can no longer take part in their chosen sport because of disabling injury on the field of play. It is at that point when organisations such as the Welsh Rugby Union Charitable Trust come into their own to support former players, such as one young lady known to me, Gwernyfed RFC's former rugby star, Frances Bateman, who suffered severe injury three years ago on the rugby field. Just last Saturday, she was able to showcase the support that she has received from the benevolent trust to His Royal Highness the Duke of Cambridge. In that context, First Minister, what can your Government do to promote the development of similar support across other major sports in Wales to alleviate the difficulties suffered by former sportspeople?
- Gwnaf, yn sicr. Ceir cyfleoedd i fudiadau gwirfoddol redeg cyfleusterau. Rwy'n gwybod ei fod yn digwydd mewn rhannau eraill o Gymru. Ni fyddem yn disgwyl i bobl ystyried rhedeg cyfleusterau heb unrhyw fath o gymorth—yn amlwg. Mae'n ymgymeriad mawr a byddwn yn annog y cyngor, Chwaraeon Cymru ac eraill i ystyried dewisiadau eraill yn hytrach na chau'r pwll nofio o gofio'r ardal y mae ynddi, ac i weithio gyda'r gymuned leol i weld a oes unrhyw atebion cymunedol y gellir dod o hyd iddynt er mwyn cadw'r pwll ar agor yn y dyfodol.
- Brif Weinidog, mae'r ddarpariaeth o gaeau chwarae a phyllau nofio yn hanfodol ar gyfer datblygiad chwaraeon yng Nghymru. Pam, felly, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â gweithredu Deddf Lleoliaeth 2011 yng Nghymru, a fyddai'n rhoi'r hawl i gymunedau wneud cais i brynu asedau o'r fath o werth cymunedol i ddiogelu'r mannau chwaraeon yn y dyfodol?
- Deddf Lloegr yw'r Ddeddf Lleoliaeth. Yn 2011, penderfynodd pobl Cymru mai mater i'r Cynulliad hwn fyddai pa ddeddfwriaeth y dylid ei phasio yn y meysydd y mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb amdanynt. Rydym ni bob amser yn edrych i weld pa wersi y gallwn eu dysgu o unrhyw ran arall o'r DU, ond nid yw'n fater o beidio â gweithredu'r Ddeddf Lleoliaeth; nid oedd yn Ddeddf i Gymru.
- Brif Weinidog, does bosib mai un agwedd bwysig ar ddarpariaeth chwaraeon yw sicrhau bod y gefnogaeth angenrheidiol ar gael i'r bobl hynny na allant gymryd rhan yn eu dewis o gamp mwyach oherwydd anaf anablu ar y maes chwarae. Ar y pwynt hwnnw y bydd sefydliadau fel Ymddiriedolaeth Elusennol Undeb Rygbi Cymru yn dod i'w hanterth I gefnogi cyn-chwaraewyr, fel un wraig ifanc rwyf i'n ei hadnabod, cyn-seren Clwb Rygbi Gwernyfed, Frances Bateman, a ddioddefodd anaf difrifol dair blynedd yn ôl ar y cae rygbi. Dim ond dydd Sadwrn diwethaf, roedd hi'n gallu dangos y gefnogaeth y mae wedi ei derbyn gan yr ymddiriedolaeth lesiannol I Ei Uchelder Brenhinol Dug Caergrawnt. Yn y cyd-destun hwnnw, Brif Weinidog, beth all eich Llywodraeth ei wneud I hybu datblygiad cefnogaeth debyg ar draws y prif chwaraeon eraill yng Nghymru I liniaru'r anawsterau a ddioddefir gan gyn-chwaraewyr?

14:08

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

These are matters primarily for the governing bodies, first of all, but rugby, of course, has a disproportionately higher level of injuries—not as high as it used to be, but certainly, the injuries are not as rare as we would want them to be. I know, for example, that His Royal Highness the Duke of Cambridge is exceptionally interested in the charitable trust, and these are issues in which he takes a deep interest when he comes to Cardiff. He meets with those who are being helped by the trust itself. I commend the WRU for setting up the trust. It is important that other sporting bodies consider similar arrangements for themselves in order to help those who, through playing sport and wanting to keep fit, have been hit by tragedy on the playing field, or in other sporting arenas.

Yn gyntaf oll, materion i'r cyrff llywodraethu yw'r rhain yn bennaf, ond mae gan rygbi, wrth gwrs, lefel anghymesur uwch o anafiadau—nid mor uchel ag y bu, ond yn sicr, nid yw'r anafiadau mor brin ag y byddem yn dymuno iddynt fod. Rwy'n gwybod, er enghraifft, bod gan Ei Uchelder Brenhinol Dug Caergrawnt ddiddordeb brwd iawn yn yr ymddiriedolaeth elusennol, ac mae'r rhain yn faterion y mae'n cymryd diddordeb mawr ynddynt pan ei fod yn dod i Gaerdydd. Mae'n cyfarfod â'r rhai sy'n cael eu helpu gan yr ymddiriedolaeth ei hun. Cymeradwyaf Undeb Rygbi Cymru am sefydlu'r ymddiriedolaeth. Mae'n bwysig bod cyrff chwaraeon eraill yn ystyried trefniadau tebyg ar gyfer eu hunain er mwyn helpu'r rhai sydd, trwy chwarae chwaraeon a dymuniad i gadw'n heini, wedi cael eu taro gan drychineb ar y cae chwarae, neu mewn meysydd chwaraeon eraill.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Blaenoriaethau Trafnidiaeth

Transport Priorities

14:09

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar flaenoriaethau trafndiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill 2014/15? OAQ(4)1951(FM)

6. Will the First Minister make a statement on Welsh Government transport priorities for the remainder of 2014/15? OAQ(4)1951(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. We will continue to deliver our programme of schemes and initiatives to improve transport provision across Wales. We will also publish the new draft national transport plan for consultation before Christmas.

Gwnaf. Byddwn yn parhau i ddarparu ein rhaglen o gynlluniau a mentrau i wella'r ddarpariaeth o drafndiaeth ledled Cymru. Byddwn hefyd yn cyhoeddi'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol drafft newydd ar gyfer ymgynghoriad cyn y Nadolig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Your programme for government and your national transport plan both make pledges to improve the rail network and boost passenger numbers. However, passengers on Welsh rail services are currently experiencing huge problems with overcrowding, with passengers being left at platforms over this weekend and the preceding weeks as well. With Valleys lines electrification and any new rolling stock that that brings still being several years away yet, what will you do in the intervening period to relieve the situation for Welsh commuters? If your Government is pledging to boost passenger numbers, is it your Government that will have to act to achieve that, is it not?

Diolch. Mae eich rhaglen lywodraethu a'ch cynllun trafndiaeth cenedlaethol yn gwneud addewidion i wella'r rhwydwaith rheilffyrdd a rhoi hwb i nifer y teithwyr. Fodd bynnag, mae teithwyr ar wasanaethau rheilffordd yng Nghymru yn dioddef problemau enfawr gyda gorlenwi ar hyn o bryd, gyda theithwyr yn cael eu gadael ar blatfformau dros y penwythnos ac yn ystod yr wythnosau cynt hefyd. Gan fod trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd ac unrhyw gerbydau newydd a ddaw yn sgil hynny yn dal i fod sawl blwyddyn i ffwrdd eto, beth fyddwch chi'n ei wneud yn y cyfamser i leddfu'r sefyllfa i gymudwyr yng Nghymru? Os yw eich Llywodraeth yn addo rhoi hwb i nifer y teithwyr, onid yw'n wir mai eich Llywodraeth chi fydd yn gorfod gweithredu i gyflawni hynny?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:10 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
- Well, we have supported additional rolling stock on peak trains on the Valleys lines routes. We have provided trains for new services and extra capacity, of course, on the north-south route. We have also provided funding to Arriva Trains Wales for the refurbishment of its fleet to improve passenger quality onboard. There is a limit, of course, to what we can do, given the fact that the franchising system is not fully devolved nor is rail infrastructure devolved either. We believe that if those two matters were devolved, we could do even more for rail passengers in Wales.
- Wel, rydym ni wedi cefnogi cerbydau ychwanegol ar drenau cyfnodau brig ar lwybrau rheilffyrdd y Cymoedd. Rydym ni wedi darparu trenau ar gyfer gwasanaethau newydd a chapasiti ychwanegol, wrth gwrs, ar y llwybr o'r gogledd i'r de. Rydym ni hefyd wedi darparu cyllid i Drenau Arriva Cymru ailwampio ei fflyd i wella ansawdd i deithwyr ar y trenau. Ceir terfyn, wrth gwrs, i'r hyn y gallwn ei wneud, o ystyried y ffaith nad yw'r system fasnachfaint wedi ei datganoli'n llawn ac nad yw'r seilwaith rheilffyrdd wedi ei ddatganoli ychwaith. Rydym yn credu pe byddai'r ddau fater hynny'n cael eu datganoli, y gallem wneud mwy fyth i deithwyr rheilffordd yng Nghymru.
- 14:10 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, the A55 is a trans-European network. Unfortunately, it gets snagged up on occasions when we have heavy-goods vehicles that have accidents, or when there are other issues or pinch-point problems along the A55. What can your Government do to hasten the removal of freight from the A55 and from other roads, and look at whether we can do something, especially if we are looking at the electrification of the north Wales line? Is this not a time to look to get freight off the road and back on the rail?
- Brif Weinidog, mae'r A55 yn rhwydwaith traws-Ewropeaidd. Yn anffodus, mae'n cael tagfeydd ar adegau pan fydd gennym gerbydau nwyddau trwm sy'n cael damweiniau, neu pan fo materion eraill neu broblemau cyfyng-bwynt ar hyd yr A55. Beth all eich Llywodraeth ei wneud i gyflymu'r broses o gael gwared ar nwyddau o'r A55 ac o ffyrdd eraill, ac ystyried pa un a allwn ni wneud rhywbeth, yn enwedig os ydym yn ystyried trydaneiddio rheilffordd y gogledd? Onid yw hwn yn amser i geisio cael nwyddau oddi ar y ffordd ac yn ôl ar y rheilffyrdd?
- 14:11 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
- We do offer financial support to encourage modal shift but, of course, freight is a market-led sector, and it depends on what the price is of carrying freight. That said, the ministerial taskforce on north Wales transport, which the Minister has established, has identified scope for increased rail freight as a priority for its work. That is built into the case that we have been making to the Department for Transport about improvements to the north Wales main line, including, at some point, electrification.
- Rydym ni yn cynnig cefnogaeth ariannol i annog newid moddol ond, wrth gwrs, mae cludo nwyddau yn sector a arweinir gan y farchnad, ac mae'n dibynnu beth yw pris cludo nwyddau. Wedi dweud hynny, mae'r tasglu gweinidogol ar drafnidiaeth yn y gogledd, y mae'r Gweinidog wedi ei sefydlu, wedi nodi cwmpas ar gyfer mwy o nwyddau ar drenau fel blaenoriaeth ar gyfer ei waith. Mae hynny wedi ei gynnwys yn yr achos yr ydym ni wedi bod yn ei gyflwyno i'r Adran Drafnidiaeth ynglŷn â gwelliannau i brif reilffordd y gogledd, gan gynnwys, ar ryw adeg, trydaneiddio.
- 14:11 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, you will be pleased to know that I have my own road gripe in south Wales to raise with you. As winter sets in, my constituents dread the perennial flooding problems that afflict the A4042 at Llanelen, just south of Abergavenny. I have raised this with the Minister for Economy, Science and Transport a number of times. This flooding causes havoc for communities and for local businesses each year. Ideally, we would like to see a bypass in that area, but, in the absence of that, will you undertake to look again at this stretch of road and prioritise appropriate works that will help to alleviate the problem for my constituents?
- Brif Weinidog, byddwch yn falch o wybod bod gen i fy nghwyn fy hun am ffyrdd yn y de i'w chodi gyda chi. Wrth i'r gaeaf ddwysau, mae fy etholwyr yn ofni'r problemau llifogydd parhaus sy'n effeithio'r A4042 yn Llanelen, ychydig i'r de o'r Fenni. Rwyf wedi codi hyn gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth nifer o weithiau. Mae'r llifogydd hyn yn achosi llanast i gymunedau ac i fusnesau lleol bob blwyddyn. Yn ddelfrydol, byddem yn hoffi gweld ffordd osgoi yn yr ardal honno, ond, yn absenoldeb hynny, a wnewch chi ymrwymo i edrych eto ar y darn yma o ffordd a blaenoriaethu gwaith priodol a fydd yn helpu i liniaru'r broblem i'm hetholwyr?
- 14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
- Where we have responsibility for trunk roads, we will of course do that. Where there are issues of regular flooding on some sections of road, working with Natural Resources Wales, we will of course look to find solutions to deal with that flooding.
- Lle mae gennym gyfrifoldeb am gefnffyrdd, byddwn yn gwneud hynny wrth gwrs. Lle ceir problemau llifogydd rheolaidd ar rai rhannau o ffyrdd byddwn wrth gwrs, gan weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, yn ceisio dod o hyd i atebion i ymdrin â'r llifogydd hynny.

14:12 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Will the First Minister give an outline of any deal he has tried to negotiate that we might expect to see an announcement on in the autumn statement that might allow us to invest in infrastructure and transport right across Wales?

A wnaiff y Prif Weinidog roi amlinelliad o unrhyw gytundeb y mae wedi ceisio ei sicrhau y gallem ddisgwyl gweld cyhoeddiad yn ei gylch yn natganiad yr hydref a allai ein galluogi i fuddsoddi mewn seilwaith a thrafnidiaeth ar draws Cymru gyfan?

14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

That is quite a convoluted question, if I can try to unravel that. We will have to wait to see what is in the autumn statement. We, of course, are not in a position of knowing what will be in it until it is actually made.

Mae hwnna'n dipyn o gwestiwn astrus, os gallaf geisio ei ddatrys. Bydd yn rhaid i ni aros i weld beth sydd yn natganiad yr hydref. Nid ydym, wrth gwrs, mewn sefyllfa i wybod beth fydd yn ddo tan iddo gael ei wneud mewn gwirionedd.

14:13 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, bus services are vital for villages like Cilfynydd in my constituency, which has no direct train links. It was recently brought to my attention by constituents that there is to be no bus service to and from the village after 6 o'clock in the evening. However, I am pleased to note that, due to the diligence of local people, the local council, my office manager, Rhondda Cynon Taf council officials and the bus company, as from 17 November, services from Pontypridd to Aberdare will be diverted through the village. Will you join with me, First Minister, in welcoming this news? Do you agree that, despite the challenging times, by working collaboratively, we can achieve results?

Brif Weinidog, mae gwasanaethau bws yn hanfodol i bentrefi fel Cilfynydd yn fy etholaeth i, lle nad oes unrhyw gysylltiadau trên uniongyrchol. Tynnwyd fy sylw'n ddiweddar gan etholwyr at y ffaith nad oes unrhyw wasanaeth bws i'r pentref ac oddi yno ar ôl 6 o'r gloch yr hwyr. Fodd bynnag, rwy'n falch o nodi, oherwydd diwydrwydd y bobl leol, y cyngor lleol, fy rheolwr swyddfa, swyddogion cyngor Rhondda Cynon Taf a'r cwmni bysiau, y bydd y gwasanaethau o Bontypridd i Aberdâr yn cael ei ddargyfeirio drwy'r pentref o 17 Tachwedd ymlaen. A wnewch chi ymuno â mi, Brif Weinidog, i groesawu'r newyddion hyn? A ydych chi'n cytuno, er gwaethaf y cyfnod heriol, y gallwn sicrhau canlyniadau trwy weithio ar y cyd?

14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, and I congratulate the Member on her efforts. I understand that the diversion of the 60A service will begin from next Monday, which is obviously very important to the people of Cilfynydd. I understand that there is also the potential for the reintroduction of two evening return journeys through Trallwn to Oaklands on service 103, which Rhondda Cynon Taf is exploring at the moment. Clearly, it is important that, where services are lost, innovative solutions are found to at least partially restore those services, and I am glad to see that it has been done in this instance.

Ydw, ac rwy'n llongyfarch yr Aelod ar ei hymdrechion. Rwy'n deall y bydd dargyfeiriad y gwasanaeth 60A yn dechrau o ddydd Llun nesaf, sy'n amlwg yn bwysig iawn i bobl Cilfynydd. Rwy'n deall bod posibilrwydd hefyd o ailgyflwyno dwy daith ddychwelyd gyda'r nos drwy y Trallwng i Oaklands ar y gwasanaeth 103, y mae Rhondda Cynon Taf yn ei ystyried ar hyn o bryd. Yn amlwg, mae'n bwysig, lle mae gwasanaethau'n cael eu colli, bod atebion arloesol yn cael eu canfod i adfer y gwasanaethau hynny'n rhannol o leiaf, ac rwy'n falch o weld bod hynny wedi ei wneud yn yr achos hwn.

Llifogydd dros y Gaeaf

14:14 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar baratoadau ar gyfer llifogydd dros y gaeaf? OAQ(4)1950(FM)

7. Will the First Minister make a statement on preparations for winter flooding? OAQ(4)1950(FM)

- 14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes. We remain vigilant throughout the year. Of course, it is not just the winter when we see flooding, as the residents of Ceredigion, for example, will, sadly, know. The National Flood Forecasting Centre provides constant monitoring, NRW makes duty staff available on a 24-hour basis, and the emergency services have plans in place alongside our Welsh flood risk management authorities.
- 14:15 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
You are right to say that it is not winter flooding. Residents in my region experienced the first wave of flooding at the weekend, and flood warnings are issued again for the coming week. We know that flood prevention is expensive and that Natural Resources Wales has already spent £165 million during the last three years, but it does save money in the long run. Therefore, my question, First Minister is this: can you assure my constituents that your Government will continue to prioritise investment for flood prevention projects to spend now against mitigation that might happen in the future?
- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Absolutely. We recognise the importance of investing in flooding. We are investing over £245 million in flood and coastal defences over the lifetime of this Government. In addition to that, we will receive almost £50 million from the ERDF, and a number of projects have been taken forward over the course of the last two years. Therefore, where flooding is identified as a problem, we seek to take action as quickly as possible. The challenge, however, given climate change, is what happens in areas where flooding is not usually seen as a regular occurrence. Tal-y-bont is one example of a flooding incident that happened that was probably impossible to predict but, nevertheless, now has to be factored into predictions of flooding in the future.
- 14:16 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Brif Weinidog, yn sgil yr hyn sydd wedi digwydd yn y diwrnodau diwethaf, lle'r ydym ni wedi gweld nifer o lifogydd, yn enwedig yn fetholaeth i, pa gymorth ychwanegol yr ydych chi fel Llywodraeth wedi ei roi i awdurdodau fel sir Benfro?
- 14:16 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Mae cefnogaeth ar gael lle mae argyfwng wedi cymryd lle. Digwyddodd hynny, wrth gwrs, yn Aberystwyth y flwyddyn ddiwethaf, ac, yn Rhyl, Bae Cinnel a hefyd Amroth, o achos yr hyn a ddigwyddodd yn y fan honno, rhoddwyd £7.2 miliwn i ddelio gyda llifogydd. Rydym ni'n buddsoddi yn y dyfodol mewn cymunedau fel Borth, Bae Colwyn, Rhyl, Dinbych, Ystradgynlais a Chorwen, i roi rhai enghreifftiau yng Nghymru lle mae cynlluniau atal llifogydd wedi symud ymlaen.
- Gwnaf. Rydym yn parhau i fod yn wylidwrus trwy gydol y flwyddyn. Wrth gwrs, nid dim ond yn ystod y gaeaf yr ydym ni'n gweld llifogydd, fel y bydd trigolion Ceredigion, er enghraifft, yn anffodus, yn gwybod. Mae'r Ganolfan Darogan Llifogydd Genedlaethol yn monitro'n gyson, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau bod aelodau staff dyletswydd ar gael ar sail 24 awr, ac mae gan y gwasanaethau brys gynlluniau ar waith ochr yn ochr a'n hawdurdodau rheoli perygl llifogydd yng Nghymru.
- Rydych chi'n iawn i ddweud nad llifogydd y gaeaf ydyw. Dioddefodd trigolion yn fy rhanbarth i y don gyntaf o lifogydd dros y penwythnos, ac mae rhybuddion llifogydd wedi eu cyhoeddi eto ar gyfer yr wythnos i ddod. Rydym yn gwybod bod atal llifogydd yn ddrud, a bod Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi gwario £165 miliwn yn ystod y tair blynedd diwethaf, ond mae'n arbed arian yn y pen draw. Felly, fy nghwestiwn i, Brif Weinidog yw hyn: a allwch chi sicrhau fy etholwyr y bydd eich Llywodraeth yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad ar gyfer prosiectau atal llifogydd i'w wario nawr yn erbyn lliniaru a allai ddigwydd yn y dyfodol?
- Yn sicr. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn llifogydd. Rydym ni'n buddsoddi mwy na £245 miliwn mewn amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol yn ystod oes y Llywodraeth hon. Yn ogystal â hynny, byddwn yn derbyn bron i £50 miliwn gan yr ERDF, a datblygwyd nifer o brosiectau yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Felly, lle nodir bod llifogydd yn broblem, rydym yn ceisio cymryd camau cyn gynted â phosibl. Yr her, fodd bynnag, o ystyried y newid yn yr hinsawdd, yw'r hyn sy'n digwydd mewn ardaloedd lle nad yw llifogydd yn cael eu hystyried yn ddigwyddiad rheolaidd fel rheol. Mae Tal-y-bont yn un enghraifft o lifogydd a ddigwyddodd a oedd yn ôl pob tebyg yn amhosibl eu rhagweld, ond, serch hynny, mae'n rhaid ei gynnwys bellach mewn rhagfynegiadau o lifogydd yn y dyfodol.
- First Minister, following the events over the past few days, where we have seen a number of floods, particularly in my constituency, what additional assistance have you as a Government given to authorities such as Pembrokeshire?
- There is support available where crises happen. That happened, of course, in Aberystwyth last year, and, in Rhyl, Kinmel Bay and Amroth, as a result of the events there, £7.2 million was provided to deal with floods. We are investing in the future in communities such as Borth, Colwyn Bay, Rhyl, Denbigh, Ystradgynlais and Corwen, just to give you a few examples in Wales where there are flood prevention schemes that have progressed.

- 14:17 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, yr oedd llifogydd yn hen dref Aberteifi'r wythnos diwethaf eto a pheth o'r eiddo yn cael llifogydd am yr ail dro o fewn blwyddyn. Roedd ymateb y gwasanaethau argyfwng yn wych, fel arfer, ond mae cymunedau yn teimlo—rwy'n meddwl am gymuned Llanbadarn, lle'r oedd cyfarfod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru wythnos yn ôl, ac am Aberteifi, lle bydd cyfarfod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru wythnos nesaf—fod yr ymateb o ran y cynlluniau hirdymor i'w gwarchod yn gallu bod yn araf iawn yn cael ei weithredu. A wnewch chi godi gyda Chyfoeth Naturiol Cymru fod angen iddo roi'r sicrhad i gymunedau ei fod am gydweithio â nhw i warchod tai, eiddo a chymunedau i'r dyfodol?
- First Minister, there were floods in Cardigan old town last week once again, and some properties were flooded for the second time within a year. The response of the emergency services was excellent, as per usual, but communities feel—I am thinking of the community of Llanbadarn, where there was a meeting with Natural Resources Wales a week ago, and Cardigan, where there will be a meeting with NRW next week—that the response in terms of the long-term plans to protect them can be very slow in being implemented. Will you raise with NRW the need for it to give communities an assurance that it wants to work with them to protect houses, property and communities for the future?
- 14:18 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae'n bwysig dros ben. Fe wnaif i ysgrifennu at yr Aelod gydag ateb yn enwedig ynglŷn ag Aberteifi ar ôl yr hyn a ddigwyddodd yno yn ddiweddar.
- It is very important. I will write to the Member with a response, particularly in terms of Cardigan, given the recent events there.
- 14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, First Minister.
- Diolch yn fawr, Brif Weinidog.
- 14:18 **Cwestiwn Brys: Gwasanaethau Iechyd Meddwl** **Urgent Question: Mental Health Services** Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call William Graham to ask the urgent question.
- Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar William Graham i ofyn y cwestiwn brys.
- 14:18 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i adfer hyder y cyhoedd yn y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl yn sgil y digwyddiad yn Argoed a arweiniodd at farwolaeth dau o bobl? EAQ(4)0514(HSS)*
- Will the Minister make a statement to restore public confidence in the provision of mental health services arising from the incident in Argoed, which resulted in the deaths of 2 people? EAQ(4)0514(HSS)*
- 14:18 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*
- This was a rare and tragic incident, and Members across the Chamber have expressed their condolences already this afternoon to all those directly affected by it. A serious case review has been instigated by the Ministry of Justice, and devolved services will co-operate fully with it.
- Roedd hwn yn ddigwyddiad prin a thrasig, ac mae Aelodau ar draws y Siambr wedi mynegi eu cydymdeimlad eisoes y prynhawn yma i bawb yr effeithiwyd yn uniongyrchol arnynt. Mae adolygiad achos difrifol wedi cael ei gychwyn gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a bydd gwasanaethau datganoledig yn cydweithredu'n llawn ag ef.

14:19

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am most grateful to the Minister for his answer this afternoon. As you can see from earlier exchanges in the Chamber, there is a great amount of concern. I am sure that you will join me in praising those essential services that responded so magnificently, in terms of the ambulance, paramedic and police services, to what was a truly horrific incident. My question is around the fact that if there is a shortcoming in any part of the service—and I do not believe that it is in the mental health part of it; it is more in terms of the liaison between prison and the mental health services—that the implementation of the recommendations from this serious case review will be fully and urgently implemented by you.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ateb y prynhawn yma. Fel y gwelwch o drafodaethau cynharach yn y Siambr, ceir cryn dipyn o bryder. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi i ganmol y gwasanaethau hanfodol hynny a ymatebodd mor ardderchog, o ran y gwasanaethau ambiwlans, parafeddygon a'r heddlu, i'r hyn a oedd yn ddigwyddiad gwirioneddol erchyll. Mae fy nghwestiwn i'n ymwneud â'r ffaith os oes diffyg mewn unrhyw ran o'r gwasanaeth—ac nid wyf yn credu mai'r rhan iechyd meddwl ohono yw hyn; mae'n ymwneud mwy â'r cyswllt rhwng y carchar a'r gwasanaethau iechyd meddwl—y bydd gweithredu'r argymhellion o'r adolygiad achos difrifol yn cael ei weithredu'n llawn ac ar frys gennychi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I agree with William Graham in what he said about the response of those people who had to deal immediately with the incident that they had in front of them and the way that they went about that? We will, of course, look very carefully at any lessons to be learned from the review, and we will want to make sure that we implement any of them that fall to devolved services.

A gaf i gytuno â William Graham yn yr hyn a ddywedodd am ymateb y bobl hynny y bu'n rhaid iddynt ymdrin ar unwaith â'r digwyddiad yr oedd yn eu hwynebu a'r ffordd yr aethant i'r afael â hynny? Byddwn, wrth gwrs, yn edrych yn ofalus iawn ar unrhyw wersi i'w dysgu o'r adolygiad, a byddwn eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn gweithredu unrhyw rai ohonynt sy'n gyfrifoldeb i wasanaethau datganoledig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Gwyn R. Price [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, we were all shocked to hear of the tragic incident in Argoed last week. I would like to extend my deepest condolences to the family and friends of Cerys Yemm. The community is in shock and local residents are struggling to come to terms with the senseless act of violence. Speculation about the circumstances is unhelpful and I would urge the media to respect the family's request for privacy at this very difficult time. Will the Minister assure us all that all those affected by this tragedy will receive appropriate support?

Weinidog, cafodd pob un ohonom sioc o glywed am y digwyddiad trasig yn Argoed yr wythnos diwethaf. Hoffwn estyn fy nghydymdeimlad dwysaf i deulu a ffrindiau Cerys Yemm. Mae'r gymuned mewn sioc ac mae trigolion lleol yn cael trafferth i ddod i delerau â'r trais disynnwyr. Nid yw dyfalu am yr amgylchiadau o gymorth a byddwn yn arog y cyfryngau i barchu cais y teulu am breifatrwydd ar yr adeg anodd iawn hon. A wnaiff y Gweinidog ein sicrhau ni oll y bydd pawb sydd wedi eu heffeithio gan y drasiedi hon yn derbyn cefnogaeth briodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Gwyn Price for that. He is absolutely right to point to the impact that events of this sort have not just on those directly affected by them, but on the wider community. I agree with him, too, that speculation is very unhelpful. There is a proper serious case review under way. We should all be willing to allow that to take its course. I am pleased to say that the local health service is already providing direct support to those people whose lives have been most directly affected by these events.

Hoffwn ddiolch i Gwyn Price am hynna. Mae'n hollol iawn i dynnu sylw at yr effaith y mae digwyddiadau fel hyn yn ei chael nid yn unig ar y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol, ond ar y gymuned ehangach. Rwy'n cytuno ag ef, hefyd, nad yw dyfalu o gymorth o gwbl. Mae adolygiad achos difrifol priodol ar y gweill. Dylem i gyd fod yn barod i ganiatáu i hwnnw ddilyn ei gwrs. Rwy'n falch o ddweud bod y gwasanaeth iechyd lleol eisoes yn darparu cymorth uniongyrchol i'r bobl hynny yr effeithiwyd yn fwyaf uniongyrchol ar eu bywydau oherwydd y digwyddiadau hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am sure that you would agree with me that the media headlines around this murder have been incredibly insensitive. I can tell you that the community is very angry about some of those headlines. I am sure that you would share my concern that the family is fully supported through their grief and their shock at what has happened, because this is the loss, to all of us, of Cerys Yemm. She must not be forgotten or overshadowed by those awful headlines. I wonder, Minister, whether you would undertake to write to the family and express the concerns of this institution and our deepest sympathies. I can tell you now that no review, investigation or inquiry will bring that girl back to her family.

The mother of Matthew Williams says that every time he was released from prison he had been placed in a hospital with very little supervision and no psychiatric help. I would ask you, Minister: where could his mother have gone to get help for him, and how will the Welsh Government work with the mental health services to ensure that, in this situation, families that are concerned about the mental health of someone, have somewhere to turn to in order that someone can get help?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi bod y penawdau yn y cyfryngau ynghylch y llofruddiaeth hon wedi bod yn anhygoel o ansensitif. Gallaf ddweud wrthy ch bod y gymuned yn ddiog iawn am rai o'r penawdau hynny. Rwy'n siŵr y byddech yn rhannu fy mhryder bod aelodau'r teulu'n cael eu cefnogi'n llawn trwy eu galar a'u sioc yn dilyn yr hyn sydd wedi digwydd, oherwydd mae hon yn golygu colli Cerys Yemm i bob un ohonom. Ni ddylai hi gael ei anghofio na'i thafllu i'r cysgod gan y penawdau ofnadwy hynny. Tybed, Weinidog, a fyddech chi'n ymrwymo i ysgrifennu at y teulu a mynegi pryderon y sefydliad hwn a'n cydymdeimlad llwyr. Gallaf ddweud wrthy ch nawr na fydd unrhyw adolygiad, ymchwiliad nac ymholiad yn dod â'r ferch yna yn ôl at ei theulu.

Mae mam Matthew Williams yn dweud iddo gael ei roi mewn ysbyty gydag ychydig iawn o oruchwyliaeth a dim help seiciatrig bob tro iddo gael ei ryddhau o'r carchar. Hoffwn ofyn i chi, Weinidog: i le allai ei fam fod wedi mynd i gael cymorth iddo, a sut wnaiff Llywodraeth Cymru weithio gyda'r gwasanaethau iechyd meddwl i sicrhau, yn y sefyllfa hon, bod gan deuluoedd sy'n bryderus ynghylch iechyd meddwl rhywun, rywle i droi ato fel y gall rhywun gael cymorth?

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have listened very carefully to the different contributions that have been made this afternoon around this matter. I am very happy to write to the family, as Jocelyn Davies has suggested, reflecting the views that Members generally have expressed. I do not think that it is right for me to say anything about the particular circumstances of the individuals involved. Their care will emerge, I am sure, as a result of the serious case review. More generally, in Wales, we have strengthened primary care mental health services, we have new rights for people in secondary care, and we have new advocacy services that are available to individuals and often help families as well. As a result of legislation passed in this Chamber, residents in Wales have better mental health services today than they would have in the past. It is often the case that unless you are directly touched by these sorts of illnesses, you may not know the help that is there. There is a job of work, I am sure, in making sure that the services that are available for people are known to those who need them.

Rwyf wedi gwranddo'n ofalus iawn ar y gwahanol gyfraniadau a wnaed ynghylch y mater hwn y prynhawn yma. Rwy'n hapus iawn i ysgrifennu at y teulu, fel y mae Jocelyn Davies wedi ei awgrymu, gan adlewyrchu'r farn y mae'r Aelodau wedi ei mynegi'n gyffredinol. Nid wyf yn credu ei bod yn iawn i mi ddweud unrhyw beth am amgylchiadau penodol yr unigolion dan sylw. Bydd eu gofal yn dod i'r amlwg, rwy'n siŵr, yn sgil yr adolygiad achos difrifol. Yn fwy cyffredinol, yng Nghymru, rydym wedi cryfhau gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol, mae gennym hawliau newydd i bobl mewn gofal eilaidd, ac mae gennym wasanaethau eirioli newydd sydd ar gael i unigolion, ac sy'n aml yn helpu teuluoedd hefyd. O ganlyniad i ddeddfwriaeth a basiwyd yn y Siambr hon, mae gan drigolion Cymru well gwasanaethau iechyd meddwl heddiw nag oedd ganddynt yn y gorffennol. Oni bai eich bod yn cael eich cyffwrdd yn uniongyrchol gan y mathau hyn o salwch, mae'n aml yn wir na fyddwch yn gwybod efallai am yr help sydd ar gael. Mae gwaith i'w wneud, rwy'n siŵr, o ran sicrhau bod y gwasanaethau sydd ar gael i bobl yn hysbys i'r rhai sydd eu hangen.

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is a tragic and shocking case that has obviously led to great devastation for the families involved and which must have left the community very frightened. In seeking to provide the reassurance that the original question asked for, would you agree with me that it is important to remember and to remind the public that those who suffer from mental illness—indeed, the most serious forms of mental illness—are more likely to harm themselves, or to be harmed, than actually to harm another human being? That is important to remember in the face of those headlines that we have seen in the media. Although it is premature to talk about the individual case, are you satisfied, as matters stand, that liaison between prisons and community health facilities to which a prisoner may be released are as good as they should be at present?

Mae hwn yn achos trasig a brawychus sy'n amlwg wedi arwain at ddinistr mawr i'r teuluoedd dan sylw ac y mae'n rhaid ei fod wedi gadael y gymuned yn ofnus iawn. Wrth geisio darparu'r sicrwydd y gofynnwyd amdano gan y cwestiwn gwreiddiol, a fyddech chi'n cytuno â mi ei bod yn bwysig cofio ac atgoffa'r cyhoedd bod y rhai sy'n dioddef o salwch meddwl—y mathau mwyaf difrifol o salwch meddwl, yn wir—yn fwy tebygol o niweidio eu hunain, neu o gael eu niweidio, nag o niweidio bod dynol arall? Mae'n bwysig cofio hynny yn wyneb y penawdau hynny yr ydym ni wedi eu gweld yn y cyfryngau. Er ei bod yn rhy gynnar i siarad am yr achos unigol, a ydych chi'n fodlon, fel y mae pethau'n sefyll, bod cydgysylltu rhwng carchardai a chyfleusterau iechyd cymunedol y gallai carcharor gael ei ryddhau iddynt cystal ag y dylai fod ar hyn o bryd?

14:25

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

May I first of all, Llywydd, associate myself exactly with what Kirsty Williams first said? On the question of restoring public confidence, it is very important for us to convey to members of the public the rarity of these events and to do our best not to allow them to erode some of the ground that we have gained here in Wales in removing some of the stigma that is too often associated with mental ill health. It would be a terrific shame, in relation to public confidence in services, if this sort of very rare and very tragic event were to row back some of the progress that we have made there.

Yn gyntaf oll, Lywydd, a gaf i gysylltu fy hun yn union â'r hyn a ddywedodd Kirsty Williams yn gyntaf? O ran y cwestiwn o adfer hyder y cyhoedd, mae'n bwysig iawn i ni gyfleu prinder y digwyddiadau hyn i aelodau'r cyhoedd ac i wneud ein gorau i beidio â chaniatáu iddynt erydu rhywfaint o'r tir yr ydym ni wedi ei ennill yma yng Nghymru o ran cael gwared â rhywfaint o'r stigma sy'n gysylltiedig yn rhy aml â salwch meddwl. Byddai'n drueni aruthrol, o ran hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau, pe byddai'r math hwn o ddigwyddiad prin iawn a thrasig iawn yn dileu rhywfaint o'r cynnydd yr ydym ni wedi ei wneud yn hynny o beth.

In relation to her second point, I am sure that this will emerge as part of the serious case review. It is a complex picture, as Members will know. We have many people released from prison who come home to Wales who have not been released from prisons that are in Wales at all. We have privately run prisons as well as publicly run prisons. We have prisons where we directly provide health services and prisons where we do not do so. There is not a single pattern here, but I am quite sure that the serious case review will look very closely at what the First Minister described as the handover period, when someone is moving from care they receive in one context to the care they will need when they return to the community.

O ran ei hail bwynt, rwy'n siŵr y bydd hyn yn dod i'r amlwg yn rhan o'r adolygiad achos difrifol. Mae'n ddarlun cymhleth, fel y gŵyr yr Aelodau. Mae gennym lawer o bobl a ryddhawyd o'r carchar sy'n dod adref i Gymru nad ydynt wedi cael eu rhyddhau o garchardai sydd yng Nghymru o gwbl. Mae gennym garchardai a redir yn breifat yn ogystal â charchardai a redir yn gyhoeddus. Mae gennym garchardai lle'r ydym yn darparu gwasanaethau iechyd yn uniongyrchol a charchardai lle nad ydym yn gwneud hynny. Nid oes un patrwm yma, ond rwy'n weddol siŵr y bydd yr adolygiad achos difrifol yn edrych yn ofalus iawn ar yr hyn a ddisgrifiodd y Prif Weinidog fel y cyfnod trosglwyddo, pan fydd rhywun yn symud o ofal y mae'n ei dderbyn mewn un cyd-destun i'r gofal y bydd ei angen arno pan fydd yn dychwelyd i'r gymuned.

14:26

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

14:26

Cwestiwn Brys: 'Llwybr Du' yr M4

Urgent Question: The M4 'Black Route'

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I have had a request for an urgent question on the M4. As it is in my constituency, the Deputy Presiding Officer accepted the urgent question under Standing Order 12.66. I call Eluned Parrott to ask the urgent question.

Rwyf wedi derbyn cais am gwestiwn brys ar yr M4. Gan ei fod yn fy etholaeth i, derbyniodd y Dirprwy Lywydd y cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Eluned Parrott i ofyn y cwestiwn brys.

14:26

Eluned Parrott [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr eiddo a brynwyd gan Lywodraeth Cymru i wneud lle i 'llwybr du' yr M4 cyn y gwnaed penderfyniad terfynol ar y llwybr?
EAQ(4)0477(EST)

Will the Minister make a statement on property purchases made by the Welsh Government to make way for the M4 'black route' before a final decision on the route was made? EAQ(4)0477(EST)

14:27

Edwina Hart [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Information about Welsh Government land purchase is in the public domain.

Mae gwybodaeth am drefniadau prynu tir Llywodraeth Cymru ar gael yn gyhoeddus.

14:27

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I think that actions speak louder than words and the public will wonder what the value of a public consultation was or, indeed, what the value of the forthcoming public inquiry is, if, behind the scenes, the Welsh Government was buying the land to make one specific route possible. In particular, they might wonder why, if the project was shelved by the One Wales Government, the then Minister for transport did not sell this land as being surplus to requirement back in 2009, but actually bought more. Do you not see that actively buying up the land for the black route for nearly a decade gives the public the impression that this road was a done deal and that their views counted for absolutely nothing? Does this not prejudice the decision-making process around the needs assessment and, indeed, the route selection for the M4?

Diolch i chi, Weinidog. Credaf ei bod yn well gwneud na dweud, a bydd y cyhoedd yn meddwl beth oedd gwerth ymgynghoriad cyhoeddus, neu, yn wir, beth yw gwerth yr ymchwiliad cyhoeddus sydd ar fin cael ei gynnal, os, y tu ôl i'r llenni, roedd Llywodraeth Cymru yn prynu tir i wneud un llwybr penodol yn bosibl. Yn arbennig, efallai y byddant yn meddwl tybed, pe byddai'r prosiect yn cael ei roi o'r neilltu gan Lywodraeth Cymru'n Un, pam na werthodd y Gweinidog trafniadaeth ar y pryd y tir hwn gan nad oedd ei angen yn ôl yn 2009, yn hytrach na phrynu mwy. Onid ydych chi'n gweld bod prynu tir yn weithredol ar gyfer y llwybr du am bron i ddegawd yn rhoi'r argraff i'r cyhoedd bod y ffordd hon wedi ei chytuno eisoes ac nad oedd eu barn yn golygu dim byd o gwbl? Onid yw hyn yn amharu ar y broses o wneud penderfyniadau am yr asesiad o anghenion ac, yn wir, y broses o ddewis llwybr ar gyfer yr M4?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not accept any of your assertions on that particular issue. Welsh Government land ownership does not influence the selection of a preferred route or corridor. On the land we own along the black route, some was acquired due to blights on properties, and other land, such as the LG site, was purchased for economic development reasons. It is appropriate to note that we have not purchased any property in the last three years in relation to the M4 black route.

Nid wyf yn derbyn unrhyw un o'ch honiadau ynghylch y mater penodol hwnnw. Nid yw perchnogaeth tir Llywodraeth Cymru yn dylanwadu ar y dewis o lwybr neu goridor a ffefrir. O ran y tir yr ydym ni'n berchen arno ar hyd y llwybr du, cafodd rhywfaint ohono ei gaffael o ganlyniad i falltod ar eiddo, a phrynwyd tir arall, fel safle LG, am resymau datblygu economaidd. Mae'n briodol nodi nad ydym wedi prynu unrhyw eiddo yn y tair blynedd diwethaf o ran llwybr du'r M4.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mater o dryloywder yw hyn, a methiant y Llywodraeth i fod yn agored ac yn feddwl agored sydd wedi arwain at y sefyllfa rydym ynddi rwan. Petai'r Llywodraeth wedi bod yn feddwl agored, wrth gwrs, mi fyddem yn gwybod eich bod wedi edrych ar bob opsiwn. O ran bod yn agored, mae wedi cymryd nifer o geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 inni ganfod rhai manylion am yr arian sydd wedi ei wario hyd yma, ac am bryniant tir ac ati.

This is a matter of transparency, and it is the Government's failure to be open and open-minded that has led us to the situation that we find ourselves in now. If the Government had been open-minded, then, of course, we would know that you had considered each and every option. In terms of being open and transparent, it has taken a number of freedom of information requests for us to actually find some details on some of the expenditure to date, and on land purchased and so on.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A wnaiff y Gweinidog roi addewid rwan i fod yn agored ac yn feddwl agored, ac i ddechrau efo dalen lân, a thrwy hynny roi'r addewid ei bod hi'n barod i werthu, yn ôl trefniadau arferol, y tir sydd wedi cael ei brynu ar hyd y llwybr du, pe bai hi'n gallu cael ei pherswadio bod opsiynau eraill ar gael?

Will the Minister give us a pledge now to be open and open-minded, and to start with a clean slate, and thereby give a pledge that she is willing to sell, according to the usual arrangements, the land that has been purchased on the black route, if she was to be persuaded that there were other options available?

14:29

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When properties are acquired, you see, it is at a fair market rate determined by the district valuer. When a property is acquired, wherever possible it is let to recover the funds for the Welsh purse, and, on the completion of a project, surplus land is then sold.

Pan fydd eiddo'n cael ei gaffael, rydych chi'n gweld, mae ar gyfradd farchnad deg a bennir gan y prisiwr dosbarth. Pan fydd eiddo'n cael ei gaffael, caiff ei osod i adennill y cyllid ar gyfer pwrs Cymru pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, ac, ar ôl cwblhau prosiect, caiff y tir sydd dros ben ei werthu wedyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am very open and transparent on these matters. I have already indicated our preference for the black route. I have already indicated that there will be a full environmental assessment, and I have also advised you that there is likely to be a public inquiry. What more can I say on this matter?

Rwy'n agored a thryloyw iawn ar y materion hyn. Rwyf eisoes wedi nodi ein bod yn ffafrio'r llwybr du. Rwyf eisoes wedi nodi y bydd asesiad amgylcheddol llawn yn cael ei gynnal, ac rwyf hefyd wedi eich hysbysu ei bod yn debygol y bydd ymchwiliad cyhoeddus. Beth arall allaf i ei ddweud ar y mater hwn?

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we hope you can save a little bit more on this matter, Minister, actually. [Laughter.] We have known for a while, of course, that the Welsh Government has owned an airport, but it seems that there is no limit to the properties that the Welsh Government owns and the reasons why you might want to own them.

May I ask you first about the property portfolio and the losses that have been sustained? I have a list of some of the properties here. One property near Magor was sold at a loss of over £115,000. There are other more modest losses, but losses nonetheless. A house at Nash—£23,000 was lost on that one. Who took the decision to sell these properties at this loss rate and do you think that that was a wise decision, Minister? Are there any more purchases or sales in the pipeline? I think that we have a need to know that.

On the issue of the M4 consultation, raised by Eluned Parrott, are you honestly asking us to accept that the ownership of the land along the black route was not a factor at all in the choice of that route? We find that difficult to believe and I think that the public would find that difficult to believe as well. Of course, the Welsh Government does not want to accept this because we know that you would then have to say that the consultation was a sham. Minister, we have asked you before why routes such as the blue route were not included within the original consultation. Do you not now accept that there are major holes in this whole process? The public are losing confidence, as Assembly Members clearly are. Will you now look again at this whole process and have a consultation that does what it says on the tin and does not just pay lip service to it?

Wel, rydym yn gobeithio y gallwch chi arbed ychydig mwy ar y mater hwn, Weinidog, a dweud y gwir. [Chwerthin.] Rydym ni wedi bod yn ymwybodol ers tro, wrth gwrs, bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn berchen ar faes awyr, ond mae'n ymddangos nad oes unrhyw derfyn i'r eiddo y mae Llywodraeth Cymru'n berchen arno a'r rhesymau pam efallai yr ydych chi eisiau bod yn berchen arno.

A gaf i ofyn i chi yn gyntaf am y portffolio eiddo a'r colledion a ddiodeffwyd? Mae gen i restr o rai o'r eiddo yma. Gwerthwyd un eiddo ger Magwyr ar goll o fwy na £115,000. Ceir colledion eraill mwy cymedrol, ond colledion serch hynny. Tŷ yn Nash—collwyd £23,000 ar hwnnw. Pwy wnaeth y penderfyniad i werthu'r eiddo hwn ar y gyfradd hon o golled ac a ydych chi'n meddwl bod hwnnw'n benderfyniad doeth, Weinidog? A oes unrhyw brynu neu werthu arall ar y gweill? Credaf fod angen i ni wybod hynny.

O ran mater ymgynghoriad yr M4, a godwyd gan Eluned Parrott, a ydych chi wir yn gofyn i ni dderbyn nad oedd perchnogaeth y tir ar hyd y llwybr du yn ffactor o gwbl yn y dewis o'r llwybr hwnnw? Rydym yn ei chael hi'n anodd credu hynny ac rwy'n credu y byddai'r cyhoedd yn ei chael hi'n anodd credu hynny hefyd. Wrth gwrs, nid yw Llywodraeth Cymru eisiau derbyn hyn gan ein bod yn gwybod y byddai'n rhaid i chi ddweud wedyn bod yr ymgynghoriad yn un ffug. Weinidog, rydym ni wedi gofyn i chi o'r blaen pam na chafodd llwybrau fel y llwybr glas eu cynnwys yn yr ymgynghoriad gwreiddiol. Onid ydych chi'n derbyn bellach bod yna dyllau mawr yn yr holl broses hon? Mae'r cyhoedd yn colli hyder, fel y mae Aelodau'r Cynulliad yn amlwg. A wnewch chi edrych ar yr holl broses hon eto nawr a chynnal ymgynghoriad sy'n gwneud yr hyn y mae'n ei ddweud ar y tun yn hytrach na dim ond esgus gwneud hynny?

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not pay lip service to anything at all. I am undertaking this properly and rigorously in terms of how I am undertaking this particular project. Some individuals in this Chamber might not like it; some individuals outside this Chamber might not like the proposal with regard to this. Very pleasingly, I was in a room last night in Swansea with business leaders who were very much in favour of the proposals that the Government was undertaking in respect of a relief M4 in the east of Wales.

I make it absolutely clear that Welsh Government land ownership does not influence the selection of a preferred route corridor. That is the end of the matter. You might not accept what I say, but I can truthfully tell you that that is what I believe absolutely the position to be. We have a long time to go on the decisions that are going to be made on this. As we know, we will not be making a decision until 2016, and I hope that, in future, when questions are asked on this, it is not on the back of the fact that there is a television programme on tonight.

Nid wyf yn esgus gwneud unrhyw beth o gwbl. Rwy'n gwneud hyn yn briodol ac yn drylwyr o ran sut rwy'n cynnal y prosiect penodol hwn. Efallai na fydd rhai unigolion yn y Siambr hon yn ei hoffi; efallai na fydd rhai unigolion y tu allan i'r Siambr hon yn hoffi'r cynnig yn hyn o beth. Yn bleserus iawn, roeddwn i mewn ystafell neithiwr yn Abertawe gydag arweinwyr busnes a oedd yn sicr o blaid y cynnigion yr oedd y Llywodraeth yn eu gwneud o ran ffordd liniaru'r M4 yn y dwyrain.

Rwy'n ei gwneud yn gwbl eglur nad yw perchnogaeth tir Llywodraeth Cymru yn dylanwadu ar y dewis o goridor llwybr a ffefrir. Dyna ddiwedd ar y mater. Efallai na fyddwch chi'n derbyn yr hyn rwy'n ei ddweud, ond gallaf ddweud wrthyh yn onest mai dyna'r hyn yr wyf yn ei gredu'n llwyr yw'r sefyllfa. Mae gennym amser hir i fynd o ran y penderfyniadau sy'n mynd i gael eu gwneud am hyn. Fel y gwyddom, ni fyddwn yn gwneud penderfyniad tan 2016, ac rwy'n gobeithio, yn y dyfodol, pan ofynnir cwestiynau am hyn, nad ydynt ar sail y ffaith bod yna raglen ar y teledu heno.

14:32 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, just so that any members of the public and any Assembly Members here can assess exactly how much of a conflict of interest there is in Welsh Government, could you tell us what property was bought along any of the other proposed routes that were consulted on?

Weinidog, dim ond fel y gall unrhyw aelod o'r cyhoedd ac unrhyw Aelodau o'r Cynulliad yma asesu'n union faint o wrthdaro buddiannau sydd yna yn Llywodraeth Cymru, a allech chi ddweud wrthym pa eiddo gafodd ei brynu ar hyd unrhyw un o'r llwybrau arfaethedig eraill yr ymgynghorwyd arnynt?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can we have a dose of reality when I answer this question? Whenever we do roads, bypasses or anything, there is always an issue of property that may have to be purchased. It is very interesting that I do not have questions on what I am doing on the Heads of the Valleys; I am not having a load of questions about what I am doing about extensions in north Wales. It is only on this issue. There is no conflict of interest on any of these particular matters. I cannot say what happened before I took over the portfolio; I know that I see all these deals now and sign them off. I do not know whether there was a delegation to officials previously on these matters and I am quite open about that, but as far as I am concerned, this matter has been dealt with properly.

A allwn ni gael dos o realiti pan fyddaf yn ateb y cwestiwn hwn? Pryd bynnag y byddwn ni'n gwneud ffyrdd, ffyrdd osgoi neu unrhyw beth, ceir mater o eiddo y gallai fod yn rhaid ei brynu bob amser. Mae'n ddiddorol iawn nad wyf yn cael cwestiynau ar yr hyn rwy'n ei wneud ar Flaenau'r Cymoedd; nid wyf yn cael llwyth o gwestiynau am yr hyn rwy'n ei wneud am estyniadau yn y gogledd. Dim ond ar y mater hwn. Nid oes unrhyw wrthdaro buddiannau ar unrhyw un o'r materion penodol hyn. Ni allaf ddweud beth ddigwyddodd cyn i mi gymryd y portffolio drosodd; rwy'n gwybod fy mod i'n gweld yr holl gytundebau hyn nawr ac yn eu cadarnhau. Nid wyf yn gwybod a oedd dirprwyaeth i swyddogion ar y materion hyn yn y gorffennol, ac rwy'n eithaf agored am hynny, ond hyd y gwn i, ymdriniwyd â'r mater hwn yn briodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Those of us who have lived with this problem on the M4 motorway for the last 25 to 30 years will remember that it was the subject of extensive consultation in the mid 1990s, when the purple route was chosen, and at that time, large areas of land were purchased. That is why I am hopeful that if the reference is accepted by the Wales Audit Office, it will record these matters, as is proper and correct. Also, some of the subsequent purchases by the previous Minister were in line with promoting economic development in the Newport area. Those lands are presently retained by the Assembly; the original land was purchased by central Government as part of the highways project. It would have been prudent and correct to have purchased that and there is no reason to suppose that any later decision is in any way prejudiced by earlier decisions to purchase. There were sales also. The line of the route has been broadly known for a long time—25 years.

Bydd y rhai ohonom sydd wedi byw gyda'r broblem hon ar draffordd yr M4 ers y 25 i 30 mlynedd diwethaf yn cofio ei fod yn destun ymgynghori helaeth yng nghanol y 1990au, pan ddewiswyd y llwybr porffor, ac ar y pryd, prynwyd darnau mawr o dir. Dyna pam rwy'n obeithiol, os caiff y cyfeiriad ei dderbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru, y bydd yn cofnodi'r materion hyn, fel sy'n briodol ac yn gywir. Hefyd, roedd rhai o'r achosion dilynol o brynu gan y Gweinidog blaenorol yn unol â hybu datblygiad economaidd yn ardal Casnewydd. Cedwir y tiroedd hynny gan y Cynulliad ar hyn o bryd; prynwyd y tir gwreiddiol gan y Llywodraeth ganolog yn rhan o'r prosiect priffyrdd. Byddai wedi bod yn ddoeth ac yn gywir i brynu hwnnw ac nid oes rheswm i dybio bod unrhyw benderfyniad diweddarach wedi ei ragfarnu mewn unrhyw ffordd gan benderfyniadau cynharach i brynu. Gwerthwyd tir hefyd. Mae llinell y llwybr wedi bod yn hysbys yn fras ers amser maith—25 mlynedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of the blue route, there was extensive consultation at the time on the southern distributor road and, again, the routes were known at that particular time. I have great sympathy with those who have purchased property blighted by roads of this kind, but the Minister will answer my question, I am sure—[Interruption.]

O ran y llwybr glas, cafwyd ymgynghoriad helaeth ar y pryd ar y ffordd ddosbarthu ddeheuol ac, unwaith eto, roedd y llwybrau'n hysbys ar yr adeg benodol honno. Mae gen i gydymdeimlad mawr â'r rhai sydd wedi prynu eiddo sydd wedi ei ddifetha gan ffyrdd o'r math hyn, ond bydd y Gweinidog yn ateb fy nghwestiwn, rwy'n siŵr—[Torri ar draws.]

14:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order.

Trefn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—that any of these particular land purchases were, first, historic, and secondly, were in order with present policy.

[Yn parhau.]—bod unrhyw un o'r achosion penodol hyn o brynu tir, yn gyntaf, yn hanesyddol, ac yn ail, yn cyd-fynd â pholisi presennol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:35	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Yes, they were historic and they were in order with present policy. That is absolutely correct. [Interruption.]	Oedden, roedden nhw'n hanesyddol ac yn cyd-fynd â pholisi presennol. Mae hynny'n hollol gywir. [Torri ar draws.]
14:35	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Shall we now move back to a serious approach to business this afternoon?	Beth am symud yn ôl i ddull difrifol o gyflawni busnes y prynhawn yma?
14:35	Datganiad a Chyhoeddiad Busnes	Business Statement and
	Announcement	Senedd.tv Fideo Video
	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	
	<i>Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business</i>	
	I have one change to report to this week's business. The Minister for Economy, Science and Transport will make a statement tomorrow, to update Members on the situation at Murco refinery in Milford Haven. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, available to Members electronically.	Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad yfory, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y sefyllfa ym mhurfa Murco yn Aberdaugleddau. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.
14:35	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I call for a single statement on carbon monoxide poisoning, ahead of Carbon Monoxide Awareness Week, which starts next Monday. You might be aware that the Carbon Monoxide Awareness charity has stated that too many of our collective constituents could be suffering the effects of chronic carbon monoxide poisoning without knowing it, and that the number of incidents over the last 21 months, in its experience, have been rising faster than it has ever known before. The charity wants us, collectively, to help it to prevent carbon monoxide from costing any other person, family, colleague, or loved one, their life or health, by working with it, to help it to educate those living in Wales—in all our constituencies and regions—about the danger of carbon monoxide, from all fuels. I would welcome a statement from the Welsh Government accordingly.	Galwaf am ddatganiad unigol ar wenwyn carbon monocsid, cyn Wythnos Ymwybyddiaeth o Garbon Monocsid, sy'n dechrau ddydd Llun nesaf. Efallai eich bod yn ymwybodol bod yr elusen Ymwybyddiaeth o Garbon Monocsid wedi datgan y gallai gormod o'n holl etholwyr fod yn ddioddef effeithiau gwenwyn carbon monocsid cronig heb yn wybod iddynt, a bod nifer y digwyddiadau yn ystod y 21 mis diwethaf, yn ôl ei brofiad, wedi bod yn codi'n gyflymach nag a welwyd erioed o'r blaen. Mae'r elusen yn dymuno i ni, ar y cyd, ei helpu i atal carbon monocsid rhag cymryd bywyd neu iechyd unrhyw unigolyn, teulu, cydweithiwr, neu anwylyd arall, trwy weithio â hi i'w helpu i addysgu'r rhai sy'n byw yng Nghymru—ym mhob un o'n hetholaethau a rhanbarthau—am berygl carbon monocsid, o bob tanwydd. Byddwn yn croesawu datganiad gan Lywodraeth Cymru yn unol â hynny.
14:36	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I would like to thank Mark Isherwood for drawing attention to Carbon Monoxide Awareness Week, next week. I will certainly consider the best way forward, in terms of a ministerial statement on this matter.	Hoffwn ddiolch i Mark Isherwood am dynnu sylw at Wythnos Ymwybyddiaeth o Garbon Monocsid, yr wythnos nesaf. Byddaf yn sicr yn ystyried y ffordd orau ymlaen, o ran datganiad gweinidogol ar y mater hwn.
14:36	Mike Hedges Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Toilets that are available to the public are very important, especially for the elderly, pregnant women and young children. May I ask for a statement on the success of the community toilet grant scheme, in making toilets available to the public?	Mae toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd yn bwysig iawn, yn enwedig ar gyfer yr henoed, menywod beichiog a phlant ifanc. A gaf i ofyn am ddatganiad ar lwyddiant y cynllun grant toiledau cymunedol, o ran sicrhau bod toiledau ar gael i'r cyhoedd?

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would also like to thank Mike Hedges for that important question. The Welsh Government's public facilities grant, which is important in terms of addressing this, ran from 2010 until March of this year. It provided local authorities with over £600,000 to pay local businesses to allow free public access. I think that it is important that local authorities should continue to support businesses. De-hypothecating this funding does not mean that they will stop recognising that this is key in terms of free public access to toilet facilities. Of course, it is very much part of making their town centres, particularly, open and accessible for local people and, indeed, for business.

Hoffwn ddiolch hefyd i Mike Hedges am y cwestiwn pwysig yna. Rhedodd grant cyfleusterau cyhoeddus Llywodraeth Cymru, sy'n bwysig o ran mynd i'r afael â hyn, o 2010 hyd at fis Mawrth eleni. Rhoddodd dros £600,000 i awdurdodau lleol i dalu busnesau lleol i ganiatáu mynediad am ddim i'r cyhoedd. Credaf ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn parhau i gefnogi busnesau. Nid yw dadneilltuo'r cyllid hwn yn golygu y byddant yn rhoi'r gorau i gydnabod bod hyn yn allweddol o ran mynediad am ddim i doiledau i'r cyhoedd. Wrth gwrs, mae'n rhan fawr o wneud canol eu trefi, yn arbennig, yn agored ac yn hygyrch i bobl leol ac, yn wir, i fusnesau.

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn gyntaf, diolch i'r Gweinidog am gadarnhau y bydd datganiad yfory am Murco—rwy'n edrych ymlaen at gylwed yr hanesion mwyaf diweddar yn y fan honno.

First, I thank the Minister for confirming that there will be a statement tomorrow on Murco—I look forward to receiving an update.

A gaf ofyn i'r Gweinidog, serch hynny, ystyried dau ddatganiad pellach posibl gan y Llywodraeth? Yn gyntaf, byddwch wedi gweld, Weinidog, dros y penwythnos, bod Lidl wedi gwneud penderfyniadau, neu ddatganiadau, anffodus, a dweud y lleiaf, ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg gan aelodau o'i staff. Mae hynny bellach wedi ei sortio, gan bod Comisiynydd y Gymraeg wedi bod yn glou iawn i drafod gyda Lidl, a chael cytundeb gyda'r cwmni. Fodd bynnag, yr hyn ddaeth o'r broblem honno oedd diffyg gwybodaeth gan gwmnïau o'r rhyddid i siarad Cymraeg yng Nghymru, wedi ei basio o dan y Mesur iaith. Yn wir, o farnu o Twitter, mae diffyg gwybodaeth gan rai Aelodau Cynulliad yn y lle hwn o'r gyfraith yng Nghymru hefyd.

May I ask the Minister, however, to consider two possible further Government statements? First, you will have seen, Minister, over the weekend, that Lidl made decisions, or statements, that were unfortunate, to say the least, about the use of the Welsh language by members of its staff. That has now been sorted, as the Welsh Language Commissioner was very quick to discuss the issue with Lidl, and secure agreement with the company. However, what we see from that problem is that companies do not know that people have the right to speak Welsh in Wales, as passed under the language Measure. Indeed, judging from Twitter, some Assembly Members in this place do not know that that is the law in Wales.

Felly, a oes modd cael datganiad gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am yr iaith Gymraeg—sef y Prif Weinidog, wrth gwrs—ynglŷn â pha waith mae'r Llywodraeth yn ei wneud i hyrwyddo'r rhan hon o'r Mesur? Nid yw'r rhan hon yn ddibynnol ar safonau iaith, nac yn ddibynnol ar bethau eraill; mae'n ddibynnol ar i'r Llywodraeth fod yn glir ynglŷn â'r gyfraith yng Nghymru, a'r rhyddid sydd gan bob un yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.

So, is it possible to have a statement by the Minister responsible for the language—the First Minister, of course—about what the Government is doing to promote this part of the Measure? This part is not dependent on language standards, and is not dependent on other things; it is dependent on the Government being clear about the law in Wales, and the freedom that everyone in Wales has to use the Welsh language with each other.

Yr ail beth yr hoffwn ofyn i'r Llywodraeth ei ystyried, yn dilyn y drafodaeth a gawsom yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog ynglŷn â llifogydd, yw'r llifogydd ddydd Gwener yn Aberteifi—fel mae Elin Jones newydd sôn amdano—ac yn Llandudoch, yr ochr arall i'r aber, hefyd. Roedd y llifogydd, rwy'n meddwl, wedi eu hachosi gan ddŵr arwyneb, yn hytrach na dŵr yn dod gyda'r afon a llanw uchel. Oherwydd hynny, doedd dim o'r rhybuddion arferol gan Gyfoeth Naturiol Cymru, felly, roeddent dipyn bach yn annisgwyl i'r trigolion. Er bod cyfarfodydd cyhoeddus yn digwydd yn lleol, ac rwy'n gobeithio bod un yn Llandudoch, byddai'n fuddiol iawn i'r Llywodraeth hefyd weld beth arall y gallem ei wneud i wella'r ffordd rydym yn darogan ac yn rhoi rhybudd i bobl pan mae glaw trwm yn disgyn fel hyn ac, wrth gwrs, sut y gallem wahaniaethu rhwng y dŵr gwastraff o'r glaw a'r dŵr brwnt sy'n dod o'r tai a'r busnesau.

The second thing that I would like to ask the Government to consider, following the discussion that we had during questions to the First Minister about floods, is the flooding seen on Friday in Cardigan—as Elin Jones has just mentioned—and in St Dogmaels, on the other side of the estuary. Those floods were, I think, caused by surface water, rather than water carried by the river and a high tide. As a result, there were none of the usual warnings from Natural Resources Wales, so the floods were a little unexpected for the residents. Although there are public meetings locally, and I hope that there will be one in St Dogmaels, it would be very useful for the Government to see what else we could do to improve how we predict these things and warn people of such heavy rain and, of course, how to distinguish between waste water from the rain and dirty water coming out of the houses and businesses.

14:40

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for those questions and I am glad that the Minister is able to bring forward an update tomorrow on the situation at the Murco refinery in Milford Haven. I particularly welcome those other two points that you have made in questioning the business statement, because, clearly, the situation that arose with Lidl demonstrates the importance of the vigilance of the language commissioner. It is something that I will now discuss with the First Minister in terms of how we can ensure that there is clarity relating to our Measure on these matters and how we can make it very clear to business. This, of course, was as a result of the unfortunate situation that occurred and was rectified as a result of that vigilance.

Simon Thomas, you are right—it has already been reflected this afternoon—that surface water can cause great damage and it can be very sudden and unpredicted, as we have said. This is a matter for the Minister to clarify with Natural Resources Wales, looking at meteorological predictions, forewarning, forecasting and how this can be handled in terms of the damage and impact, some of which will be dealt with through insurance claims.

Diolch i'r Aelod am y cwestiynau yna ac rwy'n falch bod y Gweinidog yn gallu cyflwyno diweddariad yfory ar y sefyllfa ym mhurfa Murco yn Aberdaugleddau. Croesawaf yn arbennig y ddau bwynt arall yr ydych chi wedi eu gwneud wrth gwestiynu'r datganiad busnes, oherwydd, yn amlwg, mae'r sefyllfa a gododd gyda Lidl yn dangos pwysigrwydd gwyliadwriaeth y comisiynydd iaith. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ei drafod gyda'r Prif Weinidog nawr o ran sut y gallwn sicrhau bod eglurder o ran ein Mesur ar y materion hyn a sut y gallwn ei gwneud yn eglur iawn i fusnesau. Roedd hyn, wrth gwrs, o ganlyniad i'r sefyllfa anffodus a ddigwyddodd c a gafodd ei datrys o ganlyniad i'r wyladwriaeth honno.

Simon Thomas, rydych chi'n iawn—fe'i hadlewyrchwyd eisoes y prynhawn yma—y gall dŵr ar yr wyneb achosi difrod mawr a gall fod yn sydyn ac yn annisgwyl iawn, fel yr ydym ni wedi ei ddweud. Mater i'r Gweinidog ei egluro gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yw hwn, gan edrych ar ragfynegiadau meteorolegol, rhybudd ymlaen llaw, darogan a sut y gellir ymdrin â hyn o ran y difrod ac effaith, a bydd rhan ohono yn cael ei ddatrys drwy hawliadau yswiriant.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, many of my constituents feel that the community hospital in Ystradgynlais is being under-used and there is lots more that the hospital could do to treat people more locally and to take pressure off Morriston Hospital in Swansea. The recent report into health services for mid Wales called on the Government to reinvigorate and have a new vision for the network of community hospitals. Could you ask the Minister for Health and Social Services whether he is prepared to make a written statement about what he sees as the role of community hospitals, going forward, and how services can be repatriated from district general hospitals to community facilities, which would be beneficial to patients and free up pressure on often very busy district general hospitals?

Weinidog, mae llawer o'm hetholwyr yn teimlo nad oes digon o ddefnydd ar yr ysbyty yn Ystradgynlais a bod llawer mwy y gallai'r ysbyty ei wneud i drin pobl yn fwy lleol ac i gymryd pwysau oddi ar Ysbyty Treforys yn Abertawe. Galwodd yr adroddiad diweddar ar wasanaethau iechyd ar gyfer y canolbarth ar y Llywodraeth i adfywio a chreu gweledigaeth newydd ar gyfer y rhwydwaith o ysbytai cymunedol. A allech chi ofyn i'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a yw'n barod i wneud datganiad ysgrifenedig ar yr hyn y mae'n ei ystyried yw swyddogaeth ysbytai cymunedol, yn y dyfodol, a sut y gellir ail-neilltuo gwasanaethau o ysbytai cyffredinol dosbarth i gyfleusterau cymunedol, a fyddai o fudd i gleifion ac yn lleddfu'r pwysau ar ysbytai cyffredinol dosbarth sy'n aml yn brysur iawn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Kirsty Williams for that question. Of course, having visited the community hospital in Ystradgynlais many times myself, as have all Ministers for health, we recognise the importance of not just that hospital in your constituency in Powys but the network of community hospitals and the role they can play to alleviate pressure on district general hospitals. Certainly, the Minister will consider the best way to respond to that in terms of the role of community hospitals.

Diolchaf i Kirsty Williams am y cwestiwn yna. Wrth gwrs, ar ôl ymweld â'r ysbyty cymunedol yn Ystradgynlais sawl gwaith fy hun, fel y mae pob Gweinidog iechyd wedi ei wneud, rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr ysbyty hwnnw yn eich etholaeth ym Mhowys yn ogystal â'r rhwydwaith o ysbytai cymunedol a'r swyddogaeth y gallant ei chyflawni i leddfu pwysau ar ysbytai cyffredinol dosbarth. Yn sicr, bydd y Gweinidog yn ystyried y ffordd orau o ymateb i hynny o ran swyddogaeth ysbytai cymunedol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On Friday, I was pleased to host a meeting in the Assembly with Tibetan young people who were involved in the Tibet exchange programme. They were thrilled at our model of devolution with its bilingual nature and the Senedd building. One of the issues discussed was whether the model of devolution in Wales was one that might be of use to the Tibetan community in its struggle in China. Do you think there is scope in having a debate about how our experience of devolution could help countries like Tibet?

Roeddwn yn falch ddydd Gwener o gynnal cyfarfod yn y Cynulliad gyda phobl ifanc o Dibet a oedd yn cymryd rhan yn rhaglen gyfnewid Tibet. Roeddent wrth eu boddau gyda'n model o ddatganoli â'i natur ddwyieithog ac adeilad y Senedd. Un o'r materion a drafodwyd oedd a yw'r model o ddatganoli yng Nghymru yn un a allai fod o ddefnydd i'r gymuned Dibetaidd yn ei brwydr yn Tsieina. A ydych chi'n meddwl bod lle i gael trafodaeth am sut y gallai ein profiad ni o ddatganoli helpu gwledydd fel Tibet?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:43 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Julie Morgan for that question. Of course, we have many visitors and many exchange visits showing a great deal of interest in our model of devolution as it is developing. Certainly, we can look at this in terms of the nature of such a debate, the opportunities it would provide to share more widely the lessons that can be learned from the way we work and in terms of exchange visits, to learn from the experiences of countries like Tibet.
- Diolchaf i Julie Morgan am y cwestiwn yna. Wrth gwrs, rydym yn cael llawer o ymwelwyr a llawer o ymweliadau cyfnewid sy'n dangos llawer iawn o ddi-ddordeb yn ein model o ddatganoli wrth iddo ddatblygu. Yn sicr, gallwn edrych ar hyn o safbwynt natur dadl o'r fath, y cyfleoedd y byddai'n eu cynnig i rannu'n ehangach y gwersi y gellir eu dysgu o'r ffordd yr ydym ni'n gweithio, ac o ran ymweliadau cyfnewid, i ddysgu o brofiadau gwledydd fel Tibet.
- 14:44 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, mae nifer o Aelodau wedi cyfeirio eisoes at adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 'Lle i'w Alw'n Gartref?' Mae nifer o bryderon ynghylch polisiau cenedlaethol a pholisiau llywodraeth leol. A fyddai'r Llywodraeth yn barod i nodi amser er mwyn inni gael trafod y pryderon hyn sy'n codi yng Nghymru ynghylch cartrefi henoed?
- Minister, a number of Members have already referred to the report of the Older People's Commissioner for Wales, 'A Place to Call Home?' There are a number of concerns about national policies and local government policies. Would the Government be prepared to make time available so that we can discuss concerns arising in Wales about homes for the elderly?
- 14:45 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I know that the older people's commissioner's report is welcomed. It sets out very strong examples of excellent care in homes across Wales. In fact, I heard examples of that yesterday, in terms of the response from people who are also experiencing that excellent care. It is important to look at the proposals, in terms of the recommendations, in terms of the challenging messages on quality of care from the older people's commissioner. That report will be considered very carefully, and we will reply to the specific points raised in due course.
- Wel, rwy'n gwybod bod adroddiad y comisiynydd pobl hŷn yn cael ei groesawu. Mae'n nodi enghreifftiau cryf iawn o ofal rhagorol mewn cartrefi ledled Cymru. A dweud y gwir, clywais enghreifftiau o hynny ddoe, o ran yr ymateb gan bobl sydd hefyd yn cael profiad o'r gofal rhagorol hwnnw. Mae'n bwysig edrych ar y cynigion, o ran yr argymhellion, o ran y negeseuon heriol ar ansawdd y gofal gan y comisiynydd pobl hŷn. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei ystyried yn ofalus iawn, a byddwn yn ymateb i'r pwyntiau penodol a godwyd yn y man.
- 14:45 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I also wanted to ask for a debate in Government time on the older people's commissioner's report, which was published yesterday. For me, while it certainly makes for very uncomfortable reading in places, it is a landmark report and one that, I think, we should all be looking to learn from. I hear what you are saying about us all needing to take time to consider what is a wide-ranging and detailed report, but once that has been done, I believe that this Assembly should be at the forefront of a national conversation on standards in residential care in Wales. Of course, reports are not in themselves a silver bullet, but we have seen the 'Dignified Care?' report lead to real change in terms of practice and delivery, and I hope that we will see this report as a similar opportunity to drive long-overdue change in the residential care sector in Wales.
- Roeddwn innau hefyd eisiau gofyn am ddatl am amser y Llywodraeth ar adroddiad y comisiynydd pobl hŷn, a gyhoeddwyd ddoe. I mi, er ei fod yn sicr yn anghyfforddus i'w ddarllen mewn manau, mae'n adroddiad pwysig ac yn un, rwy'n credu, y dylem i gyd fod yn edrych i ddysgu oddi wrtho. Rwy'n deall yr hyn yr ydych chi'n ei ddweud o ran yr angen i bob un ohonom gymryd amser i ystyried adroddiad sy'n eang ac yn fanwl, ond ar ôl gwneud hynny, rwy'n credu y dylai'r Cynulliad hwn fod ar flaen y gad o ran sgwrs genedlaethol ar safonau gofal preswyl yng Nghymru. Wrth gwrs, nid yw adroddiadau ynddynt eu hunain yn ateb syml, ond rydym ni wedi gweld adroddiad 'Gofal Gydag Urddas?' yn arwain at newid gwirioneddol o ran ymarfer a darpariaeth, ac rwy'n gobeithio y byddwn yn gweld yr adroddiad hwn fel cyfle tebyg i sbarduno newid y bu ei angen ers talwm yn y sector gofal preswyl yng Nghymru.
- 14:46 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Lynne Neagle also makes very important points in acknowledgment of the older people's commissioner's report. I also think that the commissioner's report reinforces many of the messages set out in the chief inspector of care and social services' annual report. We, of course, had the White Paper last year, in terms of proposals to strengthen regulation and inspection of social services. Of course, many of the reforms that we are introducing will deliver the improvements that the older people's commissioner is recommending. I think that this will result in more than one debate on the older people's commissioner's report.
- Mae Lynne Neagle yn gwneud pwyntiau pwysig iawn hefyd wrth gydnabod adroddiad y comisiynydd pobl hŷn. Rwyf hefyd yn credu bod adroddiad y comisiynydd yn atgyfnerthu llawer o'r negeseuon a nodir yn adroddiad blynyddol y prif arolygydd gofal a gwasanaethau cymdeithasol. Cawsom, wrth gwrs, y Papur Gwyn y llynedd, o ran y cynigion i gryfhau rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau cymdeithasol. Wrth gwrs, mae llawer o'r diwygiadau yr ydym ni'n eu cyflwyno yn sicrhau'r gwelliannau y mae'r comisiynydd pobl hŷn yn eu hargymhell. Rwy'n credu y bydd hyn yn arwain at fwy nag un ddatl ar adroddiad y comisiynydd pobl hŷn.

14:47

Datganiad: Diweddariad ar Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer 2014-2020

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move on to the statement by the Minister for Finance and Government Business on the update on the 2014-2020 European structural funds.

Statement: Update on 2014-2020 European Structural Fund Programmes

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Symudwn nawr at y datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar y wybodaeth ddiweddaraf am gronfeydd strwythurol Ewropeaidd 2014-2020.

14:47

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

My written statement on the 2014-2020 European structural funds, issued last month, confirmed that the UK partnership agreement was approved on 29 October. Today, I am pleased to update Members on progress in agreeing our 2014 structural fund programmes with the European Commission. Intense and prolonged negotiations between the Commission and the UK Government led to the October announcement, and this signalled confirmation of the Commission's approval of the UK's financial allocations for 2014-2020 and now paves the way for all four Welsh structural fund programmes to be agreed. I expect this to happen very shortly, which will make them the first programmes in the UK—and among the front-runners in Europe—to be approved, marking a considerable achievement for the Welsh Government and our partners.

Structural funds are worth around £2 billion to Wales over the period 2014-2020, with some £1.6 billion allocated to west Wales and the Valleys, and over £325 million to east Wales. This package, together with match funding, will drive a total investment of some £2.9 billion and will help us to deliver on our shared goals across Government for sustainable economic growth and jobs. It is clear that these new programme investments must focus on impact and results to achieve a step change to our economy. This is in line with the Commission's expectations, and means that their approval will mean that our programmes will be focused on investments in research and innovation, SME competitiveness, renewable energy and energy efficiency, connectivity and urban development, tackling poverty through sustainable employment, and skills and youth employment and attainment.

As our negotiations draw to a close, I want to pay tribute to the positive and proactive way that the Commission has been prepared to engage with us on an informal basis before the UK partnership agreement was submitted in April. This has allowed us to set out our plans early on and to adapt and respond to the Commission's feedback, while we have been awaiting the approval of the UK partnership agreement. I am pleased to say that we are very close to securing all of our key negotiating objectives and investment priorities, as identified and developed with our partners.

Roedd fy natganiad ysgrifenedig ar gronfeydd strwythurol Ewropeaidd 2014-2020, a gyhoeddwyd y mis diwethaf, yn cadarnhau y cafodd cytundeb partneriaeth y DU ei gymeradwyo ar 29 Hydref. Heddiw, rwyf yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd o ran cytuno ar raglenni cronfeydd strwythurol 2014 â'r Comisiwn Ewropeaidd. Bu trafodaethau dwys a hirfaith rhwng y Comisiwn a Llywodraeth y DU cyn y cyhoeddiad ym mis Hydref, ac roedd hyn yn gadarnhad o gymeradwyaeth y Comisiwn i ddyraniadau ariannol y DU ar gyfer 2014-2020 ac mae'n awr yn paratoi'r ffordd i gytuno ar bob un o bedair rhaglen cronfeydd strwythurol Cymru. Rwyf yn disgwyl i hyn ddigwydd yn fuan iawn, a bydd hynny'n golygu mai hwy fydd y rhaglenni cyntaf yn y DU—a rhai o'r cyntaf yn Ewrop—i gael eu cymeradwyo, sy'n gryn lwyddiant i Lywodraeth Cymru a'n partneriaid.

Mae'r cronfeydd strwythurol yn werth tua £2 biliwn i Gymru dros y cyfnod 2014-2020, gyda thua £1.6 biliwn wedi'i ddyrannu i orllewin Cymru a'r Cymoedd, a thros £325 miliwn i ddwyrain Cymru. Bydd y pecyn hwn, ynghyd ag arian cyfatebol, yn ysgogi cyfanswm buddsoddiad o ryw £2.9 biliwn a bydd o gymorth i ni i gyflawni ein nodau a rennir ar draws y Llywodraeth ar gyfer twf economaidd cynaliadwy a swyddi. Mae'n amlwg bod yn rhaid i fuddsoddiadau newydd y rhaglenni ganolbwyntio ar effaith a chanlyniadau er mwyn sicrhau newid sylweddol i'n heconomi. Mae hyn yn unol â disgwyliadau'r Comisiwn, ac yn golygu y bydd eu cymeradwyo'n golygu y bydd ein rhaglenni'n canolbwyntio ar fuddsoddi mewn ymchwil ac arloesi, cystadleurwydd busnesau bach a chanolig, ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni, cysylltedd a datblygu trefol, trechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy, a sgiliau a chyflogaeth a chyrhaeddiad pobl ifanc.

Wrth i'n trafodaethau dynnu tua'r terfyn, rwyf am dalu teyrnged i'r ffordd gadarnhaol a rhagweithiol y mae'r Comisiwn wedi bod yn barod i ymgysylltu â ni'n anffurfiol cyn i gytundeb partneriaeth y DU gael ei gyflwyno ym mis Ebrill. Mae hyn wedi ein galluogi i nodi ein cynlluniau'n gynnar ac i addasu ac i ymateb i adborth y Comisiwn, tra buom yn aros am gymeradwyaeth i gytundeb partneriaeth y DU. Rwyf yn falch o ddweud ein bod yn agos iawn at sicrhau pob un o'n hamcanion negodi a'n blaenoriaethau buddsoddi allweddol, fel y'u nodwyd ac y'u datblygwyd gyda'n partneriaid.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

This should result in: a significant increase in funding for research and innovation and SME competitiveness, including business finance; the maintenance of investment in transport at current levels, including scope to support transformational public transport investments such as the metro in the Cardiff capital city region, and improvements to strategic road networks in west and north Wales; a significant increase in funding for investments in renewable energy and energy efficiency, with a particular focus on marine energy; securing our plans to link at least 20% of ESF funds to tackling poverty through supporting people into sustainable employment and the inclusion of tackling poverty as a new cross-cutting theme across all European regional development fund and ESF programme priorities; the introduction of a youth employment priority in both the west Wales and the Valleys and the east Wales programmes to help to tackle high levels of youth unemployment, reduce the number not in education, employment or training, and to provide support for early years; securing a significant increase in EU intervention rates, which will reduce programme match-funding requirements in the future for both the Welsh Government and our partners; and greater simplification and integration of our programme implementation arrangements, including the introduction of simplified costs to help lighten the burden on beneficiaries, by shifting the focus from demonstrating spending to a more results-orientated system.

The new programmes will build on our EU funds achievements so far, where current EU projects led by the public, private and third sectors have supported some 187,500 people to gain qualifications, over 60,000 people into work and over 45,000 into further learning, and created over 10,400 enterprises and over 30,100 jobs. Yesterday, I visited the EU-funded Pontypridd railway station to see at first hand the improvements being made to station and passenger facilities and connections with other transport modes. Improvements have been made to the station as part of the £39 million EU-backed national stations improvement programme. This has been made possible with £21 million of EU funds, with stations across Wales benefiting from the scheme.

Structural funds will be able to play their part in helping the people and communities affected by the disappointing situation with the Murco oil refinery in Milford Haven. Structural funds can be used to support those seeking new employment opportunities, including through up-skilling and retraining schemes, and business start-up support, while also contributing to the broader economic development of the region.

Dylai hyn arwain at: gynydd sylweddol yn y cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi a chystadleurwydd busnesau bach a chanolog, gan gynnwys cyllid busnes; cynnal lefelau presennol y buddsoddiad mewn trafndiaeth, gan gynnwys cyfle i gefnogi buddsoddiadau i drawsnewid trafndiaeth gyhoeddus megis y metro ym mhrifddinas-ranbarth Caerdydd, a gwelliannau i rwydweithiau ffyrdd strategol yn y gorllewin a'r gogledd; cynnydd sylweddol yn y cyllid ar gyfer buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ynni morol; sicrhau ein cynlluniau i gysylltu o leiaf 20% o arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop â threchu tlodi drwy helpu pobl i gael swyddi cynaliadwy a chynnwys trechu tlodi fel thema drawsbynciol newydd ar draws blaenoriaethau pob un o raglenni cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop; cyflwyno blaenoriaeth cyflogaeth ieuenticid yn rhaglenni gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac yn rhaglenni dwyrain Cymru i helpu i ymddrin â lefelau uchel o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, lleihau'r niferoedd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a darparu cefnogaeth i'r blynyddoedd cynnar; sicrhau cynnydd sylweddol yng nghyfraddau ymyrraeth yr UE, a fydd yn lleihau gofynion arian cyfatebol y rhaglenni yn y dyfodol i Lywodraeth Cymru ac i'n partneriaid; a gwneud mwy i symleiddio ac integreiddio trefniadau gweithredu'r rhaglenni, gan gynnwys cyflwyno costau symlach er mwyn helpu i ysgafnhau'r baich ar fuddiolwyr, drwy symud y pwyslais oddi ar ddangos gwariant i system sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau.

Bydd y rhaglenni newydd yn adeiladu ar ein cyflawniadau ag arian yr UE hyd yma, lle mae prosiectau cyfredol yr UE a arweinir gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector wedi cynorthwyo tua 187,500 o bobl i ennill cymwysterau, dros 60,000 o bobl i gael gwaith a thros 45,000 i mewn i ddyysgu pellach, ac wedi creu dros 10,400 o fentrau a thros 30,100 o swyddi. Ddoe, bûm yn ymweld â gorsaf reilffordd Pontypridd a ariannwyd gan yr UE i weld drosof fy hun y gwelliannau sy'n cael eu gwneud i gyfleusterau'r orsaf a'r cyfleusterau i deithwyr a chysylltiadau â mathau eraill o drafndiaeth. Gwnaed gwelliannau i'r orsaf fel rhan o'r rhaglen genedlaethol sy'n werth £39 miliwn i wella gorsafoedd, a gefnogir gan yr UE. Mae hyn wedi bod yn bosibl gyda £21 miliwn o arian yr UE, ac mae gorsafoedd ledled Cymru wedi elwa ar y cynllun.

Bydd y cronfeydd strwythurol yn gallu chwarae eu rhan i helpu'r bobl a'r cymunedau y mae sefyllfa siomedig purfa olew Murco yn Aberdaugleddau'n effeithio arnynt. Gellir defnyddio cronfeydd strwythurol i gefnogi pobl sy'n chwilio am gyfleoedd cyflogaeth newydd, gan gynnwys drwy gynlluniau ailhyfforddi ac uwchsgilio, a chymorth dechrau busnes, a chyfrannu ar yr un pryd at ddatblygiad economaidd ehangach y rhanbarth.

So that EU funds continue to make a real impact on businesses, people and communities across Wales, we will fully embrace the Commission's principles of concentration, integration, simplification and results orientation, all of which feature strongly in our discussions and consultations with our partners in the development of the new programmes. With integration a key driving principle, the rural development programme is under formal consideration by the Commission, with approval expected in early 2015. This will be followed by the new Ireland-Wales programme, which, over the last 20 years, has helped to build very effective relationships and created significant benefits for Irish and Welsh communities. On Friday, I will be meeting colleagues at Dublin castle to celebrate 20 years of successful co-operation and to hear at first hand from some of those who have benefited from this important programme in Ireland and Wales.

Synergies and links between structural funds and other EU funding programmes managed directly by the Commission are also very important. Following Assembly Committee report recommendations on these other EU programmes, I am pleased to announce that I am in the process of establishing a panel of three EU funding ambassadors to help us to enhance identification and exploitation of opportunities presented by these programmes, and to increase their profile in Wales. I will update Members on the panel later this month.

The impending approval of the new structural fund programmes represents a tremendous achievement. We are well placed to make an early start to deliver in terms of a number of strategic interventions in the form of backbone projects already under active consideration by the Welsh European Funding Office. I aim to announce the first project approvals next month, as soon as the Wales programme monitoring committee, which has been meeting in shadow form since last December, is formally constituted and adopts the criteria for the selection of projects for funds.

To conclude, I would like to take this opportunity to thank the European Commission, the Welsh European Funding Office and Welsh partners for their role in the development and negotiation of the new programmes. I particularly look forward to sharing with Welsh partners in the public, private and third sectors the official launch of this significant new phase of EU funds at events in north and south Wales later this month. It is significant because, working closely with our partners, this Government will ensure that vital EU funds deliver the economic and social change that our businesses, young people and communities need. The new structural funds programmes are clear evidence of how Welsh citizens and businesses will continue to benefit from our membership of the EU. As Sir Mike Rake, president of the Confederation of British Industry, said yesterday, membership of a reformed EU is overwhelmingly in the UK's national interest. I cannot agree more.

I will issue a written statement to Members as soon as the programmes have been officially approved by the Commission.

Er mwyn i arian yr UE barhau i gael effaith wirioneddol ar fusnesau, pobl a chymunedau ledled Cymru, byddwn yn coffleiddio'n llawn egwyddorion y Comisiwn o grynhoi, integreiddio, symleiddio a chanolbwyntio ar ganlyniadau; mae pob un o'r rhain yn nodweddion cryf yn ein trafodaethau a'n hymgynghoriadau â'n partneriaid ynglŷn â datblygu'r rhaglenni newydd. Mae integreiddio'n un o'r egwyddorion allweddol sy'n gyrru hyn, ac mae'r rhaglen datblygu gwledig yn cael ei hystyried yn ffurfiol gan y Comisiwn, a disgwylir cymeradwyaeth yn gynnar yn 2015. Yn dilyn hynny bydd rhaglen newydd Iwerddon-Cymru, sydd, dros yr 20 mlynedd diwethaf, wedi helpu i feithrin perthynas effeithiol iawn a chreu manteision sylweddol i gymunedau Iwerddon a Chymru. Ddydd Gwener, byddaf yn cwrrd â chydweithwyr yng nghastell Dilyn i ddathlu 20 mlynedd o gydweithio llwyddiannus ac i glywed yn uniongyrchol gan rai o'r bobl sydd wedi elwa ar y rhaglen bwysig hon yn Iwerddon a Chymru.

Mae synergeddau a chysylltiadau rhwng cronfeydd strwythurol a rhaglenni ariannu eraill yr UE a reolir yn uniongyrchol gan y Comisiwn hefyd yn bwysig iawn. Yn sgil argymhellion adroddiad Pwyllgor y Cynulliad ar y rhaglenni eraill yr UE, rwyf yn falch o gyhoeddi fy mod wrthi'n sefydlu panel o dri llysgennad cyllid yr UE i'n helpu i nodi'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y rhaglenni hyn a manteisio arnynt yn well, ac i gynyddu eu proffil yng Nghymru. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y panel i'r Aelodau'n nes ymlaen y mis hwn.

Mae'r gymeradwyaeth sydd ar ddod i raglenni newydd y cronfeydd strwythurol yn llwyddiant aruthrol. Rydym mewn sefyllfa dda i fynd ati'n gynnar i roi nifer o ymyriadau strategol ar waith ar ffurf prosiectau asgwrn cefn sydd eisoes yn cael eu hystyried gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Fy nod yw cyhoeddi'r cymeradwyaethau cyntaf i'r prosiectau hyn y mis nesaf, cyn gynted ag y bydd pwyllgor monitro rhaglenni Cymru, sydd wedi bod yn cwrrd ar ffurf gysgodol ers mis Rhagfyr diwethaf, wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol ac wedi mabwysiadu'r meini prawf ar gyfer dewis y prosiectau a fydd yn cael cyllid.

I gloi, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Comisiwn Ewropeaidd, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a phartneriaid yng Nghymru am eu cyfraniad i ddatblygu a negodi'r rhaglenni newydd. Rwyf yn edrych ymlaen yn arbennig at rannu â phartneriaid yng Nghymru yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector lansiad swyddogol y cyfnod newydd pwysig hwn o ran cronfeydd yr UE mewn digwyddiadau yn y gogledd a'r de yn nes ymlaen y mis hwn. Mae'n arwyddocaol oherwydd, drwy gydweithio'n agos â'n partneriaid, bydd y Llywodraeth hon yn sicrhau bod arian hollbwysig yr UE yn sicrhau'r newid economaidd a chymdeithasol sydd ei angen ar ein busnesau, ein pobl ifanc a'n cymunedau. Mae rhaglenni newydd y cronfeydd strwythurol yn dystiolaeth glir o'r ffordd y bydd dinasyddion a busnesau Cymru'n parhau i elwa ar ein haelodaeth o'r UE. Fel y dywedodd Syr Mike Rake, llywydd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, ddoe, mae o fudd cenedlaethol aruthrol i'r DU fod yn aelod o Undeb Ewropeaidd diwygiedig. Rwyf yn cytuno'n llwyr.

Byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig i'r Aelodau cyn gynted ag y mae'r Comisiwn wedi cymeradwyo'r rhaglenni'n swyddogol.

I thank the Minister for the statement today; I am sure you will enjoy your celebrations at Dublin castle when you are there, and that you will have a lot to talk about.

You have already patted yourself on the back, Minister, for your programmes being the first in the UK to be approved, so I will not do that, but I hope that the old adage 'More haste, less speed' does not apply in this case. In any case, we will give you the benefit of the doubt for now.

You also pay tribute to the work of the Commissioners. I am sure that you would also like to pay tribute to the Assembly clerks. When I sat on the Enterprise and Business Committee, we put together the 'EU funding opportunities 2014-2020' report, which I am sure has been close to your side during the negotiations.

How close are you to securing your objectives? I have looked through the list of objectives that you provided just before you started speaking, and I am sure that we would not take issue with any of those; those would be my objectives as well. The increase in funding for research and innovation, which you mentioned, is a key hoop that the Welsh Government has to jump through in order to access future rounds of EU structural funds—certainly this coming round of structural funds. The days when money could be thrown at a problem by Brussels, in the hope that some of the money would help, are, as we know, long gone. But, we do know that the Welsh Government has not been that good in the past at making the most of structural funds. So, what are you doing to make sure that this next round of structural funds will not just be accessed by the Welsh Government, but will also be spent in a way that develops the economy in a sustainable way, because sustainability is, as I am sure you would agree, key?

You mentioned the Cardiff city region and, again, it all sounds great—of course you need a proper transport system to back the Cardiff city region. Of course, the metro is a very exciting project. You will be aware that some concerns have been raised in recent months over the metro and whether the chosen heavy rail system is the right one, or whether a tram-type, light-rail system would have been better. You mention in your statement that there is scope to access EU funding opportunities in order to bolster the metro and the economic benefits of that. Could you tell us a little more about that?

The European Investment Bank has been a key tool used by other countries over recent years to develop transport infrastructure. Welsh Government, again, has not had a great track record of delivering on major transport schemes and accessing money from the EIB. How are you making sure that your discussions with the EIB are good?

Diolch i'r Gweinidog am y datganiad heddiw; rwyf yn siŵr y gwnewch fwynhau eich dathliadau yng nghastell Dilyn pan fyddwch yno, ac y bydd gennych lawer i siarad amdano.

Rydych eisoes wedi eich llongyfarch eich hun, Weinidog, am mai eich rhaglenni chi fydd y rhai cyntaf yn y DU i gael eu cymeradwyo, felly ni wnaaf finnau hynny, ond rwyf yn gobeithio na fydd yr hen ddywediad 'mwyaf'r brys, mwyaf'r rhwystr' yn berthnasol yn yr achos hwn. Beth bynnag, rhown fantais yr amheuaeth ichi am y tro.

Rydych hefyd yn talu teyrnged i waith y Comisiynwyr. Rwyf yn siŵr y byddech hefyd am dalu teyrnged i glercod y Cynulliad. Pan oeddwn yn eistedd ar y Pwyllgor Menter a Busnes, buom yn llunio'r adroddiad 'Cyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020', ac rwyf yn siŵr bod hwnnw wedi bod wrth eich ochr yn ystod y trafodaethau.

Pa mor agos ydych chi at gyflawni eich amcanion? Rwyf wedi edrych drwy'r rhestr o amcanion a ddarparwyd gennych yn union cyn ichi ddechrau siarad, ac rwyf yn siŵr na fyddem yn anghytuno â'r un ohonynt; y rheini fyddai fy amcanion innau. Mae'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi, y soniasoch amdano, yn gam allweddol y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei gymryd er mwyn elwa ar gylchoedd cronfeydd strwythurol yr UE yn y dyfodol—yn sicr cylch y cronfeydd strwythurol sydd ar ddod yn awr. Mae'r dyddiau pan allai Brwsel daflu arian at broblem, gan obeithio y byddai rhywfaint o'r arian yn helpu, fel y gwyddom, wedi hen fynd. Ond, rydym yn gwybod nad yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn dda iawn yn y gorffennol am wneud y gorau o'r cronfeydd strwythurol. Felly, beth ydych chi'n ei wneud i wneud yn siŵr nid yn unig y bydd cylch nesaf hwn o gronfeydd strwythurol ar gael i Lywodraeth Cymru, ond hefyd y caiff ei wario mewn ffordd sy'n datblygu'r economi mewn ffordd gynaliadwy, gan fod cynaliadwyedd, fel yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno, yn allweddol?

Soniasoch am ddinas-ranbarth Caerdydd ac, unwaith eto, mae'r cyfan yn swnio'n wych—wrth gwrs bod angen system drafnidiaeth briodol arnoch i gefnogi dinas-ranbarth Caerdydd. Wrth gwrs, mae'r metro'n brosiect cyffrous iawn. Byddwch yn gwybod bod rhai pryderon wedi eu codi yn y misoedd diwethaf ynglŷn â'r metro ac ai'r system rheilffordd trwm a ddewiswyd yw'r un gywir, ynteu a fyddai system rheilffordd ysgafn, megis tram, wedi bod yn well. Rydych yn nodi yn eich datganiad bod lle i fanteision ar gyfleoedd cyllido'r UE er mwyn atgyfnerthu'r metro a manteision economaidd hynny. A newch chi ddweud ychydig mwy wrthym am hynny?

Mae Banc Buddsoddi Ewrop wedi bod yn offeryn allweddol a ddefnyddiwyd gan wledydd eraill dros y blynyddoedd diwethaf i ddatblygu seilwaith trafnidiaeth. Nid oes gan Lywodraeth Cymru, unwaith eto, hanes da iawn o gyflawni o ran cynlluniau trafnidiaeth mawr a chael arian o Fanc Buddsoddi Ewrop. Sut ydych chi'n sicrhau bod eich trafodaethau â Banc Buddsoddi Ewrop yn rhai da?

To close—briefly, Presiding Officer—you talk about transparency. One of the key recommendations in the Enterprise and Business Committee's report was that the new EU strategies set clearer objectives to maximise participation in all EU programmes, including requiring Welsh Government individual departments and Ministers to champion engagement. I am pleased that you are talking about simplification and integration, but are each of your Ministers—not your Ministers, but the First Minister's Ministers, I should say—doing that championing role that the Enterprise and Business Committee decided was so important for us to continue accessing the funds that we need?

I gloi—yn gryno, Lywydd—rydych yn sôn am dryloywder. Un o argymhellion allweddol adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes oedd y dylai strategaethau newydd yr UE osod amcanion cliriach i hybu cymryd rhan yn holl raglenni'r UE i'r eithaf, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i adrannau unigol Llywodraeth Cymru a Gweinidogion hyrwyddo ymgysylltu. Rwyf yn falch eich bod yn sôn am symleiddio ac integreiddio, ond a yw pob un o'ch Gweinidogion—nid eich Gweinidogion chi, ond Gweinidogion y Prif Weinidog, dylwn ddweud—yn gwneud y gwaith hyrwyddo hwnnw y penderfynodd y Pwyllgor Menter a Busnes ei fod mor bwysig inni er mwyn parhau i gael y cronfeydd sydd eu hangen arnom?

14:59

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Nick Ramsay very much for his questions. I think it is important to acknowledge the work that has been done by Assembly Members across the Chamber, particularly in the Enterprise and Business Committee and the clerks who support them as well. This is a cross-governmental commitment to ensure that we are delivering on this new round of operational programmes.

I want to mention a couple of areas where we will not succeed in getting approval unless we can demonstrate that we are ready and that our objectives are deliverable. If we look, for example, at renewable energy and energy efficiency programmes as part of the ERDF investment proposals, significant levels of funding will be allocated to those programmes in the Valleys and east Wales. That includes a particular and significant commitment to developing a marine energy industry through west Wales and the Valleys. I think that that is a very good example of how structural funds are taking a balanced approach to improving the conditions for private investment in areas with long-term potential, and I think that that is a key point in terms of your questioning about how we are looking at ways in which we can enable private investment to respond to those areas of development—and marine energy is crucial—targeting funding at those areas where outcomes are more immediate. Also, research and innovation is supported through a renewed Welsh Government policy focus through 'Science for Wales' and 'Innovation Wales', which will serve to direct this funding, again underpinning and supporting the programme for government with the use of structural funds.

I think that one of the areas where we have had tough negotiations relates to transport and ICT infrastructure. However, we now expect the approved programmes to deliver significant investment levels, and those will address such issues as bottlenecks on the A55 and the A40, which have been mentioned this afternoon, and complete our superfast broadband networks as well, of course, as investing in important new projects—key sustainable urban transport projects, such as the Cardiff capital city region metro.

Diolch yn fawr iawn i Nick Ramsay am ei gwestiynau. Credaf ei bod yn bwysig cydnabod y gwaith y mae Aelodau'r Cynulliad ar draws y Siambwr wedi'i wneud, yn enwedig yn y Pwyllgor Menter a Busnes a'r ddercod sy'n eu cefnogi hefyd. Mae hwn yn ymrwymiad trawslywodraethol i sicrhau ein bod yn cyflawni o ran y cylch newydd hwn o raglenni gweithredol.

Hoffwn sôn am un neu ddau o feysydd lle na fyddwn yn llwyddo i gael cymeradwyaeth oni allwn ddangos ein bod yn barod a bod modd cyflawni ein hamcanion. Os edrychwn, er enghraifft, ar raglenni ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni fel rhan o gynigion buddsoddi ERDF, dyrennir arian sylweddol i'r rhaglenni hynny yn y Cymoedd a dwyrain Cymru. Mae hynny'n cynnwys ymrwymiad penodol a sylweddol i ddatblygu diwydiant ynni morol drwy orllewin Cymru a'r Cymoedd. Credaf fod hynny'n enghraifft dda iawn o'r ffordd y mae'r cronfeydd strwythurol yn arfer ymagwedd gytbwys tuag at wella'r amodau ar gyfer buddsoddi preifat mewn ardaloedd sydd â photensial hirdymor, a chredaf fod hwnnw'n bwyt allweddol o ran eich cwestiynau am y ffordd yr ydym yn edrych ar ffyrdd y gallwn alluogi buddsoddi preifat i ymateb i'r ardaloedd datblygu hynny—ac mae ynni morol yn hanfodol—gan dargedu cyllid at yr ardaloedd hynny lle y mae'r canlyniadau'n fwy uniongyrchol. Hefyd, caiff gwaith ymchwil ac arloesi ei gefnogi drwy bwyslais polisi newydd Llywodraeth Cymru 'Gwyddoniaeth i Gymru' ac 'Arloesi Cymru', a fydd yn fodd o gyfeirio'r cyllid hwn, ac eto'n tanategu ac yn cefnogi'r rhaglen lywodraethu drwy ddefnyddio'r cronfeydd strwythurol.

Mae trafndiaeth a seilwaith TGCh yn un o'r meysydd hynny lle'r ydym wedi cael trafodaethau anodd. Fodd bynnag, rydym yn awr yn disgwyl i'r rhaglenni cymeradwy ddarparu lefelau buddsoddi sylweddol, a bydd y rheini'n ymdrin â materion megis tagfeydd ar yr A55 a'r A40, sydd wedi eu crybwyll y prynhawn yma, ac yn cwblhau ein rhwydweithiau band eang cyflym iawn, yn ogystal, wrth gwrs, â buddsoddi mewn prosiectau newydd pwysig—prosiectau allweddol ar gyfer trafndiaeth drefol gynaliadwy, megis metro prifddinas-ranbarth Caerdydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Finally, on your point about where we are in terms of our position with this new round of structural funds, we are recognised by the EU and the Wales Audit Office for effective delivery of the funds and the significant benefits that have been achieved by businesses, communities, people and the environment. However, of course, this is one part of a range of levers—fiscal levers—that will include strengthening relationships with the European Investment Bank, which I am taking forward, in terms of not just investment in transport, in roads, but investment across the board in terms of our infrastructure. I believe that our new funding ambassadors, who will play a part—and obviously I will be able to report more on that—will help us as the Welsh Government and also be very open and transparent with regard to the ways in which they are going to make these connections.

Yn olaf, o ran eich pwynt am ein sefyllfa o safbwynt y cylch newydd hwn o gronfeydd strwythurol, mae'r Undeb Ewropeaidd a Swyddfa Archwilio Cymru'n cydnabod ein bod yn darparu'r cronfeydd yn effeithiol ac yn cydnabod y manteision sylweddol a sicrhawyd gan fusnesau, cymunedau, pobl a'r amgylchedd. Fodd bynnag, wrth gwrs, un rhan yn unig yw hyn o ystod o ysgogiadau—ysgogiadau ariannol—a fydd yn cynnwys cryfau cysylltiadau â Banc Buddsoddi Ewrop, yr wyf yn bwrw ymlaen â hwy, nid yn unig o ran buddsoddi mewn trafnidiaeth, mewn ffyrdd, ond buddsoddi ym mhob maes o ran ein seilwaith. Credaf fod ein llysgenhadon ariannu newydd, a fydd yn chwarae rhan—ac yn amlwg byddaf yn gallu adrodd mwy am hynny—yn ein helpu ni fel Llywodraeth Cymru ac y byddant hefyd yn agored iawn ac yn dryloyw o ran y ffyrdd y maent yn mynd i feithrin y cysylltiadau hyn.

15:02

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased also that approval was given to the partnership agreement in a timely manner, but we know that this is a marathon and not a sprint. Although perhaps we have two races here, it is the marathon that is important. The sprint is getting the agreement on the table; the marathon, of course, is in delivery. In terms of the focus of the next programme, research and innovation, SME competitiveness, renewable energy, energy efficiency, connectivity, urban development, tackling poverty, skills and youth unemployment and attainment—these are all focuses that I am certainly happy to support. I very much support also the particular focus that the Minister has given to research and innovation, connectivity and energy. In my constituency, I am excited about the prospect of being able to invest in being leaders in the development of marine energy through the new demonstration zone and the work of SEACAMS and so on. However, the point we are at now, and we have been at similar points at various junctures in the past, is about lessons that need to be learned from the past. We know that around £6 billion has been spent between European funds and match funding since the programmes began. We also know, sadly, that we have not been able to grow the economy of west Wales and the Valleys or Wales generally in comparison with the European average, let alone to pass the threshold of 75%. So, the question I ask as we move into the next stage of the European funding programmes in Wales is: what has changed and what will happen differently?

We in Plaid Cymru, for example, have put forward ideas, including that a Plaid Government would put in place a private sector-led body working alongside Welsh Government and the Welsh European Funding Office in proactively seeking ways to use the money in a way that could best help to grow the Welsh economy. So, what is going to be different in delivery this time round? How is the Minister planning to monitor the project better this time round to make sure that the money spent is spent effectively and brings the outcome that we need, which is, very simply, to grow the Welsh economy?

Rwyf yn falch hefyd fod cymeradwyaeth wedi'i rhoi i'r cytundeb partneriaeth mewn modd amserol, ond rydym yn gwybod mai marathon, nid sbrint, yw hyn. Er bod gennym ddwy ras yma efallai, y marathon sy'n bwysig. Rhoi'r cytundeb ar y bwrdd yw'r sbrint; ei roi ar waith, wrth gwrs, yw'r marathon. O ran pwyslais y rhaglen nesaf, ymchwil ac arloesi, cystadleurwydd busnesau bach a chanolig, ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni, cysylltedd, datblygu trefol, trechu tlodi, sgiliau a diweithdra a chyrhaeddiad pobl ifanc—mae'r rhain i gyd yn ffactorau i ganolbwyntio arnynt yr wyf yn sicr yn hapus i'w cefnogi. Rwyf hefyd yn cefnogi'n gryf y pwyslais penodol y mae'r Gweinidog wedi'i roi ar ymchwil ac arloesi, cysylltedd ac ynni. Yn fy etholaeth i, rwyf yn llawn cyffro am y posibilrwydd o allu buddsoddi mewn arwain datblygiadau ynni morol drwy gyfrwng y parth arddangos newydd a gwaith SEACAMS ac yn y blaen. Fodd bynnag, o ran ble'r ydym yn awr, ac rydym wedi bod mewn manau tebyg ar wahanol adegau yn y gorffennol, mae angen inni ddysgu gwersi o'r gorffennol. Rydym yn gwybod bod tua £6 biliwn wedi'i wario rhwng cronfeydd Ewropeaidd ac arian cyfatebol ers i'r rhaglenni ddechrau. Rydym hefyd yn gwybod, yn anffodus, nad ydym wedi gallu tyfu economi'r gorllewin a'r Cymoedd na Chymru'n gyffredinol o gymharu â chyfartaledd Ewrop, heb sôn am basio'r trothwy o 75%. Felly, y cwestiwn yr wyf yn ei ofyn wrth inni symud i mewn i gam nesaf y rhaglenni cyllid Ewropeaidd yng Nghymru yw hyn: beth sydd wedi newid a beth fydd yn digwydd yn wahanol?

Rydym ni ym Mhlaid Cymru, er enghraifft, wedi cyflwyno syniadau, yn eu plith y byddai Llywodraeth Plaid Cymru'n sefydlu corff dan arweiniad y sector preifaf i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i fynd at'i'n rhagweithiol i chwilio am y ffordd orau o ddefnyddio'r arian i helpu i dyfu economi Cymru. Felly, beth sy'n mynd i fod yn wahanol o ran darparu hyn y tro hwn? Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu monitro'r prosiect yn well y tro hwn i wneud yn siŵr bod yr arian a gaiff ei wario'n cael ei wario'n effeithiol ac yn sicrhau'r canlyniad sydd ei angen arnom, sef, yn syml iawn, tyfu economi Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

What about targets? What are you expecting to have achieved this time, by the end of this programme? Where should Welsh GVA be by the end of this programme compared with the European average? We need to be heading in the right direction and we know that we have not been doing so thus far. Here is another chance to get it right, but things need to happen differently.

Beth am dargedau? Beth ydych chi'n disgwyl y byddwch wedi'i gyflawni'r tro hwn, erbyn diwedd y rhaglen hon? Ble y dylai gwerth ychwanegol gros Cymru fod erbyn diwedd y rhaglen hon o gymharu â chyfartaledd Ewrop? Mae angen inni fod yn symud i'r cyfeiriad cywir ac rydym yn gwybod nad ydym wedi bod yn gwneud hynny hyd yma. Dyma gyfle arall i wneud hyn yn iawn, ond mae angen i bethau ddioglydd yn wahanol.

15:05

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Rhun ap Iorwerth for his questions and for his recognition that this is the conclusion of intense negotiations. Of course, the operating programmes have been built not just around Commission expectations and objectives, but also around extensive consultation involving our partners across the public, private and third sectors. We are now close to reaching that formal agreement with the European Commission, and negotiations are drawing to a close. However, it is so important that we can demonstrate that we are confident of delivering on those key negotiating objectives. That is what we will be tested on. They are hugely significant programmes and you have, obviously, commented on some of those that you support and that are particularly important to your constituency.

However, I think it is going to be about how we can demonstrate the step change in the economy, as I said in my opening remarks to the statement, as a result of this investment. It is going to be investing in our labour force, providing the right conditions for the private sector as well as the public sector to enable business to grow and prosper, and it is going to help to support wider Government ambitions for sustainable jobs and growth.

We are already ready in terms of the number of backbone project proposals. I refer back to Grahame Guilford's important work on the economic prioritisation framework, which was to help steer us in terms of the way forward. I think it is important, the very point that you make about the difference that we need to make. I have said that I believe that Wales is in a better position now as a result of our EU funds and the concentration, focus and clarity in terms of the objectives that we have, but also the fact that we are recognised as being effective in our delivery.

I think we have to be realistic about what we can achieve in Wales solely with structural funds in an economy of £45 billion a year. We are not going to create significant GDP growth through a £200 million a year investment. That does not even begin to cover some of the challenges that we have as a result of significant budget cuts that we are facing in terms of Westminster and our block grant. However, I think what we have to do is to be very clear about what success looks like for our structural funds programmes and the role that they play in terms of delivery. Also—and I know that we will be scrutinised on this, and quite rightly—we have to be clear about the improvements that we are going to make to the programme development process and have a much stronger emphasis on results.

Diolch i Rhun ap Iorwerth am ei gwestiynau ac am gydnabod bod hyn yn benllanw ar drafodaethau dwys. Wrth gwrs, mae'r rhaglenni gweithredu'n seiliedig nid yn unig ar ddisgwyliadau ac amcanion y Comisiwn, ond hefyd ar ymgynghori eang yn cynnwys ein partneriaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Rydym yn awr yn agosáu at y cytundeb ffurfiol hwnnw â'r Comisiwn Ewropeaidd, ac mae'r trafodaethau'n dirwyn i ben. Fodd bynnag, mae mor bwysig inni allu dangos ein bod yn ffyddiog y gallwn gyflawni'r amcanion negodi allweddol hynny. Dyna lle y cawn ein profi. Maent yn rhaglenni hynod bwysig ac rydych, wrth gwrs, wedi gwneud sylwadau am rai o'r rheini yr ydych yn eu cefnogi ac sy'n arbennig o bwysig i'ch etholaeth.

Fodd bynnag, credaf y bydd hyn yn fater o sut y gallwn ddangos y newid sylweddol yn yr economi, fel y dywedais yn sylwadau agoriadol fy natganiad, o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn. Bydd yn buddsoddi yn ein gweithlu, gan ddarparu'r amodau iawn i'r sector preifat yn ogystal â'r sector cyhoeddus i alluogi busnesau i dyfu a ffynnu, a bydd yn helpu i gefnogi uchelgeisiau ehangach y Llywodraeth ar gyfer swyddi a thwf cynaliadwy.

Rydym eisoes yn barod o safbwynt nifer y cynigion ar gyfer prosiectau asgwrn cefn. Cyfeiraf yn ôl at waith pwysig Grahame Guilford ar y fframwaith blaenoriaethu economaidd, y bwriedid iddo helpu i'n llywio o ran y ffordd ymlaen. Rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig, sef yr union bwynt a wnewch am y gwahaniaeth y mae angen inni ei wneud. Rwyf wedi dweud fy mod yn credu bod Cymru mewn gwell sefyllfa erbyn hyn o ganlyniad i gronfeydd yr UE a'r pwyslais a'r eglurder o ran yr amcanion sydd gennym, ond hefyd y gydnabyddiaeth ein bod yn rhoi hyn ar waith yn effeithiol.

Credaf fod yn rhaid inni fod yn realistig am yr hyn y gallwn ei gyflawni yng Nghymru gyda chronfeydd strwythurol yn unig mewn economi o £45 biliwn y flwyddyn. Nid ydym yn mynd i ysgogi twf sylweddol o ran cynnyrch domestig gros drwy fuddsoddiad gwerth £200 miliwn y flwyddyn. Nid yw hynny hyd yn oed yn dechrau ymdrin â rhai o'r heriau sydd gennym o ganlyniad i doriadau sylweddol yn y gyllideb yr ydym yn eu hwynebu o ran San Steffan a'n grant bloc. Fodd bynnag, credaf fod yn rhaid inni fod yn glir iawn ynghylch sut olwg sydd ar lwyddiant i'n rhaglenni cronfeydd strwythurol a'r rhan y maent yn ei chwarae o ran darparu. Hefyd—a gwn y byddwn yn destun craffu o ran hyn, ac mae hynny'n gwbl briodol—rhaid inni fod yn glir ynghylch y gwelliannau yr ydym yn mynd i'w gwneud i'r broses o ddatblygu rhaglenni a rhoi pwyslais cryfach o lawer ar ganlyniadau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We all have a duty to counter the drip, drip of anti-European propaganda that is promoted by UKIP and by the closet UKIPers within the Conservative party. It is incredible, really, that we faced yesterday the possibility that we would not renew the European arrest warrant, which would have made the UK a haven for criminals who are trying to evade the criminal justice system across Europe. So, thank goodness that a little bit of sanity prevailed there.

I think it is really important to hear people like the Confederation of British Industry president spelling out how important membership of Europe is to our future economic wellbeing. I disagree with Nick Ramsay's saying that the Welsh programme has been concocted in haste and speed—not at all. There has been a huge amount of work that has gone into devising the Welsh operational programmes and we hope to get approval from the European Commission in the very short future.

I just want to mention that the benefits of being in Europe are not just about European structural fund investments and the rural development programme, very important though they are. There are also other European programmes that we must not forget, particularly when people, like Lynne Neagle earlier today, are talking about the funding crisis and the challenges ahead in local authorities. Local authorities need to be thinking hard about some of the European funds that are open to them through the sustainable urban development programme, the Atlantic programme and the north-west European programme, all of which Wales is eligible to bid for and collaborate on with our European partners. In addition to that, there is the very large funding to be bid for from the Horizon programme and the LIFE programme, which I am sure our universities, in particular, are leading the way on. I would just like to ask, then: what is the role of the three EU funding ambassadors that the Minister mentioned in her statement in championing all the opportunities for European collaboration and learning from best practice in all the other streams of funding that exist for Europe?

Mae gennym i gyd ddyletswydd i wrthsefyll y propaganda gwrth-Ewropeaidd sy'n dod bob yn dipyn ac yn gyson ac y mae UKIP a'r UKIPwyr cudd yn y blaidd Geidwadol yn ei hybu. Mae'n anhygoel, mewn gwirionedd, ein bod ddoe'n wynebu'r posibilrwydd na fyddem yn adnewyddu'r warant arestio Ewropeaidd, a fyddai wedi gwneud y DU yn hafan i droseddwy'r sy'n ceisio osgoi'r system cyfiawnder troseddol ledled Ewrop. Felly, diolch byth bod rhywfaint o bwyll wedi ennill y dydd yno.

Credaf ei bod yn bwysig iawn clywed pobl fel llywydd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn amlinellu pa mor bwysig yw bod yn aelod o Ewrop o ran ein lles economaidd yn y dyfodol. Rwyf yn anghytuno â Nick Ramsay pan ddywed fod rhaglen Cymru wedi'i llunio ar frys ac yn gyflym—ddim o gwbl. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i lunio rhaglenni gweithredol Cymru ac rydym yn gobeithio cael cymeradwyaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd yn y dyfodol agos iawn.

Hoffwn ddweud bod mwy o fanteision i fod yn rhan o Ewrop na dim ond buddsoddiadau'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd a'r rhaglen datblygu gwledig, er mor bwysig yw'r rheini. Mae rhaglenni Ewropeaidd eraill hefyd y mae'n rhaid inni eu cofio, yn enwedig pan fo pobl, fel Lynne Neagle yn gynharach heddiw, yn siarad am yr argyfwng cyllido a'r heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol. Mae angen i awdurdodau lleol feddwl yn galed am rai o'r cronfeydd Ewropeaidd sydd ar gael iddynt drwy'r rhaglen datblygu trefol cynaliadwy, rhaglen yr Iwerydd a rhaglen gogledd-orllewin Ewrop; mae Cymru'n gymwys i wneud cais am bob un ohonynt ac i gydweithio arnynt gyda'n partneriaid yn Ewrop. Yn ogystal â hynny, mae llawer iawn o gyllid ar gael i gynnig amdano o raglen Horizon a'r rhaglen LIFE; rwyf yn siŵr bod ein prifysgolion, yn arbennig, yn arwain y ffordd yn hynny o beth. Hoffwn ofyn hyn, felly: beth yw swyddogaeth tri llysgennad ariannu'r UE y soniodd y Gweinidog amdanynt yn ei datganiad o ran hyrwyddo'r holl gyfleoedd i gydweithio yn Ewrop a dysgu o arfer gorau yn yr holl ffrydiau cyllid eraill sy'n bodoli ar gyfer Ewrop?

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Jenny Rathbone for her question. Also, I thank her for her very important role as chair of the programme monitoring committee. That now, having met in shadow, will be able to constitute itself formally and approve the criteria for the operating programmes. I think, particularly on her comments in terms of CBI support for the European Union in terms of benefits for business, it is important again to reflect that around 35% to 40% of businesses that have been surveyed in Wales report that ERDF support has had a positive effect on either turnover, profitability or productivity, and 30% of businesses reported that performance in their workplace would have been worse without ERDF support. I think that that, again, is worth putting on the record.

Diolch i Jenny Rathbone am ei chwestiwn. Diolch iddi hefyd am ei gwaith pwysig iawn fel cadeirydd pwyllgor monitro'r rhaglenni. Bydd hwnnw yn awr, ar ôl cyfarfod yn gysgodol, yn gallu ei gyfansoddi ei hun yn ffurfiol a chymeradwyo meini prawf y rhaglenni gweithredu. Credaf, yn enwedig o ran ei sylwadau am gefnogaeth y CBI i'r Undeb Ewropeaidd o ran manteision i fusnesau, ei bod yn bwysig unwaith eto ystyried bod tua 35% i 40% o'r busnesau a holwyd yng Nghymru'n dweud bod cymorth ERDF wedi cael effaith gadarnhaol naill ai ar drosiant, elw neu gynhyrchiant, a bod 30% o'r busnesau'n dweud y byddai perfformiad yn eu gweithle wedi bod yn waeth heb gymorth ERDF. Credaf fod hynny, unwaith eto, yn werth ei roi ar gofnod.

However, it is important, in response to your question and your point about other EU funding that can work alongside —. The synergy to work alongside the structural funds, of course, is what we want to seek, and those EU centrally-managed funds have already been touched on today. I think it is very relevant again to refer to the Enterprise and Business Committee and Constitutional and Legislative Affairs Committee reports.

I am establishing a panel of three EU funding ambassadors. I will report more on that very shortly. It is about the opportunities that we can have to exploit those other funds, including, of course, the Ireland Wales programme, which I mentioned in my statement, and also to develop on successor programmes in terms of the Atlantic area backed programmes. We have five main European Territorial Co-operation programmes that we are engaging in, and 94 co-operation programmes. It is also about recognising the fact that we have an opportunity through the establishment of the Horizon unit in WEFO to promote —and, indeed, the committees have done good work on this—the opportunities not just with higher education in this very competitive Horizon programme, which can have synergy with the structural funds, and to promote bids that not only include higher education but business in Wales.

Mae'n bwysig, fodd bynnag, i ateb eich cwestiwn a'ch pwynt ynghylch cyllid arall yr UE a all weithio ochr yn ochr —. Y synergedd i weithio ochr yn ochr â'r cronfeydd strwythurol, wrth gwrs, yw'r hyn yr ydym am ei geisio, ac mae cronfeydd yr UE a reolir yn ganolog eisoes wedi cael sylw heddiw. Credaf ei bod yn berthnasol iawn unwaith eto cyfeirio at adroddiadau'r Pwyllgor Menter a Busnes a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Rwyf yn sefydlu panel o dri llysgennad ariannu'r UE. Byddaf yn adrodd mwy am hynny'n fuan iawn. Mae'n ymwneud â'r cyfleoedd y gallwn eu cael i fanteisio ar y cronfeydd eraill hynny, gan gynnwys, wrth gwrs, rhaglen Iwerddon a Chymru, a grybwyllwyd gennyf yn fy natganiad, a hefyd i ddatblygu rhaglenni olyn o ran y rhaglenni a gefnogir yn ardal yr Iwerydd. Mae gennym bum prif raglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd yr ydym yn ymwneud â hwy, a 94 o raglenni cydweithredu. Mae hefyd yn fater o gydnabod y ffaith bod cyfle inni drwy sefydlu'r uned Horizon yn WEFO i hyrwyddo—ac, yn wir, y mae'r pwyllgorau wedi gwneud gwaith da yn hyn o beth—y cyfleoedd nid yn unig o ran addysg uwch yn y rhaglen Horizon sy'n gystadleuol iawn, a all fod â synergedd â'r cronfeydd strwythurol, ac i hyrwyddo cynigion sydd nid yn unig yn cynnwys addysg uwch ond hefyd fusnesau yng Nghymru.

15:13

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank the Minister for her statement. I very much welcome the deal on the UK partnership agreement. I think it underlines the importance of Wales being a part of a UK that is also a part of Europe, without which, and if any of those links were to break, none of this would be possible. Wales is, obviously, a net beneficiary of the EU, but it is not just about money. I think it is appropriate that we are having this discussion on Armistice Day when we have an opportunity to reflect as well on the political benefits that the relationship with our partners in Europe has brought to us. I am grateful, Minister, for the amount of detail in the statement in terms of the Welsh Government's approach. I will look forward to having the opportunity to scrutinise a more detailed plan once those programmes are approved.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad. Croesawaf yn fawr iawn y fargen ar gytundeb partneriaeth y DU. Rwyf yn credu bod hynny'n tanlinellu pa mor bwysig yw hi fod Cymru'n rhan o Deyrnas Unedig sydd hefyd yn rhan o Ewrop, a heb hynny, a phe bai unrhyw un o'r cysylltiadau hynny'n torri, ni fyddai dim o hyn yn bosibl. Mae Cymru, wrth gwrs, yn un o fuddiolwyr net yr UE, ond nid dim ond mater o arian yw hyn. Credaf ei bod yn briodol ein bod yn cael y drafodaeth hon ar Ddiwrnod y Cadoediad pan gawn gyfle i fyfyrio hefyd ar y manteision gwleidyddol y mae'r berthynas â'n partneriaid yn Ewrop wedi'u rhoi inni. Rwyf yn ddiolchgar, Weinidog, am y manylder yn y datganiad o ran ymagwedd Llywodraeth Cymru. Edrychaf ymlaen at gael cyfle i graffu ar gynllun manylach cyn gynted ag y bydd y rhaglenni hynny wedi'u cymeradwyo.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have a number of questions. First, I want to ask about the European Union's move away from an assessment of an output-based evaluation strategy to one that is based on outcomes. You mentioned in your statement that this is part of a simplification of implementation arrangements, but I find that very surprising because assessment of outcomes as opposed to outputs is in fact far more complicated. It requires qualitative measurement, as opposed to simply quantitative measurement, it requires long-term tracking of particular projects, and it requires an individualised approach, where you are looking at the outcomes of individual people within programmes. So, it is in fact far more expensive usually and much harder to count behaviour change outside of your control in a population than it is to count actions that you personally have taken or your agents have taken on your behalf. Can you tell me what kind of resources you have allocated to ensuring that those evaluations are able to be completed effectively? How advanced are your plans for evaluation of your programmes? Given that this is a very new approach, what expert advice have you taken in terms of how to design those so that they are meaningful and so that meaningful targets are set from the outset?

Secondly, I wanted to ask about transport priorities. The European Union has indicated that it wants to move away from road transport towards more sustainable transport options, and I am very glad to see the reference to the south Wales metro in the statement today. However, for mid and north Wales, it is talking about road improvements yet again, and this surprises me. I wonder whether you can tell us what plans you are bringing forward to improve public transport in these areas. What assurance can you give to people in rural mid and north Wales that they are not going to be overlooked in all of the excitement about the south Wales metro? Clearly, the south Wales metro will affect a lot of people, but in mid and north Wales, transport poverty is a very real issue.

Finally, I wanted to ask about targeting. The EU has repeatedly advised us to concentrate on a smaller number of more targeted interventions, but you have actually given us quite a broad range of priorities here, and I will look forward to more detail of how you intend to pursue them. In particular, one of the things that I wanted to ask was regarding duplication of provision. For example, the Wales Audit Office has raised concerns over duplication between Welsh Government, European and third sector programmes in terms of youth employment, and I see that this is one of your priorities here. Perhaps you can tell us what mapping is going to be done to ensure that those programmes work together, rather than overlap one another.

Also, in terms of tackling poverty as a new cross-cutting theme, perhaps you can tell us how that is going to be monitored, because, clearly, that is different to a theme that is delivered within a particular silo. It is a large amount of money that is being reserved for this area, but with cross-cutting themes, of course, there is always the danger that with delivery being expected across a broad range of portfolios, there is an opportunity for one to be less rigorously pursued than others.

Mae gennyf nifer o gwestiynau. Yn gyntaf, hoffwn ofyn am y ffaith bod yr Undeb Ewropeaidd yn symud oddi wrth asesu strategaeth werthuso sy'n seiliedig ar allbwn i un sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Soniasoch yn eich datganiad fod hyn yn rhan o syleiddio trefniadau gweithredu, ond mae hynny'n peri syndod mawr imi oherwydd mae asesu canlyniadau'n hytrach nag allbynnau mewn gwirionedd yn fwy cymhleth o lawer. Mae'n golygu mesur ansoddol, yn hytrach na dim ond mesur meintiol, mae'n golygu olrhain prosiectau penodol dros y tymor hir, ac mae'n golygu dull unigol, lle'r ydych yn edrych ar ganlyniadau unigolion o fewn rhaglenni. Felly, mewn gwirionedd mae'n ddrutach o lawer fel arfer ac yn anos o lawer cyfrif newid ymddygiad y tu hwnt i'ch rheolaeth mewn poblogaeth na chyfrif camau gweithredu yr ydych chi eich hun wedi'u cymryd, neu y mae eich asiantau wedi'u cymryd ar eich rhan. A allwch ddweud wrthyf pa fath o adnoddau yr ydych wedi'u dyrannu i sicrhau y gellir cwblhau'r gwerthusiadau hynny'n effeithiol? Pa mor ddatblygedig yw eich cynlluniau i werthuso eich rhaglenni? Ac ystyried bod hwn yn ddull newydd iawn, pa gyngor arbenigol ydych chi wedi'i gael o ran sut i gynllunio'r rheini er mwyn iddynt fod yn ystyrlon ac er mwyn gosod targedau ystyrlon o'r cychwyn cyntaf?

Yn ail, roedd arnaf eisiau gofyn am flaenoriaethau trafniadaeth. Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi nodi bod arno eisiau symud oddi wrth drafniadaeth ffordd tuag at ddewisiadau trafniadaeth mwy cynaliadwy, ac rwyf yn falch iawn o weld y cyfeiriad at fetro de Cymru yn y datganiad heddiw. Fodd bynnag, o ran y canolbarth a'r gogledd, mae'n sôn am wella'r ffyrdd unwaith eto, ac mae hyn yn fy synnu. Tybed a allwch ddweud wrthym pa gynlluniau yr ydych yn eu cyflwyno i wella trafniadaeth gyhoeddus yn yr ardaloedd hyn? Pa sicrwydd y gallwch ei roi i bobl yn ardaloedd gwledig y canolbarth a'r gogledd nad ydynt yn mynd i gael eu hanwybyddu yn yr holl gyffro ynghylch metro'r de? Yn amlwg, bydd metro de Cymru'n effeithio sut yr ydych yn bwriadu bwrw ymlaen â hwy. Yn benodol, roedd un o'r cwestiynau yr oeddwn am eu gofyn yn ymwneud â dyblygu darpariaeth. Er enghraifft, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi lleisio pryderon ynghylch dyblygu rhwng Llywodraeth Cymru, Ewrop a rhaglenni'r trydydd sector o ran cyflogaeth ieuencid, ac rwyf yn gweld bod hyn yn un o'ch blaenoriaethau yma. Efallai y gallech ddweud wrthym pa waith mapio a wneir i sicrhau bod y rhaglenni hynny'n gweithio gyda'i gilydd, yn hytrach na'u bod yn gorgyffwrdd â'i gilydd.

Yn olaf, hoffwn ofyn am dargedu. Mae'r UE wedi ein cynghori dro ar ôl tro i ganolbwyntio ar lai o ymyriadau wedi'u targedu'n well, ond rydych mewn gwirionedd wedi rhoi ystod eithaf eang o flaenoriaethau inni yma, a byddaf yn edrych ymlaen at gael rhagor o fanylion ynghylch sut yr ydych yn bwriadu bwrw ymlaen â hwy. Yn benodol, roedd un o'r cwestiynau yr oeddwn am eu gofyn yn ymwneud â dyblygu darpariaeth. Er enghraifft, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi lleisio pryderon ynghylch dyblygu rhwng Llywodraeth Cymru, Ewrop a rhaglenni'r trydydd sector o ran cyflogaeth ieuencid, ac rwyf yn gweld bod hyn yn un o'ch blaenoriaethau yma. Efallai y gallech ddweud wrthym pa waith mapio a wneir i sicrhau bod y rhaglenni hynny'n gweithio gyda'i gilydd, yn hytrach na'u bod yn gorgyffwrdd â'i gilydd.

Hefyd, o ran trechu tlodi fel thema drawsbynciol newydd, efallai y gallwch ddweud wrthym sut y caiff hynny ei fonitro, oherwydd, yn amlwg, mae hynny'n wahanol i thema sy'n cael ei darparu o fewn seilo penodol. Mae swm mawr o arian yn cael ei gadw ar gyfer y maes hwn, ond gyda themâu trawsbynciol, wrth gwrs, mae perygl bob amser, oherwydd bod disgwyl cyflenwi ar draws ystod eang o bortffolios, fod siawns yr ymdrinnir ag un yn llai trylwyr nag eraill.

Thank you very much, Eluned Parrott. I think that this is a very important opportunity, again, as has been expressed over the past week and particularly yesterday, in many different ways, to say that it is important that Wales is not only part of the UK, but part of the European Union. It certainly is not just about the beneficiaries in terms of our funding base, but about the wider political benefits as well.

I think that your question about how we can ensure that we are delivering in terms of results-based outcomes is very important in terms of the new programmes. There is a significant emphasis being put by the Commission on concentration and integration of resources to achieve results, and on the preparation of intervention logic tables to make explicit the relationship between development need, proposed interventions, results, indicators and outputs. Those tables from part of the operational programmes, and are also going to be the basis on which the Commission judges our relative success in implementing our future programmes. So, I think that, just in terms of implementation consistency, this will help to ensure that similar logical rigour is attached to project selection. I am sure that in terms of the way that we take this forward, we will be able to discuss this more in terms of WEFO's project application and determination process.

On your questions about transport, particularly relating to the wider issues, not just in terms of roads, but integrated transport, which of course the metro would represent in south-east Wales, clearly, the Commission is looking to new opportunities in terms of integrated sustainable transport, and of course, the rural parts of Wales should benefit from that, as well.

Finally, I want to focus again on your question about concentration and focus. We have got to have a good strategic fit in these programmes between the EU's 2020 goals and our programme for government. That is the focus on growth jobs and tackling poverty. That is about greater focus and concentration of resources. We are going to have to make tough choices and be more strategic. We have got to understand the results we are aiming to achieve with each investment, and we are going to be measured against the result in terms of the projects' contribution. So, it is not just about spending money. It is not going to be about the money spent or short-term outputs, but delivery in terms of the outcomes.

I think that this does apply to your question about tackling poverty, finally. Yes, there is a 20% goal in terms of programmes that focus on tackling poverty, but we have to look at this, mainstreaming it across all programmes, particularly the European social fund, through sustainable employment, skills for growth, youth employment and attainment.

Diolch yn fawr iawn, Eluned Parrott. Credaf fod hwn yn gyfle pwysig iawn, unwaith eto, fel y dywedwyd yn ystod yr wythnos ddiwethaf ac yn enwedig ddoe, mewn llawer o wahanol ffyrdd, i ddweud ei bod yn bwysig nad dim ond rhan o'r DU yw Cymru, ond rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Yn sicr, mae hyn yn ymwneud â mwy na dim ond y buddiolwyr o ran ein sylfaen ariannu; mae'n ymwneud â'r manteision gwleidyddol ehangach hefyd.

Credaf fod eich cwestiwn ynglŷn â sut y gallwn sicrhau ein bod yn cyflawni o ran deilliannau sy'n seiliedig ar ganlyniadau'n bwysig iawn o ran y rhaglenni newydd. Mae'r Comisiwn yn rhoi pwyslais mawr ar grynhoi ac integreiddio adnoddau i sicrhau canlyniadau, ac ar baratoi tablau rhesymeg ymyrraeth i nodi'n glir y berthynas rhwng anghenion datblygu, ymyriadau arfaethedig, canlyniadau, dangosyddion ac allbynnau. Mae'r tablau hynny'n rhan o'r rhaglenni gweithredol, a byddant hefyd yn sail i ystyriaeth y Comisiwn o'n llwyddiant cymharol wrth weithredu ein rhaglenni yn y dyfodol. Felly, credaf y bydd hyn, o ran cysondeb gweithredu'n unig, yn helpu i sicrhau trylwyrdd rhesymegol tebyg wrth ddethol prosiectau. Rwyf yn siŵr, o ran y ffordd yr ydym yn bwrw ymlaen â hyn, y gallwn drafod hyn yn fwy o ran proses ymgeisio a dewis prosiectau WEFO.

O ran eich cwestiynau am drafnidiaeth, yn enwedig o ran y materion ehangach, nid dim ond o ran ffyrdd, ond trafnidiaeth integredig, y byddai'r metro wrth gwrs yn ei chynrychioli yn y de-ddwyrain, yn amlwg, mae'r Comisiwn yn edrych ar gyfleoedd newydd o ran trafnidiaeth gynaliadwy integredig, ac wrth gwrs, dylai cefn gwlad Cymru elwa ar hynny hefyd.

Yn olaf, hoffwn roi sylw unwaith eto i'ch cwestiwn am grynhoi a phwyslais. Mae'n rhaid inni sicrhau od nodau 2020 yr UE a'n rhaglen lywodraethu ninnau'n cyd-blethu'n dda o safbwynt strategol yn y rhaglenni hyn. Dyna'r pwyslais ar swyddi twf a threchu tlodi. Mae hynny'n ymwneud â rhoi mwy o bwyslais a chrynhoi adnoddau. Rydym yn mynd i orfod gwneud dewisiadau anodd a bod yn fwy strategol. Rhaid inni ddeall y canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni â phob buddsoddiad, a chawn ein mesur yn erbyn y canlyniad o ran cyfraniad y prosiectau. Felly, nid dim ond mater o wario arian yw hyn. Ni fydd yn ymwneud â'r arian a wariwyd na'r allbynnau tymor byr, ond yn hytrach â chyflawni o ran y canlyniadau.

Credaf fod hyn yn berthnasol i'ch cwestiwn am drechu tlodi, o'r diwedd. Oes, mae nod o 20% o ran y rhaglenni sy'n canolbwyntio ar drechu tlodi, ond mae'n rhaid inni edrych ar hyn, a'i brif ffyrddio ar draws pob rhaglen, yn enwedig cronfa gymdeithasol Ewrop, drwy gyflogaeth gynaliadwy, sgiliau ar gyfer twf, cyflogaeth ieuencid a chyrrhaeddiad.

15:21

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Like others this afternoon, Minister, I would like to welcome the statement. I would also like to take the opportunity to pay tribute to the hard work that you have put in, in bringing us this far. A great deal of hard and detailed work was involved in these negotiations, and I think that Members across the whole Chamber should join me in congratulating you on completing that work successfully. It is good to hear that the United Kingdom Government has finally caught up with the Welsh Government and with others in the work of putting together the programmes in the next round of funding. Could you perhaps assure me that the twin ambitions of simplification and integration will be hardwired through these programmes? Members have spoken about the need to have impact through these programmes, and I very much agree with that. The key objectives that we have had, as a Government, for these programmes are to simplify the ways in which programmes are managed, run and reported, and also that they be integrated to achieve the maximum economic impact. I would be grateful if the Minister could reply on that.

Fel eraill y prynhawn yma, Weinidog, hoffwn innau groesawu'r datganiad. Hoffwn hefyd gymryd y cyfle i dalu teyrnged i'r gwaith caled yr ydych wedi'i wneud i ddod â ni cyn belled â hyn. Roedd y trafodaethau hyn yn golygu llawer iawn o waith caled a manwl, ac rwyf yn meddwl y dylai'r Aelodau ar draws y Siambr gyfan ymuno â mi a'ch llongyfarch ar gwblhau'r gwaith yn llwyddiannus. Mae'n braf clywed bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dal i fyny o'r diwedd â Llywodraeth Cymru ac eraill yn y gwaith o lunio rhaglenni'r cylch cyllido nesaf. A allech efallai fy sicrhau y bydd yr uchelgeisiau deublyg, sef symleiddio ac integreiddio, yn rhan annatod o'r rhaglenni hyn? Mae Aelodau wedi sôn am yr angen i'r rhaglenni hyn gael effaith, ac rwyf yn cytuno'n llwyr â hynny. Ein hamcanion allweddol fel Llywodraeth ar gyfer y rhaglenni hyn yw symleiddio'r ffyrdd y caiff rhaglenni eu rheoli, eu cynnal a'u hadrodd, a hefyd eu hintegreiddio i sicrhau'r effaith economaidd fwyaf. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ateb ynglŷn â hynny.

Also, I hope that the Minister will agree with me that, when the UK Prime Minister, David Cameron, speaks of anti-Europeanism in the way that he does, he does not speak for this Chamber or this country. Wales's national interests are served by a deeper, stronger and broader relationship with our friends across the European Union mainland, and not by a very aggressive chauvinism that all too often pollutes the European debate in the United Kingdom.

Hefyd, rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn cytuno â mi nad yw Prif Weinidog y DU, David Cameron, pan fo'n sôn am safbwyntiau gwrth-Ewropeaidd fel y mae, yn siaradros y Siambr hon na'r wlad hon. Mae gennym berthynas agosach, cryfach ac ehangach â'n cyfeillion ledled tir mawr yr Undeb Ewropeaidd o ran buddiannau cenedlaethol Cymru, yn wahanol i'r siofinistiaeth ymosodol iawn sy'n rhyaml yn llygru'r ddadl Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig.

15:23

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Alun Davies for his kind words. I know of his strong commitment to Europe. Of course, that was done to the European Union and to the benefits that we can gain from being part of the European Union. I know that that is reflected in his words.

Diolch i Alun Davies am ei eiriau caredig. Gwn am ei ymrwymiad cryf i Ewrop. Wrth gwrs, gwnaed hynny i'r Undeb Ewropeaidd ac i'r buddion y gallwn eu cael o fod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Gwn fod ei eiriau'n adlewyrchu hynny.

I want to just focus on the point about simplification. It is clear that we have reviewed all of our guidance, for example, and our new programmes to help streamline processes. That is crucial for the beneficiaries. It has got to be in line, of course, with EC legislative requirements. However, I think that Wales has led the agenda on pressing the Commission to simplify the rules governing structural funds, and the greater harmonisation of rules between all of the different funds. The European structural investment funds will make it easier for organisations to engage, access and benefit from the programmes.

Hoffwn ganolbwyntio ar y pwynt am symleiddio. Mae'n amlwg ein bod wedi adolygu ein holl ganllawiau, er enghraifft, a'n rhaglenni newydd i helpu i symleiddio prosesau. Mae hynny'n allweddol i'r buddiolwyr. Rhaid i hynny gyd-fynd wrth gwrs, â gofynion deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, credaf fod Cymru wedi arwain yr agenda o ran rhoi pwysau ar y Comisiwn i symleiddio'r rheolau sy'n rheoli cronfeydd strwythurol, a gwneud mwy i gysoni rheolau rhwng pob un o'r gwahanol gronfeydd. Bydd y cronfeydd buddsoddi strwythurol Ewropeaidd yn ei gwneud yn haws i sefydliadau ymgysylltu â'r rhaglenni, manteisio arnynt ac elwa arnynt.

15:24

Datganiad: Adroddiad y Farwnes Kay Andrews ynghylch Diwylliant a Thlodi—Ymateb gan Lywodraeth Cymru

Statement: Baroness Andrews's Report 'Culture and Poverty'—Response by the Welsh Government

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism, Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Ken Skates.

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Tackling poverty is one of the Welsh Government's fundamental priorities. Responsibility lies not with one department, or Government, but with civil society as a whole in Wales. I am proud that Wales has taken a lead in articulating the powerful role that the cultural sector can play in this vital agenda.

'Culture and Poverty: Harnessing the power of the arts, culture and heritage to promote social justice in Wales' was published in March 2014. In this groundbreaking report, Baroness Kay Andrews OBE made a compelling case for the Welsh Government, local government, cultural organisations, community bodies and schools to collaborate more effectively in order to maximise the benefits that cultural participation can have for those living in our most deprived communities.

The report encapsulated how museums, libraries, archives, historic monuments and arts organisations are key resources that can inspire people to learn and gain skills. They can help individuals and communities to develop confidence and a sense of identity. All our communities should benefit from the great cultural strengths of Wales, building interest, appreciation and participation. A great deal of exciting work is already taking place across Wales, but the report spelt out how, by putting this on a more strategic footing and through closer collaboration, many more young people, families and adults from disadvantaged backgrounds and communities can reap the benefits.

The recommendations in the 'Culture and Poverty' report are wide-ranging and focused in several key areas. First, there are recommendations on embedding culture within our communities, for example through linking more closely with our flagship Communities First programme. Secondly, there are recommendations on ensuring that the arts, culture and heritage are mainstreamed into our schools, and beyond into community learning and volunteering. This area links closely with the recommendations made by Professor Dai Smith in his complementary report on arts in education. Thirdly, the report recommends a number of mechanisms to guide progress at both local and national levels.

I strongly welcome the report and am publishing today how Welsh Government will take forward the recommendations. Closer working between cultural and community organisations at a local level and between national and local organisations is at the heart of our approach. This is realistically, though, not something that can be achieved across all parts of Wales simultaneously; it will require focused effort to trial new approaches and learn lessons before it can be extended. I will therefore be supporting the establishment of a small number of pioneer areas across Wales, where national organisations will work together with local authority and community leaders to realise the core vision set out in the report.

Mae trechu tlodi'n un o flaenoriaethau sylfaenol Llywodraeth Cymru. Nid yw'n gyfrifoldeb ar un adran, nac ar y Llywodraeth, ond ar y gymdeithas sifil yn gyffredinol yng Nghymru. Rwyf yn falch bod Cymru wedi arwain o ran egluro'r rhan bwerau y gall y sector diwylliannol ei chwarae yn yr agenda hollbwysig hon.

Cyhoeddwyd 'Diwylliant a Thlodi: defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru' ym mis Mawrth 2014. Yn yr adroddiad arloesol hwn, cyflwynodd y Farwnes Kay Andrews OBE achos cryf y dylai Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, cyrff diwylliannol, cyrff cymunedol ac ysgolion gydweithio'n fwy effeithiol er mwyn manteisio i'r eithaf ar fudd posibl cyfranogiad diwylliannol i'r bobl hynny sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r ffaith bod amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, henebion hanesyddol a sefydliadau celfyddydol yn adnoddau allweddol sy'n gallu ysbrydoli pobl i ddysgu ac i ennill sgiliau. Gallant helpu unigolion a chymunedau i feithrin hyder ac ymdeimlad o hunaniaeth. Dylai pob un o'n cymunedau elwa ar gryfderau diwylliannol mawr Cymru, gan feithrin diddordeb, gwerthfawrogiad a chyfranogiad. Mae llawer iawn o waith cyffrous eisoes yn digwydd ledled Cymru, ond roedd yr adroddiad yn amlinellu sut y gallwn, drwy roi hyn ar sail fwy strategol a chydweithio'n agosach, sicrhau bod llawer mwy o bobl ifanc, teuluoedd ac oedolion o gefndiroedd a chymunedau difreintiedig yn elwa ar hyn.

Mae argymhellion yr adroddiad 'Diwylliant a Thlodi' yn eang ac yn canolbwyntio ar sawl maes allweddol. Yn gyntaf, ceir argymhellion ar ymgorffori diwylliant yn ein cymunedau, er enghraifft drwy gysylltu'n agosach â'n rhaglen flaenllaw, Cymunedau yn Gyntaf. Yn ail, ceir argymhellion ynghylch sicrhau bod y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn cael eu prif ffyrddio yn ein hysgolion, a thu hwnt i mewn i ddysgu yn y gymuned a gwirfoddoli. Mae cysylltiad agos rhwng y maes hwn a'r argymhellion a wnaeth yr Athro Dai Smith yn ei adroddiad ategol ar y celfyddydau mewn addysg. Yn drydydd, mae'r adroddiad yn argymhellu nifer o fecanweithiau i lywio cynnydd yn lleol ac yn genedlaethol.

Rwyf yn croesawu'r adroddiad yn fawr iawn ac yn cyhoeddi heddiw sut y bydd Llywodraeth Cymru'n bwrw ymlaen â'r argymhellion. Mae cydweithio agosach rhwng sefydliadau diwylliannol a chymunedol ar lefel leol a rhwng sefydliadau cenedlaethol a lleol wrth wraidd ein hymagwedd. Yn realistig, fodd bynnag, nid yw hyn yn rhywbeth y gellir ei gyflawni ym mhob rhan o Gymru ar yr un pryd; bydd angen ymdrech benodol i dreialu dulliau newydd ac i ddysgu gwersi cyn y gellir ei estyn. Byddaf felly'n cefnogi sefydlu nifer bach o ardaloedd arloesi ledled Cymru, lle y bydd sefydliadau cenedlaethol yn cydweithio ag arweinwyr awdurdodau lleol a chymunedau i wireddu'r weledigaeth graidd a nodir yn yr adroddiad.

I have been most impressed with how the City and County of Swansea has already shown great initiative in driving this agenda forward locally. A new forum has been established, bringing together the key cultural players together with the council's community and poverty leads. We are already seeing greater collaboration across the city on community-based cultural learning initiatives, with support from National Museum Wales, and the potential is genuinely exciting. I am delighted that the City and County of Swansea has agreed to take part in the follow-up to the report, as a pioneer area. My officials will discuss participation with other pioneer areas over coming months.

The Welsh Government and its national delivery partners will co-produce the way forward in dialogue with the pioneer areas, and will support the process, so that learning and good practice can be shared and outcomes evaluated. In addition to supporting the pioneer areas, the Welsh Government will also support delivery of the report by taking forward recommendations that are all-Wales, that is, those that do not have a specific geographical focus. Cross-departmental action is under way on this.

Finally, in line with Baroness Andrews's recommendations, I will be forming a cultural inclusion board to co-ordinate and drive delivery of the vision in 'Culture and Poverty'. The board will report to me on progress.

Mae'r fenter aruthrol y mae Dinas a Sir Abertawe eisoes wedi'i dangos wrth yrru'r agenda hon yn ei blaen yn lleol wedi gwneud argraff fawr arnaf. Mae fforwm newydd wedi ei sefydlu, sy'n dwyn ynghyd y gweithredwyr diwylliannol allweddol ynghyd ag arweinwyr cymunedol a thlodi'r cyngor. Rydym eisoes yn gweld mwy o gydweithio ledled y ddinas ar fentrau dysgu diwylliannol yn y gymuned, gyda chefnogaeth gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru, ac mae'r potensial yn wirioneddol gyffrous. Rwyf wrth fy modd bod Dinas a Sir Abertawe wedi cytuno i gymryd rhan yn y dilyniant i'r adroddiad, fel ardal arloesi. Bydd fy swyddogion yn trafod cymryd rhan ag ardaloedd arloesi eraill dros y misoedd i ddod.

Bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid darparu cenedlaethol yn cyd-gynhyrchu'r ffordd ymlaen drwy ddeialog â'r ardaloedd arloesi, a byddant yn cefnogi'r broses, fel y gellir rhannu dysgu ac arferion da a gwerthuso'r canlyniadau. Yn ogystal â chefnogi'r ardaloedd arloesi, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynorthwyo i roi'r adroddiad ar waith drwy fwrw ymlaen ag argymhellion i Gymru gyfan, hynny yw, y rhai nad oes iddynt bwyslais daearyddol penodol. Mae gweithredu trawsadrannol wedi dechrau ar hyn.

Yn olaf, yn unol ag argymhellion y Farwnes Andrews, byddaf yn ffurfio bwrdd cynhwysiant diwylliannol i gydlynu a gyrru'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth yn 'Diwylliant a Thlodi'. Bydd y bwrdd yn adrodd imi ar ei gynnydd.

15:29

Suzy Davies [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you very much, Deputy Minister, for your statement today. You may remember that, when this matter came before the Chamber before, we were very supportive of many of Baroness Andrews's recommendations, so I was particularly pleased to hear you specifically mention in your statement today the mainstreaming of things through schools and volunteering. I think those are areas that need quite a lot of exploration for everyone's benefit.

I can see from the formal response published just a couple of hours ago that some considerable planning has already taken place regarding action on the recommendations, some of which seems to conclude that certain organisations should, essentially, just keep on doing what they are already doing. That may be sound advice, but the original report was actually drawn up because of a reality gap between the aspiration of using culture and heritage as tools for tackling poverty and the fact that cultural organisations and communities were not really communicating in the way that perhaps all of us would like to see. So, I will take some time to digest this report, but I have some preliminary questions in the meantime.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad heddiw. Efallai y cofiwch, pan ddaeth y mater hwn gerbron y Siambr o'r blaen, ein bod yn gefnogol iawn i lawer o argymhellion y Farwnes Andrews, felly roeddwn yn arbennig o falch o'ch clywed yn sôn yn benodol yn eich datganiad heddiw am brif ffrydio pethau drwy ysgolion a gwirfoddoli. Rwyf yn meddwl bod y rheini'n feysydd y mae angen cryn dipyn o archwilio arnynt er budd pawb.

Gallaf weld yn yr ymateb ffurfiol a gyhoeddwyd rai oriau yn ôl fod cryn dipyn o waith cynllunio eisoes wedi digwydd o ran gweithredu ar yr argymhellion; mae'n ymddangos bod rhai ohonynt yn dod i'r casgliad y dylai rhai sefydliadau, yn y bôn, ddal ati i wneud yr hyn y maent eisoes yn ei wneud. Efallai fod hynny'n gyngor da, ond y rheswm dros lunio'r adroddiad gwreiddiol oedd bod bwlech realiti rhwng y dyhead i ddefnyddio diwylliant a threftadaeth i drechu tlodi a'r ffaith nad oedd sefydliadau a chymunedau diwylliannol yn cyfathrebu mewn gwirionedd yn y modd y byddem i gyd efallai wedi hoffi ei weld. Felly, rwyf am gymryd rhywfaint o amser i dreulio'r adroddiad hwn, ond mae gennyf rai cwestiynau rhagarweiniol yn y cyfamser.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In those areas where Communities First does not operate, your predecessor said that much of the heavy lifting in facilitating co-operation would be done by local authorities. Now, it is not clear to me from the quick glance that I have had across the full report that this seems the case now. You are asking an awful lot of more centralised organisations, many of which reside within Government. I am just wondering what you can do to be sure that, if this is the case, we avoid a perception here that this strategy is all going to be about central Government coming in and doing good work within particular communities. However worthy that is, that does then risk buy-in from those local communities. I also wondered, if local authorities are perhaps coming out of the picture a little bit, whether that was in response to the Welsh Local Government Association's observations that budget cuts were compromising its ability to use culture and heritage as tools for tackling poverty.

I wonder if you could also tell us just a little bit more about pioneer areas. I appreciate that this is new ground. I welcome the name check for Swansea, but we found it very difficult to find anything on its website about the activities that you have been referring to. I wanted to know how the pioneer areas have been chosen. Even the wealthiest communities will have pockets of the deepest deprivation, and rural communities can be just as far away from the source of cultural inspiration as perhaps the south Wales Valleys. So, are the pioneer areas representing families of types of community, or is it just a fairly random scatter?

In view of the budget cuts in your portfolio, I wonder whether you can give us some indication of the conversations that you have had with bodies such as Cymal, and perhaps the arts council, about how they can plan to undertake some of the new activities that you are expecting of them. I am not going to criticise the budget cuts per se; no-one is immune from these, although I have specific queries about them on this particular portfolio. However, if these organisations cannot plan, then the aspirations will fail; I think that is a given.

I am pleased to see that the plans include reference to local communities and community groups. Pioneer areas will be taking the lead on this particular activity from what I can see from the response to the report. Can you say what it is that you have in mind by pioneer areas taking the lead on creating local cultural networks? I ask in particular because there does not seem to be any timetable in this response or any progress on key performance indicators, which I appreciate are left to your board. However, it still seems to me as though we have no framework in which we are to hold you to account, Minister, and, if we want to ask any questions on this in future, how would we do that without key performance indicators and a timetable to refer to?

Finally, I just want to know what happened to recommendation 13. What is your view on the auto-enrolment of schoolchildren into local libraries, or has this idea been a casualty of the fact that local libraries are closing and library services are being centralised, however excellent those centralised services may be?

Yn yr ardaloedd hynny lle nad yw Cymunedau yn Gyntaf yn gweithredu, dywedodd eich rhagflaenydd mai awdurdodau lleol fyddai'n gwneud llawer o'r gwaith trwm i hwyluso cydweithredu. Yn awr, nid yw'n glir imi o'r cipolwg cyflym yr wyf wedi'i gael ar yr adroddiad llawn ei bod yn ymddangos mai dyna sut y mae pethau erbyn hyn. Rydych yn gofyn llawer iawn oddi wrth sefydliadau mwy canolog, a llawer ohonynt yn bodoli o fewn y Llywodraeth. Tybed beth y gallwch ei wneud i sicrhau, os yw hyn yn wir, ein bod yn osgoi canfyddiad yma y bydd y strategaeth hon i gyd yn dibynnu ar i'r Llywodraeth ganolog ddod i mewn a gwneud gwaith da mewn cymunedau penodol. Pa mor deilwng bynnag yw hynny, mae hynny wedyn yn peryglu cefnogaeth gan y cymunedau lleol hynny. Tybed hefyd, os yw awdurdodau lleol efallai'n dod allan o'r darlun ychydig bach, a yw hynny'n ymateb i sylwadau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod toriadau i'r gyllideb yn effeithio ar eu gallu i ddefnyddio diwylliant a threftadaeth yn offer i drechu tlodi?

Tybed a wnewch chi hefyd ddweud ychydig bach mwy wrthym am ardaloedd arloesi? Rwyf yn sylweddoli bod hyn yn dir newydd. Rwyf yn croesawu'r sôn am Abertawe, ond fe'i cawsom yn anodd iawn dod o hyd i ddim byd ar ei gwefan am y gweithgareddau yr ydych wedi bod yn cyfeirio atynt. Roedd arnaf eisiau gwybod sut y cafodd yr ardaloedd arloesi eu dewis. Bydd pocedi o amddifadedd dwfn yn bodoli hyd yn oed yn y cymunedau cyfoethocaf, a gall cymunedau gwledig fod yr un mor bell o ffynhonnell ysbrydoliaeth ddiwylliannol â chymoedd y de, efallai. Felly, a yw'r ardaloedd arloesi'n cynrychioli teuluoedd o fathau o gymunedau, ynteu ai gwasgariad ar hap ydyw?

Ac ystyried y toriadau i'r gyllideb yn eich portffolio, tybed a allwch roi rhyw syniad inni o'r sgyrsiau yr ydych wedi'u cael â chyrrff megis Cymal, ac efallai â chyngor y celfyddydau, ynghylch sut y gallant gynllunio i ymgymryd â rhai o'r gweithgareddau newydd yr ydych yn eu disgwyl ganddynt. Nid wyf yn mynd i feirniadu'r toriadau i'r gyllideb fel y cyfryw; nid oes neb yn ddiogel rhag y rhain, er bod gennyf ymholiadau penodol amdanynt ar y portffolio penodol hwn. Fodd bynnag, os na all y sefydliadau hyn gynllunio, bydd y dyheadau'n methu; credaf fod hynny'n amlwg.

Rwyf yn falch o weld bod y cynlluniau'n cyfeirio at gymunedau lleol a grwpiau cymunedol. Bydd ardaloedd arloesi'n arwain y gweithgaredd penodol hwn o'r hyn y gallaf ei weld yn yr ymateb i'r adroddiad. A allwch ddweud beth sydd gennych mewn golwg pan soniwch am ardaloedd arloesi'n arwain o ran creu rhwydweithiau diwylliannol lleol? Gofynnaf yn benodol oherwydd nid yw'n ymddangos bod unrhyw amserlen yn yr ymateb hwn nac unrhyw gynnydd ar ddangosyddion perfformiad allweddol, sydd, fe wn, yn cael eu gadael i'ch bwrdd. Fodd bynnag, mae'n dal i ymddangos i mi nad oes gennym fframwaith i'ch dal chi i gyfrif, Weinidog, ac, os byddwn am ofyn cwestiynau am hyn yn y dyfodol, sut y byddwn yn gwneud hynny heb ddangosyddion perfformiad allweddol nac amserlen i gyfeirio ati?

Yn olaf, hoffwn wybod beth ddigwyddodd i argymhelliad 13. Beth yw eich barn am gofrestru plant ysgol yn awtomatig mewn llyfrgelloedd lleol, ynteu a yw'r syniad hwn wedi mynd yn angof wrth i lyfrgelloedd lleol gau a gwasanaethau llyfrgell gael eu canoli, er mor rhagorol yw'r gwasanaethau canolog hynny?

May I thank the Member first of all for her general support of the report and our response to it? First of all, on the issue of library membership, we are rolling out further phases of 'Every Child a Library Member' and the results so far have been incredibly positive. Secondly, in terms of the question of deprivation and why we are linking so closely with Communities First areas, let me just compare what is happening here with the horror story that is happening in England as an illustration of why it is so important that we do align the work that we are going to carry out in this regard with Communities First areas. Across the border in England, it was found recently that the 10 most affluent council areas are seeing budget cuts within their councils of just 2.54% between 2010 and 2015-16. Deputy Presiding Officer, in the 10 least affluent areas, council budget cuts have been more than 10 times that level, averaging 25.3%. That has massacred the arts and cultural services in the most deprived areas. Therefore, we make no apology for targeting our resources and our plans at Communities First areas.

In terms of where the pioneer areas will be, and the methodology for selecting them, discussions have taken place very widely. We have been able to identify additional potential participants in the pioneer areas programme. Those additional areas are identified as Cardiff, Newport, Merthyr and Torfaen, Gwynedd and Wrexham. So, I am sure that the Member will appreciate that many of those pioneer areas will indeed cover areas of rural deprivation as well.

My officials held workshops on 29 September, and again on 6 October, to enable the relevant local authorities to hear about the proposals, and to discuss how they could operate. Feedback from these workshops has been incorporated into the detailed planning around the pioneer areas. Strong support was expressed for the proposed way forward. The Welsh Government will be continuing dialogue with these proposed pioneer areas over the coming months, with a view to them formally commencing work in April 2015.

In addition, within the Communities First cluster areas, there will be lead contacts for the pioneer areas. However, any local authority area in Wales with an interest in this area of work is very welcome to get involved in this at a very early stage of implementing the pioneer areas approach.

The Member identified the role that volunteering will have in progressing work on Baroness Andrews's recommendations, and I very much welcome the comments that the Member made. Indeed, the cultural inclusion board will be examining the scope for a national cultural volunteering strategy, and funding bodies in this area will establish an information network to identify shared strategic priorities and to facilitate more joint working. Indeed, there will also be a role, in my view, within the revised Welsh baccalaureate, for cultural challenges and volunteering.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod yn gyntaf oll am ei chefnogaeth gyffredinol i'r adroddiad a'n hymateb iddo? Yn gyntaf oll, o ran bod yn aelod o lyfrgell, rydym yn cyflwyno camau pellach o 'Pob Plentyn yn Aelod o Lyfrgell' ac mae'r canlyniadau hyd yma wedi bod yn hynod gadarnhaol. Yn ail, o ran amddifadedd a pham yr ydym yn cysylltu mor agos ag ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gadewch imi gymharu'r hyn sy'n digwydd yma â'r stori arswyd sy'n digwydd yn Lloegr i ddangos pam y mae mor bwysig ein bod yn alinio'r gwaith yr ydym yn mynd i'w wneud yn hyn o beth ag ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Dros y ffin yn Lloegr, cafwyd yn ddiweddar fod y 10 ardal cyngor fwyaf cefnog yn gweld toriadau i'r gyllideb yn eu cyngorau o ddim ond 2.54% rhwng 2010 a 2015-16. Ddirprwy Lywydd, yn y 10 ardal leiaf cefnog, mae toriadau i gyllidebau'r cyngorau wedi bod dros 10 gwaith y lefel honno—25.3% ar gyfartaledd. Mae hynny wedi dinistrio'r gwasanaethau celfyddydol a diwylliannol yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Felly, nid ydym am ymddiheuro am dargedu ein hadnoddau a'n cynlluniau at ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

O ran ble y bydd yr ardaloedd arloesi, a'r fethodoleg ar gyfer eu dethol, mae trafodaethau eang iawn wedi eu cynnal. Rydym wedi gallu nodi cyfranogwyr posibl ychwanegol yn y rhaglen ardaloedd arloesi. Yr ardaloedd ychwanegol hynny yw Caerdydd, Casnewydd, Merthyr a Thorfaen, Gwynedd a Wrecsam. Felly, rwyf yn siŵr y bydd yr Aelod yn deall y bydd llawer o'r ardaloedd arloesi hynny'n cwmpasu ardaloedd o amddifadedd gwledig hefyd.

Cynhaliodd fy swyddogion weithdai ar 29 Medi, ac eto ar 6 Hydref, i roi cyfle i'r awdurdodau lleol perthnasol i glywed am y cynigion, a thrafod sut y gallent weithredu. Mae adborth o'r gweithdai hyn wedi ei ymgorffori yn y cynllunio manwl ynghylch yr ardaloedd arloesi. Lleiswyd cefnogaeth gref i'r ffordd arfaethedig ymlaen. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i siarad â'r ardaloedd arloesi arfaethedig hyn dros y misoedd nesaf, a'r bwriad fydd iddynt ddechrau eu gwaith yn ffurfiol ym mis Ebrill 2015.

Hefyd, yn ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, bydd cysylltiadau arweiniol ar gyfer yr ardaloedd arloesi. Fodd bynnag, mae croeso mawr i unrhyw ardal awdurdod lleol yng Nghymru sydd â diddordeb yn y maes gwaith hwn gymryd rhan yn hyn yn gynnar iawn yn y broses o roi'r ardaloedd arloesi ar waith.

Nododd yr Aelod swyddogaeth gwirfoddoli o ran bwrw ymlaen â gwaith ar argymhellion y Farwnes Andrews, ac rwyf yn croesawu'n fawr iawn y sylwadau a wnaeth yr Aelod. Yn wir, bydd y bwrdd cynhwysiant diwylliannol yn archwilio'r posibiladau o ran strategaeth gwirfoddoli diwylliannol genedlaethol, a bydd cyrff cyllido yn y maes hwn yn sefydlu rhwydwaith gwybodaeth i nodi blaenoriaethau strategol a rennir a hwylyso mwy o gydweithio. Yn wir, bydd lle hefyd, yn fy marn i, ym magloriaeth Cymru wedi ei diwygio, ar gyfer heriau diwylliannol a gwirfoddoli.

Julie Morgan [Bywgraffiad Biography](#)

I support the report and the Government's response very strongly. Does the Minister agree that it is very important that institutions—arts institutions—are very community-friendly and child-friendly? I am sure that the Minister knows of and has visited Chapter Arts Centre, in the constituency of my friend, the Minister for health. When Chapter was first set up, there was a playgroup in the building, and the setting up of Chapter went along with children playing there, and it was a very united thing. Of course, the child-friendly way in which Chapter operates continues. For example, on a Friday, Chapter has a film screening called Carry on Screaming, which allows parents or carers to see a film with their babies, at Chapter, without them having to worry about their babies disturbing anyone. Does the Minister think that that is a really good example of how you can make arts venues more accessible to people in the community?

Just to finish, I strongly support the proposal for every child to have a library ticket. I think that that is actually pioneering, and I hope that it will be implemented as soon as possible.

Rwyf yn cefnogi'r adroddiad ac ymateb y Llywodraeth yn gryf iawn. A yw'r Gweinidog yn cytuno ei bod yn bwysig iawn fod sefydliadau—sefydliadau celfyddydol—yn ystyriol o gymunedau ac o blant? Rwyf yn siŵr bod y Gweinidog yn gwybod am Ganolfan Gelfyddydau'r Chapter, yn etholaeth fy nghyfaill, y Gweinidog iechyd, ac wedi ymweld â hi. Pan gafodd Chapter ei sefydlu gyntaf, roedd cylch chwarae yn yr adeilad, a sefydlwyd Chapter tra oedd plant yn chwarae yno, ac roedd yn beth unedig iawn. Wrth gwrs, mae Chapter yn dal i fod yn lle addas i blant. Er enghraifft, ar ddydd Gwener, mae ffilmau'n cael eu dangos yn Chapter ac enw'r digwyddiad yw Carry on Screaming, sy'n caniatáu i rieni neu ofalwyr weld ffilm gyda'u babanod, yn Chapter, heb orfod poeni bod eu babanod yn tarfu ar neb. A yw'r Gweinidog yn meddwl bod hynny'n enghraifft dda iawn o sut y gallwch wneud lleoliadau celfyddydol yn fwy hygyrch i bobl yn y gymuned?

I orffen, rwyf yn cefnogi'n gryf y cynnig i bob plentyn gael tocyn llyfrgell. Credaf fod hynny'n wirioneddol arloesol, ac rwyf yn gobeithio y caiff ei roi ar waith cyn gynted ag y bo modd.

Kenneth Skates [Bywgraffiad Biography](#)

May I thank the Member for her valuable contribution? I join her in paying tribute to the work of Chapter—I think that it is a fantastic arts centre. I look forward to visiting there officially, in my new role, very soon.

Making facilities such as arts centres, museums, and libraries child-friendly and, indeed, family-friendly, is essential. It is not just good for young people; it is often good for getting footfall to increase. I would like to pay tribute to the National Trust in this area. The National Trust has transformed in recent years, and has children at the very centre of its offer at every venue. Indeed, it now produces books such as '50 things to do before you're 11¾'. So, this specifically targets getting children to visit its sites.

As I say, it is good for arts and culture, it is good for heritage, and it will prove invaluable in widening participation and access from deprived areas. There is work that is taking place; I have had conversations with my colleague, the Minister for Communities and Tackling Poverty, in terms of the role that improved childcare within facilities such as arts centres can have in increasing footfall and, crucially, in getting through the door people who would otherwise not have had access, or would have been deprived the opportunity to participate, and I am thinking specifically about young single mums in this area.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am ei chyfraniad gwerthfawr? Rwyf finnau hefyd am dalu teyrnged i waith Chapter—credaf ei bod yn ganolfan gelfyddydau wych. Rwyf yn edrych ymlaen at ymweld â hi'n swyddogol, yn fy swydd newydd, yn fuan iawn.

Mae'n hollbwysig gwneud cyfleusterau megis canolfannau celfyddydau, amgueddfeydd a llyfrgelloedd yn addas i blant ac, yn wir, i deuluoedd. Nid dim ond i'r bobl ifanc y mae hyn yn dda o beth; mae'n aml yn dda o ran cynyddu nifer yr ymwelwyr. Hoffwn dalu teyrnged i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn hyn o beth. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi'i gweddnewid dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae plant yn ganolog i'w chynnyg ym mhob lleoliad. Yn wir, mae bellach yn cynhyrchu llyfrau megis '50 things to do before you're 11¾'. Felly, mae hyn yn benodol yn targedu denu plant i ymweld â'i safleoedd.

Fel y dywedais, mae'n dda i'r celfyddydau a diwylliant, mae'n dda i dreftadaeth, a bydd yn amhrisiadwy o ran ehangu cyfranogiad a mynediad o ardaloedd difreintiedig. Mae gwaith yn cael ei wneud; rwyf wedi cael sgysiaid â'm cydweithiwr, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, ynglŷn â'r hyn y gall gwell gofal plant mewn cyfleusterau megis canolfannau celfyddydau ei wneud i gynyddu nifer yr ymwelwyr ac, yn hollbwysig, i ddenu pobl na fyddent fel arall wedi gallu mynd yno, neu a fyddai wedi eu hamddifadu o'r cyfle i gymryd rhan, ac rwyf yn meddwl yn benodol am famau sengl ifanc yn hyn o beth.

Deputy Minister, in your response to this report you say that the principle underlying Baroness Andrew's report is that the benefits of access to and participation in all forms of culture should be available to all and that particular efforts are needed to ensure that those in the most disadvantaged communities can enjoy these opportunities. You say that the Welsh Government endorses this principle and is committed to driving forward a programme of work to deliver it. I welcome that, but, in the real world, there are 30 public libraries that face closure this year in Wales, with 14 in Rhondda Cynon Taf and nine in Neath Port Talbot in my region. Does the Welsh Government agree with me that both county boroughs are still very much classified as areas of deprivation, and what efforts are you making as a Minister, therefore, to go against the tide of closures? Only this week you mentioned Swansea council. It has reneged on its promise to keep Pennard library on the Gower open, which is another unfortunate decision that will mean that fewer people will be able to access those services in the area. The same is true of the Cynon Valley museum, and the Muni in Pontypridd was recently closed—a vital local community hub that was used by many people. To the best of my knowledge, there was no intervention from the Welsh Government, which had this report by then. Can you confirm this, and will there be any changes to that situation as a result of the importance of this report, as I believe, to make sure that we have those vital services in areas like Pontypridd?

Moving on to music, youth orchestras and choirs are under threat not only in Bridgend, but in Rhondda Cynon Taf. How are we going to be using this report to ride back on potential cuts to services that will see the most deprived people not being able to access music provision because they simply will not be able to afford to buy the instruments to be able to learn and go through to national progression?

Some of the other questions that I have relate to how you will successfully introduce these recommendations, and I mean 'successfully' against a backdrop of steep local authority cuts when the focus, as far as I can see from the meetings I attend almost nightly now, are focused on delivering core services often to the detriment of these cultural activities. They are not seen as integral to the deprivation agenda, as I mentioned earlier in First Minister's questions when we were talking about sporting activities. We have to have that as the core part of what we are thinking here.

Ddirprwy Weinidog, yn eich ymateb i'r adroddiad hwn rydych yn dweud mai'r egwyddor sydd wrth wraidd adroddiad y Farwnes Andrew yw y dylai manteision mynediad i bob math o ddiwylliant, a chymryd rhan ynddynt, fod ar gael i bawb a bod angen ymdrechion penodol i sicrhau bod pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn gallu mwynhau'r cyfleoedd hyn. Rydych yn dweud bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r egwyddor hon a'i bod wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â rhaglen o waith i'w gwireddu. Croesawaf hynny, ond, yn y byd go iawn, mae 30 o lyfrgelloedd cyhoeddus yn wynebu gorfod cau eleni yng Nghymru, 14 yn Rhondda Cynon Taf a naw yng Nghastell-nedd Port Talbot yn fy rhanbarth i. A yw Llywodraeth Cymru'n cytuno â mi fod y ddwy fwrdeistref sirol yn dal i fod wedi'u dosbarthu fel ardaloedd o amddifadedd, a pha ymdrechion ydych chi'n eu gwneud fel gweinidog, felly, i fynd yn erbyn y llif o gau llyfrgelloedd? Soniasoch am gyngor Abertawe yr wythnos hon. Mae wedi torri ei addewid i gadw llyfrgell Pennard ar Benrhyn Gŵyr ar agor, sy'n benderfyniad anffodus arall a fydd yn golygu y bydd llai o bobl yn gallu manteisio ar y gwasanaethau hyn yn yr ardal. Mae'r un peth yn wir am amgueddfa Cwm Cynon, a chafodd y Muni ym Mhontypridd ei gau'n ddiweddar—canolbwynt cymunedol lleol hanfodol a oedd yn cael ei ddefnyddio gan lawer o bobl. Hyd y gwn i, ni fu dim ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru, a oedd wedi cael yr adroddiad hwn erbyn hynny. A allwch gadarnhau hyn, ac a fydd unrhyw newidiadau i'r sefyllfa honno yn sgil pwysigrwydd yr adroddiad hwn, yn fy marn i, o ran sicrhau bod gennym y gwasanaethau hanfodol hynny mewn ardaloedd fel Pontypridd?

A symud ymlaen at gerddoriaeth, mae cerddorfeydd a chorau ieuentid dan fygythiad, nid yn unig ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ond yn Rhondda Cynon Taf hefyd. Sut ydym ni'n mynd i ddefnyddio'r adroddiad hwn i ddadwneud toriadau posibl i wasanaethau a fydd yn golygu bod y bobl fwyaf difreintiedig yn colli'r cyfle i gael darpariaeth cerddoriaeth oherwydd na fyddant yn gallu fforddio prynu'r offerynnau i allu dysgu a mynd drwodd i'r dilyniant cenedlaethol?

Mae rhai o fy nghwestiynau eraill yn ymwneud â sut y byddwch yn llwyddo i gyflwyno'r argymhellion hyn, ac rwyf yn golygu 'llwyddo' yn erbyn cefndir o doriadau awdurdodau lleol aruthrol pan fo'r pwyslais, cyhyd ag y gallaf ei weld yn y cyfarfodydd yr wyf yn eu mynychu bron bob nos yn awr, ar ddarparu gwasanaethau craidd yn aml ar draul y gweithgareddau diwylliannol hyn. Nid ydynt yn cael eu hystyried yn rhan annatod o'r agenda amddifadedd, fel y nodais yn gynharach yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog pan oeddem yn sôn am weithgareddau chwaraeon. Rhaid inni sicrhau bod hynny'n rhan greiddiol o'r hyn yr ydym yn ei feddwl yma.

The National Library of Wales is cutting staff and changing work contracts. How are we going to be able to realise these changes in the report with regard to what it needs to be doing if it cannot even sustain the services it is providing right now in its everyday working life? The same goes for the Arts Council of Wales. We are seeing, potentially, more rounds of budget cuts or grants that are changing and which will mean that fewer organisations will be able to apply for those grants. How can, therefore, the arts council create these cultural activists that we speak so finely of, whom I would obviously promote and support? How can that be workable in a situation where we are losing those valuable local services and which will never be there again? They will not be able to be created again once they have gone. I think that is something that the Welsh Government, in the reality of the here and now, needs to understand because we cannot be here again in a few months' time, when, for example, the Muni is being sold off and when, for example, museums are being turned into housing estates. We have to act now. I appreciate the words in the report, but we have to see how they are transformed into action.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n torri staff ac yn newid contractau gwaith. Sut ydym ni'n mynd i allu gwireddu'r newidiadau hyn yn yr adroddiad o ran yr hyn y mae angen ei wneud os na all hyd yn oed gynnal y gwasanaethau y mae'n eu darparu ar hyn o bryd yn ei bywyd gwaith bob dydd? Mae'r un peth yn wir am Gyngor Celfyddydau Cymru. Rydym yn gweld, o bosibl, mwy o doriadau i gyllidebau neu grantiau sy'n newid ac a fydd yn golygu y bydd llai o sefydliadau'n gallu gwneud cais am y grantiau hynny. Sut, felly, y gall cyngor y celfyddydau greu'r gweithredwyr diwylliannol hyn yr ydym yn siarad mor goeth amdanynt, y byddwn yn amlwg yn eu hyrwyddo a'u cefnogi? Sut y gall hynny fod yn ymarferol mewn sefyllfa lle'r ydym yn colli'r gwasanaethau lleol gwerthfawr hynny ac na fyddant byth yno eto? Ni fydd modd eu creu eto ar ôl iddynt fynd. Credaf fod hynny'n rhywbeth y mae angen i Lywodraeth Cymru, yn realiti'r presennol, ei ddeall oherwydd ni allwn fod yma eto ymhen rhai misoedd, pan, er enghraifft, y caiff y Muni ei werthu a phan, er enghraifft, y mae amgueddfeydd yn cael eu troi'n ystadau tai. Rhaid inni weithredu nawr. Rwyf yn gwerthfawrogi'r geiriau yn yr adroddiad, ond rhaid inni weld sut y cânt eu rhoi ar waith.

15:43

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for some really vital observations. Essentially, what the Member has said is that we are trying to implement something that will widen participation within the arts, culture and heritage sector at a time when the landscape is very much one of shrinking budgets within local authorities primarily but also within national organisations where the squeeze is largely on those areas that will be decisive in delivering successful outcomes. First of all, it is worth recognising that local authorities need to recognise the importance of cultural facilities that serve our communities. Councils must look in detail at alternative and often innovative delivery models, and at collaboration with other authorities, potentially through mergers with other authorities, in order to retain services. I am pleased to be able to tell the Member that a considerable amount of work has already taken place, and the project will be reaching fruition soon on the establishment of a comprehensive toolkit that will assist not just the third sector, but also local authorities, in identifying alternative management systems and operating systems, with signposting to funds that are available.

Diolch i'r Aelod am sylwadau gwirioneddol allweddol. Yn y bôn, yr hyn y mae'r Aelod wedi'i ddweud yw ein bod yn ceisio cyflwyno rhywbeth a fydd yn ehangu cyfranogiad yn sector y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ar adeg pan fo cyllidebau'n bendant yn crebachu, yn yr awdurdodau lleol yn bennaf, ond hefyd yn y sefydliadau cenedlaethol lle y mae'r wasgfa'n bennaf ar y meysydd hynny a fydd bwysicaf o ran sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Yn gyntaf oll, mae'n werth cydnabod bod angen i awdurdodau lleol gydnabod pwysigrwydd y cyfleusterau diwylliannol sy'n gwasanaethu ein cymunedau. Rhaid i gynghorau edrych yn fanwl ar fodelau darparu amgen sy'n aml yn arloesol, ac ar gydweithio ag awdurdodau eraill, o bosibl drwy uno ag awdurdodau eraill, er mwyn cadw gwasanaethau. Rwyf yn falch o allu dweud wrth yr Aelod fod cryn dipyn o waith eisoes wedi digwydd, a bydd y prosiect yn dwyn ffrwyth yn fuan drwy sefydlu pecyn cymorth cynhwysfawr a fydd o gymorth nid yn unig i'r trydydd sector, ond hefyd i awdurdodau lleol, o ran nodi systemau rheoli a systemau gweithredu amgen, a chyfeirio at yr arian sydd ar gael.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

There is money in the system, unlike in other parts of the UK, for transformation: for example, the CyMAL community learning libraries grant, which paid out almost £1 million in the last financial year to assist libraries to stay open. The focus is very much on transformation around the co-location of other services. So, there is money still in the system. There is a revised and renewed focus on co-location, and we are going to be producing a comprehensive toolkit. Originally, I had asked for work to be done in this area, specifically with regard to sports and leisure centres, for the reasons that you and David Rees identified earlier during First Minister's questions. However, it soon became apparent that we needed to look wider than just at co-location of services within sports and leisure centres, and that we had to look also at museums, at libraries and at archives as well. So, a considerable amount of work has been invested so far in that area. You may be aware as well that I have established an independent review of the position of local museums. The review has been tasked with identifying the current position and the impact of the cuts, and to consider alternative delivery models. This expert panel will report to me in the spring of next year.

You mention cuts to the arts council budget. It is worth noting, I think, at this point that if we compare Wales and England, we will see that, in Wales, there has been a cut of approximately 10% between 2010 and 2015-16, whereas in England the cut has been a whopping 33%. That is significantly more, and I think that this demonstrates the increased value that the Welsh Labour Government places on arts and culture over the value that the Lib Dem and Conservative Government places on arts and culture across the border.

We will be working with the national library. I think that the Member is right to identify that there are challenges that face not just the national library, but all delivery organisations, I believe. However, we will be working with the national library, very much with a focus on increasing its income potential. Indeed we are also looking at other ways that we would be able to support co-location of community services, and in this area, we are working with the Welsh Local Government Association.

Mae arian yn y system, yn wahanol i rannau eraill o'r DU, ar gyfer trawsnewid: er enghraifft, grant CyMAL i lyfrgelloedd dysgu cymunedol, a dalodd bron i £1 miliwn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf i helpu llyfrgelloedd i aros ar agor. Mae'r pwyslais i raddau helaeth iawn ar drawsnewid o safbwynt cydleoli gwasanaethau eraill. Felly, mae arian yn dal i fod yn y system. Mae pwyslais diwygiedig o'r newydd ar gydleoli, a byddwn yn cynhyrchu pecyn cymorth cynhwysfawr. Yn wreiddiol, roeddwn wedi gofyn i waith gael ei wneud yn y maes hwn, yn benodol o ran canolfannau hamdden a chwaraeon, am y rhesymau a nodwyd gennych chi a David Rees yn gynharach yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog. Fodd bynnag, daeth yn amlwg yn fuan fod angen inni edrych ar fwy na dim ond cydleoli gwasanaethau mewn canolfannau hamdden a chwaraeon, a bod yn rhaid inni edrych hefyd ar amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau. Felly, mae llawer iawn o waith wedi'i fuddsoddi hyd yma yn y maes hwnnw. Efallai eich bod yn gwybod hefyd fy mod wedi sefydlu adolygiad annibynnol o sefyllfa amgueddfeydd lleol. Gofynnwyd i'r adolygiad nodi'r sefyllfa bresennol ac effaith y toriadau, ac ystyried modelau cyflawni amgen. Bydd y panel arbenigol hwn yn adrodd imi yn y gwanwyn y flwyddyn nesaf.

Rydych yn sôn am doriadau i gyllideb cyngor y celfyddydau. Mae'n werth nodi, rwyf yn meddwl, yn y fan hon, os cymharwn Gymru a Lloegr, y gwelwn, y bu toriad o tua 10% yng Nghymru rhwng 2010 a 2015-16, ond bod toriad enfawr o 33% wedi bod yn Lloegr. Mae hynny'n llawer mwy, a chredaf fod hyn yn dangos y gwerth uwch y mae Llywodraeth Lafur Cymru'n ei roi ar y celfyddydau a diwylliant o gymharu â'r gwerth y mae Llywodraeth y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr yn ei roi ar y celfyddydau a diwylliant dros y ffin.

Byddwn yn gweithio gyda'r llyfrgell genedlaethol. Credaf fod yr Aelod yn iawn i nodi bod heriau'n wynebu pob sefydliad darparu, rwyf yn credu, nid dim ond y llyfrgell genedlaethol. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio gyda'r llyfrgell genedlaethol, â phwyslais penodol ar gynyddu ei photensial o ran incwm. Yn wir, rydym hefyd yn edrych ar ffyrdd eraill y gallem gefnogi cydleoli gwasanaethau cymunedol, ac yn hyn o beth, rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

15:47

Peter Black [Bywgraffiad Biography](#)

I welcome the statement and the progress that has been made in terms of putting into effect Baroness Andrews's report on culture and poverty. Deputy Minister, one issue that is very much the elephant in the room, as has been referred to by you and previous speakers, is the issue of funding for the strategy that you have in front of you and the recommendations that are in this report. We have heard in evidence to the Communities, Equality and Local Government Committee that, although there was a particular cut to local government services, because culture and the arts are non-protected services, they may well suffer more than other services—possibly 20% to 30%. I accept all of the comparisons that you have already referred to, but I would just be interested if you could outline how this strategy fits into that context, and how you will be able to take this strategy forward in the context of such severe cuts to culture and the arts, in particular, at local government level.

Croesawaf y datganiad a'r cynnydd a wnaed o ran rhoi adroddiad y Farwnes Andrews ar ddiwylliant a thlodi ar waith. Ddirprwy Weinidog, un mater amlwg nad oes neb yn ei drafod, fel y crybwyllasoch chi a siaradwyr blaenorol, yw ariannu'r strategaeth sydd gennych o'ch blaen a'r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn. Rydym wedi clywed mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, er y bu toriad penodol i wasanaethau llywodraeth leol, gan fod diwylliant a'r celfyddydau'n wasanaethau nad ydynt wedi'u gwarchod, y gallent ddioddef mwy na gwasanaethau eraill—efallai 20% i 30%. Rwyf yn derbyn pob un o'r cymariaethau yr ydych eisoes wedi cyfeirio atynt, ond byddai gennyf ddi-ddordeb pe gallech amlinellu sut yn union y mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â'r cyd-destun hwnnw, a sut y gallwch fwrw ymlaen â'r strategaeth hon yng nghyd-destun toriadau mor llym i ddiwylliant a'r celfyddydau, yn benodol, ar lefel llywodraeth leol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have three basic points that I want to make, Deputy Minister, in relation to the statement. The first relates to the reference to the City and County of Swansea, and the initiative that you referred to there, which, I have to say, as a citizen of Swansea, is low key to practically invisible. However, of course, the issue that rises out of that, particularly in terms of collaboration, is the issue of library services. Bethan Jenkins has already referred to Pennard library. I know that, when the Welsh Government published the outcome of its Welsh public libraries review, one of the models that was investigated was community involvement, which is a partnership between a local authority public library service and a community group. In the case of Pennard library in Gower, the community group that was set up there has raised £300,000 in grants, including a substantial grant from CyMAL, to redevelop that library as a community centre. It had undertakings from the local council effectively to maintain the librarian service as part of that development for five years in writing, only to then see the council go back on its promise and effectively plunge the whole future of that library into doubt. When you have a situation where a council can go back on its written word, what future is there for the sort of collaborative approach that is outlined in that document, and how will you be able to take that forward when local councils themselves do not see the value in keeping their promises in relation to maintaining important services, such as community libraries?

The second point that I wanted to make was one I raised when the previous Minister brought a written report to the Chamber in the statement. I was disappointed that the report did not address the role of new technology in terms of mainstreaming arts and culture. Obviously, because the report did not make recommendations on that, I do not think that you have responded, because there is nothing there for you to respond to, as such. Clearly, that is going to be a major way forward. There is a very good example in Swansea, actually, where the mediaeval Swansea walk is supplemented by sunken Bluetooth points around the city. When your phone picks up a signal, it goes to the relevant website page about a particular heritage site in the city. So, I am wondering, Deputy Minister, how you are going to be looking to take ICT forward in terms of culture and the arts to try to use that, not just in the classroom, but also in terms of selling our heritage and our culture better, and getting the message out, particularly in rural and remote communities, where it is very difficult, I think, sometimes to get messages across without using that particular technology.

Finally, there is the issue of historic buildings. You are aware, Deputy Minister, that I and other Members in this Chamber have been very exercised by the future of historic buildings, especially old chapels. We wonder, in terms of recommendation 27 in the report, what you propose to do in terms of trying to take forward and preserve as much as we can of our heritage as part of this review. How are you going to bring those buildings back into use, and, particularly in the context report, in terms of culture and poverty, how are you going to bring them back into use as important community assets that people are able to access?

Mae gennyf dri phwynt sylfaenol yr hoffwn eu gwneud, Ddirprwy Weinidog, ynglŷn â'r datganiad. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r cyfeiriad at Ddinas a Sir Abertawe, a'r fenter y cyfeiriasoch ato yno, sydd, rhaid imi ddweud, fel un o ddinasyddion Abertawe, mor isel ei phroffil nes ei bod bron yn anweledig. Fodd bynnag, wrth gwrs, yr hyn sy'n codi o hynny, yn enwedig o ran cydweithio, yw gwasanaethau llyfrgell. Mae Bethan Jenkins eisoes wedi cyfeirio at lyfrgell Pennard. Pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganlyniad ei hadolygiad o lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru, gwn mai un o'r modelau yr ymchwiliwyd iddo oedd cynnwys y gymuned, sy'n bartneriaeth rhwng gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yr awdurdod lleol a grŵp cymunedol. Yn achos llyfrgell Pennard ym Mhenrhyn Gŵyr, mae'r grŵp cymunedol a sefydlwyd yno wedi codi £300,000 mewn grantiau, gan gynnwys grant sylweddol gan CyMAL, i ailddatblygu'r llyfrgell honno'n ganolfan gymunedol. Cafwyd ymrwymadau gan y cyngor lleol i bob pwrpas i gynnal y gwasanaeth llyfrgellydd fel rhan o'r datblygiad hwnnw am bum mlynedd a hynny'n ysgrifenedig, ond yna torrodd y cyngor ei addewid ac i bob pwrpas taflwyd amheuaeth ar holl ddyfodol y llyfrgell honno. Pan fo gennyf sefyllfa lle y gall cyngor dorri addewid ysgrifenedig, pa ddyfodol sydd i'r math o ymagwedd gydweithredol sydd wedi'i hamlinellu yn y ddogfen honno, a sut y gallwch fwrw ymlaen â hynny pan nad yw cynghorau lleol eu hunain yn gweld gwerth cadw eu haddewidion i gadw gwasanaethau pwysig, megis llyfrgelloedd cymunedol?

Mae'r ail bwynt yr oeddwn am ei wneud yn un a godais pan ddaeth y Gweinidog blaenorol ag adroddiad ysgrifenedig i'r Siambr yn y datganiad. Roeddwn yn siomedig nad oedd yr adroddiad yn rhoi sylw i'r hyn y gellir ei wneud â thechnoleg newydd o ran prif ffyrddio'r celfyddydau a diwylliant. Yn amlwg, gan nad oedd yr adroddiad yn gwneud argymhellion ar hynny, nid wyf yn credu eich bod wedi ymateb, gan nad oes dim yno i chi i ymateb iddo, fel y cyfryw. Wrth gwrs, bydd hynny'n ffordd fawr ymlaen. Mae enghraifft dda iawn yn Abertawe, a dweud y gwir, lle mae pwyntiau Bluetooth suddedig o amgylch y ddinas yn cyd-fynd â thaith gerdded ganoloesol Abertawe. Pan fydd eich ffôn yn codi signal, bydd yn mynd at y dudalen berthnasol ar y wefan ynglŷn â safle treftadaeth penodol yn y ddinas. Felly, tybed, Ddirprwy Weinidog, sut ydych chi'n bwriadu bwrw ymlaen â TGCh o ran diwylliant a'r celfyddydau i geisio ei defnyddio, nid dim ond yn yr ystafell ddosbarth, ond hefyd i werthu ein treftadaeth a'n diwylliant yn well, a lledaenu'r neges, yn enwedig mewn cymunedau gwledig ac anghysbell, lle y mae'n anodd iawn cyfleu negeseuon weithiau, rwyf yn meddwl, heb ddefnyddio'r dechnoleg honno.

Yn olaf, mae mater adeiladau hanesyddol. Gwyddoch, Ddirprwy Weinidog, fy mod i ac Aelodau eraill yn y Siambr hon wedi bod yn ymwneud gryn dipyn â dyfodol adeiladau hanesyddol, yn enwedig hen gapeli. Tybed, o ran argymhelliad 27 yn yr adroddiad, beth ydych chi'n bwriadu ei wneud i geisio datblygu a chadw cymaint ag y gallwn o'n treftadaeth fel rhan o'r adolygiad hwn. Sut ydych chi'n mynd i sicrhau y caiff yr adeiladau hynny eu defnyddio eto, ac, yn enwedig yng nghyd-destun yr adroddiad, o ran diwylliant a thlodi, sut ydych chi'n mynd i sicrhau y cânt eu defnyddio fel asedau cymunedol pwysig sydd ar gael i bobl?

I would like to thank the Member for again identifying that the challenge that we will face, in many respects, will be in implementation and delivery against a landscape and a backdrop of decreasing funds from the Westminster Government. It is worth noting again, I think, that the Welsh Government has had its budget cut by 10%, and the Welsh Labour Government has been able to largely protect local government thus far and has limited the impact of the cuts to 4.5%. However, that cannot continue and there will be challenges, which is why we need to make sure that we tie the preservation of arts and cultural services to those areas of highest deprivation—those areas that lack the capacity and expertise in many instances to be able to deliver services through an alternative ownership model.

I cannot comment on whether Pennard is one of the most deprived areas; I am not familiar with Pennard, I am afraid. However—[Interruption.] I assume that it is not, given the reaction from Members. I should say that the community can still take forward its plans, and I believe that the stumbling block thus far has been over the actual staffing of the library, if memory serves me right, and the role that the local authority might have played in that regard. So, it can still take forward its plans. I think that the community group needs to have an acknowledged respect for the hard work and energy that it has invested in the campaign so far, and I do wish it the very best in taking its plans forward.

In terms of the digital agenda, we have the People's Collection Wales, which is a magnificent digitised collection that, through being digitised, is now accessible to every single person, and not just in Wales, but every person on the planet. I think that that represents how the Welsh Government is making a concerted effort to take our arts and culture and heritage into every community, into every home and into every school. There are also innovative projects taking place in National Museum Wales, for example, and I would very much encourage the Member to visit the museum in Caerleon, where he will find that new digital devices—indeed the first anywhere in the UK, Europe and the world—are being used for interpretation purposes. Communities 2.0 has also now reached more than 50,000 people in deprived areas and enabled them to use ICT in a way that opens access to the people's collection and to new skills and job opportunities. So, I very much embrace new and emerging digital technologies.

It is also my view, moving forward, that we could well see the likes of the Welsh National Opera live-streaming to other parts of Wales. There is no barrier to doing this now. We have the ability to do so, and I very much look forward to discussions with organisations within the arts and culture sector in this regard.

Hoffwn ddiolch i'r Aelod am nodi unwaith eto mai'r her y byddwn yn ei hwynebu, mewn sawl ffordd, fydd gweithredu a chyflawni yn erbyn tirlun a chefnidir o gyllid sy'n crebachu oddi wrth Lywodraeth San Steffan. Mae'n werth nodi eto, rwyf yn credu, fod cyllideb Llywodraeth Cymru wedi ei thorri 10%, ac mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi gallu gwarchod llywodraeth leol i raddau helaeth hyd yma ac wedi cyfyngu ar effaith y toriadau i 4.5%. Fodd bynnag, ni all hynny barhau a bydd heriau i'w hwynebu, a dyna pam y mae angen inni wneud yn siŵr ein bod yn clymu'r gwaith o warchod gwasanaethau celfyddydol a diwylliannol wrth yr ardaloedd mwyaf difreintiedig hynny—yr ardaloedd hynny nad oes ganddynt y gallu a'r arbenigedd mewn llawer o achosion i allu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng model perchnogaeth amgen.

Ni allaf ddweud a yw Pennard yw un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig; nid wyf yn gyfarwydd â Pennard, mae arnaf ofn. Fodd bynnag—[Torri ar draws.] Rwyf yn cymryd nad yw, o weld ymateb yr Aelodau. Dylwn ddweud y gall y gymuned ddal ati a bwrw ymlaen â'i chynlluniau, a chredaf mai'r maen tramgwydd hyd yma fu staffio'r llyfrgell, os cofiaf yn iawn, a'r rhan y gallai'r awdurdod lleol fod wedi'i chwarae yn hynny o beth. Felly, gallant fwrw ymlaen â'u cynlluniau. Credaf fod angen cydnabod a pharchu'r grŵp cymunedol am ei waith caled a'r egni y mae wedi'i fuddsoddi yn yr ymgyrch hyd yma, ac rwyf yn dymuno'n dda iddynt wrth fwrw ymlaen â'u cynlluniau.

O ran yr agenda ddigidol, mae gennym Gasgliad y Werin Cymru, casgliad gwych wedi'i ddigideiddio sydd, oherwydd ei fod wedi'i ddigideiddio, yn awr ar gael i bob un, ac nid dim ond yng Nghymru, ond i bawb ar y blaned. Credaf fod hynny'n tystio i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n gwneud ymdrech gadarn i fynd â'n celfyddydau a'n diwylliant a'n treftadaeth i bob cymuned, i bob cartref ac i bob ysgol. Mae prosiectau arloesol hefyd yn digwydd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, er enghraifft, a byddwn yn sicr yn annog yr Aelod i ymweld â'r amgueddfa yng Nghaerllion, lle y caiff weld bod dyfeisiau digidol newydd—yn wir, y cyntaf yn unman yn y DU, Ewrop a'r byd—yn cael eu defnyddio at ddibenion dehongli. Mae Cymunedau 2.0 hefyd bellach wedi cyrraedd mwy na 50,000 o bobl mewn ardaloedd difreintiedig ac wedi'u galluogi i ddefnyddio TGCh mewn ffordd sy'n rhoi mynediad iddynt i gasgliad y werin ac i sgiliau newydd a chyfleoedd gwaith. Felly, rwyf yn sicr yn croesawu'r technolegau digidol newydd a'r rhai sy'n datblygu.

Yn fy marn i hefyd, wrth symud ymlaen, mae'n bosibl iawn y gallem weld pethau fel Opera Genedlaethol Cymru yn ffrydio'n fyw i rannau eraill o Gymru. Nid oes rhwystr i wneud hyn yn awr. Mae gennym y gallu i wneud hynny, ac edrychaf ymlaen yn fawr at gael trafodaethau â sefydliadau yn sector y celfyddydau a diwylliant ynglŷn â hyn.

15:55

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the statement, Deputy Minister. It is very important that we feature a widening participation agenda so that everybody gets to benefit from arts and culture. I agree that we should be doing more in Communities First areas. As Julie Morgan did when she highlighted Chapter Arts Centre, I want to highlight the work of Scala Cinema and Arts Centre in Prestatyn, which is under a bit of a threat at the moment because, like everywhere else, it faces a funding issue.

The Scala arts centre opened some five years ago after receiving a grant from the Welsh Government, funding from the town council and help from Denbighshire County Council. It has widened participation. We have Hijinx Theatre in there, which is helping people with cerebral palsy and young people with learning difficulties to access arts and culture and the performing arts. The Rhyl Liberty Players are there for three nights playing to packed audiences, but more importantly young people have their arts festival there, and they are engaging with international colleagues through film and digital media. I was quite interested in the digital work, because it is all digital at the Scala. How can we ensure that the Scala arts centre is protected in the wider community, and how do we ensure that local authorities pay heed to the fact that the arts are part of your social upbringing, and your ability to take part in the social history of your area by attending somewhere like an arts centre? It also means that that you can have access to the people's collection and to local historians just being there telling their stories.

Croesawaf y datganiad, Ddirprwy Weinidog. Mae'n bwysig iawn ein bod yn arfer agenda ehangu cyfranogiad fel bod pawb yn cael cyfle i elwa ar y celfyddydau a diwylliant. Cytunaf y dylem fod yn gwneud mwy mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Fel y gwnaeth Julie Morgan wrth dynnu sylw at Ganolfan Gelfyddydau Chapter, rwyf am dynnu sylw at waith Sinema a Chanolfan Gelfyddydau Scala ym Mhrestatyn, sydd dan dipyn o fygythiad ar hyn o bryd oherwydd, fel ym mhobman arall, mae'n wynebu problem ariannu.

Agorodd canolfan gelfyddydau Scala ryw bum mlynedd yn ôl ar ôl cael grant gan Lywodraeth Cymru, cyllid gan gyngor y dref a chymorth gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae wedi ehangu cyfranogiad. Mae gennym Theatr Hijinx yno, sy'n helpu pobl â pharlys yr ymennydd a phobl ifanc ag anawsterau dysgu i allu manteisio ar y celfyddydau a diwylliant a'r celfyddydau perfformio. Mae'r Rhyl Liberty Players yno am dair noson yn chwarae i gynulleidfaoedd llawn, ond yn bwysicach na hynny mae gŵyl gelfyddydau'r bobl ifanc yno, ac maent yn ymgysylltu â chydweithwyr rhyngwladol drwy gyfrwng ffilm a chyfryngau digidol. Roedd gennyf gryn dipyn o ddi-ddordeb yn y gwaith digidol, oherwydd mae popeth yn ddi-gidol yn Scala. Sut y gallwn sicrhau bod canolfan gelfyddydau Scala'n cael ei diogelu yn y gymuned ehangach, a sut y gallwn sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod y celfyddydau'n rhan o'ch magwraeth gymdeithasol, a'ch gallu i gymryd rhan yn hanes cymdeithasol eich ardal drwy fynychu rhywle fel canolfan gelfyddydol? Mae hefyd yn golygu y bydd casgliad y werin, a haneswyr lleol sydd yno'n adrodd eu straeon, ar gael i chi.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:57

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that Ann Jones makes a very important point that could well be reflected across Wales about the value that we place on facilities in the most deprived areas. It is often facilities in the least deprived areas that make the loudest noises when they are under threat. It is my core belief that where a child wants to go in life should not be predicated on where they have come from, and that guiding principle comes out very strongly and clearly in the work that Baroness Andrews has done. So, it is my view that local authorities should look to protect services in deprived communities first and foremost. That is why it is so important that we have this policy in the work that is conducted tied inexorably to Communities First cluster areas. That is why I am particularly pleased to see that the pioneer areas that we have been able to identify so far are areas that will focus on some of Wales's most deprived communities. Linking implementation to the 24% of the population in Wales that lives in the 52 most deprived communities makes good sense.

Credaf fod Ann Jones yn gwneud pwynt pwysig iawn a allai fod yn berthnasol ar draws Cymru am y gwerth a roddwn ar gyfleusterau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Yn aml, cyfleusterau yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig sy'n gwneud y sŵn mwyaf pan fyddant dan fygythiad. Credaf yn fy nghalon na ddylai ble yr hoffai plentyn fynd mewn bywyd ddi-bynnu ar ble y daeth ohono, ac mae'r egwyddor arweiniol honno'n dod allan yn gryf ac yn amlwg iawn yn y gwaith y mae'r Farwnes Andrews wedi'i wneud. Felly, yn fy marn i dylai awdurdodau lleol geisio diogelu gwasanaethau mewn cymunedau difreintiedig yn anad dim. Dyna pam y mae mor bwysig fod y polisi hwn yn y gwaith sy'n cael ei wneud wedi'i glymu'n ddiwrthdro wrth ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf. Dyna pam yr wyf yn arbennig o falch o weld bod yr ardaloedd arloesi yr ydym wedi gallu eu nodi hyd yma'n ardaloedd a fydd yn canolbwyntio ar rai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'n gwneud synnwyr cysylltu'r gwaith o weithredu hyn â'r 24% o boblogaeth Cymru sy'n byw yn y 52 o gymunedau mwyaf difreintiedig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:59

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Deputy Minister for his statement today. I very much welcome Baroness Andrews's report, and in particular I want to focus on recommendation 3.

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad heddiw. Rwyf yn croesawu adroddiad y Farwnes Andrews yn fawr iawn, ac rwyf am ganolbwyntio'n benodol ar argymhellid 3.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Baroness Andrews's report looks at a case study of Caerphilly library service, where Caerphilly County Borough Council has worked with the Welsh Government through CyMAL's community learning libraries programme to improve, refurbish and renovate a number of public libraries in my constituency, including in Bargoed, Bedwas and the new library in Caerphilly town. Deputy Minister, can you therefore confirm that you will give serious consideration to taking forward recommendation 3 of the report, and that CyMAL will continue to be used to support public libraries by helping them to transform into multi-use community hubs by spreading this approach across Wales and, where appropriate, working with other public service providers as well. Finally, this Thursday is Kids in Museums' Taking Over Museums Day. Will you agree with me that this is an excellent initiative that gives children and young people a meaningful insight into the lives and work of museums and our history more generally?

Mae adroddiad y Farwnes Andrews yn edrych ar astudiaeth achos o wasanaeth llyfrgelloedd Caerffili, lle y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru drwy raglen llyfrgelloedd dysgu cymunedol CyMAL i wella, ailwampio ac adnewyddu nifer o lyfrgelloedd cyhoeddus yn fy etholaeth i, gan gynnwys ym Margoed, Bedwas a'r llyfrgell newydd yn nhref Caerffili. Ddirprwy Weinidog, a allwch gadarnhau, felly, y rhoddwch ystyriaeth ddifrifol i fwrw ymlaen ag argymhelliad 3 yr adroddiad, ac y bydd CyMAL yn parhau i gael ei ddefnyddio i gefnogi llyfrgelloedd cyhoeddus drwy eu helpu i drawsnewid i fod yn ganolfannau cymunedol amlddefnydd drwy ledaenu'r ymagwedd hon ledled Cymru, a lle y bo hynny'n briodol, drwy weithio gyda darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill hefyd. Yn olaf, mae'n Ddiwrnod Meddiannu Amgueddfeydd Plant mewn Amgueddfeydd y dydd lau yma. A wnewch chi gytuno â mi fod hon yn fenter ardderchog sy'n rhoi cipolwg ystyrlon i blant a phobl ifanc ar fywydau a gwaith amgueddfeydd a'n hanes yn fwy cyffredinol?

16:00 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I would like to thank my colleague for his contribution and for identifying this Thursday's initiatives, which are taking place in many communities and museums. I indeed will be with students, pupils from St Alban's school in Pontypool, and I will be visiting Pontypool Museum with them for Takeover Day. I am sure that many tens of thousands of young people will, potentially for the first time, gain access and insight into the fantastic experience and learning opportunities that museums across Wales present.

In terms of recommendation 3—and I want to say how delighted I am that we have been able to support Caerphilly library—Welsh Government, through CyMAL, will continue to support public libraries in order to transform them into community hubs and will involve other services, so that co-location and other community services can be considered. We will also examine the scope of the support and potentially extend the approach to other sectors that have not been part of it thus far, such as local museums. I think that it is worth reflecting on something that Andy Burnham, the then Secretary of State at the Department for Culture, Media and Sport, said in 2008, when he challenged libraries and museums to transform into community and local community hubs, when he was challenged by some of the forces of resistance. If only they had taken notice then in England of what he was saying, we would not now see the horror story that is the mass closure of libraries across England.

Gwnaf, a hoffwn ddiolch i'm cyd-Aelod am ei gyfraniad ac am nodi mentrau'r dydd lau yma, sy'n cael eu cynnal mewn nifer o gymunedau ac amgueddfeydd. Yn wir, byddaf gyda myfyrwyr, disgyblion o ysgol Sant Alban ym Mhont-y-pŵl, a byddaf yn ymweld ag Amgueddfa Pont-y-pŵl gyda hwy ar gyfer y Diwrnod Meddiannu. Rwyf yn siŵr y bydd llawer o ddegau o filoedd o bobl ifanc, o bosibl am y tro cyntaf, yn cael cyfle i weld y profiad a'r cyfleoedd dysgu gwych a gynigir gan amgueddfeydd ledled Cymru.

O ran argymhelliad 3—a hoffwn ddweud pa mor falch yr wyf ein bod wedi gallu cefnogi llyfrgell Caerffili—bydd Llywodraeth Cymru, drwy CyMAL, yn parhau i gefnogi llyfrgelloedd cyhoeddus i'w trawsnewid i fod yn ganolfannau cymunedol a bydd yn cynnwys gwasanaethau eraill, er mwyn gallu ystyried cydleoli a gwasanaethau cymunedol eraill. Byddwn hefyd yn archwilio cwmpas y gefnogaeth ac o bosibl yn ymestyn yr ymagwedd i gynnwys sectorau eraill nad ydynt wedi bod yn rhan ohoni hyd yma, megis amgueddfeydd lleol. Credaf ei bod yn werth ystyried rhywbeth a ddywedodd Andy Burnham, yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn 2008, pan heriodd lyfrgelloedd ac amgueddfeydd i drawsnewid i fod yn ganolfannau cymunedol a chymunedol lleol, pan gafodd ei herio gan rai o'r grymoedd a oedd yn gwrthwynebu. Pe baent wedi cymryd sylw ar y pryd yn Lloegr o'r hyn yr oedd yn ei ddweud, ni fyddem yn awr yn gweld stori arswyd cau llyfrgelloedd ar raddfa enfawr ledled Lloegr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:02 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like other Members, Deputy Minister, I would like to use this opportunity to congratulate you on the agenda you are pursuing in terms of the protection of the place of culture in our society. Particularly at a time of very great financial pressures, this is all the more important, and I think that there are very many people across Wales who very much value the stance that you are taking. I would actually like to make a very early bid for Blaenau Gwent to be included as a pioneer area. I spare no blushes in doing so.

Fel Aelodau eraill, Ddirprwy Weinidog, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'ch llongyfarch ar yr agenda yr ydych yn ei dilyn o ran amddiffyn lle diwylliant yn ein cymdeithas. Yn enwedig ar adeg o bwysau ariannol mawr iawn, mae hyn yn bwysicach fyth, a chredaf fod llawer iawn o bobl ledled Cymru sy'n gwerthfawrogi eich safiad. A dweud y gwir, hoffwn wneud cais cynnar iawn i Flaenau Gwent gael ei chynnwys fel ardal arloesi. Nid oes gennyf gywilydd o wneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Can you assure me, Deputy Minister, that you have made assessments of the ability of cultural services departments to deliver on the recommendations that the Andrews report contains and to bring people together in order to enable people to understand their own history and culture and their own personal part in that in Wales? I have been very taken by the work that Gwent Archives has done in Ebbw Vale over the last few months to bring home the impact of the first world war on the communities of the whole of Gwent, of Monmouthshire, and to ensure that people today, children and young people especially, understand those sorts of issues. So, I very much welcome the work that the Government has undertaken on this and I very much welcome your own leadership on these matters, Deputy Minister. I do hope that you can reassure me on those matters.

A allwch fy sicrhau, Ddirprwy Weinidog, eich bod wedi asesu gallu adrannau gwasanaethau diwylliannol i gyflawni'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad Andrews ac i ddod â phobl at ei gilydd er mwyn i bobl allu deall eu hanes a'u diwylliant eu hunain a'u rhan personol eu hunain yn hynny yng Nghymru? Mae'r gwaith y mae Archifdy Gwent wedi ei wneud yng Nglynebwy dros yr ychydig fisoedd diwethaf i ddangos effaith y rhyfel byd cyntaf ar gymunedau Gwent gyfan, a Sir Fynwy, ac i sicrhau bod pobl heddiw, plant a phobl ifanc yn arbennig, yn deall y mathau hynny o faterion, wedi gwneud argraff fawr arnaf. Felly, rwyf yn croesawu'n fawr iawn y gwaith y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud ar hyn ac rwyf yn croesawu'n fawr iawn eich arweiniad chi ar y materion hyn, Ddirprwy Weinidog. Rwyf yn gobeithio y gallwch roi sicrwydd imi ar y materion hynny.

16:03

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Alun Davies for his very kind words. He is absolutely right to identify the need for us as Welsh Government to work with local government to identify whether there will be any barriers, or whether there are any barriers at the moment, to implementing the recommendations.

I mentioned earlier that I have established an independent review of the position on local museums, and this follows work that reached fruition recently by an independent expert panel that looked at public libraries and the state, condition and future of public libraries in Wales. Its report contained 11 recommendations, Deputy Presiding Officer, and I have taken on board those 11 recommendations, which were published very recently.

I think that it is absolutely essential that we bring people together as often as we possibly can. In terms of co-location, there will be opportunities to bring together people who perhaps, in the past, have accessed library services but never accessed a sports centre or vice versa, or people who have visited a museum but never visited a library. Through co-location and the support that we will be able to deliver through the cultural inclusion board, I am very confident that we will see participation placed wider and deeper than we have seen in the past.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 16:05.

Diolch i Alun Davies am ei eiriau caredig iawn. Mae'n hollol iawn i nodi bod angen i ni fel Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol i nodi a fydd unrhyw rwystrau, neu a oes unrhyw rwystrau ar hyn o bryd, i weithredu'r argymhellion.

Soniais yn gynharach fy mod wedi sefydlu adolygiad annibynnol o sefyllfa amgueddfeydd lleol, ac mae hyn yn dilyn gwaith gan banel arbenigol annibynnol a edrychodd ar lyfrgelloedd cyhoeddus a sefyllfa, cyflwr a dyfodol llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, gwaith sydd wedi dwyn ffrwyth yn ddiweddar. Roedd ei adroddiad yn cynnwys 11 o argymhellion, Ddirprwy Lywydd, ac rwyf wedi derbyn yr 11 o argymhellion hynny, a gyhoeddwyd yn ddiweddar iawn.

Credaf ei bod yn gwbl hanfodol inni ddod â phobl at ei gilydd mor aml ag y gallwn. O ran cydleoli, bydd cyfleoedd i ddod â phobl at ei gilydd sydd o bosibl, yn y gorffennol, wedi defnyddio gwasanaethau llyfrgell ond nad ydynt erioed wedi defnyddio canolfan chwaraeon neu fel arall, neu bobl sydd wedi ymweld ag amgueddfa, ond erioed wedi ymweld â llyfrgell. Drwy gydleoli a thrwy'r gefnogaeth y gallwn ei chynnig drwy'r bwrdd cynhwysiant diwylliannol, rwyf yn hyderus iawn y gwelwn gyfranogiad ehangach a dyfnach nag yr ydym wedi'i weld yn y gorffennol.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) to the Chair at 16:05.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:05

Datganiad: Y Cyflenwad Tai

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is a statement by the Minister for Communities and Tackling Poverty on housing supply. I call the Minister, Lesley Griffiths.

Statement: Housing Supply

Datganiad yw hwn gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar y cyflenwad tai. Galwaf ar y Gweinidog, Lesley Griffiths.

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

I would like to update Members on the action that this Government is taking to increase housing supply. One of my top priorities is to increase the supply of housing, including both affordable homes and market homes. I want to build on the good work of my predecessor and continue to look at new ways to secure more housing supply, which, as we all know, is fundamental to tackling poverty.

To support market housing supply, we have established the Help to Buy-Wales scheme. This £170 million investment supports the construction and sale of 5,000 homes across Wales, providing a welcome boost to the economy by stimulating the building of new homes. Good progress has been made, with 800 homes completed and a further 500 cases awaiting completion in the coming months; 141 builders have applied to register for the scheme, with 92 of these fully operational and offering Help to Buy-Wales shared-equity loans on their sites. Encouragingly, two thirds of the total applications have come from first-time buyers. Help to Buy-Wales has restored confidence in the market and is supporting people who have been struggling for years to get onto the property ladder. I recognise the critical role of house builders in the delivery of these homes and the significant contribution they have made to the early success of Help to Buy-Wales.

The latest National House Building Council figures for July to September reinforce this further. They are extremely encouraging, with new-build registrations up by more than 60% in Wales on the same period last year. The planning system is a vital component in ensuring that we realise our ambitions with housing supply. The Minister for Natural Resources has set out his intention for reforming the planning system in his 'Positive Planning' proposals and the Planning (Wales) Bill. The aim of these proposals is to see planning becoming an enabler of appropriate development, supporting national, local and community objectives, including the delivery of new homes.

We are making excellent progress on tackling empty homes, with local authorities reporting 4,471 properties being brought back into use against a target of 5,000 for the whole term of Government. This is very positive and follows on from the introduction of our Houses into Homes scheme. I was pleased to announce last month the progress that was made with affordable housing. A total of 6,890 additional affordable homes have been delivered across Wales so far in this administration. This represents 69% of our target of 10,000 affordable homes. This clearly demonstrates that we are making excellent progress and are on course to achieve this ambitious target.

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y camau y mae'r Llywodraeth hon yn eu cymryd i gynyddu'r cyflenwad o dai. Un o fy mhrif flaenoriaethau yw cynyddu'r cyflenwad o dai, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy a chartrefi ar gyfer y farchnad. Rwyf am adeiladu ar waith da fy rhagflaenydd a pharhau i edrych ar ffyrdd newydd o sicrhau mwy o gyflenwad tai, sydd, fel y gwyr pob un ohonom, yn hanfodol i drechu tlodi.

Er mwyn cefnogi cyflenwad tai y farchnad agored, rydym wedi sefydlu'r cynllun Cymorth i Brynu - Cymru. Mae'r buddsoddiad £170 miliwn hwn yn cefnogi adeiladu a gwerthu 5,000 o gartrefi ar draws Cymru, gan roi hwb i'r economi, sydd i'w groesawu, trwy ysgogi adeiladu cartrefi newydd. Mae cynnydd da wedi ei wneud, gyda 800 o gartrefi wedi eu cwblhau a 500 o achosion ychwanegol yn disgwyl i gael eu cwblhau yn y misoedd nesaf; mae 141 o adeiladwyr wedi gwneud cais i gofrestru ar gyfer y cynllun, gyda 92 o'r rhain yn gwbl weithredol ac yn cynnig benthyciadau ecwiti a rennir Cymorth i Brynu - Cymru ar eu safleoedd. Yn galonogol, mae dwy ran o dair o gyfanswm y ceisiadau wedi dod gan brynwyr tro cyntaf. Mae Cymorth i Brynu - Cymru wedi adfer hyder yn y farchnad ac mae'n cefnogi pobl sydd wedi bod yn brwydro am flynyddoedd i gael troed ar yr ysgol eiddo. Rwy'n cydnabod swyddogaeth hollbwysig adeiladwyr tai wrth ddarparu'r cartrefi hyn a'r cyfraniad sylweddol y maent wedi'i wneud at lwyddiant cynnar Cymorth i Brynu - Cymru.

Mae'r ffigurau Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol diweddaraf ar gyfer mis Gorffennaf i fis Medi yn atgyfnerthu hyn ymhellach. Maent yn hynod o galonogol, gyda chofrestriadau adeiladau newydd yn uwch o fwy na 60% yng Nghymru o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae'r system gynllunio yn elfen hollbwysig o sicrhau ein bod yn gwredu ein huchelgais o ran cyflenwad tai. Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi nodi ei fwriad ar gyfer diwygio'r system gynllunio yn ei gynigion 'Cynllunio Cadarnhaol' a Bil Cynllunio (Cymru). Nod y cynigion hyn yw gweld cynllunio yn dod yn alluogwr datblygiad priodol, gan gefnogi amcanion cenedlaethol, lleol a chymunedol, yn cynnwys darparu cartrefi newydd.

Rydym yn gwneud cynnydd rhagorol ar fynd i'r afael â chartrefi gwag, gydag awdurdodau lleol yn adrodd am 4,471 eiddo sy'n cael eu dwyn yn ôl i ddefnydd yn erbyn targed o 5,000 ar gyfer tymor cyfan y Llywodraeth. Mae hyn yn gadarnhaol iawn ac yn dilyn ymlaen o gyflwyno ein cynllun Troi Tai'n Gartrefi. Roeddwn yn falch o gyhoeddi y mis diwethaf y cynnydd a wnaed gyda thair fforddiadwy. Mae cyfanswm o 6,890 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol wedi eu darparu ledled Cymru hyd yn hyn yn y weinyddiaeth hon. Mae hyn yn cynrychioli 69% o'n targed o 10,000 o gartrefi fforddiadwy. Mae hyn yn dangos yn glir ein bod yn gwneud cynnydd rhagorol a'n bod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed uchelgeisiol hwn.

A vital component of meeting this target is the commitment of housing associations across Wales, underpinned by funding and policy support from Welsh Government as well as the support of the private sector. This commitment was clearly set out in the housing supply pact that we agreed with Community Housing Cymru earlier this year.

Over this term of Government, we are investing over £400 million through the social housing grant programme for affordable housing in Wales, including social housing, intermediate rented housing and low-cost home ownership. In addition to this, Vibrant and Viable Places, our policy framework for regeneration, is providing 11 local authorities with a share of £102 million over three years, with priority given to housing-led regeneration where possible. Alongside their own resources, housing associations continue to use this range of capital funding effectively, as well as participating in innovative approaches to housing delivery. An example of this is the housing finance grant, a funding package supported by Welsh Government over a 30-year period, delivering private investment of £125 million to fund the development of over 1,000 new affordable homes across Wales. We have already committed to expanding the housing finance grant further with a second phase, tripling the initial investment to provide 2,000 more affordable homes and to create an estimated 5,000 additional jobs.

In addition to these achievements, I am piloting a number of loan schemes to further support housing delivery. These loans will be investing in improvements to existing properties, as well as the purchase of land for affordable housing. Next year's budget includes a further £30 million to continue to support these initiatives.

I have also commissioned a review of the social housing grant programme with our partners to make sure that the impact of our investment is maximised. The detailed work necessary to allow us to exit the housing revenue account subsidy system in April next year is well under way. I have been impressed with the collaborative working of the local authorities involved and look forward to this continuing. This historic event will enable these authorities to become self-financing from a housing perspective.

Finally, I want to touch on the key links and integration between housing and the other areas of my portfolio. The capital investment that we make in housing makes a crucial economic impact as well as a long-term social difference, and links between housing and Communities First and Flying Start are already apparent. I believe that strengthening these links means that we can make a big difference to tackling poverty across the board.

Un elfen hanfodol o gyrraedd y targed hwn yw ymrwymiad cymdeithasau tai ledled Cymru, wedi'i danategu gan gymorth cyllid a pholisi gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chefnogaeth y sector preifat. Cafodd yr ymrwymiad hwn ei nodi'n glir yn y cytundeb cyflenwad tai a gytunwyd rhyngom ni a Chartrefi Cymunedol Cymru yn gynharach eleni.

Yn ystod y tymor Llywodraeth hwn, rydym yn buddsoddi dros £400 miliwn drwy'r rhaglen grant tai cymdeithasol ar gyfer tai fforddiadwy yng Nghymru, gan gynnwys tai cymdeithasol, tai rhent canolradd a pherchentaeth cost isel. Yn ogystal â hyn, mae Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, ein fframwaith polisi ar gyfer adfywio, yn darparu cyfran o £102 miliwn dros dair blynedd i 11 o awdurdodau lleol, gan roi blaenoriaeth i adfywio a arweinir gan dai pan fo hynny'n bosibl. Ochr yn ochr â'u hadnoddau eu hunain, mae cymdeithasau tai yn parhau i ddefnyddio'r ystod hon o arian cyfalaf yn effeithiol, yn ogystal â chymryd rhan mewn dulliau arloesol o ddarparu tai. Un enghraifft o hyn yw'r grant cyllid tai, pecyn cyllido a gefnogir gan Lywodraeth Cymru dros gyfnod o 30 mlynedd, gan ddarparu buddsoddiad preifat o £125 miliwn i ariannu'r datblygiad o dros 1,000 o dai fforddiadwy newydd ledled Cymru. Rydym eisoes wedi ymrwymo i ehangu'r grant cyllid tai ymhellach gydag ail gam, gan dreblu'r buddsoddiad cychwynnol i ddarparu 2,000 ychwanegol o gartrefi fforddiadwy ac i greu amcangyfrif o 5,000 o swyddi ychwanegol.

Yn ogystal â'r cyflawniadau hyn, rwy'n treialu nifer o gynlluniau benthyciad i gefnogi cyflenwi tai ymhellach. Bydd y benthyciadau hyn yn buddsoddi mewn gwelliannau i adeiladau sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â phrynu tir ar gyfer tai fforddiadwy. Mae cyllideb y flwyddyn nesaf yn cynnwys £30 miliwn ychwanegol i barhau i gefnogi'r mentrau hyn.

Rwyf hefyd wedi comisiynu adolygiad o'r rhaglen grant tai cymdeithasol gyda'n partneriaid i sicrhau bod effaith ein buddsoddiad yn cael ei gynyddu i'r eithaf. Mae llawer o'r gwaith manwl angenrheidiol wedi'i wneud ar gyfer ein galluogi i adael y system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Rwyf wedi bod yn llawn edmygedd o waith cydweithredol yr awdurdodau lleol dan sylw ac yn edrych ymlaen at weld hyn yn parhau. Bydd y digwyddiad hanesyddol hwn yn galluogi'r awdurdodau hyn i fod yn hunan-gyllidol o safbwynt tai.

Yn olaf, rwyf am grybwyll y cysylltiadau allweddol a'r integreiddio rhwng tai a meysydd eraill fy mhortffolio. Mae'r buddsoddiad cyfalaf y byddwn yn ei wneud ym maes tai yn cael effaith economaidd hanfodol, yn ogystal â gwahaniaeth cymdeithasol tymor hir, ac mae cysylltiadau rhwng tai a Chymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg eisoes yn amlwg. Credaf fod cryfhau'r cysylltiadau hyn yn golygu y byddwn yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr o ran mynd i'r afael â thlodi yn gyffredinol.

I have already seen excellent examples of housing providing much wider benefits, such as a homelessness scheme I recently visited in Cardiff, which is about much more than just providing somewhere to sleep, as it also gives positive support via education and life skills to improve people's lives. I will work hard to ensure that we build on this kind of success further.

I will continue to ensure that we underpin the delivery of jobs and growth in Wales and do everything that I can to secure good-quality, safe and secure housing. I am confident that we can do more and continue to explore and support new ways of increasing housing supply. The supply of housing is critical to help us to achieve our wider objectives of tackling poverty, preventing homelessness and mitigating the impact of welfare reform.

Rwyf eisoes wedi gweld enghreifftiau rhagorol o dai sy'n darparu buddion llawer ehangach, megis y cynllun digartrefedd yr ymwelais ag ef yn ddiweddar yng Nghaerdydd, sydd yn golygu llawer mwy na dim ond darparu rhywle i gysgu, gan ei fod hefyd yn rhoi cefnogaeth gadarnhaol drwy addysg a sgiliau bywyd i wella bywydau pobl. Byddaf yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn adeiladu ar y math hwn o lwyddiant ymhellach.

Byddaf yn parhau i sicrhau ein bod yn ategu'r ddarpariaeth o swyddi a thwf yng Nghymru ac yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i sicrhau tai o ansawdd da, sy'n saff a diogel. Rwy'n hyderus y gallwn wneud mwy ac rydym yn parhau i archwilio a chefnogi ffyrdd newydd o gynyddu'r cyflenwad tai. Mae'r cyflenwad tai yn hanfodol i'n helpu ni i gyflawni ein hamcanion ehangach o drechu tlodi, atal digartrefedd a lliniaru effaith diwygio lles.

16:12

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

It is 33 years since I first started to work in housing, finance and supply. Housing is key to sustainable community regeneration. It is the third leg on the stool to tackle many of the things that we all profess to support. It is the third leg on the stool alongside education and health. Without that leg, the whole stool falls over. Yet, it is over a decade now since the sector started reporting a housing supply crisis in Wales, long before the credit crunch and everything that followed. The 2012 'UK Housing Review' said:

'it was the Welsh Government itself that gave housing lower priority in its overall budgets, so that by 2009/10 it had by far the lowest proportional level of housing expenditure of any of the four UK countries.'

You referred to the establishment of Help to Buy-Wales. No doubt you have seen press coverage of Redrow's annual general meeting today, which says that Help to Buy-Wales was a big stimulus for it, but it now warns that it is selling fewer homes. I believe that it is the largest Wales-based housing developer; it is in Flintshire. I wonder what dialogue you might be having with companies such as Redrow regarding that. In Wales, Help to Buy-Wales was launched well after England: England launched it in June last year, but Wales did not until January this year. Perhaps you will explain why, in the years preceding that, the UK Government funded 26,500 low-cost home ownership purchases for homebuyers in England, through its First Buy scheme, but in Wales, in 2012, fewer than 19 homebuy purchases were funded and, last year, there were even less.

Mae 33 mlynedd wedi mynd heibio ers i mi ddechrau gweithio yn y maes tai, cyllid a chyflenwi. Mae tai yn allweddol i adfywio cymunedol cynaliadwy. Dyma'r drydedd goes ar y stôl i fynd i'r afael â llawer o'r pethau y mae pob un ohonom yn proffesu ein bod yn eu cefnogi. Dyma'r drydedd goes ar y stôl ochr yn ochr ag addysg ac iechyd. Heb y goes honno, mae'r stôl gyfan yn cwmpo. Eto i gyd, y mae dros ddegawd bellach ers i'r sector ddechrau adrodd argyfwng o ran cyflenwad tai yng Nghymru, ymhell cyn y wasgfa gredyd a phopeth a ddilynodd hynny. Dywedodd 'Adolygiad Tai y DU' 2012 mai:

Llywodraeth Cymru ei hun oedd yn rhoi blaenoriaeth is i dai yn ei chyllidebau cyffredinol, felly erbyn 2009/10, roedd ganddi'r lefel gyfrannol isaf o bell ffordd o wariant tai o unrhyw un o bedair gwlad y DU.

Fe wnaethoch gyfeirio at sefydlu Cymorth i Brynu -Cymru. Mae'n siŵr eich bod wedi gweld sylw yn y wasg am gyfarfod cyffredinol blynyddol Redrow heddiw, sy'n dweud bod Cymorth i Brynu - Cymru yn ysgogiad mawr iddo, ond mae bellach yn rhybuddio ei fod yn gwerthu llai o gartrefi. Rwy'n credu mai hwn yw'r datblygwr tai mwyaf sydd wedi'i leoli yng Nghymru; y mae yn Sir y Fflint. Tybed pa ddeialog y gallech chi fod yn ei chael gyda chwmnïau fel Redrow ynghylch hynny. Yng Nghymru, cafodd Cymorth i Brynu - Cymru ei lansio ymhell ar ôl Lloegr: lanswyd ef yn Lloegr ym mis Mehefin y llynedd, ond ni wnaed hynny yng Nghymru tan fis Ionawr eleni. Efallai y gwnewch esbonio pam, yn y blynyddoedd cyn hynny, bod Llywodraeth y DU wedi ariannu 26,500 perchentaeth cost prynu isel ar gyfer prynwyr tai yn Lloegr, drwy ei gynllun First Buy, ond yng Nghymru, yn 2012, ariannwyd llai na 19 o bryniadau cymorth prynu eu ac, y llynedd, yr oedd hyd yn oed llai na hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

You refer to the National House Building Council figures, and I went to check them accordingly. As you say, the figures have gone up over 60%—I believe that the figure is 63%. Will you therefore also accept that that was because the baseline was so very low? Last year and into 2014, Wales was the only part of the UK to see house building going backwards. In fact, even with the 63% increase, the figure for Wales per head of population is still significantly below the rest of the United Kingdom. I am not just talking about England; I am talking about this in different Governments in different parts of the UK.

You refer to progress on tackling empty homes, and clearly we strongly support this. We welcome the Houses into Homes scheme, as I have stated many times over the years. Will you recognise that the actual number of units is significantly underestimated by the Welsh Government? When we wrote to every local authority in Wales last year, they came back with figures showing that there were over 33,000 empty homes in Wales, a full 10,000 more than estimated by the Welsh Government.

You referred to 6,890 more affordable homes, and, again, every new home is welcome. It is clearly well below the forecast levels of need and, in fact, Welsh Government figures confirm that the supply of new affordable homes in Wales was cut by 71% between 1999 and 2011 to fewer than 8,000. In fact, we saw the overall supply of social homes in Wales during that period fall by 29,000. I have checked again the Welsh Government figures, which show that the 2013 supply of additional affordable housing was, in fact, less than in 2011, to which the previous figures applied. In fact, if you take out private and other voluntary sector providers and just look at social housing providers to enable a like-for-like comparison with the figures previously produced by the Welsh Government, that figure of 2,416 falls to 1,799. So, could we have a like-for-like comparison, please, Minister, rather than one inflated by the new way that the Welsh Government is counting the figures?

You referred to expanding the housing finance grant, and I fully recognise that it is a very useful mechanism for helping fill the funding gap, but, given that we are into the second tranche, what consideration has your department given to the longer-term impact on housing association balance sheets in terms of gearing, if this were to become a mainstream funding vehicle for the future? Those with stronger balance sheets can carry this for a long time, and welcome it, but those with weaker ones cannot carry it quite so long when the priority, of course, must be the people who live in those properties.

I wonder whether you could say a little bit more about the loan schemes that you referred to. Again, whose balance sheets will be impacted by those? Where is the funding coming from, and what will be the repayment terms? I acknowledge, of course, that even the Help to Buy scheme is a loan scheme from the UK Government.

Rydych yn cyfeirio at y ffigurau Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol, ac fe es i i'w gwirio o'r herwydd. Fel y dywedwch, mae'r ffigurau wedi codi dros 60%—rwy'n credu bod y ffigur yn 63%. A wnewch chi, felly, hefyd dderbyn bod hynny oherwydd bod y llinell sylfaen yn isel iawn? Y llynedd ac i mewn i 2014, Cymru oedd yr unig ran o'r DU i weld codi tai yn mynd tuag at yn ôl. Yn wir, hyd yn oed gyda'r cynnydd o 63%, mae'r ffigur ar gyfer Cymru fesul y pen o'r boblogaeth yn dal i fod yn sylweddol is na gweddill y Deyrnas Unedig. Nid wyf yn sôn am Loegr yn unig; rwy'n sôn am hyn mewn gwahanol Lywodraethau mewn gwahanol rannau o'r DU.

Rydych yn cyfeirio at gynnydd ar fynd i'r afael â chartrefi gwag, ac yn amlwg rydym yn cefnogi hyn yn gryf. Rydym yn croesawu'r cynllun Troi Tai'n Gartrefi, fel yr wyf wedi ei ddweud sawl gwaith dros y blynyddoedd. A wnewch chi gydnabod bod nifer gwirioneddol yr unedau yn cael ei danamcangyfrif yn sylweddol gan Lywodraeth Cymru? Pan wnaethom ni ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru y llynedd, daethant yn ôl gyda ffigurau sy'n dangos bod dros 33,000 o gartrefi gwag yng Nghymru, 10,000 yn fwy na'r hyn a amcangyfrifwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cyfeiriasoch at 6,890 o gartrefi mwy fforddiadwy, ac, unwaith eto, mae pob cartref newydd i'w groesawu. Mae'n amlwg yn llawer is na'r lefelau a ragwelir o angen ac, yn wir, mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod y cyflenwad o gartrefi fforddiadwy newydd yng Nghymru wedi ei dorri gan 71% rhwng 1999 a 2011 i lai na 8,000. Mewn gwirionedd, gwelsom y cyflenwad cyffredinol o dai cymdeithasol yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwnnw yn disgyn gan 29,000. Rwyf wedi gwirio eto ffigurau Llywodraeth Cymru, sy'n dangos bod y cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy yn 2013, mewn gwirionedd, yn llai nag yn 2011, yr oedd y ffigurau blaenorol yn berthnasol iddo. Yn wir, os byddwch yn tynnu darparwyr yn y sector preifat a darparwyr gwirfoddol eraill allan a dim ond yn edrych ar ddarparwyr tai cymdeithasol i alluogi cymhariaeth gyfatebol gyda'r ffigurau a gynhyrchwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru, mae'r ffigur hwnnw o 2,416 yn gostwng i 1,799. Felly, a allem ni gael cymhariaeth gyfatebol, os gwelwch yn dda, Weinidog, yn hytrach nag un wedi'i chwyddo gan y ffordd newydd y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrif y ffigurau?

Rydych yn cyfeirio at ehangu'r grant cyllid tai, ac rwyf yn llwyr gydnabod bod hynny'n fecanwaith defnyddiol iawn ar gyfer helpu i lenwi'r bwlch cyllido, ond, o gofio ein bod i mewn i'r ail gyfran, pa ystyriaeth y mae eich adran wedi ei rhoi i'r effaith tymor hir ar fantolenni cymdeithasau tai o ran gerio, pe byddai hyn yn dod yn gyfrwng cyllid prif ffrwd ar gyfer y dyfodol? Gall y rhai sydd â mantolenni cryfach gario hyn am amser hir, a'i groesawu, ond ni all y rhai sydd â rhai gwannach ei gario mor hir pan mai'r flaenoriaeth, wrth gwrs, yw'r bobl sy'n byw yn y tai hynny.

Tybed a allech chi ddweud ychydig mwy am y cynlluniau benthyca y cyfeiriasoch atynt. Unwaith eto, mantolenni pwy fydd yn cael eu heffeithio gan y rheini? O ble mae'r arian yn dod, a beth fydd y telerau ad-dalu? Rwy'n cydnabod, wrth gwrs, bod hyd yn oed y cynllun Cymorth i Brynu yn gynllun benthyciad gan Lywodraeth y DU.

You refer to exiting the housing revenue account subsidy. Do you agree that the moneys released should be used for supply, rather than subsidising the Welsh housing quality standard in those councils that failed to meet the Welsh Government targets set?

Finally, in terms of section 106 agreements, which you do not mention, but your predecessor but one had responded that he had commissioned work on section 106 agreements to try to reconcile the need to prioritise housing for local people with the need for mortgage lenders, under law, to protect their assets, I wonder whether you could comment on that in light of the need for affordable housing viability assessments, which was recognised by your predecessor.

16:18

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank Mark Isherwood for those questions and the points that he has raised. Mark, you have 32 years and 10 months' experience on me in housing, but I am really sorry that you do not seem to share my confidence in all that the Welsh Government has done around housing in partnership with our social housing partners and also, obviously, the house builders.

You talked about housing being the third leg of the stool, along with education and health, and I absolutely agree with you on that. Certainly, coming into the portfolio, you can see where those links are.

You mentioned Help to Buy-Wales, and yes, we were later coming into the scheme than England. However, I think that it is working very well and, last week, we had positive media from the house builders, who absolutely supported my belief that the scheme has kick-started house building again. I am very pleased that so many first-time buyers have taken up the scheme also.

In relation to empty homes, I am very pleased about the progress that has been made on empty homes. We have invested £13 million into the Houses into Homes scheme. However, we have seen an increase in the number of reported empty private sector properties. I believe that that is because local authorities are now being much more rigorous in their data recording and the numbers that they are recording. You took me to task over our numbers. The numbers that we have, we have received from local authorities, but I will be very happy to go back to look at those numbers. If there are, indeed, as many as you say, I will certainly let Assembly Members know.

Rydych yn cyfeirio at adael cymhorthdal ycyfrif referniw tai. A ydych chi'n cytuno y dylai'r arian a ryddhawyd gael ei ddefnyddio ar gyfer cyflenwi, yn hytrach na rhoi cymhorthdal i safon ansawdd tai Cymru yn y cyngorau hynny sydd wedi methu â chyrraedd y targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru?

Yn olaf, o ran y cytundebau adran 106, nad ydych yn sôn amdanynt, ond roedd eich rhagflaenydd ond un wedi ymateb ei fod wedi comisiynu gwaith ar gytundebau adran 106 i geisio cysoni'r angen i flaenoriaethu tai i bobl leol gyda'r angen i fenthycwyr morgesei, o dan y gyfraith, i ddiogelu eu hasedau, tybed a allech chi roi sylwadau ar hynny yng ngoleuni'r angen am asesiadau hyfywedd tai fforddiadwy, a gafodd ei gydnabod gan eich rhagflaenydd.

Hoffwn ddiolch i Mark Isherwood am y cwestiynau yna a'r pwyntiau y mae wedi eu codi. Mark, mae gennych 32 o flynyddoedd a 10 mis o brofiad yn fwy na mi ym maes tai, ond mae'n wirioneddol ddrwg gennyf nad yw'n ymddangos eich bod yn rhannu fy hyder yn yr holl bethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud ynglŷn â thai, ar y cyd â'n partneriaid tai cymdeithasol a hefyd, yn amlwg, yr adeiladwyr tai.

Soniasoch am dai fel trydedd goes y stôl, ynghyd ag addysg ac iechyd, ac rwy'n cytuno'n llwyr â chi ynglŷn â hynny. Yn sicr, wrth ddod i mewn i'r portffolio, gallwch weld lle mae'r cysylltiadau hynny.

Soniasoch am Cymorth i Brynu - Cymru, ac oeddem, roeddem yn ddiweddarach yn dod i mewn i'r cynllun na Lloegr. Fodd bynnag, credaf ei fod yn gweithio'n dda iawn ac, yr wythnos diwethaf, cawsom sylwadau cadarnhaol yn yr adroddwyr gan yr adeiladwyr tai, sy'n cefnogi'n llwyr fy nghred bod y cynllun wedi ailgychwyn adeiladu tai eto. Rwy'n falch iawn bod cymaint o brynwyr tro cyntaf wedi manteisio ar y cynllun hefyd.

Mewn cysylltiad â chartrefi gwag, rwy'n falch iawn am y cynnydd a wnaed ar gartrefi gwag. Rydym wedi buddsoddi £13 miliwn yn y cynllun Troi Tai'n Gartrefi. Er hynny, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr eiddo gwag yr adroddwyd amdano yn y sector preifat. Credaf fod hynny oherwydd bod awdurdodau lleol bellach yn llawer mwy trylwyr o ran cofnodi data a'r rhifau y maent yn eu cofnodi. Fe wnaethoch fy ngheryddu o ran ein rhifau. Y rhifau sydd gennym, rydym wedi'u derbyn oddi wrth yr awdurdodau lleol, ond byddaf yn hapus iawn i fynd yn ôl i edrych ar y rhifau hynny. Os oes, mewn gwirionedd, cymaint ag y dywedwch, byddaf yn sicr yn rhoi gwybod i Aelodau'r Cynulliad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In relation to affordable homes, again, I think that an 18% increase in performance against the previous year is very welcome. I think that it is very encouraging. I also think, again, that it demonstrates our commitment as a Welsh Government to affordable housing, and I am very encouraged by the commitment of our partners in helping us to achieve that. Again, you threw numbers at me. Numbers are numbers. What housing is about, to me, is the impact that it has on people's lives. I think it is very important that we recognise that.

In relation to the housing finance grant, obviously, we have phases 1 and 2, and you made reference to phase 2. That was announced by the Minister for finance in June. It triples the initial investment that we had to provide an estimated 2,000 additional units. It is very early in discussions, and my officials are at a very early stage of considering options for delivering that. Again, I will keep Members informed of progress.

In relation to the loan funds, we are piloting a number of new loan schemes this year and we have already identified future funding, should those pilot schemes be successful. I appreciate that loan funding does not substitute grant funding, but I do think, in the financial climate that we are in, we need to be looking at innovative ways of raising finance. I also think that grant funding does have a role to play. One of the things that we are looking at is home improvement loans, which will enable landlords in the private rented sector and owner-occupiers to obtain an interest-free loan of up to £25,000 for a maximum of five and 10 years. We are working very closely with our local authority colleagues to bring that forward.

In relation to the HRAS, this has obviously been very technical, and I know that officials have worked very hard with the Treasury to bring this forward. The last meeting that we had was certainly very positive, and I am very confident that it will enable the remaining 11 local authorities in Wales who have council housing stock to enable them to exit next April. We have held a series of key stakeholder events to ensure that everyone is brought together, looking at what can be done in relation to this. However, certainly, I would want to see this funding helping supply targets to be reached also.

Mewn cysylltiad â chartrefi fforddiadwy, unwaith eto, credaf fod cynnydd o 18% mewn perfformiad yn erbyn y flwyddyn flaenorol i'w groesawu'n fawr. Credaf ei fod yn galonogol iawn. Rwyf hefyd yn meddwl, unwaith eto, ei fod yn dangos ein hymrwymiad fel Llywodraeth Cymru i dai fforddiadwy, ac rwyf wedi fy nghalonogi'n fawr gan ymrwymiad ein partneriaid wrth ein helpu i gyflawni hynny. Unwaith eto, roeddech yn taflu rhifau ataf. Rhifau yw rhifau. Yr hyn y mae tai yn ymwneud ag ef, i mi, yw'r effaith y mae'n ei gael ar fywydau pobl. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cydnabod hynny.

O ran y grant cyllid tai, yn amlwg, mae gennym gamau 1 a 2, ac roeddech yn cyfeirio at gam 2. Cyhoeddwyd hwnnw gan y Gweinidog cyllid ym mis Mehefin. Mae'n treblu'r buddsoddiad cychwynnol a oedd gennym i ddarparu amcangyfrif o 2,000 o unedau ychwanegol. Mae'n gynnar iawn yn y trafodaethau, ac mae fy swyddogion mewn cyfnod cynnar iawn o ystyried dewisiadau ar gyfer cyflawni hynny. Unwaith eto, byddaf yn hysbysu'r Aelodau am y cynnydd.

Ynglŷn â'r cronfeydd benthycyca, rydym yn treialu nifer o gynlluniau benthycyca newydd eleni ac rydym eisoes wedi nodi cyllid yn y dyfodol, pe byddai'r cynlluniau arbrolfol hynny yn llwyddiannus. Rwy'n sylweddoli nad yw cyllid benthyciadau yn disodli arian grant, ond rwyf yn credu, yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, bod angen i ni fod yn edrych ar ffyrdd arloesol o godi arian. Rwyf hefyd yn meddwl bod gan gyllid grant ran i'w chwarae. Un o'r pethau yr ydym yn edrych arno yw benthyciadau gwella cartrefi, a fydd yn galluogi landlordiaid yn y sector rhentu preifat a pherchnogion preswyl i gael benthyciad di-log o hyd at £25,000 am hyd at bum a 10 mlynedd. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'n cydweithwyr yn yr awdurdodau lleol i symud hynny ymlaen.

O ran Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai, mae hyn yn amlwg wedi bod yn dechnegol iawn, a gwn fod swyddogion wedi gweithio'n galed iawn gyda'r Trysorlys i gyflwyno hyn. Roedd y cyfarfod diwethaf a gawsom yn sicr yn gadarnhaol iawn, ac rwy'n hyderus iawn y bydd yn galluogi'r 11 awdurdod lleol sy'n weddill yng Nghymru sydd â stoc tai cyngor i adael fis Ebrill nesaf. Rydym wedi cynnal cyfres o ddiwyddiadau i randdeiliaid allweddol er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu dwyn at ei gilydd, gan edrych ar yr hyn y gellir ei wneud ynglŷn â hyn. Fodd bynnag, yn sicr, byddwn yn dymuno gweld yr arian hwn yn helpu i gyrraedd targedau cyflenwi hefyd.

16:22

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, I welcome the statement on housing supply. The Help to Buy-Wales scheme has helped the demand side of housing, but, turning to the supply side, I welcome the progress made on empty homes but having, during half term, delivered leaflets around one ward in my constituency, I noticed too many houses still empty and not advertised for sale, rent or undergoing renovation. Some of these have been empty, to my knowledge, for over 10 years. I am sure that other Members in this Chamber will probably know of properties that have been empty for longer than that. I have two questions relating to this. When will the council be able to charge higher council tax on empty properties, and is the renewal scheme going to continue?

Yn gyntaf, croesawaf y datganiad ar y cyflenwad o dai. Mae'r cynllun Cymorth i Brynu - Cymru wedi helpu elfen y galw o ran tai, ond, gan droi at yr elfen gyflenwi, rwy'n croesawu'r cynnydd a wnaed ar gartrefi gwag, ond wrth i mi, yn ystod hanner tymor, ddanfôn taflenni o amgylch un ward yn fy etholaeth, sylwais ar ormod o dai o lawer yn dal yn wag a heb fod wedi eu hysbysebu fel bod ar werth, ar rent neu'n cael eu hadnewyddu. Mae rhai o'r rhain wedi bod yn wag, i mi fod yn gwybod, am dros 10 mlynedd. Rwy'n siŵr y bydd Aelodau eraill yn y Siambr hon yn ôl pob tebyg yn gwybod am eiddo sydd wedi bod yn wag am fwy na hynny. Mae gennyf ddau gwestiwn yn ymwneud â hyn. Pryd y bydd y cyngor yn gallu codi treth cyngor uwch ar eiddo gwag, ac a yw'r cynllun adnewyddu yn mynd i barhau?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I also welcome Carmarthenshire County Council's decision to start building council houses again. What is the Welsh Government doing to promote the building of further council properties?

Rwyf hefyd yn croesawu penderfyniad Cyngor Sir Caerfyrddin i ddechrau adeiladu tai cyngor unwaith eto. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo adeiladu tai cyngor pellach?

16:23

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mike Hedges for that. You will have heard me say in my answer to Mark Isherwood that, unfortunately, the number of empty properties has gone up. The reason why that is the case is, I think, that local authorities are being far more vigorous in their approach to addressing the issue. I think that it has certainly helped that we have provided funding to help people to bring empty homes back into use. I have one in my constituency that has been empty for 12 years. Every time I pass it, it just makes me shudder because the house next door is beautiful, and this one is just boarded up and the garden is completely overgrown. It is just wicked, really, that these houses are there when we have so many people who need a warm and secure home.

Diolch i Mike Hedges am hynna. Byddwch wedi fy nghlywed yn dweud yn fy ateb i Mark Isherwood, bod nifer yr adeiladau gwag, yn anffodus, wedi cynyddu. Y rheswm pam mae hynny'n wir, rwy'n credu, yw bod awdurdodau lleol yn llawer mwy cadarn yn eu hagwedd tuag at fynd i'r afael â'r mater. Credaf ei fod yn sicr wedi helpu ein bod wedi darparu cyllid i helpu pobl i ddo ddiolch â thai gwag yn ôl i ddefnydd. Mae gen i un yn fy etholaeth sydd wedi bod yn wag am 12 mlynedd. Bob tro yr wyf yn mynd heibio iddo, mae'n fy ngwneud yn gas gan fod y tŷ drws nesaf yn hardd iawn, ac mae hwn wedi ei fordio ac mae'r ardd wedi tyfu'n gwbl wyllt. Mae'n bechod, mewn gwirionedd, bod y tai hyn i'w gweld pan fod gennym gymaint o bobl sydd angen cartref cynnes a diogel.

In relation to when councils can start charging a rise in council tax, you will be aware that that was something that went through earlier this year with the Housing (Wales) Act 2014. I am working very hard now to implement that piece of legislation, which is obviously now in being.

O ran pryd y caiff cyngorau ddechrau codi pris y dreth gyngor, byddwch yn ymwybodol bod hynny yn rhywbeth a aeth drwyddo'n gynharach eleni gyda Deddf Tai (Cymru) 2014. Rwy'n gweithio'n galed iawn yn awr i weithredu'r darn hwnnw o ddeddfwriaeth, sydd yn amlwg bellach yn bodoli.

You asked about local authorities building council houses again. Certainly, we have seen them; Flintshire has recently announced that it will be doing that. I will be doing all that I can to help them and support them in doing so.

Holasoch ynghylch awdurdodau lleol yn adeiladu tai cyngor unwaith eto. Yn sicr, rydym wedi eu gweld; mae Sir y Fflint wedi cyhoeddi yn ddiweddar y bydd yn gwneud hynny. Byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i'w helpu a'u cefnogi i wneud hynny.

16:25

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much welcome your commitment to increasing affordable housing and in making housing a priority within your portfolio, and I thank you for your statement today.

Croesawaf yn fawr iawn eich ymrwymiad i gynyddu tai fforddiadwy ac i wneud tai yn flaenoriaeth yn eich portffolio, ac rwy'n diolch i chi am eich datganiad heddiw.

On Help to Buy-Wales, I am very pleased that two thirds of the applications for Help to Buy-Wales come from first-time buyers. I wonder whether you would clarify whether two thirds of successful purchasers come from first-time buyers through the scheme.

O ran Cymorth i Brynu - Cymru, rwy'n falch iawn fod dwy ran o dair o geisiadau Cymorth i Brynu - Cymru yn dod gan brynwyr tro cyntaf. Tybed a fydddech chi'n egluro pa un a yw dwy ran o dair o brynwyr llwyddiannus yn cynrychioli prynwyr tro cyntaf drwy'r cynllun.

I notice that you did not mention the work of rural housing enablers. Obviously, Minister, you could not be expected to cover everything, but it is an important aspect. I wonder whether you would be prepared to issue a written statement on their achievements in recent years, if you do not have the information with you today.

Sylwaf na soniasoch am waith swyddogion galluogi tai gwledig. Yn amlwg, Weinidog, ni ellid disgwyl i chi ymdrin â phopeth, ond mae hon yn agwedd bwysig. Tybed a fydddech chi'n barod i roi datganiad ysgrifenedig am eu cyflawniadau yn y blynyddoedd diweddar, os nad yw'r wybodaeth gennych chi heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I wonder whether you are aware of the Joseph Rowntree Foundation report 'Tackling Poverty through Public Procurement', which identifies significant progress in generating employment and training opportunities for local communities through housing spend, by utilising our i2i Can Do Toolkit, of course, which was developed by the Chartered Institute of Housing Cymru, and launched by Leighton Andrews and me under the One Wales Government. However, it is now being used across the UK, and this report is about that. Are you aware that United Welsh is cited in the report as an example of the use of local small and medium-sized enterprises, which also produce for it a saving of 20% in costs, which I am sure you would want to encourage? I am sure that you would agree that this is a win-win situation, and we should acknowledge the good practice of United Welsh and others, I think, in this regard.

Of course, the social clauses that were also included in the i2i toolkit that assist young, perhaps unskilled, marginalised groups, can be very useful in helping those who are the furthest from the job market. I wonder whether you will be undertaking work with the new Deputy Minister for Skills and Technology, Julie James, in this regard, to see whether this approach can be utilised much wider across the public sector and, of course, social enterprises. That toolkit, as I said, was developed here in Wales and is now used across the UK. We should be proud of it. I just ask you, really, whether it is being fully utilised within Wales.

I have just one more thing, and that is the good news about the housing revenue account subsidy system, which we, as past housing Ministers, have wrestled with from time to time. I have to say, you do not really need to understand the technical details of it, but we would all be delighted if you can do—Well, there are only two or three people in the UK who understand it, and one of those is lying. [Laughter.] So, do not try, Minister. Do not waste your time trying to understand it. Getting us out of the system, I think, is the thing. I wonder whether you think we will be seeing more local authorities, further to Carmarthen—although that is also very good news—building new properties, especially, perhaps, those that are not provided for by the open market. I hope that you will agree to provide details as soon as possible as to progress on this particular point.

16:28

Lesley Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Jocelyn, for those questions. In relation to whether the two thirds of applications from first-time buyers are the two thirds of purchasers, I cannot give you a categorical 'yes', but I have not been told any different. However, certainly, I will ask that question, and, if it is any different, I will write to you.

I do not have the information regarding the rural housing enablers to hand, but certainly I am happy to inform Assembly Members via a written statement on the success of that.

Tybed a ydych chi'n ymwybodol o adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree 'Trechu Tlodi drwy Gaffael Cyhoeddus', sy'n nodi cynnydd sylweddol o ran creu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i gymunedau lleol drwy wariant tai, gan ddefnyddio ein Pecyn Cymorth Gallu Gwneud i2i, wrth gwrs, a ddatblygwyd gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru, ac a lansiwyd gan Leighton Andrews a minnau o dan Lywodraeth Cymru'n Un. Fodd bynnag, mae bellach yn cael ei ddefnyddio ar draws y DU, ac mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â hynny. A ydych yn ymwybodol bod Cymdeithas Dai Unedig Cymru yn cael ei nodi yn yr adroddiad fel enghraifft o'r defnydd o fentrau bach a chanolog lleol, sydd hefyd yn cynhyrchu arbediad iddo o 20% mewn costau, ac rwy'n siŵr y byddech yn dymuno annog hynny? Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod hon yn sefyllfa lle mae pawb ar eu hennill, a dylem gydnabod arfer da Cymdeithas Dai Unedig Cymru ac eraill, rwy'n credu, yn y cyswllt hwn.

Wrth gwrs, mae'r cymalau cymdeithasol a oedd hefyd wedi eu cynnwys yn y pecyn cymorth i2i sy'n cynorthwyo grwpiau ifanc, di-grefft, ac ar y cyrion o bosibl, yn gallu bod yn ddefnyddiol iawn o ran helpu rhai sy'n bellaf oddi wrth y farchnad swyddi. Tybed a fyddwch chi'n gwneud gwaith gyda'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg newydd, Julie James, yn hyn o beth, er mwyn gweld pa un a ellir defnyddio'r dull hwn yn llawer ehangach ar draws y sector cyhoeddus ac, wrth gwrs, mentrau cymdeithasol. Cafodd y pecyn cymorth hwnnw, fel y dywedais, ei ddatblygu yma yng Nghymru ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio ar draws y DU. Dylem fod yn falch o hynny. Gofyn ydw i i chi, mewn gwirionedd, pa un a yw'n cael ei defnyddio'n llawn yng Nghymru.

Dim ond un peth arall sydd gennyf, sef newyddion da am system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai, yr ydym ni, fel Gweinidogion tai yn y gorffennol, wedi ymaflyd â hi o bryd i'w gilydd. Mae'n rhaid i mi ddweud, nid oes gwir angen i chi ddeall y manylion technegol, ond byddem i gyd yn falch iawn os gallwch wneud—Wel, dim ond dau neu dri o bobl yn y DU sydd yn eu deall, ac mae un o'r rheini'n dweud celwydd. [Chwerthin.] Felly, peidiwch â cheisio, Weinidog. Peidiwch â gwastraffu'ch amser yn ceisio ei deall. Ein cael ni allan o'r system, yn fy marn i, yw'r peth. Tybed a ydych chi'n credu y byddwn yn gweld mwy o awdurdodau lleol, yn ychwanegol at Gaerfyrddin—er bod hynny'n newyddion da iawn hefyd— yn adeiladu tai newydd, yn arbennig, efallai, y rhai na ddarperir ar eu cyfer gan y farchnad agored. Rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno i roi manylion cyn gynted ag y bo modd er mwyn symud ymlaen ar y pwynt penodol hwn.

Diolch i chi, Jocelyn, am y cwestiynau yna. Ynglŷn â pha un a'i'r ddwy ran o dair o geisiadau gan brynwyr tro cyntaf yw'r ddwy ran o dair o brynwyr, ni allaf ddweud 'ie' yn bendant, ond nid wyf wedi cael gwybod yn wahanol. Fodd bynnag, yn sicr, byddaf yn gofyn y cwestiwn hwnnw, ac, os yw'n wahanol o gwbl, byddaf yn ysgrifennu atoch.

Nid yw'r wybodaeth am y swyddogion galluogi tai gwledig gennyf wrth law, ond yn sicr rwy'n hapus i roi gwybod i Aelodau'r Cynulliad drwy gyfrwng datganiad ysgrifenedig ar lwyddiant hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am very aware of the report to which you refer and certainly I was aware that you, as one of my predecessors, and Leighton Andrews launched that. I think you are right, it is something to be proud of and it is now being rolled out across the UK. Certainly, I think the building sector is very good at supporting young, unskilled workers. I think the link now between housing and the tackling poverty agenda, and bringing those together in my portfolio, has shown the advantages of that also. Certainly, Members will be aware of the Lift programme, which is one of our programmes, to offer 5,000 training opportunities to people from workless households. I have to say that the building sector has really stepped up to the plate. When I saw the figure that it was offering to people, I questioned it because it was so large. However, it has come back, and that is indeed the case. So, certainly, I am very happy to work with Julie James to see what more we can take forward there.

I am very pleased that you told me that about the housing revenue account subsidy, and I will certainly bow to your superior knowledge on that. It is exactly what officials told me, but I was not quite sure if they were just telling me that. So, it is very reassuring to hear, because it is incredibly technical, but I think that it is something that we need to take forward, and I am very confident that we will be able to enable exit by 2 April of next year. You mentioned Carmarthenshire, and I mentioned Flintshire before, which is another local authority, so we now have two local authorities that are keen to build houses. As I said in a previous answer, I think it was to Mike Hedges, I would do all that I can to support that.

Rwy'n ymwybodol iawn o'r adroddiad y cyfeirir ato ac yn sicr rwy'n ymwybodol mai chi, fel un o fy rhagflaenwyr, a Leighton Andrews lansiodd hynny. Rwy'n credu eich bod yn iawn, mae'n rhywbeth i fod yn falch ohono ac mae bellach yn cael ei gyflwyno ar draws y DU. Yn sicr, rwy'n credu bod y sector adeiladu yn dda iawn am gefnogi gweithwyr ifanc, di-grefft. Rwy'n meddwl bod y cysylltiad bellach rhwng tai a'r agenda trechu tlodi, a dod â hynny at ei gilydd yn fy mhortffolio, wedi dangos manteision hynny hefyd. Yn sicr, bydd Aelodau'n ymwybodol o'r rhaglen Liff, sy'n un o'n rhaglenni, i gynnig 5,000 o gyfleoedd hyfforddi i bobl o aelwydydd di-waith. Mae'n rhaid i mi ddweud bod y sector adeiladu wir wedi derbyn cyfrifoldeb. Pan welais y ffigur yr oedd yn ei gynnig i bobl, roeddwn yn ei gwestiynu am ei fod mor fawr. Fodd bynnag, mae wedi dod yn ôl, a dyna'n wir yw'r gwirionedd. Felly, yn sicr, rwy'n hapus iawn i weithio gyda Julie James i weld beth arall y gallwn ei ddatblygu yn hynny o beth.

Rwy'n falch iawn eich bod wedi dweud hynny wrthyf am gymhorthdal y cyfrif refeniw tai, ac rwy'n sicr yn derbyn eich bod yn gwybod mwy am hynny. Dyna'n union yr hyn a ddywedodd swyddogion wrthyf, ond nid oeddwn yn hollol siŵr pa un ai dweud hynny'n unig yr oeddent. Felly, mae'n galonogol iawn clywed, oherwydd ei fod yn hynod o dechnegol, ond rwy'n meddwl ei fod yn rhywbeth y mae angen inni ei ddatblygu, ac rwy'n hyderus iawn y byddwn yn gallu galluogi gadael erbyn 2 Ebrill y flwyddyn nesaf. Soniasoch am Sir Gaerfyrddin, a soniais innau am Sir y Fflint yn gynharach, sef awdurdod lleol arall, felly mae gennym bellach ddau awdurdod lleol sydd yn awyddus i adeiladu tai. Fel y dywedais mewn ateb blaenorol, wrth Mike Hedges rwy'n meddwl, byddwn yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i gefnogi hynny.

Minister, I thank you for the statement updating us on the governance strategy and the work that you are doing in relation to affordable homes. Minister, you may be aware that, in terms of the 90,000-odd people on council housing waiting lists, over 2,000 of those have been waiting for more than 10 years, and 8,500 for over five years. So, clearly, there is an issue with the system, in terms of turning over and people getting the properties that they wish to move into. Could I ask whether you could possibly interrogate the figures that are available to you more closely, to see whether the strategy that you are adopting in terms of producing affordable homes is providing the homes that these people want to go to, or whether there are deeper problems in the system, which have left people waiting much longer on the waiting lists than I think anybody would like to see them waiting to get a home? Clearly, we are building new homes, though not in the quantum that we want, and we are bringing empty homes back into use, and councils are now having money to do up homes through the housing revenue account subsidy system, which I do not understand either. Certainly, it appears to me that the money that is being directed is not meeting the target because those people are waiting so long. In terms of the housing revenue account subsidy system, I very much welcome the fact that we are looking to finally come out of that system in April next year. The work that went on, particularly between Jane Hutt and Danny Alexander, in terms of getting us out of that system, is very valuable and much appreciated by everyone. Could you give us some indication yet of roughly how much money will be released into the system as a result of coming out of the housing revenue account subsidy system and whether, as part of the housing strategies, local councils, particularly the 11 that have retained their stock, are taking account of that new money and will be able to build new council homes, as has been referred to by a number of Members as part of this statement.

Finally, Minister, I very much welcome the examples that you have given of work and how of we are using the investment in housing to create jobs and give people new skills. I very much welcome the fact that we are coming close to meeting the targets that the Welsh Government has set. However, you will know, of course, that the Holmans report suggested that the target that you have set is nowhere near meeting the demand for affordable homes that are needed across Wales. I am asking whether you are likely to be reviewing those targets to try to raise them upwards, if not for this Assembly term then for future Assembly terms, given that we need to build homes in much greater numbers according to the Holmans report, to be able to meet the demand for affordable homes.

Weinidog, diolch ichi am y datganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y strategaeth llywodraethu a'r gwaith yr ydych yn ei wneud mewn cysylltiad â chartrefi fforddiadwy. Weinidog, efallai eich bod yn gwybod, o'r oddeutu 90,000 sydd ar restrau aros am dai cyngor, bod dros 2,000 o'r rheini wedi bod yn aros am fwy na 10 mlynedd, ac 8,500 am dros bum mlynedd. Felly, yn amlwg, mae problem gyda'r system, o ran troi drosodd a phobl yn cael y tai y maent yn dymuno symud i mewn iddynt. A gaf fi ofyn a allech chi o bosibl archwilio'r ffigurau sydd ar gael i chi yn fwy gofalus, i weld pa un a yw'r strategaeth yr ydych yn ei mabwysiadu o ran cynhyrchu tai fforddiadwy yn darparu cartrefi y mae'r bobl hyn yn dymuno mynd iddynt, neu a oes problemau dyfnach yn y system, sydd wedi gadael i bobl aros yn llawer hirach ar y rhestrau aros nag yr oeddwn yn meddwl y byddai unrhyw un yn hoffi eu gweld yn aros i gael cartref? Yn amlwg, rydym yn adeiladu cartrefi newydd, ond nid yn y cwantwm yr ydym yn dymuno ei gael, ac rydym yn dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, ac mae cynghorau bellach yn cael arian i adnewyddu cartrefi drwy'r system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai, nad wyf innau yn ei deall ychwaith. Yn sicr, mae'n ymddangos i mi nad yw'r arian sy'n cael ei gyfeirio yn cyrraedd y targed oherwydd bod y bobl hynny'n aros mor hir. O ran system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai, rwy'n croesawu'n fawr y ffaith ein bod o'r diwedd yn awyddus i ddod allan o'r system honno ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Mae'r gwaith a aeth ymlaen, yn enwedig rhwng Jane Hutt a Danny Alexander, o ran ein cael ni allan o'r system honno, yn werthfawr iawn ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan bawb. A allech roi rhyw syniad i ni eto o tua faint o arian fydd yn cael ei ryddhau i mewn i'r system o ganlyniad i ddod allan o system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai, ac yn rhan o'r strategaethau tai, pa un a fydd cynghorau lleol, yn arbennig yr 11 sydd wedi cadw eu stoc, yn ystyried yr arian newydd ac y byddant yn gallu adeiladu tai cyngor newydd, fel y cyfeiriwyd ato gan nifer o Aelodau yn rhan o'r datganiad hwn.

Yn olaf, Weinidog, croesawaf yn fawr iawn yr enghreifftiau yr ydych wedi'u rhoi o waith a sut yr ydym yn defnyddio'r buddsoddiad mewn tai i greu swyddi a rhoi sgiliau newydd i bobl. Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith ein bod yn dod yn agos at gyrraedd y targedau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod. Fodd bynnag, byddwch yn gwybod, wrth gwrs, bod adroddiad Holmans yn awgrymu nad yw'r targed yr ydych wedi'i osod yn agos at fodloni'r galw am dai fforddiadwy y mae angen amdanynt ledled Cymru. Rwy'n gofyn pa un a ydych yn debygol o fod yn adolygu'r targedau hynny er mwyn ceisio'u codi tuag at i fyny, os nad ar gyfer y tymor Cynulliad hwn, yna ar gyfer tymhorau Cynulliad yn y dyfodol, o ystyried bod angen i ni adeiladu cartrefi mewn niferoedd llawer mwy yn ôl adroddiad Holmans, i allu ateb y galw am dai fforddiadwy.

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Peter Black, for those questions and observations. I saw the press release that the Welsh Liberal Democrats put out last week about the length of time that people were waiting for houses. Obviously, I recognise the pressure of housing versus homes available. That is why we are doing all that we can to increase the supply of affordable housing. Certainly, the figures that you came forward with, I think, will contain significant duplication. I think that there are people who are on housing waiting lists in one area more than once, and I think that it is really important that local authorities keep their lists up to date. That is the same, obviously, for housing associations too, and something that I will certainly be challenging them on. I think that homes have to be allocated on the basis of housing need—I think that that is absolutely a must, and priority groups must remain, such as, you know, people with medical needs, those who are at risk of homelessness, or people fleeing domestic violence. We still want to see people like that having priority. However, I do recognise, of course, that the waiting time can, unfortunately, be lengthy.

I am very pleased that you, too, do not understand the housing revenue account subsidy, but, like me, you agree that we should be exiting it. Certainly, the figure that I have been given is that it could be around £73 million per year, which is a huge figure. Obviously, local authorities will then need to decide how to spend that money—and I think that it does have to be local decisions—but we would certainly want to see more local authorities taking the stance that Carmarthenshire and Flintshire have taken in building homes.

In relation to affordable homes, yes, we have reached 69% of our target with the figure that I announced last month. You will be aware that the initial figure was 7,500, and that was increased to 10,000. I do not have any plans to increase it for the remaining 18 months of this term, but it is certainly something that we will need to look at, and I am sure that all parties will be looking at that as part of their manifestos. However, it is absolutely vital that we continue to provide and increase the supply of affordable homes.

Diolch i chi, Peter Black, am y cwestiynau a'r sylwadau yna. Gwelais y datganiad i'r wasg y gwnaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ei roi allan yr wythnos diwethaf am faint o amser y mae pobl yn aros am dai. Yn amlwg, rwy'n cydnabod y pwysau tai yn erbyn y cartrefi sydd ar gael. Dyna pam ein bod yn gwneud popeth y gallwn i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Yn sicr, bydd y ffigurau a gyflwynwyd gennych, rwy'n credu, yn cynnwys dyblygu sylweddol. Rwy'n credu bod pobl sydd ar restrau aros am dai mewn un ardal fwy nag unwaith, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn bod awdurdodau lleol yn cadw eu rhestrau yn gyfredol. Mae hynny'n wir, yn amlwg, ar gyfer cymdeithasau tai hefyd, ac yn rhywbeth y byddaf yn sicr yn eu herio nhw arno. Credaf fod yn rhaid i gartrefi gael eu dyrannu ar sail angen am dai—rwy'n meddwl bod hynny'n gwbl hanfodol, ac mae'n rhaid i grwpiau blaenoriaeth aros, megis, wyddoch chi, pobl sydd ag anghenion meddygol, y rhai sydd mewn perygl o fod yn ddi-gartref, neu bobl sy'n ffoi rhag trais yn y cartref. Rydym yn dal yn awyddus i weld pobl felly'n cael blaenoriaeth. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod, wrth gwrs, y gall yr amser aros, yn anffodus, fod yn hir.

Rwy'n falch iawn nad ydych chi hithau, chwaith, yn deall cymhorthdal y cyfrif refeniw tai, ond, fel ffinau, rydych yn cytuno y dylem fod yn ei adael. Yn sicr, y ffigur a roddwyd i mi yw y gallai fod tua £73 miliwn y flwyddyn, sy'n ffigur enfawr. Yn amlwg, bydd angen i awdurdodau lleol benderfynu ar sut i wario'r arian hwnnw—ac rwy'n meddwl bod yn rhaid iddynt fod yn benderfyniadau lleol—ond byddem yn sicr yn dymuno gweld mwy o awdurdodau lleol yn cymryd yr un agwedd â Sir Gaerfyrddin a Sir y Fflint o ran adeiladu cartrefi.

Mewn cysylltiad â chartrefi fforddiadwy, do, rydym wedi cyrraedd 69% o'n targed gyda'r ffigur a gyhoeddais y mis diwethaf. Byddwch yn ymwybodol mai'r ffigur cychwynnol oedd 7,500, a bod hwnnw wedi ei godi i 10,000. Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i'w godi ar gyfer y 18 mis sy'n weddill o'r tymor hwn, ond mae'n sicr yn rhywbeth y bydd angen i ni edrych arno, ac rwy'n siŵr y bydd pob plaid yn edrych ar hynny yn rhan o'u manifestos. Fodd bynnag, mae'n gwbl hanfodol ein bod yn parhau i ddarparu a chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I say that I am pleased to receive the statement and pleased to see the housing programme progressing safely? You will recall, of course, that I took through the Domestic Fire Safety (Wales) Measure 2011, and through all of that time, the housing and construction industry was telling me that I was single-handedly going to destroy the house-building programme of Wales. But there we are. I am pleased to say that your statement today proves them wrong, as I always knew it would.

A gaf i ddweud fy mod yn falch o gael y datganiad ac yn falch o weld y rhaglen tai yn symud ymlaen yn ddiogel? Byddwch yn cofio, wrth gwrs, fy mod wedi cyflwyno Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 a thrwy gydol y cyfnod hwnnw, roedd y diwydiant tai ac adeiladu yn dweud wrthyf fy mod ar fy mhen fy hun yn mynd i ddinistrio rhaglen adeiladu tai Cymru. Ond dyna ni. Rwy'n falch o ddweud bod eich datganiad heddiw yn eu profi'n anghywir, fel yr oeddwn bob amser yn gwybod y byddai.

Sprinklers are now mandatory in all properties of high risk, and we are on a countdown of just over 12 months now before we see the completion of the legislative programme that will make sprinklers mandatory in all new-home builds. Can I ask you what discussions you have had with the industry to make sure that there are no nasty surprises coming along in the house-building construction and that they are all ready for this final completion of the domestic fire safety Measure?

Mae systemau chwistrellu yn orfodol erbyn hyn ym mhob eiddo risg uchel, ac ychydig dros 12 mis sydd gennym bellach cyn i ni weld cwblhau'r rhaglen ddeddfwriaethol a fydd yn gwneud systemau chwistrellu yn orfodol ym mhob cartref a adeiledir o'r newydd. A gaf i ofyn i chi pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r diwydiant i wneud yn siŵr nad oes unrhyw beth cas annisgwyl yn dod i'r amlwg yn y gwaith adeiladu tai a'u bod i gyd yn barod ar gyfer cwblhad terfynol y Mesur diogelwch tân yn y cartref?

16:37 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Ann Jones. I thought that you might mention that, and quite right, too. I pay tribute to the work that you did. Certainly, the sky did not fall in. You are quite right, and in the conversations that I have had with home builders since I have been in portfolio, on the occasions that it has been raised with me, it has been very positive, I have to say, and I do not think that anybody would disagree that it will absolutely save lives. I do not know whether you are aware, but Neath Port Talbot College has just launched a new training scheme on sprinkler systems, which I think also shows how, again, we are helping with the skills agenda. However, certainly in the discussions that I have had to date, there are no nasty surprises.

Diolch, Ann Jones. Roeddwn yn meddwl y byddech yn sôn am hynny, ac yn hollol iawn, hefyd. Rwy'n talu teyrnged i'r gwaith a wnaethoch. Yn sicr, nid oedd yn ddiwedd y byd. Rydych yn llygad eich lle, ac yn y sgysiau yr wyf wedi'u cael gydag adeiladwyr cartrefi ers i mi fod yn y portffolio, ar yr achlysuron y mae wedi ei godi gyda mi, mae wedi bod yn gadarnhaol iawn, mae'n rhaid i mi ddweud, ac nid wyf yn credu y byddai unrhyw un yn anghytuno y bydd yn bendant yn achub bywydau. Nid wyf yn gwybod a ydych chi'n ymwybodol, ond mae Coleg Castell-nedd Port Talbot newydd lansio cynllun hyfforddi newydd ar systemau chwistrellu, sydd unwaith eto, yn fy marn i, hefyd yn dangos sut yr ydym yn helpu gyda'r agenda sgiliau. Fodd bynnag, yn sicr yn y trafodaethau yr wyf wedi'u cael hyd yma, nid oes unrhyw beth cas annisgwyl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:38 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome your update today, Minister, like everybody else here. Generally speaking, Governments are accused of being guilty of setting targets that are too lofty, or targets that are too small, as we heard in both cases today. What I want to do is actually congratulate the Welsh Government on getting the target right and being able to meet it. I think that that is hugely important. I think that it is systematic in that whoever has had your portfolio, successive Governments and Ministers have shown a real commitment here in the Assembly to improving housing supply for those people who are in need. Needless to say, being last in a succession of speakers, lots of people have asked the questions that I was going to ask, but I do want to pick up on some points that have not been picked up.

Croesawaf eich diweddariad heddiw, Weinidog, fel pawb arall yma. Yn gyffredinol, mae Llywodraethau yn cael eu cyhuddo o fod yn euog o osod targedau sy'n rhy uchel, neu dargedau sy'n rhy fychan, fel y clywsom yn y ddau achos heddiw. Yr hyn yr wyf am ei wneud mewn gwirionedd yw llongyfarch Llywodraeth Cymru ar gael y targed yn iawn a gallu ei gyrraedd. Credaf fod hynny'n bwysig iawn. Rwy'n credu ei bod yn systematig bod pwy bynnag sydd wedi cael eich portffolio, bod Llywodraethau a Gweinidogion olynol wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol yma yn y Cynulliad i wella'r cyflenwad tai ar gyfer y bobl hynny sydd mewn angen. Afraid dweud, o fod yn olaf mewn cyfres o siaradwyr, bod llawer o bobl wedi gofyn y cwestiynau yr oeddwn yn mynd i'w gofyn, ond rwyf am gyfeirio at rai pwyntiau nad ydynt wedi eu codi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It does say that 141 builders have applied for the Help to Buy scheme. I think that that is fantastic news. There is a cost benefit of building new homes, and that is well established. There is a multiplier that supports the local businesses, as well as training and apprenticeships, and social good. I know that Jocelyn has already asked the question that I wanted to ask about procurement and skills, but I also want to ask, in terms of procurement, whether you will look at procurement when you set your next level of targets, and the good that that will do for those communities?

Mae'n dweud bod 141 o adeiladwyr wedi gwneud cais am y cynllun Cymorth i Brynu. Credaf fod hynny yn newyddion gwych. Mae mantais cost o adeiladu cartrefi newydd, ac mae hynny wedi'i hen sefydlu. Ceir lluosydd sy'n cefnogi busnesau lleol, yn ogystal â hyfforddiant a phrentisiaethau, a lles cymdeithasol. Gwn fod Jocelyn eisoes wedi gofyn y cwestiwn yr oeddwn i am ei ofyn am gaffael a sgiliau, ond rwyf hefyd eisiau gofyn, o ran caffael, a fyddwch chi'n edrych ar gaffael pan fyddwch yn gosod eich lefel nesaf o dargedau, a'r daioni y bydd hynny'n ei wneud ar gyfer y cymunedau hynny?

You did mention the review of the social housing grant programme, and I would like to request that the review takes a special look at how that operates in rural communities. I was also going to ask how it might cut across the work of the rural housing enabler, but, again, Jocelyn beat me to that one.

Fe wnaethoch sôn am yr adolygiad o'r rhaglen grant tai cymdeithasol, a hoffwn i ofyn bod yr adolygiad yn edrych yn arbennig ar sut y mae hynny'n gweithredu mewn cymunedau gwledig. Rwyf hefyd yn mynd i ofyn sut y gallai dorri ar draws gwaith y galluogydd tai gwledig, ond, unwaith eto, roedd Jocelyn ar y blaen i mi yn hynny o beth.

Anyway, earlier this year, the Minister for Housing and Regeneration appointed a housing supply adviser to work with home builders and other key stakeholders. I would like to know what impact that has had and whether you think that that is a success. I also want to identify something that I am sure you know, namely that in rural areas, housing shortages are often more pronounced. It means that many young people are unable to live in the towns and villages that they grew up in. So, can I ask what considerations are being made to ensure that there is affordable housing in rural communities?

You also mentioned in your statement that the second phase of the housing finance grant alone will create an estimated 5,000 jobs. Can you elaborate on the positive economic impact of that wider investment in affordable housing?

16:41

Lesley Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Joyce Watson, for those questions. With 18 months to the end of this Government term, I am very confident that we will reach our 10,000 target. My immediate predecessor, Carl Sargeant, raised that figure from 7,500 to 10,000, so I think that he probably needs the praise for getting it right, but I am very confident that we will achieve that.

I think you are quite right about the commitment of my predecessors. The event to celebrate the Housing (Wales) Act 2014 getting Royal Assent happened in my very first week in portfolio. We had an event to mark that, and it was good to see Jocelyn Davies, Huw Lewis, Carl Sargeant and me all there. The warmth of the housing sector towards my predecessors and the work that they had done was very good to see.

I did mention that 141 builders have registered for the Help to Buy-Wales scheme, and it is not just the large developers—some of them are single-handed, very small builders, which again is good to see. They are providing jobs and apprenticeships to people, and it is an area on which I am very happy to work with Julie James to look at skills and procurement, with the Minister for finance, to see how we can take that forward.

You mentioned the review of the social housing grant. That has just started; I just commenced that last month. We have had our first meeting with external organisations such as Community Housing Cymru, the Welsh Local Government Association and other external stakeholders. I would be very happy to look at the impact it is having in a rural community specifically. When I update Members regarding rural housing, I can do that at the same time.

Beth bynnag, yn gynharach eleni, penododd y Gweinidog Tai ac Adfywio ymgynghorydd cyflenwad tai i weithio gydag adeiladwyr cartrefi a rhanddeiliaid allweddol eraill. Hoffwn wybod pa effaith y mae hynny wedi'i chael ac a ydych chi'n credu bod hynny'n llwyddiant. Rwyf hefyd yn awyddus i nodi rhywbeth yr wyf yn siŵr eich bod yn ei wybod, sef bod prinder tai mewn ardaloedd gwledig, yn aml yn fwy amlwg. Mae hynny'n golygu bod llawer o bobl ifanc nad ydynt yn gallu byw yn y trefi a'r pentrefi y maent wed tyfu i fyny ynddynt. Felly, a gaf fi ofyn pa ystyriaethau sy'n cael eu gwneud i sicrhau bod tai fforddiadwy mewn cymunedau gwledig?

Soniasoch hefyd am yn eich datganiad y bydd ail gam y grant cyllid tai ei hun yn creu tua 5,000 o swyddi. A allwch chi ymhelaethu ar yr effaith economaidd gadarnhaol o'r buddsoddiad ehangach hwnnw mewn tai fforddiadwy?

Diolch yn fawr, Joyce Watson, am y cwestiynau yna. Gan fod 18 mis hyd at ddiwedd tymor y Llywodraeth hon, rwy'n hyderus iawn y byddwn yn cyrraedd ein targed o 10,000. Cododd fy rhagflaenydd uniongyrchol, Carl Sargeant, y ffigur hwnnw o 7,500 i 10,000, felly rwy'n credu mai iddo fe, ôl pob tebyg, y mae'r clod am ei gael yn iawn, ond rwy'n hyderus iawn y byddwn yn cyflawni hynny.

Rwy'n credu eich bod yn llygad eich lle ynglŷn ag ymrwymiad fy rhagflaenwyr. Roedd y digwyddiad i ddathlu Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cael Cydsyniad Brenhinol yn digwydd yn fy wythnos gyntaf un mewn portffolio. Cawsom ddigwyddiad i nodi hynny, ac roedd yn dda gweld Jocelyn Davies, Huw Lewis, Carl Sargeant a minnau i gyd yno. Roedd yn braf iawn gweld cynhesrwydd y sector tai tuag at fy rhagflaenwyr a'r gwaith yr oeddent wedi'i wneud.

Soniais fod 141 o adeiladwyr wedi cofrestru ar gyfer y cynllun Cymorth i Brynu - Cymru, ac nid dim ond y datblygwyr mawr yw hynny—mae rhai ohonynt yn adeiladwyr ar eu pennau eu hunain, bychain iawn, sydd eto'n braf ei weld. Maent yn darparu swyddi a phrentisiaethau i bobl, ac mae'n faes lle'r wyf yn hapus iawn i weithio gyda Julie James i edrych ar sgiliau a chaffael, gyda'r Gweinidog cyllid, i weld sut y gallwn fwrw ymlaen â hynny.

Soniasoch am yr adolygiad o'r grant tai cymdeithasol. Newydd ddechrau y mae hwnnw; newydd ddechrau hwnnw y mis diwethaf yr wyf fi. Rydym wedi cael ein cyfarfod cyntaf gyda sefydliadau allanol fel Cartrefi Cymunedol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid allanol eraill. Byddwn yn hapus iawn i edrych ar yr effaith y mae'n ei chael mewn cymuned wledig yn benodol. Pan fyddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ynghylch tai gwledig, gallaf wneud hynny ar yr un pryd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We have set up the house builder engagement programme, because it is absolutely vital that we work very closely with them, as you said, because they play a very key role in the supply of housing. We have set up the forum, which will be used to identify specific issues that developers feel that they face in Wales. I can then look at what action I can take in order to support them and to increase the supply of new-build properties. The first meeting was held in September. The next one is in December, and I will be going along to that.

Rydym wedi sefydlu'r rhaglen ymgysylltu ag adeiladwyr tai, oherwydd ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn gweithio'n agos iawn gyda hwy, fel y dywedasoch, oherwydd eu bod yn chwarae rhan allweddol iawn yn y cyflenwad o dai. Rydym wedi sefydlu'r fforwm, a fydd yn cael ei ddefnyddio i nodi materion penodol y mae datblygwyr yn teimlo eu bod yn eu hwynebu yng Nghymru. Gallaf wedyn edrych ar ba gamau y gallaf eu cymryd er mwyn eu cefnogi nhw ac i gynyddu'r cyflenwad o dai a adeiledir o'r newydd. Roedd y cyfarfod cyntaf ym mis Medi. Mae'r un nesaf ym mis Rhagfyr, a byddaf yn mynd draw i hwnnw.

16:44

Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynghylch yr Adolygiad o Asiantau Cefnffyrdd

I call the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Statement: Update on the Review Y of Trunk Road Agents

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

[Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Edwina Hart y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth,.

16:44

Edwina Hart

[Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Today, I am pleased to be able to update Members on the work of my department to review the arrangements for the management and operation of the motorway and trunk roads in Wales. As outlined in my written statement in June, Welsh Ministers are directly responsible for the operation, maintenance and improvement of the motorway and trunk road network in Wales, an asset worth approximately £13.5 billion.

We need to ensure that this asset is managed efficiently and effectively on a day-to-day basis, as unplanned maintenance causes significant delays and disruption to the public and business. As well as providing value for money, the highway service delivery model must be highly responsive and agile enough to respond to changing priorities. Currently, the day-to-day operation, maintenance and improvement of the network is carried out on our behalf by two public sector agents. Significant improvements have been made over the last 10 years to these arrangements. However, there is more that we can do. A review undertaken in late 2013 and early 2014 found that there was merit in considering further changes to the management and delivery structures to improve service delivery and achieve value for money. As a result of this review, I announced my intention to look at the options for improving the management of the network and bringing it much closer to Welsh Government. Over the past five months, the review group has been considering a number of options. Our key aims are always to provide safe roads and to support the growth of the Welsh economy, and our focus has been on considering options that best support this.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Heddiw, rwy'n falch o allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith fy adran i adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli a gweithredu'r draffordd a'r cefnffyrdd yng Nghymru. Fel yr amlinellwyd yn fy natganiad ysgrifenedig ym mis Mehefin, mae Gweinidogion Cymru yn uniongyrchol gyfrifol am weithredu, cynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru, ased sy'n werth tua £13.5 biliwn.

Mae angen i ni sicrhau bod yr ased hwn yn cael ei reoli'n effeithlon ac yn effeithiol o ddydd i ddydd, gan fod cynnal a chadw heb ei gynllunio yn achosi oedi sylweddol ac yn amharu ar y cyhoedd a busnesau. Yn ogystal â darparu gwerth am arian, mae'n rhaid i'r model cyflenwi gwasanaethau priffyrdd fod yn ymatebol iawn ac yn ddigon hyblyg i ymateb i flaenoriaethau sy'n newid. Ar hyn o bryd, mae gweithredu, cynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith o ddydd i ddydd yn cael ei wneud ar ein rhan gan ddau asiant sector cyhoeddus. Mae gwelliannau sylweddol wedi eu gwneud dros y 10 mlynedd diwethaf i'r trefniadau hyn. Fodd bynnag, mae mwy y gallwn ei wneud. Canfu adolygiad a gynhaliwyd ar ddiwedd 2013 ac yn gynnar yn 2014 fod rhinwedd mewn ystyried newidiadau pellach i strwythurau rheoli a darparu i wella darpariaeth gwasanaeth a sicrhau gwerth am arian. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, cyhoeddais fy mwriad i edrych ar y dewisiadau ar gyfer gwella rheolaeth y rhwydwaith a dod ag ef yn llawer nes at Lywodraeth Cymru. Dros y pum mis diwethaf, mae'r grŵp adolygu wedi bod yn ystyried nifer o ddevisiadau. Ein hamcanion allweddol bob amser yw darparu ffyrdd diogel a chefnogi twf economi Cymru, ac rydym wedi canolbwyntio ar ystyried dewisiadau sy'n cefnogi hyn orau.

To be effective, we need to ensure that the model is highly responsive to the needs of the public and business in Wales, fully accountable, and agile enough to make the best use of funding opportunities and, therefore, cost-effective. The review concluded that greater direction and control over the service would be achieved by locating all planning staff within the Welsh Government. Therefore, I have agreed that, from 1 April 2015, all eligible staff engaged in the planning of works will transfer into the Welsh Government, under transfer of undertakings (protection of employment) regulations. It is estimated that this will affect around 20 to 30 staff, but this will be confirmed over the coming months. In addition, I am challenging the two existing trunk road agents, working with their local authority supply chain partners, to demonstrate substantial savings both in their management costs and their routine maintenance and inspections. I would like to see evidence of these savings by April 2015, which will then be subject to an independent audit.

Bringing all planning staff in-house will improve our strategic decision making, ensuring that resources are better targeted, and removing the planning function from the agents will allow them to focus on delivery. Challenging our public sector partners to become more efficient will deliver savings not only for the trunk road, but also for the local road services that they deliver. Over the next few months, we will monitor the progress in implementing these changes and the improvements we expect to see, and, in July, I will then make a decision about whether further changes to the model are necessary.

I fod yn effeithiol, mae angen i ni sicrhau bod y model yn ymatebol iawn i anghenion y cyhoedd a byd busnes yng Nghymru, yn gwbl atebol, ac yn ddigon hyblyg i wneud y defnydd gorau o gyfleoedd cyllido ac, felly, yn gost-effeithiol. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y byddai mwy o gyfarwyddyd a rheolaeth dros y gwasanaeth yn cael ei gyflawni drwy leoli'r holl staff cynllunio o fewn Llywodraeth Cymru. Felly, rwyf wedi cytuno y bydd yr holl staff cymwys sy'n ymwneud â chynllunio gwaith, o 1 Ebrill 2015, yn trosglwyddo i mewn i Lywodraeth Cymru, dan reoliadau trosglwyddo ymgymeriadau (diogelu cyflogaeth). Amcangyfrifir y bydd hyn yn effeithio ar tua 20 i 30 o staff, ond bydd hyn yn cael ei gadarnhau yn ystod y misoedd nesaf. Yn ogystal, rwyf yn herio'r ddau asiant cefnffyrdd presennol, gan weithio gyda'u partneriaid cadwyn gyflenwi awdurdodau lleol, i ddangos arbedion sylweddol o ran eu costau rheoli a'u cynnal a'u cadw ac archwiliadau rheolaidd. Hoffwn weld tystiolaeth o'r arbedion hyn erbyn mis Ebrill 2015, a fydd wedyn yn destun archwiliad annibynnol.

Bydd dod â'r holl staff cynllunio yn fewnol yn gwella ein proses o wneud penderfyniadau strategol, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n well, a bydd symud y swyddogaeth gynllunio oddi wrth yr asiantau yn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar gyflenwi. Bydd herio ein partneriaid yn y sector cyhoeddus i fod yn fwy effeithlon yn sicrhau arbedion nid yn unig ar gyfer y gefnffordd, ond hefyd ar gyfer y gwasanaethau ffyrdd lleol a ddarperir ganddynt. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn monitro'r cynnydd wrth weithredu'r newidiadau hyn a'r gwelliannau yr ydym yn disgwyl eu gweld, ac, ym mis Gorffennaf, byddaf wedyn yn gwneud penderfyniad ynghylch pa un a oes angen newidiadau pellach i'r model.

16:47

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for your statement today. Wales, geographically, is a relatively small country, but, obviously, given geography and type of terrain and the type of road structure we have here in Wales, it is very diverse indeed. Obviously, what is classed as a trunk road in some areas would be classed as a very minor road in other areas, especially in more built-up and urban areas. That makes the trunk road network very difficult to manage, and local knowledge is vital in making sure that the conditions prevail within the organisations to make sure that any problems are dealt with quickly to make sure that road safety is of paramount importance and so that, above all, where improvements are being devised, especially in engineering works to improve the road network, they take account of local concerns and the topography of the area.

Weinidog, diolch i chi am eich datganiad heddiw. Mae Cymru, yn ddaearyddol, yn wlad gymharol fach, ond, yn amlwg, o ystyried y ddaearyddiaeth a'r math o dir a'r math o strwythur ffyrdd sydd gennym yma yng Nghymru, mae'n amrywiol iawn yn wir. Yn amlwg, mae'r hyn fyddai'n cael ei ystyried fel cefnffordd mewn rhai ardaloedd yn cael ei ystyried fel ffordd fach iawn mewn ardaloedd eraill, yn enwedig mewn ardaloedd mwy adeiledig a threfol. Mae hynny'n gwneud y rhwydwaith cefnffyrdd yn anodd iawn i'w reoli, ac mae gwybodaeth leol yn hanfodol wrth sicrhau bod yr amodau yn bodoli o fewn y sefydliadau i wneud yn siŵr yr ymdrinnir yn gyflym ag unrhyw broblemau i sicrhau bod diogelwch ar y ffyrdd yn hollbwysig ac fel eu bod, yn anad dim, pan fo gwelliannau yn cael eu llunio, yn enwedig mewn gwaith peirianeg i wella'r rhwydwaith ffyrdd, yn ystyried pryderon lleol a thopograffeg yr ardal.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

You are talking about centralising the planning service within the Welsh Government, I think I am correct in understanding from your statement today. Can you give me assurances that this centralisation will be able to accommodate the many local differences that we find across Wales and the understanding of the diversity of our road network? I fully understand the desire to save money. Very often, obviously, what we want is to see that money spent on the road network itself in the country, as it were, rather than in offices and on people sitting in offices, but that is a vital piece of the support network in designing the roads for the future. So, I would be very grateful if you could outline how you are going to retain this local knowledge when developing new road schemes in responding to engineering works that are required across the whole of Wales.

I would also be very keen to understand how the road network is going to be continually monitored by the two agencies that currently deal with maintenance. Obviously, over the years—I think the last 10 years—there has been a quite dramatic reorganisation within the organisations. First of all, there were five, I think I am correct in saying, then it went to three and then two, and there was talk that that could be consolidated into one organisation to deal with trunk roads across Wales. I am assuming from your statement today that you have discounted the possibility of bringing the two into one now and that, therefore, the organisations that are left can go forward with some certainty that their future is assured and can plan for the future accordingly.

16:50

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the leader of the opposition for his comments, because I know that he, like us, takes the issue of road safety as a very important aspect of the work that we undertake in Government. Road safety is key. We need to have safe roads and effective and efficient maintenance of those particular roads.

May I say to you that, when I looked at all of these issues, I felt that there was a lack of transparency in the way that some of them were dealt with? It is very important for us to recognise that we have transparency in how we spend public money and we need to see that in terms of how we deal with road issues. There is also a great opportunity in the proposals that I am outlining for local government to demonstrate what it can achieve in the management of these areas. It is their geographic knowledge, local resource and dedicated staff that can enable them to compete very well with any of the private sector options that people are urging me to explore.

In terms of the private sector arrangements, we have to realise that, in England and Scotland, the private sector is delivering services for less money in these particular areas. I have very much hope that what I have done in outlining a historic step to bring the planning functions in-house will help us deal with the wider issues about how we deal with the service. However, you can be assured that we will not lose the local knowledge.

Rydych yn sôn am ganoli'r gwasanaeth cynllunio o fewn Llywodraeth Cymru, rwy'n meddwl fy mod yn gywir yn deall hynny o'ch datganiad heddiw. A allwch chi roi sicrwydd y bydd y canoli hwn yn gallu darparu ar gyfer y llu o wahaniaethau lleol yr ydym yn eu canfod ar draws Cymru a'r ddealltwriaeth o amrywiaeth ein rhwydwaith ffyrdd? Rwy'n deall yn llwyr yr awydd i arbed arian. Yn aml iawn, yn amlwg, yr hyn yr ydym ei eisiau yw gweld yr arian hwnnw yn cael ei wario ar y rhwydwaith ffyrdd ei hun yn y wlad, fel petai, yn hytrach nag mewn swyddfeydd ac ar bobl yn eistedd mewn swyddfeydd, ond mae hynny yn rhan hanfodol o'r rhwydwaith cefnogi mewn dylunio'r ffyrdd ar gyfer y dyfodol. Felly, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech amlinellu sut yr ydych yn mynd i gadw'r wybodaeth leol hon wrth ddatblygu cynlluniau ffyrdd newydd wrth ymateb i waith peirianyddol sydd ei angen ar draws Cymru gyfan.

Byddwn hefyd yn awyddus iawn i ddeall sut mae'r rhwydwaith ffyrdd yn mynd i gael ei fonitro'n barhaus gan y ddwy asiantaeth sy'n ymdrin â gwaith cynnal a chadw ar hyn o bryd. Yn amlwg, dros y blynyddoedd—y 10 mlynedd ddiwethaf rwy'n credu—bu ad-drefnu tra sylweddol yn y sefydliadau. Ar y dechrau, roedd pump, rwy'n meddwl fy mod yn gywir yn dweud, ac yna aeth i dri ac yna'n ddau, a bu sôn y gallai hynny gael ei gyfuno i mewn i un sefydliad i ymdrin â chefnffyrdd ledled Cymru. Rwy'n tybio o'ch datganiad heddiw eich bod wedi diystyru'r posibilrwydd o ddod â'r ddau i mewn i un erbyn hyn ac, felly, gall y sefydliadau sydd ar ôl fynd ymlaen gyda rhywfaint o sicrwydd bod eu dyfodol yn sicr ac y gallant gynllunio ar gyfer y dyfodol yn unol â hynny.

Diolch i arweinydd yr wrthblaid am ei sylwadau, oherwydd gwn ei fod ef, fel ninnau, yn ystyried y mater o ddiogelwch ar y ffyrdd yn agwedd bwysig iawn o'r gwaith yr ydym yn ymgymryd ag ef yn y Llywodraeth. Mae diogelwch ar y ffyrdd yn allweddol. Mae angen i ni gael ffyrdd diogel a chynnal a chadw effeithiol ac effeithlon ar y ffyrdd penodol hynny.

A gaf fi ddweud wrthy, pan fyddaf yn edrych ar yr holl faterion hyn, fy mod yn teimlo bod diffyg tryloywder yn y ffordd y yr ymdrinnir â rhai ohonynt? Mae'n bwysig iawn i ni gydnabod bod gennym dryloywder yn y ffordd yr ydym yn gwario arian cyhoeddus ac mae angen i ni weld hynny o ran sut yr ydym yn ymdrin â materion ar y ffyrdd. Mae cyfle gwybodaeth yn y cynigion yr wyf yn eu hamlinellu hefyd i lywodraeth leol ddangos yr hyn y gall ei gyflawni wrth reoli'r ardaloedd hyn. Eu gwybodaeth ddaearyddol, adnoddau lleol a staff ymroddedig sy'n eu galluogi i gystadlu yn dda iawn gydag unrhyw un o'r dewisiadau yn y sector preifat y mae pobl yn fy annog i archwilio.

O ran y trefniadau yn y sector preifat, mae'n rhaid i ni sylweddoli, yn Lloegr a'r Alban, bod y sector preifat yn darparu gwasanaethau am lai o arian yn y meysydd penodol hyn. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd yr hyn yr wyf wedi ei wneud yn amlinellu cam hanesyddol i ddod â'r swyddogaethau cynllunio yn fewnol yn ein helpu i ymdrin â'r materion ehangach ynglŷn â sut yr ydym yn ymdrin â'r gwasanaeth. Fodd bynnag, gallwch fod yn sicr na fyddwn yn colli'r wybodaeth leol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

You make a very good point, because, sometimes, most of the intelligent letters that I have about some of the issues on the roads come from local people—never mind what the engineers say—who know the layout of the roads and understand the area that the roads are in. They make the best comments, sometimes, when we have public consultation on that area. I have certainly found that to be the case in mid Wales, where we have had some major problems, as you know, with bridges and everything. The locals really have an understanding of where that new road can be and what could be done with it. I have to say that, sometimes, they suggest much cheaper options to me than those that necessarily come from engineers, because we all know that engineers do like schemes.

Rydych yn gwneud pwynt da iawn, oherwydd, weithiau, mae'r rhan fwyaf o'r llythyrau deallus a gaf am rai o'r materion ar y ffyrdd yn dod gan bobl leol—waeth beth mae'r peirianwyr yn ei ddweud—sy'n gwybod cynllun y ffyrdd ac sy'n deall yr ardal y mae'r ffyrdd ynddi. Maent yn gwneud y sylwadau gorau, weithiau, pan fyddwn yn cael ymgynghoriad cyhoeddus ar y maes hwnnw. Rwyf yn sicr wedi gweld bod hynny'n wir yng nghanolbarth Cymru, lle'r ydym wedi cael rhai problemau mawr, fel y gwyddoch, gyda phontydd a phopeth. Mae gan y bobl leol wir ddealltwriaeth o ble y gall y ffordd newydd fod a beth y gellid ei wneud â hi. Mae'n rhaid i mi ddweud, weithiau, eu bod yn awgrymu dewisiadau llawer rhatach i mi na'r rhai sy'n dod o anghenraid gan beirianwyr, oherwydd ein bod i gyd yn gwybod bod peirianwyr yn hoffi cynlluniau.

16:52 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, may I also thank you for your statement? I want to reiterate a couple of Andrew R.T. Davies's points, because the collaboration and local knowledge is crucial. As you know, there is a situation in my own constituency where action has been taken upon the motorway, but the consequences on the local roads have been quite dramatic to the local people. I want your reassurances that, as planners look at the strategic direction of the motorway and trunk road network, they will look very carefully at the local routes and the impact on them to ensure that people are able to move around the local towns and that any strategic decision will not have a major impact on local people.

Weinidog, a gaf fi hefyd ddiolch i chi am eich datganiad? Rwyf am ailadrodd un neu ddau o bwyntiau Andrew R.T. Davies, gan fod cydweithio a gwybodaeth leol yn hanfodol. Fel y gwyddoch, mae sefyllfa yn fy etholaeth i lle mae camau wedi'u cymryd ar y draffordd, ond mae'r canlyniadau ar y ffyrdd lleol wedi bod yn eithaf dramatig i'r bobl leol. Hoffwn gael sicrwydd gennych, wrth i gynllunwyr edrych ar gyfeiriad strategol y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd, y byddant yn edrych yn ofalus iawn ar y ffyrdd lleol a'r effaith arnynt i sicrhau bod pobl yn gallu symud o gwmpas y trefi lleol, ac na fydd unrhyw benderfyniad strategol yn cael effaith fawr ar bobl leol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In line with that, can you reassure me that the different sections of the departments will talk to one another? I will give you an example. As you know, in relation to the M4's junction 41 situation, there have been works to look at the average speed cameras and, as a consequence, diversions have happened—this was all undertaken by the South Wales Trunk Road Agent—and it has signposted people to roads that are basically impracticable, and it should not be signposting them up there. It is because the sections in that area are not talking to one another, to the point that where a new road had been built and when it was asked by a local councillor, 'Why did you not send them down there?', the answer was, 'We did not know that it was open'. I think the communication does not exist in that department at this point in time.

Yn unol â hynny, a allwch chi roi sicrwydd imi y bydd gwahanol rannau'r adrannau yn siarad â'i gilydd? Rhoddaf enghraifft i chi. Fel y gwyddoch, o ran sefyllfa cyffordd 41 yr M4, bu gwaith i edrych ar y camerâu cyflymder cyfartalog ac, o ganlyniad, mae dargyfeiriadau wedi digwydd—cafodd hyn i gyd ei wneud gan Asiant Cefnffyrdd De Cymru—ac mae wedi cyfeirio pobl at ffyrdd sydd yn y bôn yn anymarferol, ac ni ddylai fod yn eu cyfeirio i fyny yno. Y rheswm yw nad yw'r adrannau yn yr ardal honno yn siarad â'i gilydd, at y pwynt lle mae ffordd newydd wedi ei hadeiladu a phan ofynnwyd gan gynghorydd lleol, 'Pam na wnaethoch chi eu hanfon i lawr y ffordd yna?', Yr ateb oedd, 'Nid oeddem yn gwybod ei bod yn agored'. Rwy'n credu nad yw'r cyfathrebu yn bodoli yn yr adran honno ar hyn o bryd.

Could you also give me your consideration of your future works, because the designation of roads is also a crucial element? If you are creating new roads such as dual carriageways, as Harbour Way is—the A4241—could you look at the designation of those roads? Would it be worth while for the Government to look at redesignating roads to ensure that traffic goes down those now major trunk roads and not along roads that were originally built for traffic 40, 50 or 60 years ago?

A allech chi hefyd roi eich ystyriaeth o waith yn y dyfodol i mi, gan fod dynodiad y ffyrdd hefyd yn elfen hanfodol? Os ydych yn creu ffyrdd newydd megis ffyrdd deuol, fel Ffordd yr Harbwr—yr A4241—a allech chi edrych ar ddynodiad y ffyrdd hynny? A fyddai'n werth chweil i'r Llywodraeth edrych ar ail-ddynodi ffyrdd i sicrhau bod traffig yn mynd i lawr y cefnffyrdd hynny sydd bellach yn rhai mawr ac nid ar hyd ffyrdd a adeiladwyd yn wreiddiol ar gyfer traffig 40, 50 neu 60 mlynedd yn ôl?

16:54 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Taking your last point first, I think that the designation of roads is quite an important area, because we need to designate to ensure that large vehicles use their satnavs appropriately and then go along the designated A roads. This is something that I am more than happy to pick up in the next review that we undertake.

Gan gymryd eich pwynt olaf yn gyntaf, rwy'n credu bod dynodiad ffyrdd yn faes eithaf pwysig, oherwydd mae angen i ni ddynodi i sicrhau bod cerbydau mawr yn defnyddio eu systemau llywio â lloeren yn briodol ac yna'n mynd ar hyd y ffyrdd A dynodedig. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn fwy na pharod i'w godi yn yr adolygiad nesaf y byddwn yn ei gynnal.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On the issues that you have raised with me on quite a number of occasions about the junction issues on the M4, actually, the director of my department has travelled with me to see at first-hand what is going on in these areas. I do not think that there has been the level of co-operation or understanding between all of the authorities that have been involved in this. It is absolutely imperative that, if we are trying to make changes to improve the flow, people understand where they need to go if they have to go in another direction. So, I will certainly take those points on. Sometimes, I do not think that people think about the daily impact on individuals if you do not give the direction properly. Hence why I am continuing now to review the role and function of the two agencies that I have left.

O ran y materion yr ydych wedi'u codi gyda mi nifer o weithiau am y materion cyffordd ar yr M4, mewn gwirionedd, mae cyfarwyddwr fy adran wedi teithio gyda mi i weld yn uniongyrchol yr hyn sy'n digwydd yn yr ardaloedd hyn. Nid wyf yn credu y cafwyd y lefel o gydweithredu na dealltwriaeth rhwng pob un o'r awdurdodau sydd wedi bod yn rhan o hyn. Mae'n gwbl hanfodol, os ydym yn ceisio gwneud newidiadau i wella llif, bod pobl yn deall ble mae angen iddynt fynd os oes rhaid iddynt fynd i gyfeiriad arall. Felly, byddaf yn sicr yn ystyried y pwyntiau hynny. Weithiau, nid wyf yn credu bod pobl yn meddwl am yr effaith ddyddiol ar unigolion os nad ydych yn rhoi'r cyfeiriad yn iawn. Felly dyna pam yr wyf yn parhau yn awr i adolygu rôl a swyddogaeth y ddwy asiantaeth sydd gennyf ar ôl.

16:55

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn groesawu'r datganiad yma. Mae Plaid Cymru wedi cefnogi nifer o'r newidiadau sydd wedi cael eu cyflwyno dros y degawd diwethaf i'r ffordd y mae pethau'n gweithio ar hyn o bryd. Serch hynny, mae pryderon wrth inni fynd gam ymhellach tuag at ganoli, yn sicr, y swyddogaethau cynllunio ac wrth inni symud ymlaen at chwilio am ragor o arbedion.

Cyn imi droi at fy nghwestiynau, rwyf am atgoffa'r Gweinidog am ddatganiad a gafodd ei wneud gan y Gweinidog cyllid ddoe a oedd yn dweud bod y Llywodraeth yn gweithio i'r egwyddor o fod ag amcan cyffredinol o fod eisiau datganoli gwasanaethau o Gaerdydd a'u dwyn nhw yn nes at bobl Cymru. Felly, yr hyn sydd gennyf wir ddiddordeb ynddo ydy beth yn union fydd effaith datganiad heddiw ar y rheini sy'n gweithio yn y maes yma ledled Cymru. Rydym yn gwybod, er enghraifft, fod 25 o swyddi yn nhim craidd yr asiantaeth sy'n cael ei rheoli gan Gyngor Gwynedd. Mae rhyw 85 o swyddi yn rhanbarth y gogledd a'r canolbarth, ac mae gan gyngor Castell-nedd Port Talbot ffigurau tebyg. Wrth i'r Gweinidog chwilio am ragor o arbedion, pa sicrwydd y gall hi ei roi na fydd swyddi yn cael eu colli? Os ydych yn disgwyl i swyddi gael eu colli neu eu tynnu i mewn i'r canol yn gorfforol, sut mae hynny'n cyd-fynd â'r egwyddor y soniais amdani o fod eisiau datganoli gwasanaethau?

Hefyd, a yw'r adolygiad o asiantaethau cefnffyrdd yn cynnwys ystyried dyfodol gwasanaeth y swyddogion traffig, a gafodd ei gyflwyno yn 2009 gan Lywodraeth Cymru'n Un, a'r canolfannau gwybodaeth traffig? A all y Gweinidog, i gloi, roi sicrwydd i'r Siambwr fod gwerth am arian, sy'n wastad yn bwysig iawn i ni fynd ar ei ôl, yn ei barn hi yn cynnwys mwy na dim ond telerau ariannol noeth, a'i fod hefyd yn cynnwys y deilliannau cymdeithasol ac economaidd lleol o ledaenu swyddi sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru mewn modd datganoledig ar hyd a lled y wlad? Nid yw tynnu swyddi i mewn i Lywodraeth Cymru yn gorfod golygu eu symud yn gorfforol o'r gogledd, y canolbarth neu'r gorllewin.

I would like to welcome this statement. Plaid Cymru has supported a number of the changes that have been made over the past decade to the way in which things operate at present. However, there are concerns as we take a step further towards the centralisation, certainly, of the planning functions and as we move forward in looking for further savings.

Before I turn to my questions, I want to remind the Minister about a statement that was made by the Minister for finance yesterday, which said that the Government is working according to the principle of having a general objective of wanting to decentralise services from Cardiff and to bring them closer to the people of Wales. Therefore, what I am really interested in is the effect of today's statement on those who work in this field across Wales. We know, for example, that there are 25 jobs in the agency's core team that is managed by Gwynedd Council. There are some 85 jobs in the north and mid Wales region, and Neath Port Talbot council has a similar figure. As the Minister seeks further savings, what assurance will she be able to give that no jobs will be lost? If you do expect jobs to be lost or physically drawn into the centre, how does that fit with the principle that I mentioned of wanting to decentralise services?

Also, does the trunk road agencies review include consideration of the future of the traffic officer service, which was introduced in 2009 by the One Wales Government, and the traffic information centres? Can the Minister, in conclusion, assure the Chamber that value for money, which is always important for us to pursue, in her view includes more than just financial terms and conditions, and that it includes the social and economic outcomes that we see locally of decentralising Welsh Government-related jobs across the country? Brining positions into the Welsh Government does not necessarily have to mean moving them physically from north, mid and west Wales.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that contribution. As a former trade union official, I can assure you that there will be no trunk road agent staff made redundant as part of the new arrangements. Staff will transfer under TUPE, and I know all about TUPE terms and conditions, so you can have those assurances there. We obviously have to work through the issues with staff about location and where there may be and everything. That is those staff.

The day-to-day operation, maintenance and improvement of the network is currently carried out, as you are aware, by SWTRA, which is employed by Neath Port Talbot council, and the north and mid Wales agent, which is employed by Gwynedd Council. The current model is the outcome of a process of continuous review and improvement that was not actually started by me—it was started a long time ago—where the number of public sector agents was reduced from eight to three in 2005 and from three to two in 2012. The review of the current operational arrangements found that there is merit in considering further change to the management and delivery to get improvements and value for money, because we have the continuing budget pressures. I can assure you that the police made it absolutely clear to me that it regards the traffic officers as being exceptionally helpful and useful in terms of maintaining the continuity within the service on the roads. In terms of the centres, we want to be able to provide as much information as possible to individuals when they are travelling on the roads. I can assure you that this has been a long discussion, and I would be more than happy to update Assembly Members at every turn.

Diolch i chi am y cyfraniad yna. Fel cyn swyddog undeb llafur, gallaf eich sicrhau na fydd unrhyw staff asiant cefnffyrdd yn cael eu diswyddo yn rhan o'r trefniadau newydd. Bydd staff yn trosglwyddo o dan TUPE, ac rwy'n gwybod popeth am delerau ac amodau TUPE, felly gallwch chi gael y sicrwydd hwnnw yn hynny o beth. Yn amlwg, mae'n rhaid i ni weithio trwy'r materion gyda staff ynglŷn â lleoliad a lle y gallant fod a phopeth. Yr aelodau staff hynny, hynny yw.

Mae gweithredu, cynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith o ddydd i ddydd yn cael ei wneud ar hyn o bryd, fel y gwyddoch, gan SWTRA, sy'n cael ei gyflogi gan gyngor Castell-nedd Port Talbot, ac asiant gogledd a chanolbarth Cymru, sy'n cael ei gyflogi gan Gyngor Gwynedd. Mae'r model presennol yn ganlyniad proses o adolygu a gwelliant parhaus na ddechreuwyd gennyf i mewn gwirionedd—cafodd ei ddechrau amser maith yn ôl—pryd y cafodd nifer yr asiantau sector cyhoeddus ei leihau o wyth i dri yn 2005 ac o dri i ddau yn 2012. Canfu'r adolygiad o'r trefniadau gweithredu presennol bod rhinwedd mewn ystyried newid pellach i'r rheoli a'r darparu er mwyn cael gwelliannau a gwerth am arian, oherwydd bod gennym y pwysau cyllidebol parhaus. Gallaf eich sicrhau bod yr heddlu wedi ei gwneud yn gwbl glir i mi ei fod yn ystyried y swyddogion traffig fel bod eithriadol o ddefnyddiol ac o werth o ran cynnal y parhad yn y gwasanaeth ar y ffyrdd. O ran y canolfannau, rydym eisieu bod yn gallu darparu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl i unigolion pan fyddant yn teithio ar y ffyrdd. Gallaf eich sicrhau bod hon wedi bod yn drafodaeth hir, a byddwn yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad ar bob tro.

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank the Minister for her statement, and I am pleased that work is ongoing to improve the management of our motorways and trunk roads. Certainly, it is the condition of our trunk roads that is mentioned to me most often by members of the public on a very regular basis. It is not necessarily just about the cost, as other Members have said, or even about the prioritisation and the order in which work will be undertaken, but you will know that I have raised concerns about the quality of the work being undertaken, even when those pieces of work were being brought forward by these agencies previously. For example, there was work on a viaduct in the Merthyr area where building materials fell onto business premises below, which was terrifying for the people working there and their customers. You have mentioned that the highway service delivery model needs to provide value for money and also that it needs to be responsive too, but can you please confirm to me that the quality of the work that is undertaken will be a strong part of that calculation in terms of assessing success? In particular, if you look at the principle of what is known as total quality management, it would suggest that if you make mistakes, but you spot them and avoid them early on in the process, it costs you less in the long run. It is the spend-to-save principle. Therefore, I would suggest that, if the quality of the workmanship is poor, in the implementation of the priorities that are set out, we will have higher costs in the long term.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad, ac rwy'n falch bod y gwaith yn mynd rhagddo i wella'r broses o reoli ein traffyrdd a'n cefnffyrdd. Yn sicr, cyflwr ein cefnffyrdd sy'n cael ei grybwyll i mi fwyaf aml gan aelodau o'r cyhoedd yn rheolaidd iawn. Nid yw o reidrwydd yn ymwneud â'r gost yn unig, fel y mae Aelodau eraill wedi'i ddweud, neu hyd yn oed am y blaenoriaethu a threfn gwneud y gwaith, ond byddwch yn gwybod fy mod wedi codi pryderon am ansawdd y gwaith sy'n cael ei wneud, hyd yn oed pan oedd y darnau hynny o waith yn cael eu dwyn ymlaen gan yr asiantaethau hyn o'r blaen. Er enghraifft, roedd y gwaith ar y draphont yn ardal Merthyr lle syrthiodd deunyddiau adeiladu ar adeiladau busnes isod, a oedd yn frawychus i'r bobl a oedd yn gweithio yno a'u cwsmeriaid. Rydych wedi sôn bod angen i'r model cyflenwi gwasanaeth priffyrdd ddarparu gwerth am arian a bod angen iddo fod yn ymatebol hefyd, ond a allwch chi os gwelwch yn dda gadarnhau i mi y bydd ansawdd y gwaith a wneir yn rhan gref o'r hyn a gyfrifir o ran asesu llwyddiant? Yn enwedig, os edrychwch ar egwyddor yr hyn a elwir yn rheoli ansawdd hollgynhwysfawr, byddai'n awgrymu os byddwch yn gwneud camgymeriadau, ond eich bod yn eu gweld ac yn eu hosgoi yn gynnar yn y broses, ei bod yn costio llai i chi yn y pen draw. Dyma'r egwyddor gwario i arbed. Felly, byddwn yn awgrymu, os yw ansawdd y crefftwaith yn wael, wrth weithredu'r blaenoriaethau a nodir, y bydd gennym gostau uwch yn y tymor hir.

Secondly, you say that you are challenging the two trunk road agencies to demonstrate substantial savings and, although this has been a process of improvement over a period of time, I wonder if you can tell us whether you believe that there has been inappropriate use of funds previously, or if there are cases where you believe that money has been wasted. How will you ensure that, in this challenge that you have presented to those two agencies, they are not going to be cutting corners on quality even further to respond to that challenge, because, clearly, it is not only a cost issue, but a very important safety issue that this low-quality work not only costs more in the long term, but presents a very real danger to road users. I am particularly thinking as well about vulnerable road users like cyclists. We want to encourage them to use our roads more, but if the quality of the workmanship or the quality of the road surfaces is poor, that brings them even greater danger.

You mentioned, in response to another Member, the importance of transparency in terms of the work that the trunk road agencies are doing, and I welcome your commitment, but bringing some functions in-house while maintaining two additional trunk road agencies could add to confusion in terms of the arrangements and who is responsible for what element of the arrangements. Can you tell us how you are going to ensure that these changes will lead to improvements in information provision and also improvements in the accessibility of those agencies, for example for those communities that rely on trunk roads and have been fighting and fighting for improvements to safety facilities on their local roads? Are they going to find it easier to deal with the new arrangements than they did with the previous ones?

Finally, as David Rees mentioned to you, there is the importance of the redesignation of roads, and you have previously discussed that you are willing to do so. There are anomalies in my region; for example, the fact that the A4232 from Culverhouse Cross to Cardiff bay is not currently a trunk road, but some residential streets in the city centre are. However, what we need is not a piecemeal solution, but a comprehensive redesignation. I wonder if this redesignation could form part of this ongoing review as it moves forward and, if so, how you intend to gather the views of local authorities and local people as to what the trunk road network ought to be.

Yn ail, rydych yn dweud eich bod yn herio'r ddwy asiantaeth cefnffyrdd i ddangos arbedion sylweddol ac, er bod hyn wedi bod yn broses o welliant dros gyfnod o amser, tybed a allwch chi ddweud wrthym pa un a ydych chi'n credu y bu defnydd amhriodol o arian yn flaenorol, neu os oes achosion lle yr ydych yn credu bod arian wedi ei wastraffu. Sut y byddwch chi'n sicrhau, yn yr her hon yr ydych wedi'i chyflwyno i'r ddwy asiantaeth, nad ydynt yn mynd i fod yn torri corneli ar ansawdd hyd yn oed ymhellach i ymateb i'r her honno, oherwydd, yn amlwg, nid yw'n fater o gost yn unig, ond mae'n fater pwysig iawn o ddiogelwch bod y gwaith o ansawdd isel hwn, nid yn unig yn costio mwy yn y tymor hir, ond yn golygu perygl real iawn i ddefnyddwyr ffyrdd. Rwy'n meddwl yr arbennig hefyd am ddefnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed megis beicwyr. Rydym eisiau eu hannog i ddefnyddio mwy ar ein ffyrdd, ond os yw ansawdd y crefftwaith neu ansawdd wynebâu'r ffyrdd yn wael, mae hynny'n golygu mwy fyth o berygl iddynt.

Roeddech yn sôn, mewn ymateb i Aelod arall, am bwysigrwydd tryloywder o ran y gwaith y mae'r asiantaethau cefnffyrdd yn ei wneud, ac rwy'n croesawu eich ymrwymiad, ond gallai dod â rhai swyddogaethau yn fewnol gan gynnal dwy asiantaeth cefnffyrdd ychwanegol ar yr un pryd ychwanegu at ddryswch o ran y trefniadau a phwy sy'n gyfrifol am ba elfen o'r trefniadau. A allwch chi ddweud wrthym sut yr ydych yn mynd i sicrhau y bydd y newidiadau hyn yn arwain at welliannau o ran darparu gwybodaeth a hefyd gwelliannau o ran hygyrchedd yr asiantaethau hynny, er enghraifft ar gyfer y cymunedau hynny sy'n dibynnu ar gefnffyrdd ac sydd wedi bod yn brwydro a brwydro am welliannau i gyfleusterau diogelwch ar eu ffyrdd lleol? A ydynt hwy yn mynd i'w chael yn haws i ymdrin â'r trefniadau newydd nag yr oeddent â'r rhai blaenorol?

Yn olaf, fel y soniodd David Rees wrthy, mae pwysigrwydd yr ail-ddynodi ffyrdd, ac rydych wedi trafod o'r blaen eich bod yn barod i wneud hynny. Mae anghysondebau yn fy rhanbarth i; er enghraifft, y ffaith nad yw'r A4232 o Groes Cwrlwys i fae Caerdydd yn gefnffordd ar hyn o bryd, ond mae rhai strydoedd preswyl yng nghanol y ddinas yn gefnffyrdd. Fodd bynnag, nid ateb tameidiog yr ydym ei angen, ond ail-ddynodi cynhwysfawr. Tybed a fyddai modd i'r ail-ddynodi hwn ffurfio rhan o'r adolygiad parhaus wrth iddo symud ymlaen ac, os felly, sut yr ydych chi'n bwriadu casglu barn awdurdodau lleol a phobl leol ynghylch yr hyn y dylai'r rhwydwaith cefnffyrdd fod.

17:03

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are obviously costs with detrunking and trunking, which is a major issue, but I am asking my director of transport to have a plan across Wales for what we would like designated and what we would like undesignated. Once we have that established, in agreement with local authorities, we can publish that list and we can agree then, in an orderly fashion, to deal with these matters over a number of budget years.

Yn amlwg mae costau yn ymwneud â thynnu statws cefnffordd a rhoi statws cefnffordd, sydd yn fater pwysig, ond rwy'n gofyn i fy nghyfarwyddwr trafnidiaeth i gael cynllun ar draws Cymru ar gyfer yr hyn yr hoffem ei gael o ran dynodi a pheidio â dynodi. Ar ôl i ni sefydlu hynny, mewn cytundeb ag awdurdodau lleol, gallwn gyhoeddi'r rhestr honno a gallwn gytuno wedyn, mewn modd trefnus, i ymdrin â'r materion hyn dros nifer o flynyddoedd y gyllideb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The issue, I think, about looking at costs within this agenda is that there is an absolute—. I had to have a review and an independent audit, because I could not find any transparency in the costs and I could not provide full assurance of value for money. I take value for money as not being the cheapest option, but having the best done within a budget, and I am concerned about the standards that I see on our trunk roads in terms of the repairs that are undertaken. They are done very quickly, out of the way and then, two weeks later, you are back in exactly the same position with some of the road surfaces. As far as I am concerned, it is about total quality management, and that is the way that we should be running the trunk roads in terms of the work that is being undertaken.

Also, I think that it is important to recognise that I would say, as a layperson travelling on roads, that I think that some of the work that has been done has not been suitable for the purpose, because it has not had the long-term—. Therefore, I cannot say definitively that there has been an appropriate spend. I think that there has been an anxiety to get things done, rather than looking at the whole problem and having the job done properly for an amount of time. I recognise that we have had appalling weather conditions over certain winters that have made it very difficult for roads and what has happened to them, but we should be prepared for all of this in terms of what we need to undertake.

In terms of the work that goes on on the trunk roads, I have been amazed, since we have started digging, by all of the promises that have been made over the years to Members of work that is going to be undertaken on the trunk roads. Members have been told, 'Yes, when the budget's provided, we will do the analysis'; well, that is all stopping as well. We are now collating the total list of promises that have been made to Members about the trunk roads. Therefore, we will know whether we are going to proceed or not. If we are proceeding, we will do the work on what it would look like. If we agree to do it, we will have a published list of the stuff that is going to be undertaken. Once the budgets run through, year after year, those improvements will be made. These are some of the issues that we have looked at. When you look at the issues around money and everything, you have to recognise that perhaps I am shining a light on an area where not enough light has been shone before. We must have value for money, but value for money is not at the expense of having a proper job done. Value for money is not about the cheapest.

Y broblem, rwy'n meddwl, o ran edrych ar gostau o fewn yr agenda hon yw bod—. Roedd yn rhaid i mi gael adolygiad ac archwiliad annibynnol, oherwydd na allwn ddod o hyd i unrhyw dryloywder yn y costau ac ni allwn roi sicrwydd llawn o werth am arian. Rwy'n derbyn nad yw gwerth am arian yn golygu'r dewis rhataf, ond cael y gorau wedi'i wneud o fewn cyllideb, ac rwy'n pryderu am y safonau a welaf ar ein cefnffyrdd o ran y gwaith atgyweirio sy'n cael ei gyflawni. Mae'n cael ei wneud yn gyflym iawn, allan o'r ffordd ac yna, bythefnos yn ddiweddarach, rydych yn ôl yn union yr un sefyllfa gyda rhai o'r wynebau ffyrdd. Yn fy marn i, mae'n ymwneud â rheoli ansawdd hollgynhwysfawr, a dyna sut y dylem fod yn rhedeg y cefnffyrdd o ran y gwaith sy'n cael ei wneud.

Hefyd, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cydnabod y byddwn yn dweud, fel lleygwr yn teithio ar ffyrdd, fy mod yn meddwl nad yw rhywfaint o'r gwaith sydd wedi'i wneud wedi bod yn addas i'w ddiben, gan nad yw, yn yr hirdymor, wedi bod yn—. Felly, ni allaf ddweud yn bendant y bu gwariant priodol. Credaf y bu pryder i gyflawni pethau, yn hytrach nag edrych ar y broblem gyfan a chael y gwaith wedi'i wneud yn iawn am gyfnod o amser. Rwy'n cydnabod ein bod wedi cael tywydd ofnadwy dros rai gaeafau sydd wedi ei gwneud yn anodd iawn i ffyrdd a'r hyn sydd wedi digwydd iddyn nhw, ond dylem fod yn barod ar gyfer hyn i gyd o ran yr hyn y mae angen i ni ei wneud.

O ran y gwaith sy'n mynd ymlaen ar y cefnffyrdd, rwyf wedi fy rhyfeddu, ers i ni ddechrau cloddio, gan bob un o'r addewidion a wnaed dros y blynyddoedd i Aelodau am waith sydd yn mynd i gael ei wneud ar y cefnffyrdd. Dywedwyd wrth Aelodau, 'Ie, pan fydd y gyllideb wedi ei darparu, byddwn yn gwneud y dadansoddiad'; wel, mae hynny i gyd yn dod i ben hefyd. Rydym bellach yn casglu'r holl restr o addewidion a wnaed i Aelodau am y cefnffyrdd. Felly, byddwn yn gwybod pa un a ydym yn mynd i fynd yn ein blaenau ai peidio. Os ydym yn mynd yn ein blaenau, byddwn yn gwneud y gwaith ar sut y byddai'n edrych. Os byddwn yn cytuno i wneud hynny, bydd gennym restr a gyhoeddwyd o'r pethau sydd yn mynd i gael eu gwneud. Unwaith y bydd y cyllidebau yn rhedeg, flwyddyn ar ôl blwyddyn, bydd y gwelliannau hynny'n cael eu gwneud. Dyma rai o'r materion yr ydym wedi edrych arnynt. Pan fyddwch yn edrych ar y materion sy'n ymwneud ag arian a phopeth, mae'n rhaid i chi gydnabod efallai fy mod yn taflu golau ar faes lle nad oes digon o olau wedi ei daflu arno o'r blaen. Mae'n rhaid i ni gael gwerth am arian, ond nid gwerth am arian ar draul cael gwaith da wedi'i wneud. Nid yw gwerth am arian yn golygu'r rhataf.

17:05

Mike Hedges [Bywgraffiad Biography](#)

First of all, I welcome the statement. I say to the Minister that I am not convinced that work has been done particularly quickly on the M4 in recent times. I seem to spend a lot of time, as I am sure does the Minister, where we go from three to two lanes on the journey back to Swansea.

Yn gyntaf oll, rwy'n croesawu'r datganiad. Dywedaf wrth y Gweinidog nad wyf wedi fy argyhoeddi bod y gwaith wedi ei wneud yn arbennig o gyflym ar yr M4 yn y cyfnod diweddar. Mae'n ymddangos fy mod yn treulio llawer o amser, fel yr wyf yn siŵr y mae'r Gweinidog, ble rydym yn mynd o dair i ddwy lôn ar y daith yn ôl i Abertawe.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The management of trunk roads has undergone many changes over the past 20 years. Initially managed by the county councils, then by one of the new unitary authorities in each of the former county council areas, following lots and lots of other changes, we have now ended up with the day-to-day operation being carried out by two public sector organisations. First, I welcome the decision to bring all planning staff into the Welsh Government using TUPE regulations. Having planning anywhere but centrally does seem to be a misuse of the term 'planning'. However, following all of these changes, can the Minister state how the maintenance costs have changed over time, as we have had all of these mergers and reallocation of resources? Has it got cheaper to maintain the roads, and will this change see a reduction in costs?

Mae rheoli cefnffyrdd wedi gweld llawer o newidiadau dros yr 20 mlynedd diwethaf. Roedd yn cael ei wneud i ddechrau gan y cyngorau sir, ac yna gan un o'r awdurdodau unedol newydd ym mhob un o'r hen ardaloedd cyngor sir, ac yn dilyn llawer iawn o newidiadau eraill, rydym bellach wedi cyrraedd sefyllfa sy'n golygu bod dau sefydliad yn y sector cyhoeddus yn gweithredu o ddydd i ddydd. Yn gyntaf, croesawaf y penderfyniad i ddod â'r holl staff cynllunio i mewn i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio rheoliadau TUPE. Mae cael cynllunio mewn unrhyw le, heblaw yn ganolog yn ymddangos i fod yn gamddefnydd o'r term 'cynllunio'. Fodd bynnag, yn dilyn pob un o'r newidiadau hyn, a all y Gweinidog ddatgan sut y mae'r costau cynnal a chadw wedi newid dros amser, gan ein bod wedi cael yr holl uno ac ailddyrrannu adnoddau hyn? A yw cynnal y ffyrdd wedi mynd yn rhatach, ac a fydd y newid hwn yn golygu gostyngiad yn y costau?

17:07

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would hope that we could see some efficiencies in this, but my aim is to get the roads improved in Wales and to keep the promises that we have made to individual communities about improvements. I note your comments about the M4, but the train is very nice from Gowerton into Cardiff. Also, in terms of the M4, essential maintenance has to be done. The trouble is that we have not done sufficient essential maintenance in some of these areas, which we need to do to keep roads up to standard. I know that when you look at the M4, there is an awful lot of work going on. However, I can assure you that this is absolutely necessary work. I am always concerned about safety issues on our roads. We have to keep to a certain standard to ensure that we maintain safety requirements. I go back to the comments of the leader of the opposition: safety is of paramount importance when we are dealing with our particular roads.

I welcome your comments about planning staff, because I do think that they have to be in the centre. I also think that we must get better value for money, but value for money in the sense of how I responded to Eluned Parrott about quality being linked to it, not just the cheapest price. Also, in the way that you maintain roads and do things, things develop. We must also have some thought processes about the types of roads that we want in the future and what will be fit for purpose. So, I very much hope that this one that I have made so far will achieve something good. I will also be reviewing the operation of both trunk road agencies over the next few months.

Byddwn yn gobeithio y gallem weld rhai arbedion yn hyn o beth, ond fy nod yw cael y ffyrdd wedi'u gwella yng Nghymru ac i gadw'r addewidion yr ydym wedi'u gwneud i gymunedau unigol ynghylch gwelliannau. Nodaf eich sylwadau am yr M4, ond mae'r trê'n yn braf iawn o Dre-gwyr i mewn i Gaerdydd. Hefyd, o ran yr M4, mae cynnal a chadw hanfodol y mae'n rhaid ei wneud. Y broblem yw nad ydym wedi gwneud digon o waith cynnal a chadw hanfodol mewn rhai o'r ardaloedd hyn, y mae angen i ni ei wneud i gadw ffyrdd i'r safon angenrheidiol. Rwy'n gwybod pan fyddwch yn edrych ar yr M4, bod llawer iawn o waith yn mynd ymlaen. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau bod hwn yn waith cwbl angenrheidiol. Rwyf bob amser yn poeni am faterion diogelwch ar ein ffyrdd. Mae'n rhaid i ni gadw i safon benodol er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal gofynion diogelwch. Rwy'n mynd yn ôl at sylwadau arweinydd yr wrthblaid: mae diogelwch yn hollbwysig pan fyddwn yn ymddrin â'n ffyrdd penodol.

Croesawaf eich sylwadau am staff cynllunio, gan fy mod yn credu bod yn rhaid iddynt fod yn y canol. Rwyf hefyd yn meddwl bod yn rhaid inni gael gwell gwerth am arian, ond gwerth am arian yn yr ystyr o sut yr ymatebais i Eluned Parrott am ansawdd yn cael ei gysylltu ag ef, nid dim ond y pris rhataf. Hefyd, yn y ffordd yr ydych yn cynnal ffyrdd a gwneud pethau, mae pethau yn datblygu. Mae'n rhaid i ni hefyd roi prosesau meddwl ar waith am y mathau o ffyrdd yr ydym yn dymuno eu cael yn y dyfodol, a'r hyn a fydd yn addas i'w ddiben. Felly, rwy'n gobeithio'n fawr y bydd yr hyn yr wyf wedi'i wneud hyd yn hyn yn cyflawni rhywbeth da. Byddaf hefyd yn adolygu gweithrediad y ddwy asiantaeth cefnffyrdd yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I was just e-mailing a constituent about trunk road agencies. I have to say that it is quite a large concern. I know that when people come to see me about a road issue, apart from the obvious roads, they are not always sure whether it is a designated trunk road or otherwise. I do find, with this particular agency, since I have been an AM—and obviously I have written to you and you have always responded—that it takes time from when people come to me with a concern and I have to write to you, and then you go to investigate and come back. They are cropping up now on a regular basis. You mentioned with me last week a terrible fatality, a terrible accident, on the A470. While everyone is appreciative of the fact that this was a tragedy, the mere logistics involved with what happened with the accident created a lot of issues down in the Conwy valley by Llanrwst. You will be aware that we have Surf Snowdonia coming, and we are having lots of problems down there. I have raised the issue of the A55 here before.

Just to reiterate a little what Eluned has raised, in relation to an agency, people tend to assume that it is the local authority, but by the time they come to me, they are deeply frustrated about whose responsibility it is if they have a concern. Moving the planning side of it into Government is okay, but we do still have the scenario that you have the Welsh Government, local authorities and the public sector agency involved. Is this going to streamline the process?

You mentioned transparency. It is about really undoing all of what people perceive to be almost like red tape, and making it nearer to the people, and easier for us as elected representatives to work on their behalf.

Cars are safer these days, but we still do have issues—even though cars are now actually made safer, in terms of their manufacturing—that, sadly, we see too many accidents. I know that the Welsh Government has provided money for the A55 improvements. We have looked at some of the logistics of how those improvements have been carried out. However, I have received an e-mail only today and it is too detailed. It could be seen to be very parochial; people are getting really frustrated. It asks why there is no action plan and says that they pay Welsh Government officers to think and problem solve, but that, as residents, they should not have to do that.

So, what I am looking for now is a more joined-up approach, one that we, as Assembly Members, can access more easily. I think I have about five major concerns that I need to raise with you now on different roads and infrastructures. Really, as I say, if it becomes even more embedded in red tape and further away from constituents and from us as AMs, I do despair. However, I welcome what I see to be a very positive statement, but, clearly, the proof of the pudding is in the eating.

Roeddwn i'n e-bostio etholwr gynnew am asiantaethau cefnffyrdd. Mae'n rhaid i mi ddweud bod hyn yn gryn bryder. Rwy'n gwybod pan fydd pobl yn dod i fy ngweld am fater yn ymwneud â'r ffordd, ar wahân i'r ffyrdd amlwg, nid ydynt bob amser yn siŵr a yw'n gefnffordd ddynodedig ai peidio. Rwyf yn gweld, gyda'r asiantaeth benodol hon, ers i mi fod yn AC—ac yn amlwg rwyf wedi ysgrifennu atoch chi ac yr ydych wedi ymateb bob tro—ei bod yn cymryd amser o'r adeg pryd y mae pobl yn dod ataf gyda phryder ac mae'n rhaid i mi ysgrifennu atoch, ac yna rydych chi'n mynd i ymchwilio a dod yn ôl ataf. Maent yn codi yn rheolaidd erbyn hyn. Roeddech yn sôn gyda mi yr wythnos diwethaf am farwolaeth ofnadwy, damwain ofnadwy, ar yr A470. Er bod pawb yn gwerthfawrogi'r ffaith fod hon yn drasiedi, roedd y logisteg syml yn ymwneud â'r hyn a ddigwyddodd gyda'r ddamwain yn creu llawer o faterion i lawr yn Nyffryn Conwy ger Llanrwst. Byddwch yn ymwybodol bod gennym Surf Snowdonia i ddod, ac yr ydym yn cael llawer o broblemau i lawr yno. Rwyf wedi codi mater yr A55 yma o'r blaen.

Dim ond i ailadrodd ychydig o'r hyn y mae Eluned wedi ei godi, o ran asiantaeth, mae pobl yn tueddu i gymryd yn ganiataol mai'r awdurdod lleol ydyw, ond erbyn yr amser y maent yn dod ataf fi, maen nhw'n teimlo'n rhwystredig iawn ynghylch pwy sydd â'r cyfrifoldeb os oes ganddynt bryder. Mae symud yr ochr cynllunio i mewn i Lywodraeth yn iawn, ond rydym yn dal yn y sefyllfa lle mae gennych Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r asiantaeth sector cyhoeddus yn rhan o'r peth. A yw hyn yn mynd i symleiddio'r broses?

Soniasoch am dryloywder. Mae'n ymwneud â gwir ddadwneud y cwbl o'r hyn y mae pobl yn ei ganfod i fod bron fel biwrocratiaeth, a'i wneud yn nes at y bobl, ac yn haws i ni fel cynrychiolwyr etholedig i weithio ar eu rhan.

Mae ceir yn fwy diogel y dyddiau hyn, ond rydym yn dal i gael problemau—er bod ceir erbyn hyn mewn gwirionedd yn cael eu gwneud yn fwy diogel, o ran eu gweithgynhyrchu—ein bod, yn affodus, yn gweld gormod o ddamweiniau. Gwn fod Llywodraeth Cymru wedi darparu arian ar gyfer gwelliannau i'r A55. Rydym wedi edrych ar rywfaint o'r logisteg o sut mae'r gwelliannau hynny eu cynnal. Fodd bynnag, rwyf wedi derbyn e-bost heddiw ddiwethaf, ac mae'n rhy fanwl. Gellid ei ystyried fel bod yn blwyfol iawn; mae pobl yn mynd yn wirioneddol rwystredig. Mae'n gofyn pam nad oes cynllun gweithredu ac yn dweud eu bod yn talu i swyddogion Llywodraeth Cymru i feddwl a datrys problemau, ond na ddylent hwy, fel trigolion, orfod gwneud hynny.

Felly, yr hyn yr wyf yn chwilio amdano ar hyn o bryd yw dull mwy cydlynol, un y gallwn ni, fel Aelodau Cynulliad, gael mynediad ato yn haws. Rwy'n credu fod gennyf tua phum pryder o bwys y mae angen imi eu codi gyda chi nawr ar wahanol ffyrdd a seilwaith. Yn wir, fel y dywedais, os bydd yn ymwreiddio hyd yn oed yn ddyfnach mewn biwrocratiaeth ac ymhellach i ffwrdd oddi wrth etholwyr ac oddi wrthym ni fel Aelodau Cynulliad, rwy'n digalonni. Fodd bynnag, croesawaf yr hyn yr wyf yn ei ystyried yn ddatganiad cadarnhaol iawn, ond, yn amlwg, wrth ei flas mae profi pwddin.

17:12

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Janet Finch-Saunders for her contribution, because, actually, she has illustrated the view of Assembly Members on some of the issues surrounding trunk roads and roads.

I think it might be helpful if I considered having a customer service role within the trunk road agencies, where there would be a dedicated number that people could ring up and a different website that showed what we were responsible for or not, which is not clear if you go through any system currently. If you know your own patch, you will be certain, but members of the public do find it difficult. So, I would be more than happy to look at those aspects about improving customer service and focus, which might lead to us getting a greater understanding of the problems.

You are quite right—they are local government issues, they are Welsh Government issues and they are actually UK Government issues on our border that we also have to address in terms of particular route issues. What I think is very important that we recognise is that planning, I think, would be good at the centre and then that we have got to look at the operation on the ground in terms of quality and provision.

Diolch i Janet Finch-Saunders am ei chyfraniad, oherwydd, mewn gwirionedd, mae hi wedi dangos barn Aelodau'r Cynulliad ar rai o'r materion yn ymwneud â chefnffyrdd a ffyrdd.

Rwy'n credu y gallai fod o gymorth pe byddwn yn ystyried cael swyddogaeth gwasanaeth cwsmeriaid o fewn yr asiantaethau cefnffyrdd, lle y byddai rhif penodol y gallai pobl ei ffonio a gwefan wahanol a fyddai'n dangos yr hyn yr ydym yn gyfrifol amdano neu nad ydym, ac nid yw hynny'n glir os byddwch yn mynd drwy unrhyw system ar hyn o bryd. Os ydych yn adnabod eich milltir sgwâr eich hun, byddwch yn sicr, ond mae aelodau o'r cyhoedd yn ei chael hi'n anodd. Felly, byddwn yn fwy na pharod i edrych ar yr agweddau hynny ar wella gwasanaeth cwsmeriaid a chanolbwynt, a allai arwain at ein gweld yn cael gwell dealltwriaeth o'r problemau.

Rydych yn llygad eich lle—maent yn faterion i lywodraeth leol, maent yn faterion i Lywodraeth Cymru ac maent mewn gwirionedd yn faterion i Lywodraeth y DU ar ein ffin y mae'n rhaid i ni hefyd fynd i'r afael â nhw o ran materion llwybr penodol. Yr hyn yr wyf yn meddwl sy'n bwysig iawn ni ei gydnabod yw y byddai cynllunio, rwy'n credu, yn dda yn y canol ac yna mae'n rhaid i ni edrych ar y gweithredu ar lawr gwlad o ran ansawdd a darpariaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:12

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call finally and briefly, Russell George.

Galwaf yn olaf ac yn fyr, ar Russell George.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:13

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer.

I welcome your last comment. I think I write to you, Minister, regarding transport issues more than I do to any other Minister. I am aware that the trunk road agency is often a consultee on planning applications, so I am just wondering whether you see that there are any potential conflicts in the change. Secondly, you mentioned yourself that communities had better solutions, perhaps, than so-called engineers. We saw that in Newtown with a lovely roundabout being removed and a solution being put in place that was not effective and cost a lot of money. In this change, how can communities, local county councillors, community county councillors and laypeople better influence decisions than they are able to do now?

Diolch, Ddirprwy Lywydd.

Croesawaf eich sylw olaf. Rwy'n credu fy mod yn ysgrifennu atoch chi, Weinidog, am faterion trafnidiaeth yn fwy nag yr wyf yn ei wneud at unrhyw Weinidog arall. Rwy'n ymwybodol bod yr asiantaeth cefnffyrdd yn aml yn ymgynghorai ar geisiadau cynllunio, felly rwy'n meddwl tybed a ydych yn gweld bod unrhyw wrthdaro posibl yn y newid. Yn ail, roeddech yn sôn eich hun bod gan gymunedau atebion gwell, efallai, na'r rhai a geir gan beirianwyr bondigrybwyll. Gwelsom hynny yn y Drenewydd gyda chylchfan hyfryd yn cael ei symud a datrysiaid wedi'i roi ar waith nad oedd yn effeithiol ac a gostiodd lawer o arian. Yn y newid hwn, sut all cymunedau, cynghorwyr sir lleol, cynghorwyr sir cymunedol a lleygwyr ddylanwadu'n well ar benderfyniadau nag y maent yn gallu ei wneud ar hyn o bryd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:13

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think once we designate the list, which we will do, of everything that has been promised that needs to be looked at, I will then look at how we then communicate with local communities for their opinions, before we go ahead with any of these issues in the future. You can have my guarantee on that.

Wel, rwy'n meddwl ar ôl i ni ddynodi'r rhestr, a byddwn yn gwneud hynny, o bopeth sydd wedi ei addo y mae angen ei ystyried, byddaf wedyn yn edrych ar sut y byddwn wedyn yn cyfathrebu â chymunedau lleol am eu barn, cyn i ni fwrw ymlaen gydag unrhyw un o'r materion hyn yn y dyfodol. Gallaf warantu hynny i chi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I do not think that there is any conflict in the change according to planning. I realise now that you all write to me about trunk road issues. I made a decision when I was Minister that I wanted to see what was being said about the problems that Assembly Members were bringing forward. I was always concerned that an official, however well-meaning, in a trunk roads agency might give you a reply that would not be in line with Government policy or with the budgets the Government was outlining—hence why we have got this process.

I do appreciate the points that have been made by Members today. Perhaps a customer service focus and a designated number could all be dealt with, so that we can actually have a better understanding of what is going on. I will certainly look at that and come back in the New Year with answers to all these questions and, hopefully, solutions.

Nid wyf yn meddwl bod unrhyw wrthdaro yn y newid yn ymwneud â chynllunio. Rwy'n sylweddoli nawr eich bod chi i gyd yn ysgrifennu ataf am faterion cefnffyrdd. Gwnes benderfyniad pan oeddwn i'n Weinidog fy mod yn awyddus i weld beth oedd yn cael ei ddweud am y problemau yr oedd Aelodau'r Cynulliad yn eu cyflwyno. Roeddwn bob amser yn pryderu y gallai swyddog mewn asiantaeth cefnffyrdd, waeth pa mor llawn bwriadau da yr oedd, roi ateb na fyddai'n cyd-fynd â pholisi'r Llywodraeth neu gyda chyllidebau yr oedd y Llywodraeth yn eu hamlinellu—dyna pam mae gennym y broses hon.

Rwy'n gwerthfawrogi'r pwyntiau a wnaed gan Aelodau heddiw. Efallai y gellid ymdrin â chanolbwynt gwasanaeth cwsmeriaid a rhif dynodedig, fel y gallwn mewn gwirionedd gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n mynd ymlaen. Byddaf yn sicr yn edrych ar hynny a dod yn ôl yn y flwyddyn newydd gydag atebion i'r holl gwestiynau hyn, a, gobeithio, datrysiaidau.

17:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ministers, we had seven Members taking part in that and we did it in half an hour. That is an example for us all.

Weinidogion, roedd gennym saith Aelod yn cymryd rhan yn hynna ac rydym wedi ei wneud mewn hanner awr. Mae hynny'n gosod esiampl i bob un ohonom.

Cymorth i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru

Deholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Paul Davies, gwelliant 3 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 4 yn enw Elin Jones.

Support for the Armed Forces Community in Wales

The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Paul Davies, amendment 3 in the name of Aled Roberts, and amendment 4 in the name of Elin Jones.

17:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Minister for Public Services to move the motion.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5613 Jane Hutt

Motion NDM5613 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi:

1. Notes:

a) Gwaith Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cefnogi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog;

a) The Welsh Government's work to ensure public services in Wales support members of the Armed Forces community;

b) Y gwaith sy'n mynd rhagddo drwy Grŵp Arbenigol y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru;

b) The work on-going through the Minister for Public Services' Expert Group on the needs of the Armed Forces Community in Wales;

c) Pecyn Cymorth gan Lywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

c) The Welsh Government's Package of Support for the Armed Forces Community in Wales.

17:14 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

I move the motion.

Cynigaf y cynnig.

Deputy Presiding Officer, like most Assembly Members I am sure, on Sunday I attended remembrance events in my own constituency, marching with veterans to the war memorials in Blaenrhondda and then on to Treherbert. As we know, this has been an important year in commemorative terms, in marking the centenary of the outbreak of the first world war and the seventieth anniversary of the D-day landings. Having set up the Rhondda Remembers group as both a practical committee and an online resource, it has been gratifying to me to see how many local people have got involved in sharing family memories of sacrifice. While this year has focused on events that occurred 100 and 70 years previously, we must not forget the sacrifices that Welsh men and women have made in more recent conflicts, such as the Falklands war, the Balkans and, very recently, Iraq and Afghanistan. We owe our armed forces, past and present, an immense debt of gratitude.

Our revised package of support for the armed forces community was launched last year. Each local authority in Wales has now signed a community covenant. Each local authority, local health board and the Department for Work and Pensions have dedicated armed forces champions and lead officers in place to push forward the work of the community covenants. Armed forces champions' events have been held to bring together everyone who holds an armed forces champion role across Wales. I will be hosting and attending the next armed forces champions' event, which will be held on 27 November in Llanelli.

In some local health board areas, veterans forums have been formed to bring together all organisations involved in delivering services for our armed forces community, including local authorities, the third sector and service support organisations—for example, the Royal British Legion—to jointly develop local initiatives that support the needs of our ex-servicemen and ex-servicewomen and their families. The Welsh Government will continue to fund Armed Forces Day in both south and north Wales. The events held in Cardiff and Wrexham this year were very successful, with a wide range of organisations and many members of the general public present to celebrate these flagship events.

Veterans' NHS Wales, formerly the all-Wales veterans' health and wellbeing service, provides dedicated veterans' therapists in each local health board in Wales and is the only national service for veterans of its kind in the UK. The Welsh Government has provided £485,000 per annum since 2010 to support its development. More than 1,100 veterans have been referred to the service, with 395 between April 2013 and March 2014 alone. This year, we invested a further £100,000 in Veterans' NHS Wales, which will ensure that veterans receive faster access to assessment and treatment services. Earlier this year, the Minister for Health and Social Services commissioned Public Health Wales to carry out a review of Veterans' NHS Wales. The review reports that veterans who have used the service are very satisfied with it and with the treatment that they have received. This is the UK's only national dedicated service to support veterans' emotional and mental health needs.

Ddirprwy Lywydd, fel y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad rwy'n siŵr, ddydd Sul, es i i ddigwyddiadau coffa yn fy etholaeth fy hun, gan orymdeithio gyda chyn-filwyr at y cofebion rhyfel ym Mlaenrhondda ac yna ymlaen i Dreherbert. Fel y gwyddom, mae hon wedi bod yn flwyddyn bwysig o ran coffáu, wrth nodi canmlwyddiant dechrau'r rhyfel byd cyntaf a saith deg o flynyddoedd ers glaniadau dydd D. Ar ôl sefydlu'r grŵp Rhondda'n Cofio fel pwyllgor ymarferol ac adnodd ar-lein, mae wedi bod yn braf mi i weld faint o bobl leol sydd wedi cymryd rhan mewn rhannu atgofion teuluol o aberth. Er bod eleni wedi canolbwyntio ar ddigwyddiadau a ddigwyddodd 100 a 70 mlynedd yn flaenorol, rhaid i ni beidio ag anghofio'r aberth y mae dynion a menywod Cymru wedi'i wneud mewn gwrthdaro mwy diweddar, megis rhyfel y Falklands, y Balcanau ac, yn ddiweddar iawn, Irac ac Afghanistan. Mae gennym ddyled enfawr o ddiolchgarwch i'n lluoedd arfog, rhai'r gorffennol a'r presennol.

Cafodd ein pecyn diwygiedig o gefnogaeth i'r gymuned lluoedd arfog ei lansio y llynedd. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru bellach wedi llofnodi cyfmod cymunedol. Mae gan bob awdurdod lleol, bwrdd iechyd lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau hyrwyddwyr lluoedd arfog a swyddogion arweiniol penodol wedi'u sefydlu i fwrw ymlaen â gwaith y cyfmodau cymunedol. Mae digwyddiadau hyrwyddwyr lluoedd arfog wedi eu cynnal er mwyn dod â phawb sydd â swyddogaeth hyrwyddwr y lluoedd arfog ledled Cymru at ei gilydd. Byddaf yn cynnal ac yn mynd i'r digwyddiad hyrwyddwyr y lluoedd arfog nesaf, a fydd yn cael ei gynnal ar 27 Tachwedd yn Llanelli.

Mewn rhai ardaloedd byrddau iechyd lleol, mae fforymau cyn-filwyr wedi eu ffurfio i ddwyn ynghyd yr holl sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ar gyfer ein cymuned lluoedd arfog, gan gynnwys awdurdodau lleol, y trydydd sector a sefydliadau cefnogi'r gwasanaethau—er enghraifft, y Llang Brydeinig Frenhinol—i ddatblygu mentrau lleol ar y cyd sy'n cefnogi anghenion ein cyn-filwyr a chyn-fyddinwagedd a'u teuluoedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu Diwrnod y Lluoedd Arfog yn y de a'r gogledd. Roedd y digwyddiadau a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a Wrecsam eleni yn llwyddiannus iawn, gydag ystod eang o sefydliadau a llawer o aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i ddatlhu'r digwyddiadau blaenllaw hyn.

Mae GIG Cymru Cyn-filwyr, gwasanaeth iechyd a lles cyn-filwyr Cymru gyfan cyn hynny, yn darparu therapyddion penodedig i gyn-filwyr ym mhob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru a dyma'r unig wasanaeth cenedlaethol ar gyfer cyn-filwyr o'i fath yn y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £485,000 y flwyddyn ers 2010 i gefnogi ei ddatblygiad. Mae mwy na 1,100 o gyn-filwyr wedi eu hatgyfeirio at y gwasanaeth, 395 ohonynt rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014 yn unig. Eleni, rydym yn buddsoddi £100,000 ychwanegol yn GIG Cymru Cyn-filwyr, a fydd yn sicrhau bod cyn-filwyr yn cael mynediad cyflymach at wasanaethau asesu a thriniaeth. Yn gynharach eleni, comisiynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal adolygiad o GIG Cymru Cyn-filwyr. Mae'r adolygiad yn adrodd bod cyn-filwyr sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn fodlon iawn gydag ef a chyda'r driniaeth y maent wedi'i derbyn. Dyma'r unig wasanaeth dynodedig cenedlaethol yn y DU i gefnogi anghenion emosiynol ac iechyd meddwl cyn-filwyr.

The statutory code of guidance to improve joint working between armed services and housing organisations is being strengthened to ensure that appropriate housing advice is given to veterans and to highlight the need for allocation policies to take account of service personnel leaving the forces. We have also allocated £2 million in capital funding to support housing for personnel leaving the armed forces to local authorities in Wales. We have ensured that this scheme has been advertised through the various armed forces channels as part of the Ministry of Defence referral scheme. We therefore support amendments 2 a), 2 c) and 3 today. Amendment 2 b) refers to the need for veterans and other ex-service personnel to have equitable access to care and support. Local authorities have responsibility for providing access to care and support in their areas, within the framework established by the Government and included within the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. We are therefore happy to support amendment 2 b).

As you are all aware, council tax reduction schemes were introduced in Wales on 1 April 2013, following the abolition of council tax benefit by the UK Government. For 2013-14 and 2014-15, the Welsh Government has maintained full entitlements for all those eligible for a reduction, including serving members of the armed forces and ex-service personnel and their families. All local authorities in Wales have disregarded, in full, war disablement pensions and war widows pensions when means-testing applicants for support under council tax reduction schemes. They have also confirmed that they will continue to disregard moneys from these pensions, in full, from their schemes for 2014-15.

According to the latest data published by the Ministry of Defence, there are approximately 8,600 people in Wales either receiving a war disablement pension or a war widow/widower's pension. However, these figures do not indicate the number of members of the armed forces community who receive, or are eligible for, support under the council tax reduction scheme arrangements. In contrast, each English local authority has been required to design its own scheme. Around 269 councils in England reduced entitlements in 2013-14, and it is estimated that just 45 will continue to maintain full entitlements in 2014-15. There are approximately 311,000 council tax reduction scheme applicants in Wales, with an average weekly reduction of £15.39, whereas in England, 2.5 million low-income households are faced with having to pay more for their council tax bill. This, of course, means that our national approach to maintaining entitlements for all applicants gives members of the armed forces community greater protection in Wales than their counterparts in England.

We have also agreed to publicise and promote the existing defence privilege card in Wales. This will raise awareness among the armed forces community of the benefits of having a defence privilege card. It will also provide us with information on the location of veterans in Wales to inform future planning for support and services. My officials are working jointly with the Ministry of Defence's discount service, which is match funding the project, to deliver the initiative.

Mae'r cod statudol o ganllawiau i wella cydweithio rhwng y lluoedd arfog a sefydliadau tai yn cael ei gryfhau i sicrhau bod cyngor tai priodol yn cael ei roi i gyn-filwyr ac i dynnu sylw at yr angen am bolisiau dyrannu i ystyried personél lluoedd arfog sy'n gadael y lluoedd. Rydym hefyd wedi dyrannu £2 filiwn mewn cyllid cyfalaf i gefnogi tai ar gyfer personél sy'n gadael y lluoedd arfog i awdurdodau lleol yng Nghymru. Rydym wedi sicrhau bod y cynllun hwn wedi ei hysbysebu drwy amrywiol sianelau'r lluoedd arfog yn rhan o gynllun atgyfeirio'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Felly, rydym yn cefnogi gwelliannau 2 a), 2 c) a 3 heddiw. Mae gwelliant 2 b) yn cyfeirio at yr angen i gyn-filwyr a chyn bersonél eraill y lluoedd arfog gael mynediad teg at ofal a chefnogaeth. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i ddarparu mynediad at ofal a chymorth yn eu hardaloedd, o fewn y fframwaith a sefydlwyd gan y Llywodraeth ac a gynhwysir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rydym felly yn hapus i gefnogi gwelliant 2 b).

Fel yr ydych i gyd yn gwybod, cafodd cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor eu cyflwyno yng Nghymru ar 1 Ebrill 2013, yn dilyn diddymu budd-dal y dreth gyngor gan Lywodraeth y DU. Ar gyfer 2013-14 a 2014-15, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal hawliau llawn i bawb sy'n gymwys i gael gostyngiad, gan gynnwys aelodau presennol o'r lluoedd arfog a chyn bersonél a'u teuluoedd. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi diystyru, yn llawn, pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel wrth gynnal prawf modd ar ymgeiswyr ar gyfer cymorth o dan gynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor. Maent hefyd wedi cadarnhau y byddant yn parhau i ddiystyru arian o'r pensiynau hyn, yn llawn, o'u cynlluniau ar gyfer 2014-15.

Yn ôl y data diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, mae tua 8,600 o bobl yng Nghymru naill ai'n derbyn pensiwn anabledd rhyfel neu pensiwn gwraig weddw / gŵr gweddw rhyfel. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn dangos nifer aelodau'r gymuned lluoedd arfog sy'n derbyn, neu sy'n gymwys i gael, cefnogaeth o dan drefniadau cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Mewn cyferbyniad, mae wedi bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol yn Lloegr lunio ei gynllun ei hun. Mae tua 269 o gynghorau yn Lloegr wedi lleihau hawliau yn 2013-14, ac amcangyfrifir mai dim ond 45 fydd yn parhau i gynnal hawliau llawn yn 2014-15. Mae oddeutu 311,000 o ymgeiswyr cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yng Nghymru, gyda gostyngiad wythnosol cyfartalog o £15.39, ond yn Lloegr, mae 2.5 miliwn o aelwydydd incwm isel yn wynebu gorfod talu mwy ar gyfer eu bil treth gyngor. Mae hyn, wrth gwrs, yn golygu bod ein dull cenedlaethol o gadw hawliau ar gyfer pob ymgeisydd yn rhoi mwy o ddiogelwch i aelodau o'r gymuned lluoedd arfog yng Nghymru na'u cymheiriaid yn Lloegr.

Rydym hefyd wedi cytuno i roi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo'r cerdyn braint amddiffyn presennol yng Nghymru. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth ymysg y gymuned lluoedd arfog o'r manteision o gael cerdyn braint amddiffyn. Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth i ni ar leoliad cyn-filwyr yng Nghymru i lywio cynllunio yn y dyfodol ar gyfer cefnogaeth a gwasanaethau. Mae fy swyddogion yn gweithio ar y cyd gyda gwasanaeth disgownt y Weinyddiaeth Amddiffyn, sy'n rhoi arian cyfatebol i'r prosiect, i gyflwyno'r fenter.

There remains also, of course, a widespread desire to reduce the offending rate, and we support veterans in the criminal justice system. In Wales, veterans are identified as a priority group within the All Wales Criminal Justice Board's reducing reoffending strategy, which was launched in March 2014. A workshop was recently held with practitioners and key support organisations to increase their knowledge of veterans in the criminal justice system and to identify the actions required to move forward with the delivery plan.

We are happy to support amendment 4. The Welsh Government continues to work with, and to support, 160 Brigade in Wales to deliver armed forces transition fairs. Transition into civilian life can be a daunting prospect for some veterans and their families, having experienced a different culture and way of life while serving within the forces.

We are also, of course, all aware of the changes that the Ministry of Defence is making to the role of reservists, integrating them to a far greater extent into routine operations and deployments. Our support, therefore, must take account of the implications and needs of the whole of our armed forces community, regular and reservist servicemen and women, as well as families and veterans. Of course, with reservists, we have an additional role as employers. I am pleased to say that the Welsh Government has a strong reserve forces policy to support our own reservist staff. A tri-service recruiting event was recently held at our offices in Merthyr Tydfil. Feedback from that event was very positive, and the event also allowed managers of existing reservists to gain a better understanding of what their staff do during their reserve training commitments.

Combined cadet forces operate in six schools in Wales, supporting around 740 cadets. The cadet force in Treorchy Comprehensive School, in my own Rhondda constituency, was established in 2007 and provides extra-curricular activities in order to develop the personal skills of individual pupils. By following a syllabus, pupils build and develop their resilience and leadership skills.

I recently helped to launch the Royal British Legion's pop-in advice and information centre in Cardiff. The need for hubs to support our armed forces community has been highlighted for a number of years. Having a high street presence in towns and cities across Wales will help those in need to access valuable support and advice services. The opening of the centres in Wales has also led to greater collaboration between organisations providing support and services, and it has resulted in more effective and efficient service provision. While I was with the Royal British Legion, I was presented with its manifesto for 2015 and its community covenant. I will be meeting with the Royal British Legion shortly to discuss joint working and future support. I am therefore happy to support amendment 1.

Erys hefyd, wrth gwrs, awydd eang i ostwng y gyfradd trosedd, ac rydym yn cefnogi cyn-filwyr yn y system cyfiawnder troseddol. Yng Nghymru, mae cyn-filwyr wedi eu nodi fel grŵp blaenoriaeth o fewn strategaeth gostwng aildrosedd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan, a gafodd ei lansio ym mis Mawrth 2014. Cynhaliwyd gweithdy yn ddiweddar gydag ymarferwyr a sefydliadau cymorth allweddol i gynyddu eu gwybodaeth o gyn-filwyr yn y system cyfiawnder troseddol ac i nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i symud ymlaen gyda'r cynllun cyflawni.

Rydym yn hapus i gefnogi gwelliant 4. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda, a chefnogi, Brigâd 160 yng Nghymru i gyflwyno ffeiriau pontio y lluoedd arfog. Gall pontio i fywyd sifil fod yn anodd i rai cyn-filwyr a'u teuluoedd, ar ôl profi diwylliant a ffordd wahanol o fyw tra yr oeddent yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog.

Rydym hefyd, wrth gwrs, i gyd yn ymwybodol o'r newidiadau y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn eu gwneud i swyddogaeth milwyr wrth gefn, gan eu hintegreiddio i raddau llawer helaethach i mewn i weithrediadau a byddino arferol. Mae'n rhaid i'n cefnogaeth, felly, ystyried goblygiadau ac anghenion y cyfan o'n cymuned lluoedd arfog, milwyr a byddinwagedd rheolaidd ac wrth gefn, yn ogystal â theuluoedd a chyn-filwyr. Wrth gwrs, gyda milwyr wrth gefn, mae gennym swyddogaeth ychwanegol fel cyflogwyr. Rwy'n falch o ddweud bod gan Lywodraeth Cymru bolisi lluoedd wrth gefn cryf i gefnogi ein staff wrth gefn ein hunain. Cafodd digwyddiad recriwtio tri gwasanaeth ei gynnal yn ddiweddar yn ein swyddfeydd ym Merthyr Tudful. Roedd yr adborth o'r digwyddiad hwnnw yn gadarnhaol iawn, ac roedd y digwyddiad hefyd yn caniatáu i reolwyr wrth gefn presennol gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae eu staff yn ei wneud yn ystod eu hymrwymiaadau hyfforddi wrth gefn.

Mae lluoedd cadét cyfunol yn gweithredu mewn chwe ysgol yng Nghymru, gan gefnogi tua 740 o gadetiaid. Cafodd heddlu cadét yn Ysgol Gyfun Treorci, yn fy etholaeth fy hun yn y Rhondda, ei sefydlu yn 2007 ac mae'n darparu gweithgareddau allgyrsiol er mwyn datblygu sgiliau personol disgyblion unigol. Drwy ddilyn maes llafur, mae disgyblion yn adeiladu ac yn datblygu eu sgiliau gwydnwch ac arwain.

Yn ddiweddar, rwyf wedi helpu i lansio canolfan alw heibio cyngor a gwybodaeth y Llenng Brydeinig Frenhinol yng Nghaerdydd. Mae'r angen am ganolfannau i gefnogi ein cymuned lluoedd arfog wedi cael ei amlygu ers nifer o flynyddoedd. Bydd cael presenoldeb ar y stryd fawr mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru yn helpu'r rhai sydd mewn angen i gael mynediad at wasanaethau cymorth a chyngor gwerthfawr. Mae agor y canolfannau yng Nghymru hefyd wedi arwain at fwy o gydweithredu rhwng sefydliadau sy'n darparu cymorth a gwasanaethau, ac mae wedi arwain at ddarparu gwasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon. Tra oeddwn gyda'r Llenng Brydeinig Frenhinol, cefais fy nghyflwyno gyda'i manifesto ar gyfer 2015 a'i chyfamod cymunedol. Byddaf yn cwrrd â'r Llenng Brydeinig Frenhinol cyn bo hir i drafod cydweithio a chefnogaeth yn y dyfodol. Felly, rwy'n hapus i gefnogi gwelliant 1.

I think that this motion demonstrates today that there is a wide range of support being provided by the Welsh Government to the armed forces community in Wales, and we look forward to support from Assembly Members today for this motion.

Credaf fod y cynnig hwn heddiw yn dangos bod amrywiaeth eang o gefnogaeth sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i'r gymuned lluoedd arfog yng Nghymru, ac edrychwn ymlaen at gefnogaeth gan Aelodau'r Cynulliad heddiw i'r cynnig hwn.

17:24

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the four amendments to the motion, and I call Mark Isherwood to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Gwelliant 1—Paul Davies

Amendment 1—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as point at end of motion:

Yn nodi manifest o y Llenng Brydeinig Frenhinol ar gyfer 2015 a'i dogfen 'Community Covenants—What's Next?'

Notes the Royal British Legion's 2015 Manifesto and Community Covenants—What's Next?

Gwelliant 2—Paul Davies

Amendment 2—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn nodi'r angen:

Notes the need:

a) i amddiffyn cyllid termau real ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i gyn-filwyr;

a) to protect real terms funding for ex Forces personnel mental health services;

b) am ddarpariaeth gofal cymdeithasol teg i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog; ac

b) for equitable ex Forces personnel social care provision; and

c) am ddarpariaeth breswyl ddigonol a phriodol i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog.

c) for sufficient and appropriate ex Forces personnel residential provision.

17:24

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendments 1 and 2.

Cynigaf welliannau 1 a 2.

It is great news that, on Saturday, the UK Government accepted the first recommendation in the Royal British Legion's 2015 manifesto, announcing that, from 1 April 2015, all widows, widowers and civil partners of members of the armed forces will be allowed to keep their military pensions for life, regardless of whether they decide to remarry or co-habit with a new partner.

Mae'n newyddion gwych bod Llywodraeth y DU, ar ddydd Sadwrn, wedi derbyn yr argymhelliad cyntaf ym manifest o 2015 y Llenng Frenhinol Brydeinig, gan gyhoeddi, o 1 Ebrill 2015, bydd pob gwraig weddw, gwŕ gweddw a phartneriaid sifil aelodau o'r lluoedd arfog yn cael cadw eu pensïonau milwrol am oes, waeth p'un a ydynt yn penderfynu ailbriodi neu gyd-fyw gyda phartner newydd.

It is six years since my short debate supporting the Royal British Legion's Honour the Covenant campaign. The community covenant scheme was launched by the UK Government in May 2011 and we welcome the work of both Welsh and UK Governments in signing up all 22 local authorities in Wales to the armed forces community covenant.

Mae'n chwe blynedd ers fy nadl fer yn cefnogi ymgyrch Anrhydeddu'r Cyfamod y Llenng Brydeinig Frenhinol. Cafodd y cynllun cyfamod cymunedol ei lansio gan Lywodraeth y DU ym mis Mai 2011 ac rydym yn croesawu gwaith Llywodraethau Cymru a'r DU wrth ymrwymo pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru i gyfamod cymunedol y lluoedd arfog.

Speaking in June's Welsh Conservatives debate on the armed forces during Armed Forces Week, I highlighted the launch of the legion's 'Community Covenants: What's Next?' document, which called on local authorities to deliver five top policy changes, in social housing allocations policy, means testing for council-delivered support, disabled facilities grant applications, planning local services and school places. I also commended volunteering for armed forces charities, such as the Royal British Legion's north Wales advice and information centre, which I visited in Wrexham last Friday.

In valuing the contributions of Welsh servicemen and servicewomen, we must protect real-terms funding for ex-forces personnel mental health services. Almost 9,000 veterans in Wales suffer from post-traumatic stress disorder. In 2012, Healthcare Inspectorate Wales said that very few veterans were aware of the Veterans' NHS Wales service, and this year Public Health Wales called for veterans to be provided with clear information about the service. The extra £100,000 for Veterans' NHS Wales service announced in June has, I am told, led to a waiting times drop, but this is only for 2014-15 and it needs to continue. The Welsh Government must provide certainty that this was not a one-off. The annual £480,000 budget has existed since 2010 and was therefore due an uplift anyhow. As the Public Health Wales's review of Veterans' NHS Wales service states, the £100,000 provided by Welsh Government should be targeted at reducing current waiting times.

I spoke at the Wrexham launch of the Change Step service by the north Wales-based drug and alcohol charity, CAIS, recognising the need for veterans to support veterans in a peer mentoring support and advisory service. Too many ex-forces personnel drop out of the welfare support system, become homeless or cut off from mainstream services and become socially isolated. Among combat veterans, there is a common pattern of complex post-traumatic stress disorder with attempted symptom suppression by alcohol or drug abuse, a downward spiral of employment difficulties, relationship problems, confrontation with the law and even suicide.

There has been a clear and well-evidenced need for a range of provision, including residential respite and treatment for complex needs, since the 2005 closure of Ty Gwyn in Llandudno. I therefore remain very concerned at the Kennedy report commissioned by the Welsh Government, and with terms of reference set by the Welsh Government, as it concluded that there was no evidence or strong support for a residential facility. Let me therefore state, once again, that a one-size-fits-all approach can never work for veterans needing person-centred treatment.

Wrth siarad ym mis Mehefin yn nhrafodaeth y Ceidwadwyr Cymreig ar y lluoedd arfog yn ystod Wythnos y Lluoedd Arfog, tynnais sylw at lansiad dogfen 'Cyfamodau Cymunedol: Beth Nesaf?' y lleng, a oedd yn galw ar awdurdodau lleol i ddarparu pum newid polisi mawr, mewn polisi dyrannu tai cymdeithasol, profion modd ar gyfer cymorth a ddarperir gan y cyngor, ceisiadau grant cyfleusterau i'r anabl, cynllunio gwasanaethau lleol a lleoedd mewn ysgolion. Roeddwn hefyd yn cymeradwyo gwirfoddoli ar gyfer elusennau lluoedd arfog, megis canolfan cyngor a gwybodaeth gogledd Cymru y Lleng Brydeinig Frenhinol, yr ymwelais â hi yn Wrecsam ddydd Gwener diwethaf.

Wrth werthfawrogi cyfraniadau dynion a menywod y Lluoedd Arfog yng Nghymru, mae'n rhaid i ni ddiogelu ariannu termau real i wasanaethau iechyd meddwl cyn bersonél y lluoedd arfog. Mae bron i 9,000 o gyn-filwyr yng Nghymru yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma. Yn 2012, dywedodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru mai ychydig iawn o gyn-filwyr oedd yn ymwybodol o wasanaeth GIG Cymru Cyn-filwyr, ac eleni galwodd Iechyd Cyhoeddus Cymru am i gyn-filwyr gael gwybodaeth glir am y gwasanaeth. Mae'r £100,000 yn ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth GIG Cymru Cyn-filwyr a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, dywedir wrthyf, wedi arwain at ostyngiad mewn amseroedd aros, ond mae hyn ar gyfer 2014-15 yn unig ac mae angen iddo barhau. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi sicrwydd nad rhywbeth unwaith yn unig oedd hyn. Mae'r gyllideb flynyddol o £480,000 wedi bodoli ers 2010 ac felly roedd i fod i gael ei godi beth bynnag. Fel y mae arolwg Iechyd Cyhoeddus Cymru o wasanaeth GIG Cymru Cyn-filwyr yn ei ddatgan, dylai'r £100,000 a ddarperir gan Lywodraeth Cymru gael ei dargedu at leihau amseroedd aros presennol.

Siaradais yn lansiad Wrecsam y gwasanaeth Newid Cam gan elusen cyffuriau ac alcohol gogledd Cymru, CAIS, gan gydnabod yr angen i gyn-filwyr gefnogi cyn-filwyr mewn gwasanaeth cymorth mentora ac ymgynghori gan gymheiriaid. Mae gormod o lawer o gyn bersonél y lluoedd arfog yn gadael y system cymorth lles, yn mynd yn ddigartref neu'n torri cyswllt â gwasanaethau prif ffrwd ac yn mynd yn ynysig yn gymdeithasol. Ymhlith cyn-filwyr brwydro, ceir patrwm cyffredin o anhwylder straen wedi trawma cymhleth a cheisio cuddio'r symptomau gydag alcohol neu gyffuriau, anawsterau cyflogaeth sy'n gwaethygu, problemau perthynas, gwrthdaro â'r gyfraith, a hyd yn oed hunanladdiad.

Bu angen clir gyda thystiolaeth dda am ddarpariaeth amrywiol, gan gynnwys gofal seibiant preswyl a thriniaeth ar gyfer anghenion cymhleth, ers cau Tŷ Gwyn yn Llandudno yn 2005. Felly, rwy'n dal yn bryderus iawn am adroddiad Kennedy a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac am y cylch gorchwyl a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, gan iddo ddod i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth na chefnogaeth gref ar gyfer cyfleuster preswyl. Gadewch imi ddatgan felly, unwaith eto, na all dull yr un fath i bawb fyth weithio ar gyfer cyn-filwyr sydd angen triniaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

The Royal British Legion's manifesto calls for fair and just social care provision. When it comes to determining how much veterans should pay towards the cost of their social care, local authorities are only required to fully disregard the armed forces compensation scheme. In contrast, when war pensioners undergo a means test to establish how much they should pay towards their social care, only the first £10 is disregarded. A veteran who sustained their injury before 6 April 2005 will therefore see their compensation treated less favourably than a veteran who sustained their injury on or after 6 April 2005. This disparity is unfair and unjustifiable, and we therefore call for Welsh Government guidance to change and address this.

Veterans deserve sufficient and appropriate residential provision when they leave the armed forces. We therefore commend the development of supported accommodation and move-on schemes for veterans in Wales by First Choice Housing Association Ltd, in partnership with Alabaré, providing homes in south Wales and Wrexham. As with the Change Step service, this has received funding from the UK Government's armed forces covenant Libor fund. Much great work is therefore being done, but much more recognition and action is still needed from the Welsh Government.

Mae manifesto'r Llent Brydeinig Frenhinol yn galw am ddarpariaeth gofal cymdeithasol teg a chyfiawn. Wrth benderfynu faint y dylai cyn-filwyr dalu tuag at gost eu gofal cymdeithasol, yr unig beth y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei wneud yw diystyru cynllun iawndal y lluoedd arfog yn llawn. Ar y llaw arall, pan fydd pensiyonwyr rhyfel yn cael prawf modd i sefydlu faint y dylent ei dalu tuag at eu gofal cymdeithasol, dim ond y £10 cyntaf sy'n cael ei ddiystyru. Bydd cyn-filwr a gafodd ei anaf cyn 6 Ebrill 2005, felly, yn gweld ei iawndal yn cael ei drin yn llai ffafriol na chyn-filwr a gafodd ei anaf ar neu ar ôl 6 Ebrill 2005. Mae'r gwahaniaeth hwn yn annheg ac ni ellir ei gyfiawnhau, ac felly rydym yn galw am arweiniad gan Lywodraeth Cymru i newid ac ymdrin â hyn.

Mae cyn-filwyr yn haeddu darpariaeth breswyl ddigonol a phriodol pan fyddant yn gadael y lluoedd arfog. Felly, rydym yn cymeradwyo datblygu llety â chymorth a chynlluniau symud ymlaen ar gyfer cyn-filwyr yng Nghymru gan First Choice Housing Association Ltd, mewn partneriaeth ag Alabaré, gan ddarparu cartrefi yn y de ac yn Wrecsam. Fel yn achos y gwasanaeth Newid Cam, mae hyn wedi cael arian gan gronfa cyfamod lluoedd arfog Libor Llywodraeth y DU. Felly, mae llawer o waith da yn cael ei wneud, ond mae angen llawer mwy o gydnabyddiaeth a gweithredu gan Lywodraeth Cymru o hyd.

17:30

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call Peter Black to move amendment 3, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaeth di-dor ar gyfer cyn-filwyr ac aelodau sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog sydd â phroblemau iechyd meddwl a achoswyd gan wasanaeth gweithredol.

Calls on the Welsh Government to ensure that there is seamless service for veterans and serving members of the Armed Forces with mental health issues caused by active service.

17:30

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 3 in the name of Aled Roberts.

Cynigaf welliant 3 yn enw Aled Roberts.

I acknowledge that these regular debates on the armed forces provide the National Assembly for Wales with an opportunity to acknowledge the immense contribution to our country made by serving members and veterans of the armed forces and to thank the brave men and women who serve and have served in the armed forces community in Wales and their families for the contribution, commitment and sacrifice they make and have made. It is extremely important, I think, to highlight this at this time, and this is a particularly significant anniversary, as the Minister has already said.

Rwy'n cydnabod bod y trafodaethau rheolaidd hyn ar y lluoedd arfog yn rhoi cyfle i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gydnabod y cyfraniad aruthrol i'n gwlad a wnaed gan aelodau sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr y lluoedd arfog ac i ddiolch i'r dynion a'r menywod sy'n gwasanaethu ac sydd wedi gwasanaethu yn ddewr yn y gymuned lluoedd arfog yng Nghymru a'u teuluoedd am y cyfraniad, yr ymroddiad a'r aberth y maent yn ei wneud ac wedi ei wneud. Mae'n eithriadol o bwysig, rwy'n credu, i dynnu sylw at hyn ar yr adeg hon, ac mae hwn yn ben-blwydd arbennig o bwysig, fel y mae'r Gweinidog eisoes wedi'i ddweud.

If I may just refer to the amendment that the Welsh Liberal Democrats have tabled, we are looking to create a seamless service for veterans and serving members of the armed forces with mental health issues caused by active service. In order for this to happen, first, the veterans and personnel need to be communicated with properly. There are health issues outlined in section 2 of the package of support for the armed forces community, which offers helplines and services that may be of use for ex-service men and women and their families. However, this package merely refers them to a website, which may be helpful to some people but is not so useful to others, especially those who do not have access to the internet. Helplines are not always the most efficient or effective way of dealing with mental health problems, and, although the support is there from GPs, we would like to see a more seamless, efficient service, which does not include long waiting lists and the changing of doctors and professionals, and strong general support for veterans and armed forces personnel in need.

Eighteen thousand people leave the armed forces each year, and up to 30% of them who are exposed to a stressful event or situation of an exceptionally threatening or catastrophic nature will go on to develop post-traumatic stress disorder. I feel that the Welsh Government is still not doing enough to change this figure, and this is why I must stress, through every amendment that we have made and tabled to these debates since June 2013 and before, that mental health issues in the armed forces must be given a specific service to try to deal with these figures. We have to address again waiting times and the delay between diagnosis and referral for treatment of PTSD, which still remain, even after the package of support was introduced. It is also important to remember that PTSD is complex. Sufferers often develop substance or alcohol misuse issues, and the emotional impact that that has on the families of sufferers requires specialist support. Palmng sufferers off by signposting them to support organisations is, in my view, unacceptable. Our amendment sets out to change this by saying that we need that seamless service to deal with such problems. It is an issue that needs attention and investment in terms of trying to help those who suffer from that problem, and it is not just investment in terms of money but in people—a people-centred approach—that I think we need as part of that.

Os caf gyfeirio at y gwelliant y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi'i gyflwyno, rydym yn edrych i greu gwasanaeth di-dor ar gyfer cyn-filwyr ac aelodau sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog sydd â phroblemau iechyd meddwl a achoswyd gan wasanaeth gweithredol. Er mwyn i hyn ddigwydd, yn gyntaf, mae angen cyfathrebu yn briodol â chyn-filwyr a phersonél. Mae materion iechyd wedi'u hamlinellu yn adran 2 y pecyn cymorth ar gyfer y gymuned lluoedd arfog, sy'n cynnig llinellau cymorth a gwasanaethau a allai fod o ddefnydd i gyn-filwyr, yn ddynion ac yn fenywod a'u teuluoedd. Fodd bynnag, y cwbl y mae'r pecyn hwn yn ei wneud yw eu cyfeirio at wefan, a all fod o gymorth i rai pobl, ond heb fod mor ddefnyddiol i bobl eraill, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt fynediad at y rhyngwrwd. Nid yw llinellau cymorth bob amser y ffordd fwyaf effeithlon nac effeithiol o ymdrin â phroblemau iechyd meddwl, ac, er bod y gefnogaeth yno gan feddygon teulu, hoffem weld gwasanaeth mwy di-dor, effeithlon, nad yw'n cynnwys rhestrau aros hir a newid meddygon a gweithwyr proffesiynol, a chefnogaeth gyffredinol gref i gyn-filwyr a phersonél y lluoedd arfog sydd mewn angen.

Mae deunaw mil o bobl yn gadael y lluoedd arfog bob blwyddyn, a bydd hyd at 30% ohonynt sydd wedi eu hamlygu i ddigwyddiad sy'n peri straen, neu sefyllfa o natur eithriadol o fygythiol neu drychinebus yn mynd ymlaen i ddatblygu anhwylder straen wedi trawma. Rwy'n teimlo nad yw Llywodraeth Cymru yn gwneud digon o hyd i newid y ffigur hwn, a dyna pam y mae'n rhaid i mi bwysleisio, trwy bob gwelliant yr ydym wedi'i wneud a'i gyflwyno i'r trafodaethau hyn ers mis Mehefin 2013 a chyn hynny, bod yn rhaid i faterion iechyd meddwl yn y lluoedd arfog gael gwasanaeth penodol i geisio ymdrin â'r ffigurau hyn. Mae'n rhaid i ni fynd i'r afael eto ag amseroedd aros a'r oedi rhwng diagnosis ac atgyfeirio i gael triniaeth ar gyfer Anhwylder Straen Wedi Trawma, sy'n dal i barhau, hyd yn oed ar ôl cyflwyno'r pecyn cymorth. Mae hefyd yn bwysig cofio bod Anhwylder Straen Wedi Trawma yn gymhleth. Mae dioddefwyr yn aml yn datblygu problemau camddefnyddio sylweddau neu alcohol, ac mae angen cymorth arbenigol ar gyfer yr effaith emosiynol a gaiff hynny ar deuluoedd dioddefwyr. Mae cael gwared ar ddiodefwyr drwy eu cyfeirio at sefydliadau cefnogi, yn fy marn i, yn annerbyniol. Mae ein gwelliant yn ceisio newid hyn drwy ddweud bod angen i ni gael gwasanaeth di-dor i ymdrin â phroblemau o'r fath. Mae'n fater sydd angen sylw a buddsoddiad o ran ceisio helpu'r rhai sy'n dioddef oherwydd y broblem honno, ac nid dim ond buddsoddiad o ran arian yw hwn ond mewn pobl—dull sy'n canolbwyntio ar bobl—yr wyf yn credu sydd ei angen yn rhan o hynny.

This does not just apply to the armed forces, of course. It also applies to members of the emergency services, who can also come across these particular problems. It can take up to eight years for PTSD to come out, and it is known among veterans as a ticking time bomb. That support in Wales is crucial if we are to deal with that. I think, Deputy Presiding Officer, that, as part of this debate, we need to put in place those services. That is a particular issue, which we have focused on for some time. However, certainly, I would like to acknowledge the changes that have taken place since we started to debate this issue. Certainly, the progress towards a veterans card is important. I think that we need to look at that. I know that we will be debating again tomorrow a particular aspect of the armed forces. However, in terms of mental health, I would like to again stress the need to focus on that. I also want to acknowledge once more the contribution that veterans and members of the armed forces make in defending our country and the sacrifices they make, which need to be acknowledged in terms of the investment we put into the aftercare once they have left the forces.

Nid i'r lluoedd arfog yn unig y mae hyn yn berthnasol, wrth gwrs. Mae hefyd yn berthnasol i aelodau o'r gwasanaethau brys, a fydd yn gallu dod hefyd ar draws y problemau penodol hyn. Gall gymryd hyd at wyth mlynedd i Anhwylder Straen Wedi Trawma ddod i'r amlwg, ac mae'n cael ei adnabod ymhlith cyn-filwyr fel bom amser yn tician. Mae'r cymorth hwnnw yng Nghymru yn hanfodol os ydym am ymdrin â hynny. Rwy'n credu, Ddirprwy Lywydd, yn rhan o'r ddadl hon, bod angen i ni roi'r gwasanaethau hynny ar waith. Mae hwnnw'n fater penodol, yr ydym wedi canolbwyntio arno ers peth amser. Fodd bynnag, yn sicr, hoffwn gydnabod y newidiadau sydd wedi digwydd ers i ni ddechrau trafod y mater hwn. Yn sicr, mae'r cynnydd tuag at gael cerdyn cyn-filwyr yn bwysig. Credaf fod angen inni edrych ar hynny. Gwn y byddwn yn cynnal dadl eto yfory ar agwedd benodol ar y lluoedd arfog. Fodd bynnag, o ran iechyd meddwl, hoffwn unwaith eto bwysleisio'r angen i ganolbwyntio ar hynny. Rwyf hefyd am gydnabod unwaith eto y cyfraniad y mae cyn-filwyr ac aelodau o'r lluoedd arfog yn ei wneud wrth amddiffyn ein gwlad a'r aberth y maent yn ei wneud, ac mae angen cydnabod hyn drwy'r buddsoddiad yr ydym yn ei roi i mewn i'r ôl-ofal ar ôl iddynt adael y lluoedd arfog.

17:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call Lindsay Whittle to move amendment 4, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 4, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 4—Elin Jones

Amendment 4—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Lluoedd Arfog i sicrhau bod cefnogaeth ar gyfer milwyr eisoes ar gael ar gyfer y rhai sydd ei angen pan fyddant yn gadael y gwasanaeth.

Calls on the Welsh Government to work with the Armed Forces to ensure that support for service personnel is already in place for those who need it when they leave the service.

17:34 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I move amendment 4 in the name of Elin Jones.

Cynigaf welliant 4 yn enw Elin Jones.

We are happy to support the Government here today, and indeed we will be supporting all of the amendments. I am pleased to have the opportunity to contribute to this debate. Members will be aware that I spent five days in Afghanistan touring with our troops and, to my knowledge, I am the only Welsh politician to do so, and I am still very proud of that. On our return from Afghanistan at the airport in Kabul, we had to watch a video that took 10 minutes, and every single member of the service personnel who was there was told that they had to watch the video—even the visitors had to watch it. I do not think that a 10-minute video is enough to readjust our troops back into civilian life. I know from my experience that many of them face difficulties readjusting to family life and we know that they are more likely to face homelessness, mental health problems, substance misuse and, in extreme cases, the criminal justice system.

Rydym yn hapus i gefnogi'r Llywodraeth yma heddiw, ac yn wir, byddwn yn cefnogi pob un o'r gwelliannau. Rwy'n falch o gael y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod wedi treulio pum niwrnod yn Afghanistan yn mynd o gwmpas gyda'n milwyr ac, hyd y gwn i, fi yw'r unig wleidydd o Gymru i wneud hynny, ac rwy'n dal i fod yn falch iawn o hynny. Wrth ddychwelyd o Afghanistan yn y maes awyr yn Kabul, roedd yn rhaid i ni wyllo fideo a gymerodd 10 munud, a dywedwyd wrth bob un aelod o'r lluoedd arfog a oedd yno bod yn rhaid iddynt wyllo'r fideo—roedd yn rhaid i'r ymwelwyr ei wyllo hyd yn oed. Nid wyf yn credu bod fideo 10 munud yn ddigon i ail-addasu ein milwyr yn ôl i fywyd sifil. Rwy'n gwybod o fy mhrofiad bod llawer ohonynt yn wynebu anawsterau ail-addasu i fywyd teuluol ac rydym yn gwybod eu bod yn fwy tebygol o wynebu digartrefedd, problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac, mewn achosion eithafol, y system cyfiawnder troseddol.

We know that the Ministry of Defence operates some programmes, such as the reserves mental health programme, to deal with stresses and trauma. The bad point of that is that it operates on a self-referral basis from the veterans themselves or from their own GPs. As a result of that, many of them slip through the net and are not being identified as being in need of that vital service.

There is a great deal of public money and time spent on training our young men and women for combat and, of course, quite rightly so. However, it is surely only right that just as much effort is put into decompressing veterans to ensure that they can adjust to civilian life. The Ministry of Defence, in my opinion, must accept more responsibility and stop expecting the already over-stretched Welsh health service and Welsh budget to pick up the tab. The Ministry of Defence, in my opinion, has a duty of care; it owes our service personnel that much and it has to abandon its culture of denial as to the extent of post-traumatic stress disorder among veterans. Although, I will say, to be fair, that matters have improved since the days of veterans having to fight to get Gulf War syndrome investigated. However, there is no room, indeed, for complacency.

Today of all days, and, indeed, over the weekend, we honoured those who made the ultimate sacrifice. Surely, the best way to honour those who fell is to take proper care of and respect the service personnel of today. There are major flaws, in my opinion, in the way veterans are treated in the criminal justice system. It was Plaid Cymru that first pioneered the idea of veterans courts in the UK in 2010 and we warmly welcome the fact that the Labour Party now supports this.

Historically, it is politicians who send people to war and it is up to politicians to ensure that those who survive are treated with respect, dignity and pride.

17:37

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like the Minister, I was very pleased to attend a remembrance service last Sunday and to lay a wreath at the memorial in Whitchurch in my constituency of Cardiff North.

Last Friday, I was very pleased to visit the British Legion's new pop-in centre on St Mary Street in Cardiff. I know that the Minister opened this very modern, open and light premises and, since 15 October, there have been over 1,000 contacts at that centre, because it is based right in the centre of Cardiff and is very open and accessible. I was extremely impressed by the range of help that they are offering there. This is part of the British Legion's new policy of basing itself in central, easily accessible locations to which veterans and their families can easily travel and can get to by train and bus. I think that that is being reflected all over Wales.

Rydym yn gwybod bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gweithredu rhai rhaglenni, megis y rhaglen iechyd meddwl milwyr wrth gefn, i ymdrin â straen a thrawma. Yr agwedd wael ar hynny yw ei fod yn gweithredu ar sail hunan-atgyfeirio gan y cyn-filwyr eu hunain neu gan eu meddygon teulu eu hunain. O ganlyniad i hynny, mae llawer ohonynt yn llithro drwy'r rhywd ac nid ydynt yn cael eu nodi fel rhai sydd angen y gwasanaeth hanfodol hwnnw.

Mae llawer iawn o arian cyhoeddus yn cael ei wario ac amser yn cael ei dreulio yn hyfforddi ein dynion a menywod ifanc i ar gyfer brwydr ac, wrth gwrs, mae hynny yn gwbl briodol. Fodd bynnag, nid yw ond yn iawn bod cymaint o ymdrech yn cael ei rhoi i ddatgyflyru cyn-filwyr er mwyn sicrhau eu bod yn gallu addasu i fywyd sifil. Mae'n rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn fy marn i, dderbyn mwy o gyfrifoldeb a rhoi'r gorau i ddisgwyl i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru sydd eisoes wedi'i orymestyn, a chyllideb Cymru i dalu'r bil. Mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, yn fy marn i, ddyletswydd gofal; mae ganddi o leiaf y ddyled honno i'n lluoedd arfog ac mae'n rhaid iddi roi'r gorau i'w diwylliant o wadu ynghylch faint o anhwylder straen wedi trawma sy'n bodoli ymhlith cyn-filwyr. Er, rwyf am ddweud, i fod yn deg, bod materion wedi gwella ers y dyddiau pan oedd yn rhaid i gyn-filwyr frwydro i gael ymchwiliad i syndrom Rhyfel y Gwlff. Fodd bynnag, nid oes lle, yn bendant, i fod yn hunanfodlon.

Heddiw o bob diwrnod, ac, yn wir, dros y penwythnos, roeddem yn anrhydeddu'r rhai a wnaeth yr aberth eithaf. Yn sicr, y ffordd orau i anrhydeddu'r rhai a syrthiodd yw cymryd gofal priodol o bersonél y lluoedd arfog heddiw, a'u parchu. Mae diffygion mawr, yn fy marn i, yn y ffordd y mae cyn-filwyr yn cael eu trin yn y system cyfiawnder troseddol. Plaid Cymru a arloesodd y syniad o lysoesedd cyn-filwyr yn y DU yn gyntaf yn 2010, ac rydym yn croesawu'n fawr y ffaith bod y Blaid Lafur bellach yn cefnogi hyn.

Yn hanesyddol, gwleidyddion sy'n anfon pobl i ryfel a mater i wleidyddion yw sicrhau bod y rhai sy'n goroesi yn cael eu trin gyda pharch, urddas a balchder.

Fel y Gweinidog, roeddwn yn falch iawn o fynd i wasanaeth coffáu ddydd Sul diwethaf ac i osod torch ar y gofeb yn yr Eglwys Newydd yn fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd.

Ddydd Gwener diwethaf, roeddwn yn falch iawn o ymweld â chanolfan galw heibio newydd y Llang Brydeinig ar Heol Eglwys Fair yng Nghaerdydd. Gwn mai'r Gweinidog a agorodd yr adeilad modern, agored a golau iawn hwn ac, ers 15 Hydref, bu dros 1,000 o gysylltiadau yn y ganolfan honno, gan ei bod wedi'i lleoli yng nghanol Caerdydd a'i bod yn agored ac yn hygyrch iawn. Roeddwn yn llawn edmygedd o'r amrywiaeth o gymorth y maent yn ei gynnig yno. Mae hyn yn rhan o bolisi newydd y Llang Brydeinig o leoli ei hun mewn lleoliadau canolog, hygyrch y gall cyn-filwyr a'u teuluoedd deithio yn hawdd iddynt ac y gallant eu cyrraedd ar y trê neu ar fws. Credaf fod hynny'n cael ei adlewyrchu ar hyd a lled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

While I was there, numerous people came in, and, because of the time of year, a lot of them were inquiring about Remembrance Sunday and how to get poppies, but other people were looking for help. The problems that veterans and their families experience have already been referred to fairly extensively here today.

Among the issues that the Royal British Legion wanted to raise with me was its praise for Veterans' NHS Wales, telling me how much this service is appreciated. I know that the Minister, in his introduction, said about it being the only national service of its kind and that there was high praise from those who have used it. It was very complimentary about what the Welsh Government had done with the £485,000 followed by the further £100,000. What it was asking for, basically, is that, for the future, this money would continue. However, it was extremely complimentary about what the Welsh Government had done.

Another issue that it wanted to raise with me was about service men and women who leave the service early and do not complete the full amount of time. This means that they are not always able to access the help that people who have served four years are able to get—that is, in terms of career assistance through the careers transition partnership. It is also very concerned about partners and spouses who travel around with their partners and often do not get access to the help, particularly career help, that the people who are leaving the armed services do.

Already raised here today have been the issues of alcohol dependence, post-traumatic syndrome, and all the issues that people have to deal with when they have to adjust to coming back to civilian life. So, I will not go into that and repeat those issues.

I thought that I would mention two events over the weekend. I was not at the Wales against Australia rugby match on Saturday, but I understand that there was a minute's silence for Welsh and Australian rugby players who died during world war one. I knew that there was a famous rugby player from my constituency, from Whitchurch. There were in fact 13 Welsh rugby internationals who lost their lives in world war one. One of the most famous of those was Johnny Williams, from Whitchurch in Cardiff, who played for Cardiff and Wales, was born in 1882 and died of wounds in the attempt to take Mametz Wood in the Somme in 1916, when he was a captain in the 16th Battalion Welsh regiment. I think that the silence and hearing about that brought home very strongly what war means and the individuals who suffer from wars.

Tra yr oeddwn i yno, daeth nifer o bobl i mewn, ac oherwydd yr adeg o'r flwyddyn, roedd llawer ohonynt yn holi am Sul y Cofio a sut i gael pabi, ond roedd pobl eraill yn chwilio am gymorth. Cyfeiriwyd yn weddol helaeth eisoes yma heddiw at y problemau y mae cyn-filwyr a'u teuluoedd yn eu profi.

Ymhlith y materion yr oedd y Llenng Brydeinig Frenhinol yn dymuno eu codi gyda mi oedd ei chanmoliaeth o GIG Cymru Cyn-filwyr, gan ddweud wrthyf faint y mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei werthfawrogi. Gwn fod y Gweinidog yn ei gyflwyniad, wedi dweud ei fod yr unig wasanaeth cenedlaethol o'i fath a bod canmoliaeth uchel gan y rhai sydd wedi ei ddefnyddio. Yr oedd yn ganmoliaethus iawn am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud gyda'r £485,000 a ddilynwyd gan y £100,000 pellach. Yr hyn yr oedd yn gofyn amdano, yn y bôn, oedd i'r arian hwn gael ei barhau ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, yr oedd yn hynod ganmoliaethus am yr hyn yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i wneud.

Roedd mater arall yr oedd yn dymuno ei godi gyda mi yn ymwneud â dynion a menywod sy'n gadael y lluoedd arfog yn gynnar ac nad ydynt yn cwblhau'r amser llawn. Mae hyn yn golygu nad ydynt bob amser yn gallu cael mynediad at y cymorth y mae pobl sydd wedi gwasanaethu am bedair blynedd yn gallu ei gael—hynny yw, o ran cymorth gyrfa trwy'r bartneriaeth pontio gyrfaedd. Mae hefyd yn bryderus iawn am bartneriaid a gwŷr a gwragedd priod sy'n teithio o gwmpas gyda'u partneriaid ac yn aml heb fod yn cael mynediad at y cymorth, yn enwedig cymorth gyrfa, y mae pobl sy'n gadael y lluoedd arfog yn ei gael.

Mae materion dibyniaeth ar alcohol, syndrom wedi trawma, a'r holl problemau y mae pobl yn gorfod ymdrin â nhw pan fo rhaid iddynt addasu i ddod yn ôl i fywyd sifil, eisoes wedi'u codi yma heddiw. Felly nid af i mewn i hynny ac ailadrodd y materion hynny.

Roeddwn i'n meddwl y byddwn yn sôn am ddau ddiwyddiad dros y penwythnos. Nid oeddwn yn y gêm rygbi Cymru yn erbyn Awstralia ddydd Sadwrn, ond rwy'n deall y cynhaliwyd munud o dawelwch ar gyfer chwaraewyr rygbi Awstralia a Chymru a fu farw yn ystod y rhyfel byd cyntaf. Roeddwn i'n gwybod bod chwaraewr rygbi enwog o fy etholaeth i, o'r Eglwys Newydd. Roedd mewn gwirionedd 13 o chwaraewyr rygbi rhyngwladol o Gymru a gollodd eu bywydau yn y rhyfel byd cyntaf. Un o'r rhai mwyaf enwog o'r rheiny oedd Johnny Williams, o'r Eglwys Newydd yng Nghaerdydd, a chwaraeodd i Gaerdydd ac i Gymru, a gafodd ei eni ym 1882 ac a fu farw o'i anafiadau yn yr ymgeis i gymryd Mametz Wood yn y Somme ym 1916, pan oedd yn gapten ym Mataliwn 16 Catrawd Cymru. Credaf fod y tawelwch a chlywed am hynny wedi cyfleu'n gryf iawn yr hyn y mae rhyfel yn ei olygu a'r unigolion sy'n dioddef o ryfeloedd.

I do not know whether anybody heard on Roy Noble's programme on the weekend about a David Jones who was talking about being on the Quebec City, which was a boat that was torpedoed halfway between west Africa and Brazil. He graphically described how a German U-boat surfaced and the British survivors in the lifeboat naturally feared for their lives, but, instead, the captain of the U-boat allowed them to get water to put into their lifeboats, made certain that they knew exactly what compass setting they were on and sent them off to try to reach safety, and, 16 days later, they landed in Liberia. It was very graphic, and it was extremely moving to listen to David Jones telling about his experience. I suppose that it makes you think something about how ordinary people act in these extraordinary situations. It reminded me of what the poet Wilfred Owen called 'the pity of War'.

Nid wyf yn gwybod a glywodd unrhyw un ar raglen Roy Noble ar y penwythnos am David Jones a oedd yn sôn am fod ar y Quebec City, sef cwch a gafodd ei daro â thorpido hanner ffordd rhwng gorllewin Affrica a Brasil. Disgrifiodd yn fyw iawn sut y daeth cwch U Almaenig i'r wyneb ac roedd y goroeswyr Prydeinig yn y bad achub yn naturiol yn ofni am eu bywydau, ond, yn lle hynny, caniatodd capten y cwch U iddynt gael dŵr i'w roi yn eu badau achub, gwneud yn sicr eu bod yn gwybod yn union ar ba bwynt cwmrawd yr oeddent a'u hanfon i ffwrdd i geisio cyrraedd diogelwch, ac, 16 diwrnod yn ddiweddarach, gwnaethant lania yn Liberia. Roedd yn fyw iawn, ac yr oedd yn cael effaith arnoch wrth wrando ar David Jones yn siarad am ei brofiad. Mae'n debyg ei fod yn gwneud i chi feddwl rhywbeth am sut y mae pobl gyffredin yn gweithredu yn y sefyllfaoedd eithriadol hyn. Mae'n fy atgoffa o'r hyn a alwdd y bardd Wilfred Owen 'the pity of War'.

17:42

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for the opportunity to speak in this important debate today. Like many others, I attended commemorative events: in my constituency in the village of Nelson on Sunday morning and then, together with Lindsay Whittle, in the main Caerphilly town in the afternoon. It is appropriate that we are having today's debate on Armistice Day in the year that marks the centenary of the start of the first world war and, indeed, the seventy-fifth anniversary of the start of the second world war. Also, as the last remaining British combat troops have now returned from the war in Afghanistan, it is important that we look at how we can do everything that we are able to do to assist veterans in our community.

In terms of veterans who have returned from combat, we have to ensure that they have the appropriate package of aftercare services in place when they return home and leave the armed forces. I welcome the Welsh Government's package of support for the armed forces community in Wales, and it is important that the Government continue to report on the progress of the package on an annual basis. I also welcome the fact that it has been recently reviewed and updated in order to make sure that veterans are better signposted to the services that they and their loved ones may need.

As we know, many veterans can find the transition to civilian life difficult. This is particularly true in terms of finding employment. Many veterans are still relatively young and have a lot to offer to the labour market in terms of transferable skills that they have acquired as part of their training and development as well as their generic teamwork and communication skills, experienced when serving. I would be grateful, therefore, if the Welsh Government could update me on what specifically it is doing to work with partner organisations, such as the Royal British Legion, when it comes to assisting veterans into civilian employment.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw. Fel llawer un arall, fe euthum i ddiwyddiadau coffaol: yn fy etholaeth ym mhentref Nelson fore Sul ac yna, ynghyd â Lindsay Whittle, ym mhrif dref Caerffili yn y prynhawn. Mae'n briodol ein bod yn cael y ddadl heddiw ar Ddiwrnod y Cadoediad yn y flwyddyn sy'n nodi canmlwyddiant dechrau'r rhyfel byd cyntaf ac, yn wir, saith deg pumed pen-blwydd dechrau'r ail ryfel byd. Hefyd, gan fod y milwyr brwydr Prydeinig olaf bellach wedi dychwelyd o'r rhyfel yn Afghanistan, mae'n bwysig ein bod yn edrych ar sut y gallwn ni wneud popeth y gallwn ei wneud i gynorthwyo cyn-filwyr yn ein cymuned.

O ran cyn-filwyr sydd wedi dychwelyd o frwydro, mae'n rhaid i ni sicrhau eu bod yn cael y pecyn priodol o wasanaethau ôl-ofal wedi'i sefydlu pan fyddant yn dychwelyd adref ac yn gadael y lluoedd arfog. Rwy'n croesawu pecyn cymorth Llywodraeth Cymru i'r gymuned lluoedd arfog yng Nghymru, ac mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn parhau i adrodd ar gynnydd y pecyn yn flynyddol. Croesawaf hefyd y ffaith ei fod wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau er mwyn sicrhau bod cyn-filwyr yn cael eu cyfeirio yn well at y gwasanaethau y gallai fod eu hangen arnynt hwy a'u hanwyliaid.

Fel y gwyddom, gall llawer o gyn-filwyr weld y pontio i fywyd sifil yn anodd. Mae hyn yn arbennig o wir o ran dod o hyd i gyflogaeth. Mae llawer o gyn-filwyr yn dal i fod yn gymharol ifanc ac mae ganddynt lawer i'w gynnig i'r farchnad lafur o ran y sgiliau trosglwyddadwy y maent wedi'u magu yn rhan o'u hyfforddiant a'u datblygiad yn ogystal â'u sgiliau gwaith tîm a chyfathrebu cyffredinol, a brofyd wrth wasanaethu. Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am beth yn benodol y mae'n ei wneud i weithio gyda sefydliadau partner, megis y Llen Brydeinig Frenhinol, pan ddaw i gynorthwyo cyn-filwyr i mewn i gyflogaeth sifil.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now, this ties in to my next point about the education and training opportunities that are provided to veterans upon leaving the armed forces. As well as helping veterans to find new employment, we need to ensure that we help service leavers to retrain and develop new skills. As I stated earlier, veterans will possess many transferable and generic skills that could be of great use to employers, but, on some occasions, further training may be necessary to enter the world of work or to pursue higher-level learning. I would be grateful if the Minister could detail for me what measures are in place to achieve nationally recognised qualifications in this regard.

Perhaps the biggest issue with veterans' welfare is that of mental health support. I welcome the role of Veterans' NHS Wales and how this acts as a signpost for all other aspects of the health service that are appropriate to veterans' needs. I also welcome the Welsh Government's commitment to maintain the all-Wales veterans' health and wellbeing service, and the role that it will play in supporting those with PTSD. It is poignant that PTSD first emerged as a recognised medical condition among soldiers returning from the first world war. Then, of course, it was relatively little understood and known as 'shell-shock'. We have come a long way since then, but there is still more that we need to do in order to ensure that those struggling with PTSD and their families receive the most appropriate support for their needs.

To conclude, Deputy Llywydd, I want to reiterate how grateful I am that we have had this debate here today on Armistice Day. While defence policy is not devolved, the aftercare and support of veterans in terms of health, education and training are, and it is important that we have a joined-up package of support for veterans living in Wales. I have spoken about support for employment, training opportunities and mental health services. There are others as well, such as housing and support for veterans' families, and those also deserve our full attention. One hundred years on from the start of what was meant to be the war to end all wars, and as the last British combat troops return home from Afghanistan, we must ensure that our veterans receive the best care and support that they can get. They deserve nothing less.

Nawr, mae hyn yn cyd-fynd â fy mhwynt nesaf am y cyfleoedd addysg a hyfforddiant a ddarperir i gyn-filwyr ar ôl gadael y lluoedd arfog. Yn ogystal â helpu cyn-filwyr i ddod o hyd i gyflogaeth newydd, mae angen i ni sicrhau ein bod yn helpu'r rhai sy'n gadael y lluoedd arfog i ailhyfforddi a datblygu sgiliau newydd. Fel y dywedais yn gynharach, bydd cyn-filwyr yn meddu ar nifer o sgiliau trosglwyddadwy a chyffredinol a allai fod o ddefnydd mawr i gyflogwyr, ond, ar rai achlysuron, efallai y bydd angen hyfforddiant pellach i fynd i mewn i fyd gwaith neu i fynd ar drywydd dysgu lefel uwch. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog nodi i mi pa fesurau sydd ar waith i gyflawni cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol yn y cyswllt hwn.

Efallai mai'r problem fwyaf gyda lles cyn-filwyr yw cymorth iechyd meddwl. Rwy'n croesawu swyddogaeth GIG Cymru Cyn-filwyr a sut mae hyn yn gweithredu fel arwyddbost ar gyfer yr holl agweddau eraill ar y gwasanaeth iechyd sy'n briodol i anghenion cyn-filwyr. Rwyf hefyd yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal y gwasanaeth iechyd a lles cyn-filwyr Cymru gyfan, a'r rhan y bydd yn ei chwarae wrth gefnogi'r rhai sydd ag Anhwylder Straen Wedi Trawma. Mae'n ingol bod Anhwylder Straen Wedi Trawma wedi dod i'r amlwg gyntaf fel cyflwr meddygol cydnabyddedig ymhlith milwyr a ddychwelodd o'r rhyfel byd cyntaf. Bryd hynny, wrth gwrs, nid oedd fawr o ddealltwriaeth ohono ac roedd yn cael ei alw'n 'siel syfrdandod'. Rydym wedi dod yn bell ers hynny, ond mae llawer mwy y mae angen i ni ei wneud er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n cael trafferth ymdopi ag Anhwylder Straen Wedi Trawma a'u teuluoedd yn cael y cymorth mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, rwyf am ailadrodd pa mor ddiolchgar yr wyf ein bod wedi cael y ddadl hon yma heddiw ar Ddiwrnod y Cadoediad. Er nad yw polisi amddiffyn wedi'i ddatganoli, mae ôl-ofal a chymorth i gyn-filwyr o ran iechyd, addysg a hyfforddiant wedi'i ddatganoli, ac mae'n bwysig bod gennym becyn cydgysylltiedig o gefnogaeth ar gyfer cyn-filwyr sy'n byw yng Nghymru. Rwyf wedi siarad am y cymorth ar gyfer cyflogaeth, cyfleoedd hyfforddi a gwasanaethau iechyd meddwl. Mae eraill yn ogystal, megis tai a chefnogaeth i deuluoedd cyn-filwyr, ac mae'r rhain hefyd yn haeddu ein sylw llawn. Gan mlynedd ar ôl dechrau'r hyn a oedd i fod y rhyfel i roi terfyn ar bob rhyfel, ac wrth i'r milwyr brwydr Prydeinig olaf ddychwelyd adref o Afghanistan, mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein cyn-filwyr yn cael y gofal a'r cymorth gorau y gallant ei gael. Nid ydynt yn haeddu dim llai.

17:47

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Deputy Presiding Officer, may I start by thanking all those who have contributed to the debate today and have spoken with passion and commitment on a range of issues? I am pleased that it seems that we have support throughout the Chamber for the motion and for the amendments. Mark Isherwood spoke with great commitment on the issue of the community covenant and on health and housing issues. Peter Black spoke about the need for a seamless service in respect of mental health. Lindsay Whittle spoke with passion about the need for appropriate support for adjustment to civilian life. Julie Morgan spoke about Veterans' NHS Wales and about the role of the Royal British Legion and its new centre in Cardiff. Jeff Cuthbert just now spoke, again, about the need for support for returning veterans and asked about the skills support that we have in place. I am sure that, given his background in skills, Jeff is very familiar with the schemes that we have to support veterans returning to work. For example, there is now the enhanced learning credit scheme for service leavers to enable them to undertake higher-level learning.

As many have mentioned, this is an important year for commemoration. It marks the centenary of the first world war and the seventieth anniversary of the D-day landings, and the Welsh Government has supported and delivered an inclusive framework programme to mark these events, which contain national events and exhibitions as well as community-based activities, allocating £850,000 over the 2014 to 2016 period to develop educational projects and programmes. Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918 is a website and associated social media provision that provide a focal point for all information relating to Wales's commemorations. The First Minister unveiled the new Welsh memorial in Flanders in August and, along with the First Minister, I attended the Welsh national field of remembrance on 5 November in Cardiff castle to honour and pay tribute to our servicemen and women, who, through unstinting acts of sacrifice and bravery, have helped shape a safer and more secure environment for us today.

Assembly Members, of course, have supported the Royal British Legion's poppy appeal and many Members were present at the moving ceremony in the Senedd today, hosted by the Presiding Officer. Obviously, the money raised by the appeal provides direct practical care and support to our armed forces community. To ensure that we build a better future and improve the welfare for our armed forces community, we must continue to work together across organisations and across service providers, identifying jointly the priorities as we go forward and the ways of delivering those. One avenue of doing this will be through our expert group on the needs of the armed forces community in Wales, which next meets on 1 December.

We have had unanimous support, I think, in the Chamber today, and I welcome that, but rightly so on this day of all days.

Ddirprwy Lywydd, a gaf i ddechrau drwy ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddatl heddiw ac wedi siarad gydag angerdd ac ymroddiad ar ystod o faterion? Rwy'n falch ei bod yn ymddangos bod gennym gefnogaeth ar draws y Siambr o blaid y cynnig ac o blaid y gwelliannau. Siaradodd Mark Isherwood gyda llawer o ymroddiad ar fater y cyfamod cymunedol ac ar faterion iechyd a thai. Siaradodd Peter Black am yr angen am wasanaeth di-dor mewn cysylltiad ag iechyd meddwl. Siaradodd Lindsay Whittle gydag angerdd am yr angen am gymorth priodol i addasu i fywyd sifil. Siaradodd Julie Morgan am GIG Cymru Cyn-filwyr ac am swyddogaeth y Lleng Brydeinig Frenhinol ac am ei chanolfan newydd yng Nghaerdydd. Siaradodd Jeff Cuthbert gynnu, unwaith eto, am yr angen am gefnogaeth ar gyfer cyn-filwyr sy'n dychwelyd a gofynnodd am y cymorth sgiliau sydd gennym ar waith. Rwy'n siŵr, o ystyried ei gefndir mewn sgiliau, bod Jeff yn gyfarwydd iawn â'r cynlluniau sydd gennym i gefnogi cyn-filwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith. Er enghraifft, ceir y cynllun credyd dysgu estynedig erbyn hyn i bobl sy'n gadael y lluoedd arfog i'w galluogi i ymgymryd â dysgu ar lefel uwch.

Fel y mae llawer wedi ei grybwyll, mae hon yn flwyddyn bwysig ar gyfer coffáu. Mae'n nodi canmlwyddiant y rhyfel byd cyntaf a deg a thrigain o flynyddoedd ers glaniadau dydd D, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi a chyflwyno rhaglen fframwaith gynhwysol i nodi'r digwyddiadau hyn, sy'n cynnwys digwyddiadau ac arddangosfeydd cenedlaethol yn ogystal â gweithgareddau yn y gymuned, gan ddyrannu £850,000 dros y cyfnod 2014 i 2016 i ddatblygu prosiectau a rhaglenni addysgol. Mae gwefan Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918 a darpariaeth cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig yn darparu canolbwynt ar gyfer yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â dathliadau Cymru. Dadorchuddiodd y Prif Weinidog y gofeb Gymreig newydd yn Fflandrys ym mis Awst ac, ynghyd â'r Prif Weinidog, roeddwn yn bresennol ym maes coffa cenedlaethol Cymru ar 5 Tachwedd yng Nghastell Caerdydd i anrhydeddu a thalu teyrnged i'n lluoedd arfog, sydd, trwy weithredoedd hael o aberth a dewrder, wedi helpu i lunio amgylchedd mwy saff a mwy diogel i ni heddiw.

Mae Aelodau'r Cynulliad, wrth gwrs, wedi cefnogi apêl pabi y Lleng Brydeinig Frenhinol, ac roedd nifer o Aelodau yn bresennol yn y seremoni lawm teimlad yn y Senedd heddiw, a gynhaliwyd gan y Llywydd. Yn amlwg, mae'r arian a godir gan yr apêl yn darparu gofal a chymorth ymarferol uniongyrchol i'n cymuned lluoedd arfog. Er mwyn sicrhau ein bod yn adeiladu dyfodol gwell ac yn gwella lles ar gyfer ein cymuned lluoedd arfog, mae'n rhaid i ni barhau i weithio gyda'n gilydd ar draws sefydliadau ac ar draws darparwyr gwasanaeth, gan nodi ar y cyd y blaenoriaethau wrth inni symud ymlaen a'r ffordd o ddarparu hynny. Un ffordd o wneud hyn fyddai drwy ein grŵp arbenigol ar anghenion y gymuned lluoedd arfog yng Nghymru, sy'n cyfarfod nesaf ar 1 Rhagfyr.

Rydym wedi cael cefnogaeth unfrydol, rwy'n credu, yn y Siambr heddiw, a chroesawaf hynny, ond mae hynny'n briodol ar y diwrnod hwn o bob diwrnod.

17:50	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 1 is agreed.</p>	<p>Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<i>Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36</i>	<i>Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
17:50	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? There are no objections. Amendment 2 is agreed.</p>	<p>Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Caiff gwelliant 2 ei dderbyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<i>Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36</i>	<i>Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
17:51	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? There are no objections. Amendment 3 is agreed.</p>	<p>Y cynnig yw derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Caiff gwelliant 3 ei dderbyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<i>Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36</i>	<i>Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
17:51	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The proposal is to agree amendment 4. Does any Member object? There are no objections. Amendment 4 is agreed.</p>	<p>Y cynnig yw derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Caiff gwelliant 4 ei dderbyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<i>Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36</i>	<i>Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
	Cynnig NDM5613 fel y'i diwygiwyd	Motion NDM5613 as amended	
	Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:	To propose that the National Assembly for Wales:	
	1. Yn nodi:	1. Notes:	
	a) Gwaith Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cefnogi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog;	a) The Welsh Government's work to ensure public services in Wales support members of the Armed Forces community;	
	b) Y gwaith sy'n mynd rhagddo drwy Grŵp Arbenigol y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru;	b) The work on-going through the Minister for Public Services' Expert Group on the needs of the Armed Forces Community in Wales;	
	c) Pecyn Cymorth gan Lywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.	c) The Welsh Government's Package of Support for the Armed Forces Community in Wales.	
	2. Yn nodi manifesto y Llog Brydeinig Frenhinol ar gyfer 2015 a'i dogfen 'Community Covenants—What's Next?'	2. Notes the Royal British Legion's 2015 Manifesto and Community Covenants—What's Next?	
	3. Yn nodi'r angen:	3. Notes the need:	
	a) i amddiffyn cyllid termau real ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i gyn-filwyr;	a) to protect real terms funding for ex Forces personnel mental health services;	

b) am ddarpariaeth gofal cymdeithasol teg i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog; ac

b) for equitable ex Forces personnel social care provision; and

c) am ddarpariaeth breswyl ddigonol a phriodol i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog.

c) for sufficient and appropriate ex Forces personnel residential provision.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaeth di-dor ar gyfer cyn-filwyr ac aelodau sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog sydd â phroblemau iechyd meddwl a achoswyd gan wasanaeth gweithredol.

4. Calls on the Welsh Government to ensure that there is seamless service for veterans and serving members of the Armed Forces with mental health issues caused by active service.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Lluoedd Arfog i sicrhau bod cefnogaeth ar gyfer milwyr eisoes ar gael ar gyfer y rhai sydd ei angen pan fyddant yn gadael y gwasanaeth.

5. Calls on the Welsh Government to work with the Armed Forces to ensure that support for service personnel is already in place for those who need it when they leave the service.

17:51

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion as amended. Does any Member object? There are no objections. Therefore, the motion as amended is agreed.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig fel y'i diwygiwyd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig fel y'i diwygiwyd wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd cynnig NDM5613 fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion NDM5613 as amended agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:51

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:51.

The meeting ended at 17:51.